

**Bangor University**

## **DOCTOR OF PHILOSOPHY**

**Tystiolaeth barddoniaeth Gymraeg ynghylch lle'r ferch yn ei Chymdeithas yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol Cynnar**

Moras, Elisa

*Award date:*  
2001

*Awarding institution:*  
University of Wales, Bangor

[Link to publication](#)

### **General rights**


Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

**Tystiolaeth Barddoniaeth Gymraeg  
Ynghylch Lle'r Ferch yn ei  
Chymdeithas yng Nghymru yn yr  
Oesoedd Canol Cynnar**



**Elisa Moras**



**Traethawd PhD  
Prifysgol Cymru Bangor  
Awst 2001**

**Tystiolaeth Barddoniaeth Gymraeg Ynghylch Lle'r Ferch yn ei  
Chymdeithas yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol Cynnar**

CYNNWYS

Crynodeb	i
Datganiadau	ii
Cydnabyddiaeth	iii
Byrfoddau	iv
Rhagarweiniad	1
<u>RHAN I - Hengerdd a Hen Ganu</u>	3
<u>RHAN 2 - Y Gogynfeirdd</u>	
1. Canu Rhyfel	44
2. Canu Natur	78
3. Disgrifiadau o'r Arglwyddes	101
4. Rhinweddau Benywaidd a Rhinweddau Llysaidd	148
5. Nawdd	184
6. Poenau Serch	221
Diwedd glo	248
Llyfryddiaeth	254

## CRYNODEB

Yn y traethawd hwn dilynir datblygiad canu i ferched yn llysoedd Cymru yn yr oesoedd canol cynnar gan ystyried y darlun a gyflwynir o fyd a bywyd aelodau benywaidd y llysoedd hynny. Ystyrir yn gyntaf ran merched ym myd rhyfelgar y Cynfeirdd, a'u rôl yn y portread o'r delfryd arwrol lle disgwylid i ddynion ddangos cadernid ar faes y gad ac addfwynder yn y llys. Cawn yng Nghanu Heledd fawl i fonedd merched a'u gallu i ddifyrru'r llys, a dilynwn ddatblygiad y darlun delfrydol hwn o ferched uchelwrol diddan ac ymateb cwrtais gwŷr bonheddig y llys iddynt o'i wreiddiau yn yr Hengerdd hyd at ei benllanw yng nghanu'r Gogynfeirdd.

Trafodir hefyd yr elfennau o ganu rhyfel a chanu natur a geir yn y cerddi i ferched, a dylanwad y traddodiadau hyn ar y canu. Casglir ynghyd ddisgrifiadau'r beirdd o'r arglwyddesau gan ystyried yr amrywiol ddulliau a ddefnyddid i gyfleu eu bonedd. Gwelir mai pwysleisio'u uchelwriaeth oedd amcan y disgrifiadau o rinweddau ac ymddygiad y merched hefyd, ac elfen bwysig o hyn oedd eu dawn wrth ddarparu adloniant i'r llys - boed hynny drwy eu sgwrs ddiddan neu eu gallu i ddenu beirdd i ganu yn eu llysoedd. Ystyrir hefyd i ba raddau yr oedd y merched hyn yn noddi ac yn cynnal y beirdd hynny a ganai iddynt hwy ac i'w gwesteion.

Yn olaf edrychir ar gymeriad y bardd yn y canu, a'r rôl a grea iddo'i hun fel carwr gwrthodedig. Cymherir ymateb ymostyngol y Gogynfeirdd i ferched y llys ag ymddygiad disgwylidig yr arwyr delfrydol yng nghyfnod yr Hengerdd gerbron merched eu llysoedd hwy.

## CYDNABYDDIAETH

Heb ysgoloriaeth Ymddiriedolaeth Pantyfedwen ni fyddwn wedi cychwyn ar y gwaith hwn, ac rwyf felly'n ddiolchgar dros ben iddynt am eu haelioni.

Rwyf yn ddyledus iawn i bawb o staff Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Bangor, ond yn bennaf rhaid diolch i'r Athro Gwyn Thomas am ei oruchwyliaeth garedig a hwyliog a'i amynedd diflino. Cefais gymorth gwerthfawr hefyd gan yr Athro Gruffudd Aled Williams, Dr Peredur Lynch a Dr Dafydd Glyn Jones.

Hoffwn ddiolch hefyd i Andrew Brown o Lyfrgell Prifysgol Cymru Abertawe am ei gymorth wrth ddatrys rhai anawsterau munud olaf.

BYRFODDAU

- AP Ifor Williams (gol.), Armes Prydein o Lyfr Taliesin, Caerdydd, 1955.
- B Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, 1921 -
- BM Ifor Williams (gol.), Breuddwyd Maxen, Bangor, 1908.
- BT J. Gwenogvryn Evans (gol.), Facsimile and Text of the Book of Taliesin, Llanbedrog, 1910.
- CA Ifor Williams (gol.), Canu Aneirin, Caerdydd, 1961.
- CLIH Ifor Williams (gol.), Canu Llywarch Hen, Caerdydd, 1935.
- CO Rachel Bromwich a D. Simon Evans (gol.), Culhwch ac Olwen, ail argraffiad, Caerdydd, 1997.
- CT Ifor Williams (gol.), Canu Taliesin, Caerdydd, 1960.
- EC Études Celtiques, 1936 -
- EWGP Kenneth H. Jackson (gol.), Early Welsh Gnostic Poems, trydydd argraffiad, Cardiff, 1973.
- G J. Lloyd Jones (gol.), Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg, Caerdydd, 1931-63.
- GBF Rhian M. Andrews et al. (gol.), Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg, Caerdydd, 1996.
- GC R. Iestyn Daniel, (gol.), Gwaith Casnodyn, Aberystwyth, 1999.
- GCBM i Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (gol.), Gwaith Cynddelw Bryddydd Mawr I, Caerdydd, 1991.
- GCBM ii Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (gol.), Gwaith Cynddelw Bryddydd Mawr II, Caerdydd, 1995.
- GDB N. G. Costigan (Bosco) et al. (gol.), Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg, Caerdydd, 1995.
- GDG Thomas Parry (gol.), Gwaith Dafydd ap Gwilym, Caerdydd, 1979.

- GGDT N. G. Costigan (Bosco) et al. (gol.), Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli, Aberystwyth, 1995.
- GGLI Rhiannon Ifans et al. (gol.), Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill, Aberystwyth, 2000.
- GGrG Rhiannon Ifans et al. (gol.), Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab y Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu, Aberystwyth, 1997.
- GLIBH Ann Parry Owen (gol.), Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill, Aberystwyth, 1996.
- GLIF Kathleen Anne Bramley et al. (gol.), Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif, Caerdydd, 1994.
- GLILI Elin M. Jones a Nerys Ann Jones (gol.), Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch', Caerdydd, 1991.
- GMB J. E. Caerwyn Williams et al. (gol.), Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion, Caerdydd, 1994.
- GP G. J. Williams a E. J. Jones (gol.), Gramadegau'r Penceirddiaid, Caerdydd, 1934.
- GPC Geiriadur Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1950 -
- GSRh Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (gol.), Gwaith Sefnyn, Rhisieryn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Bentwrch, Aberystwyth, 1995.
- LIC Llên Cymru, Caerdydd, 1950 -
- LIDC Jarman A. O. H. (gol.), Llyfr Du Caerfyrddin, Caerdydd, 1982.
- MA Owen Jones, The Myvyrian Archaiology of Wales, ail argraffiad, Denbigh, 1870.
- PKM Ifor Williams (gol.), Pedeir Keinc y Mabinogi, adargraffiad, Caerdydd, 1974.
- R J. Gwenogvryn Evans (gol.), The Poetry in the Red Book of Hergest, Llanbedrog, 1911.
- SC Studia Celtica, Cardiff, 1966 -

- SECNP      Kenneth H. Jackson (gol.), Studies in Early Celtic Nature Poetry, Cambridge, 1935.
- THSC      The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion, London, 1892 -
- TYP      Rachel Bromwich (gol.), Trioedd Ynys Prydein, Cardiff, 1961.
- YB      Ysgrifau Beirniadol, Dinbych, 1965 -



## I. HENGERDD A HEN GANU

## CANU ANEIRIN A THALIESIN

Y mae Y Gododdin, fel y nododd A.O.H. Jarman, “o’r dechrau i’r diwedd yn fynegiant llwyr a digymrodredd o’r safbwynt arwrol pur.”<sup>1</sup> Darlun o’r rhyfelwr dewr yn ddi-ildio ac yn ddirugaredd ar faes y gad a geir yma. Ond ochr yn ochr â hyn gwelir ymddygiad hael a gwarcheidiol yr arglwydd yn y llys. Canmolir y ddwy wedd wrthgyferbyniol hyn ar gymeriad arwr yn gyfochrog ac yn gyson drwy’r canu, ac yn y llys ymhell o’r rhyfela y gwelir y gwragedd yn y canu hwn. Clywn am un o’r fyddin eofn:

diffun ymlaen bun med a dalhei.<sup>2</sup>

Er ei fod yn feiddgar yn wyneb y gelyn mewn ad-daliad am ei fedd, mae’r milwr hwn yn swil ac yn ddianadl pan yw wyneb yn wyneb â merch. Gallem ystyried y dyfyniad hwn yn enghraffait o allu merch brydferth i ddarostwng un o ddewrion y Gododdin i wyleidd-dra. Ond nid un o gleifion serch y llysoedd courtoisie a welwn yma, ac nid er mwyn tynnu sylw i ferched hardd y llys yr adroddir yr hanes hwn. Amcan y darlun yw pwysleisio a chadarnhau’r ddelwedd o’r arwr sy’n ddewr mewn brwydr ac yn addfwyn yn y llys. Pentyrru elfennau cymeriad yr arwr uchelwrol delfrydol a wneir yma. “Kynhorawc” ydoedd, ac wedi’r llinell hon parheir i ganmol ei wrhydri a’i allu milwrol:

twll tal y rodawr ene klywei  
awr. ny rodei nawd meint dilynei  
ny chilyei o gamhawn eny verei  
waet mal brwyn gomynei gwyr nyt echei [ny techei].<sup>3</sup>

Roedd felly’n berchen ar holl nodweddion arwr cyflawn; yn anwar ac eto’n waraidd.

<sup>1</sup> A.O. H. Jarman, ‘Y Delfryd Arwrol yn yr Hen Ganu’, LIC, VIII (1965), t. 130

<sup>2</sup> CA, II, 22.

<sup>3</sup> CA, II, 23- 6.

Cyferbyniad a hoffid gan y Cynfeirdd ydoedd hwn a rhan annatod o'r delfryd arwrol. Roedd y gallu i fod yn rhan o fyd boneddigaidd heddychol y llys ac eto i gefnu arno ar adeg rhyfel yn un a edmygid:

trwm en trin a llavyn yt lladei  
garw; rybud o gat dydygei.  
cann calan a darmerthei.  
ef gwenit a dan vab ervei.  
ef gwenit a dan dwrch trahawc  
vn riein a morwyn a mynawc.<sup>4</sup>

Twrch trahaus oedd mab Urfai, un a greai gyflafan â'i gleddyf. Ond yng ngwledd y Calan hawdd oedd i unrhyw ferch neu wŵr bonheddig fynd ato. Cyfosodir y ddwy olygfa gyferbyniol hyn yn naturiol ddigon, a chyflwynir yr un cysyniad wrth foli Owain:

dysgiawr pan fei; bun barn bann.  
perchen meirch a gwrymseirch ac ysgwydawr yaen.  
gyuoet o gyuergyt esgyn disgyn.<sup>5</sup>

Pwysleisir yma allu hyd yn oed y "penn barn" i ffrwyno ei ffyrnigrwydd pan nad yw mewn sefyllfa ryfelgar ond yng nghwmni merched - sef yn y llys. Gwelwn felly gyfeirio at ferched fel symbol o fywyd heddychlon y llys, a gallu'r rhyfelwyr i fod yn eu cwmni yn arwydd o'u gwarineb oddi ar faes y gad.

Serch hynny, cael bod ar flaen y frwydr ydoedd dymuniad pob un o'r arwyr hyn. Heb unrhyw oedi cefnent ar geinderau'r llys ar yr alwad i'r frwydr. Gwelwyd fel yr oedd Owain fab Maro, a Hyfaidd Hir hyd yn oed yn barotach i fynd i ryfel nag i wledd briodas, fel a nodir yn y topos hwn:

kynt y gic e vleid nogyt e neithyawr.  
kynt e vud e vran nogyt e allawr.  
kyn noe argyurein e waet e lawr.<sup>6</sup>

<sup>4</sup> CA, LXXXVII. A, 1066-1071.

<sup>5</sup> CA, LXXII, 901-3. Haws yw gennyf ddilyn awgrym A. O. H. Jarman, *Aneirin: Y Gododdin, Britain's Oldest Heroic Poem* (Llandysul, 1988), t.129, mai cyfeiriad at Owain fel y pen barnwr a geir yma: "A reference to Ywain ... rather than to the unlikely contingency ... of a woman exercising the functions of chief justice in the Gododdin community", yn hytrach na dehongliad Ifor Williams o'r arwr yn "ddysgiawr", sef yn "wylaidd" neu'n "un yn dysgu" a hynny "pan fyddai merch yn brif farnwr", CA, t. 287.

<sup>6</sup> CA, V, 2-4.

kynt y waet e lawr  
 nogyt y neithyawr  
 kynt y vwyt y vrein  
 noc y argyurein.<sup>7</sup>

Wrth drafod yr ail ddyfyniad uchod awgryma Ifor Williams “i’w waed lifo i lawr cyn dydd ei briodas, ac aeth yn fwyd i frain cyn i neb gael cyfle i’w gladdu ... Wrth nodi ei farw cyn ei neithior pwysleisid mai ‘gwas’ ieuanc ydoedd.”<sup>8</sup> Ymddengys felly mai diben hyn oll oedd pwysleisio ieuencid yr arwr a thrwy hynny ategu ei ddewrder. Ond nid oes amheuaeth nad dewis bwriadol ar ran mab Cian ydoedd mynd i ryfel gan wrthod priodas, gwaddol a gwraig:

ny mennws gwrawl gwadawl chwegrwn.<sup>9</sup>

Cyfeiriadau at ferched yn llys y Gododdin a drafodwyd hyd yn hyn, merched a grybwyllir i adlewyrchu rhadlonrwydd y rhyfelwyr tuag at eu pobl eu hunain. Nid oes sôn amdanynt wrth ddarlunio’r lladd. Mae’r ddau fyd, byd y tywallt gwaed a byd y tywallt gwin, mor neilltuedig â’r ddwy wedd ddisgwyliedig ar gymeriad yr arwyr; nid oes lle i ferched ond yn un ohonynt. Mewn amgylchiadau cwbl wahanol y trafodir y merched ar ochr y gelyn. Ceir yr un gwrthgyferbyniadau cyfarwydd wrth foli Isag fab Gwyddnau, eithr nad wrth ganmol ei wyleidd-dra a’i addfwynder ef y ceir sôn am ferched. Yn hytrach, ceir cyfeiriad cignoeth at famau’r gelyn ar ôl ei gampau milwrol:

Issac anuonawc o barth deheu.  
 tebic mor lliant y deuodeu.  
     o wyled a llaryed  
     a chein yuet med;  
     men yth glawd e offer  
     e bwyth madeu.  
 ny bu hyll dihyll na heu diheu.  
 seinnyessyt e gledyf ym penn mameu.  
 mur greit oed moleit ef mab gwydneu.<sup>10</sup>

<sup>7</sup> CA, I, 13-16.

<sup>8</sup> CA, t. 68.

<sup>9</sup> CA, IX, 82.

<sup>10</sup> CA, XXVII, 318-326.

“Seiniesid ei gleddyf ym mhen mamau’ ... O bob llinell yn y byd, hon sy’n mynegi groywaf erwindeb a chreulondeb rhyfel,”<sup>11</sup> medd yr Athro Gwyn Thomas. Arswyd cyffelyb a gyfleir yn y llinellau:

o gyfryssed gwaged gwyth a wnaethant.  
llawer mam ae deigr ar y hamrant.<sup>12</sup>

ac eto,

goruc wyr lludw  
a gwaged gwydw kyn noe angheu.<sup>13</sup>

Ymhyfrydu maleisus yn y boen a’r trallod a gyflawnai mintai’r Gododdin a wneir yma. Clywant sŵn wylo gwagedd a mamau’r gelyn yn gymeradwyaeth i’w gwroldeb. Dyma ganlyniad y frwydr a’r prawf iddynt gyflawni eu hamcanion. Mae’r gwahaniaeth rhwng y modd yr ystyrir merched eu llys hwy a’r merched ar ochr y gelyn yn drawiadol. Nid tristáu am y mamau a fydd yn colli eu meibion oherwydd y rhyfel a wneir, ond dathlu eu medrusrwydd hwy eu hunain wrth ladd y meibion hynny a throi gwagedd yn weddwon.

Y mae Taliesin, fodd bynnag, yn ystyried sut y byddai ar wraig Urien pe na bai ef yn dychwelyd o’r frwydr. Heb ei gŵr byddai hi’n amddifad o’i gwir bennaeth a’i gwir obaith, a’i ffawd a’i chynhaliaeth a’i phen:<sup>14</sup>

a gwr bwr bythic.                      Auei wedw y wreic.  
Am ys gwin ffelic.                      Am ys gwin mynyc gyltwn.  
Am sorth am porth am pen kyn naphar kyfwyrein. kymaran.<sup>15</sup>

Cawn y bardd yma’n ystyried safbwynt gwraig Urien mewn cerdd yn dathlu ei orchest ar faes y gad. Gwriad dramatig yw hyn o’r ymdriniaeth arferol o wragedd yn y canu,

<sup>11</sup> Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol*. (Caerdydd, 1976), t. 49.

<sup>12</sup> CA, LVIII, 672-3.

<sup>13</sup> CA, XXIII, 264-5.

<sup>14</sup> Gweler CT, tt. 54-5.

<sup>15</sup> CT, V, 14-16.

ac mae hynny'n ychwanegu at rym y mawl iddo ac yn pwysleisio ymhellach bwysigrwydd Urien a'r golled a fyddai ar ei ôl.

Mae'n bosibl fod yng nghanu Aneirin gyfeiriad at filwr fel un a garwyd gan ferch.<sup>16</sup>

welyd yd wyt  
gwelydon rwyt riein gared.<sup>17</sup>

Ond fel y gwelodd Ifor Williams, gallai hyn, ar y llaw arall, olygu mai 'un a hudai riain i garedd, "bai"', oedd y gŵr hwn.<sup>18</sup> Mewn cysylltiad â'u perthnasau gwrywaidd y cawn sôn am ferched yn y canu hwn - mamau, merched, gwragedd neu weddwon ydynt. Yr ystyr 'daughter' sydd i bob enghraifft o'r enw 'merch' yng Nghanu Aneirin ac yn Llyfr Taliesin, ac mewn cysylltiad â'u tadau yr enwir hwythau. Clywir yn Llyfr Taliesin am:

Lladon verch liant.  
oed bychan ychwant  
y eur ac aryant.<sup>19</sup>

ac yn Y Gododdin;

Ardyledawc canu claer orchyrdon.  
ar neges mynydawc mynawc maon.  
a merch eudaf hir dreis gwanhon.  
oed porfor gwisgyadur dir amdrychyon.<sup>20</sup>

Nid enwir merch Eudaf ond cynigia Kenneth Jackson mai gwraig Mynyddog ydoedd ac iddi chwarae rhyw ran wrth drefnu'r ymdaith.<sup>21</sup> Gwyddys ei bod yn gymeriad arbennig yn y canu gan y nodir ei gwisg borffor yn arwydd o'i huchelwriaeth a'i thras bonheddig.

<sup>16</sup> Cyfieithiwyd hwn fel 'a net for the the mighty, beloved of girls' gan Jackson (*op. cit.*, t. 154), ac 'Ensnarer of champions./ the desire of a maiden' gan Jarman (*op. cit.*, t. 154).

<sup>17</sup> CA, t. 51, Gwarchan Tudfwlch, 1282-3.

<sup>18</sup> CA, t. 355

<sup>19</sup> BT, Cwyndawd, 19.19-20.

<sup>20</sup> CA, LXVIII, 827-30.

<sup>21</sup> Kenneth Hurlstone Jackson, The Gododdin: The Oldest Scottish Poem (Edinburgh, 1969), t. 142.

Yn ogystal â galaru mae'r merched hefyd yn cysuro'r dynion sy'n dychwelyd wedi ymdaith waedlyd ac yn gwranddo ar yr hanes. Dyma a glywn yn Armes Prydein:

dyhed eu gwaged a dywedant.<sup>22</sup>

Ond yn y llinell nesaf cawn ddarlun o'r gwagedd yn golchi gwaed o grysau eu gwŷr:

eu crysseu yn llawn creu a orolchant.<sup>23</sup>

A dyma'r tywallt gwaed yn treiddio i fywyd y llys a'r cartref. Darogan am yr hyn a ddaw i ran byddin y Saeson a wneir yma, a'u darlunio'n dychwelyd adref â'u dillad yn waedlyd i adrodd straeon i'w gwagedd am rym y Cymry.

Diddorol dros ben, fodd bynnag, yw'r dyfyniad isod o Ganu Aneirin sy'n awgrymu cymhelliad dros frwydro sy'n llawer nes at syniadaeth serch cwrtais:

trywyr yr bod bun bratwen.  
deudec gwenabwy vab gwenn.<sup>24</sup>

Clywn yma am fel yr 'ymladdai Bradwen cystal â thri er teilyngu ffafr ei fun ef',<sup>25</sup> ac i Gwenabwy ymladd cystal â deuddeg 'er bodd ei gariad yntau'.<sup>26</sup> Mae'n bosibl mai ychwanegiad diweddarach a gawn yma, ond ystyriai Ifor Williams ef yn rhan ddilys o'r canu gan ei chymharu â golygfâ debyg yng Nghanu Myrddin:

Kymaethlissvn e in y bon. ir bot y wun<sup>27</sup>

A dyna osod rôl annisgwyl i ferched yn y canu arwrol hwn.

<sup>22</sup> AP, ll. 75.

<sup>23</sup> Ibid., ll. 76. Os nad cyfeirio at eu crysau wedi eu trochi mewn gwaed a wneir, cfr. 'Their shirts they will drench deep in blood', J. P. Clancy, The Earliest Welsh Poetry (London, 1970), t. 109.

<sup>24</sup> CA, XLIII. A. 468-9.

<sup>25</sup> Ifor Williams, CA, t. 188.

<sup>26</sup> Ibid., t. 189.

<sup>27</sup> BBC 16.28; gweler CA, t. 188.

Serch hynny, yn eu galar y cyfarfyddwn amlaf â gwragedd yr oes hon. Ymddangosant yn y cyflwr hwn i'r fath raddau fel y gallwn eu hystyried yn un o dopoi'r canu, a chyfrif dagrau gwragedd, megis gwrhydri dynion, yn rhan annatod o feddylfryd y cyfnod. Dwy ochr i'r un geiniog ydynt; yr achos a'r canlyniad. Ond nid yw'r sylw a roddir i deimladau a dioddefaint y gwragedd o reidrwydd yn dynodi ymgais i uniaethu â hwy. Yn wir, mae'r ymfalchio sadistaidd yng ngallu'r gwŷr i ennyn y fath ymateb wylofus yn awgrymu mai fel dyfais farddol yr ystyrid y merched a'u galar. Dull o gyflwyno delwedd o ddewrder milwyr yw dagrau mamau. Mae eu dagrau'n ganlyniad mor naturiol i'r dolur a'r golled a ddaw o ryfel ag ydyw meddwdod ar ôl yfed medd, amddifadrwydd oherwydd celanedd, a galar oherwydd gormes, fel y gwelwn yn Armes Prydein:

dechymyd meddaw[t] mawr wirawt o ved.  
 dechymyd aghen agheu llawer.  
 de[c]hymyd anaelau dagreu gwraged.  
 dychyfroy etgyllaeth pennaeth lletfer.<sup>28</sup>

Cawn yn Armes Prydein hefyd ddisgrifiad erchyll o frwydro:

Dychyrwynt gyfarth mal arth o vynydd.  
 y talu gwynyeith gwaet eu hennydd.  
 Atvi peleitral dyfal dillyd.  
 nyt arbettwy car corff y gilyd.<sup>29</sup>

Canlyniad hyn yw:

Atvi pen gaflaw heb emennydd.  
 Atvi gwraged gwedw a meirch gweilyd.<sup>30</sup>

Gosodir y cyfeiriad hwn yn syml, oeraidd ynghanol darlun ffaidd o dywallt gwaed a hollti ymennydd. Cawn yma gyfosodiad rhyfedd hefyd o wragedd heb wŷr a meirch heb farchogion.

<sup>28</sup> AP, ll. 35 - 8.

<sup>29</sup> Ibid., ll. 113-16.

<sup>30</sup> Ibid., ll. 117-18.



Sonnir yn aml am feirch a gwragedd ar yr un gwynt, ac anodd weithiau yw gwahaniaethu rhwng y cyfeiriadau atynt, megis yn y llinell:

Ar. at. ellein gymraec<sup>31</sup>

Ond eir ati'n fanylach i ddarlunio a disgrifio'r meirch hyn a oedd yn elfen annatod o fywyd y rhyfelwr, fel y gwelir yma yng Nghanu Aneirin:

Gosgord gododin e ar ravn rin.  
meirch eiliv elirch a seirch gwehin.<sup>32</sup>

Ymddengys gwragedd yn amlach yn Llyfr Taliesin nag yn Y Gododdin, a hynny o ganlyniad i'r amrywiaeth deunydd a welir yno. Ceir yma gymeriadau chwedlonol ac ysgrythurol yn ogystal â'r gweddwon cyfarwydd. Adlewyrchir y gwahaniaeth hwn yn nifer yr enwau personol benywaidd a gofnodir megis Afagddu, Anna, Aranrhod, Ceridwen, Efa, Euron, Euronwy, (?)Genethawc, Gwen, Leah, Mair, (?)Merweryd, Modron a Rachel. Cyfarfyddwn â Blodeuwedd hefyd er nad enwir hi.<sup>33</sup> Mae'n bosibl mai yma, wrth ddisgrifio Aranrhod, y cyferbynnir prydferthwch merch am y tro cyntaf â'r wawr, syniad a ddatblygir gan y Gogynferirdd:

Aranrot drem clot tra gwawr hinon.<sup>34</sup>

Anghyffredin yw'r fath ddisgrifio yng ngwaith y Cynfeirdd, ac annodweddiadol hefyd yw sylwi ar ddymuniad merch:

Atvyn chwant ac aryant amaervy.  
ar. at. dy vorvyn modrvy.<sup>35</sup>

Am Mair, Anna ei mam, ac Efa y clywn amlaf yn y canu ysgrythurol yn Llyfr Taliesin. Adroddir yma hanes y Creu:

<sup>31</sup> BT, Aduvyneu Taliessin, 9.23.

<sup>32</sup> CA, XCV, 1164 -5.

<sup>33</sup> BT, Kat Godeu, 25.25.

<sup>34</sup> BT, Kadeir Kerritwen, 36.14-15.

<sup>35</sup> BT, Aduvyneu Taliessin, 9.2-3.

Trindavt tragywyd  
 aoreu eluyd.  
 Agwedy eluyd  
 adaf yn geluyd.  
 Agwedy adaf.  
 da y goreu eua.<sup>36</sup>

Clywn am ddeuddeg llwyth Israel:

Deudec meib yr israel  
 dymgofu o ganhat iessu.  
 Ac vn tat ae bu  
 atheir mam udu.<sup>37</sup>

Cawn hefyd hanes geni Mair ac yna geni'r Iesu ohoni hi:

Ameir mat great.  
 achrist vy neirthat.<sup>38</sup>

Dilynir Genesis 2-3 wrth sôn am greu Adda ac yna Efa, ond tair ac nid pedair mam a roddir i lwythau Israel. Canlyniad dylanwad y trioedd yn y gwledydd Celtaidd yw hyn o bosibl, fel y noda Marged Haycock.<sup>39</sup> Dyrchefir Mair yn ffigur pwysig yn y canu crefyddol ac erfynir a gweddir arni:

Riein tra mor bu kyscawt ior yscoryssit.  
 Ac auaria meir merch anna mawr yphenyt.  
 yrdy haeled athrugared vechteyrn byt.  
 An dwym ninheu y nef kaereu kynnwys genhyt.<sup>40</sup>

Dyma, o bosibl, wreiddiau Cwlt y Forwyn mewn barddoniaeth Gymraeg na welir ei benllanw tan y bymthegfed ganrif.<sup>41</sup>

<sup>36</sup> BT, Trindavt Tragywyd, 73.20-22.

<sup>37</sup> BT, Trindavt Tragywyd, 74.6-7.

<sup>38</sup> BT, Trindavt Tragywyd, 74.8-9.

<sup>39</sup> Marged Haycock, 'Llyfr Taliesin: Astudiaeth ar Rai Agweddau', traethawd PhD Prifysgol Cymru, 1982, t. 389.

<sup>40</sup> BT, At duw meidat, 54.12-15.

<sup>41</sup> Am astudiaeth fanwl o'r Forwyn Fair gweler Jane Cartwright, Y Forwyn Fair. Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol (Caerdydd, 1999).

Daw gwagedd i'r amlwg yn y disgrifiadau o'r echyllterau a geir yn y canu darogan hefyd. Yn Glaswawt Taliesin darllenwn:

llu o seis. eill o ynt. trydyd dygnawt.  
yg kymry yd erhy gwaged gweddawt.  
Rac baran kynan tan tardawt.  
katwaladyr ae cwyn.  
briwhawt bre a brwyn.  
Gwellt atho tei. tu tandawt.  
At vyd ryfedawt.  
gwr gan verch y vrawt.<sup>42</sup>

Brawychus yw'r menywod a ddarlunnir yn Narogan Daronwy hefyd:

Gwaged aui ffraeth.  
Eillon aui kaeth.  
Ryferthwy hiraeth  
med amarchogaeth.  
Dedeuho dwy rein.  
gwedw agwryawc vein  
heyrn eu hadein.  
ar wyr yn goryein.<sup>43</sup>

Yn y canu am Aleksander Fawr cawn sôn am wragedd mewn cyd-destun milwrol ar faes y gad:

Ac yt wnahont eu bryt wrth eu helya  
ywedant gwystlon yeuropa.  
Ac anreithaw gwladoed gwyssyoed tra.  
Gwythyr yr gwenynt wraged gordynt yma.  
bron loscedigyon gwyled gwastra.  
Ogadeu afor pan attrodet.  
Neu wlat ythweisson ti pan diffydet.  
ny byd yth escar escor lludet.  
Rac gofal yr hual ae agalet  
mil cantriallu auu varw rac sychet.  
eu geu gogwilleu ac eu milet.  
As gwenwynwys ywas kyn noe trefret.<sup>44</sup>

<sup>42</sup> BT, Glaswawt Taliessin, 31.10-15.

<sup>43</sup> BT, Darogan Daronwy, 29.5-8.

<sup>44</sup> BT, 51.15-26.

At yr Amasoniaid y cyfeirir yma, sef y rhyfelwagedd brawychus y credwyd i Alecsander eu gorchfygu. Arswydai'r byddinoedd dewraf rhag mintai'r gymdeithas fenywaidd hon a champ arbennig oedd eu trechu: "Male victory over an Amazon proved male superiority".<sup>45</sup> Darlun o wragedd gwyllt ('gwychy'r') a balch ('gordynt') a gawn yma. Cyfeirir atynt hefyd fel 'bron loscedigyon', yn ôl darlleniad Marged Haycock, yn dilyn chwedl amdanynt yn "llosgi bronnau plant er mwyn hwyluso defnyddio'r bwa a'r saeth".<sup>46</sup>

Diddorol hefyd yw darlleniad Dr. Haycock o'r disgrifiad dirmygus o'r gwagedd hyn fel 'gwyled gwastra' - fel "'tiriondeb, addfwynder, cwrteisi', un o'r teithi a ystyrir yn anhepgor mewn merch" y dealla 'gwyled'.<sup>47</sup> Mae diffyg addfwynder yn fai ar y merched balch hyn a haeddai eu cosbi, a hwyrach y cawn yn y feirniadaeth hon argraff o'r hyn a oedd yn ddisgwylidig gan ferched yr oes. Os deallwn mai 'gwanu' yn yr ystyr "ymgydio â, gwneud yn feichiog" a gawn yma,<sup>48</sup> mae'n bosibl mai sôn am Alecsander a'i wŷr yn eu treisio a wneir. Er gwaethaf yr holl frolio a geir drwy gydol y canu arwrol am allu milwyr i beri i wragedd y gelyn ddiodef, dyma'r unig gofnod y gellir ei gyfrif yn gyfeiriad at dreisio mewn sefyllfa filwrol.

Yng nghorff canu am amgylchfyd arwrol y cawn mwyafrif y cyfeiriadau sydd gennym gan y Cynfeirdd at ferched. Nid oes unrhyw ganu serch o'r cyfnod hwn wedi'i gadw. Nid yw hyn o reidrwydd yn brawf na fu canu o'r fath mor gynnar yn hanes ein llenyddiaeth ond y mae, serch hynny, yn adlewyrchu blaenoriaethau'r gymdeithas, a'r cofnodwyr yn arbennig. Fel y sylwodd Helen O'Sullivan: 'Quite possibly, the early transmitters of tradition and copyists did not see fit to preserve anything so trivial, unrelated to the history of tribe or country.'<sup>49</sup> Camgymeriad ar ran y copiwr fe ellir tybio, oedd codi'r hwiangerdd 'Pais Dinogad' a'i gosod ynghanol Y Gododdin. Hawdd deall sut y bu iddo ddeall hon fel cerdd arwrol a gynhaliai ysbryd y canu am

<sup>45</sup> Bonnie S. Anderson a Judith P. Zinsser, A History of Their Own: Women in Europe from Prehistory to the Present, Cyfrol I (London, 1988), t. 55.

<sup>46</sup> Haycock, op. cit., t. 407.

<sup>47</sup> Ibid., t. 406

<sup>48</sup> Ibid., t. 406

<sup>49</sup> Helen Jane Theresa O'Sullivan, 'Developments in Love Poetry in Irish, Welsh and Scottish Gaelic, Before 1650', traethawd M.Lit, Glasgow University, 1976, t. 150.

osgordd Mynyddog Mwynfawr, oblegid yr hyn a geir yma yw mam yn canmol campau ei gŵr wrth hela a lladd anifeiliaid, ar ffurf suo-gân i'w mab.

Peis dinogat e vreith.  
 o grwyn balaot ban wreith.  
 chwit chwit chwidogeith.  
 gochanwn gochenyn wythgeith.  
 pan elei dy dat ty e helya;  
 llath ar y ysgwyd llory eny law.  
 ef gelwi gwn gogyhwc.  
 giff gaff. dhaly dhaly dhwc dhwc.  
 ef lledi bysc yng corwc.  
 mal ban llad. llew llywywc.  
 pan elei dy dat ty e vynydd.  
 dydygei ef penn ywrch penn gwythwch  
     penn hyd.  
 penn grugyar vreith o venydd.  
 penn pyc o rayadyr derwennydd.  
 or sawl yt gyrhaedai dy dat ty ae gicwein  
 o wythwch a llewyn a llwyuein.  
 nyt anghei oll ny uei oradein.<sup>50</sup>

'Gem fach yw'r gân fach hon, a saif yn unig yn ein llên,' ym marn Ifor Williams. 'Lluniwyd hi'n rhwydd ac yn hoyw gan fardd llys i ryngu bodd ei arglwyddes, fel y gallai hi ei chanu i'w Dinogad yn ei wisg newydd'.<sup>51</sup> Hawdd dychmygu hyn wrth ystyried tebygrwydd y disgrifiadau o'r tad yn hela i'r darlun a geir gan Aneirin o'r milwyr yn brwydro. Nid yw ysglyfaeth y tad yma ond cam oddi wrth y gelyn a laddai milwyr yn y canu arwrol pur. Er mai hwiangerdd ydyw, ceir yma ddarlun o sefyllfa ddigon treisgar.

Sylweddolwn nid yn unig fod y tad a oedd yn hela'r hydd a'r cadno ar y mynydd wedi marw, ond fod y gân mewn gwirionedd, yn cyflwyno'r crwt Dinogad i realiti lladd: anifeiliaid, mae'n wir, yn yr achos hwn, ond megis paratoad yw hynny at ei ddyfodol rhyfelgar.<sup>52</sup>

Ond fel y gwelsom uchod, nid yw Ifor Williams o'r farn mai hwiangerdd go-iawn a ganwyd gan fam i'w phlentyn yw'r gerdd hon, ac nid yw'n ystyried y posibilrwydd

<sup>50</sup> CA, LXXXVIII, 1101-17.

<sup>51</sup> *Ibid.*, t. 1.

<sup>52</sup> Katherine Curtis, et. al., 'Beirmiadaeth lenyddol ffeminist', *Y Traethodydd* (Ionawr 1986), t. 53.

mai awdur benywaidd oedd i'r darn. Gwahanol iawn yw barn Jenny Rowland am yr englyn i Gyni a geir yng nghanu Aneirin:

Ket bei kann wr en vn ty  
atwen ovalon keny.  
penn gwyr tal being a dely.<sup>53</sup>

Cysylltir ef ganddi â'r englyn isod o ganu Llywarch Hen:

Atwen leueryd Kyni.  
Pan disgynnei yg kyfyrdy  
Penn gw[y]r pan gwin a dyly.<sup>54</sup>

Yn ei thyb hi, darnau o gerddi gan wragedd a godwyd i gorff hen ganu ydynt:

As in the two stanzas to Dwg the narrator in the stanzas to Cyni is inappropriate for Llywarch who is never presented as being extraordinarily or even moderately sensitive to the feelings of his sons. The ability to pick one voice out of a hundred and to know the heart of another in a situation which does not allow for intimate discussion is an attribute of lovers rather than a proud, but basically uncaring parent. Could these two verses be a snatch of a love-song spoken by a woman (*frauenlied*) such as are found elsewhere in the early Middle Ages, often in marginal notations?<sup>55</sup>

Ond i ba ddiben bynnag y cyfansoddwyd y gerdd hon i Dinogad, dengys nad mewn cyd-destun arwrol yn unig y canwyd yn y cyfnod hwn. Cadwyd i ni awdlau mawl a marwnad beirdd swyddogol gosgordd Mynyddog Mwynfawr ac Urien Rheged a oedd ag arwyddocâd hanesyddol a chymdeithasol amlwg, ond mae'n debygol iawn i gorff o ganu cyfoes a oedd y tu allan i'r traddodiad hwn fynd yn angof. Tybed nad yn y canu answyddogol hwn am fywyd pob dydd y byddai'r sôn am ferched a gwragedd y llys.

<sup>53</sup> CA, XLVII, 535-7.

<sup>54</sup> CLIH, I, 48.

<sup>55</sup> Jenny Rowland, *Early Welsh Saga Poetry* (Cambridge, 1990), tt. 58-9.

## CANU NATUR A CHANU GWIREBOL

Efallai mai elfen o'r canu hwn a welir yn y canu natur a'r canu gwirebol. Byd gwahanol a geir yn y canu hwn lle y mae i ferched le amlycach nag yn y canu arwrol. Sylwodd Kenneth Jackson ar y rhaniad hwn:

The virtues indicated are not those admired in heroic poetry, not courage or generosity, but caution and other qualities conducive to wordly success; that is, the virtues of a later stage of society and perhaps a lower class.<sup>56</sup>

Rhybudd ynglŷn â thwyll a dichell gwragedd a geir amlaf yma:

twyllid gwraig goludawg.<sup>57</sup>

Diddorol yw nodi cyd-destun y cyfeiriadau at wragedd:

Marchwyeil bedw briclas  
a dynn uyn troet o wanas;  
nac adef dy rin y was.

Marchwyeil derw deilyar  
a dynn vynn troet o gadwyn;  
nac adef rin y uorwyn.

Marchwyeil derw deilyar  
a dynn vyn troet o garchar;  
nac adef rin y lauar.

Marchwyeil dryssi a mwyar erni;  
a mwyalch ar y nyth  
a chelwydawc ny theu vyth.<sup>58</sup>

Gosodir y forwyn hon ymysg rhai nodedig am eu cleber a'u celwydd, ond gyda drwgdybiaeth yr ystyrir 'gwas' (llanc) hefyd.

<sup>56</sup> Kenneth Jackson (gol.) Early Welsh Gnommic Poems, trydydd argraffiad (Oxford, 1973), t. 138.

<sup>57</sup> EWGP, VIII (Bidiau II), 4b.

<sup>58</sup> Ibid., II, 4 - 5, 7.

Mae dichell gwagedd yn thema amlwg mewn llenyddiaeth ganoloesol ac wedi ei gysylltu, fel y dengys R. Howard Bloch, â huodledd a ddrwgdybir:

The riotousness of woman is, in the medieval thinking of the question, linked to that of speech, indeed, seems to be a condition of poetry itself ... Because of the inadequacies of language that she is imagined to embody, she is in some fundamental sense always placed in the role of deceiver, trickster, jongleur.

... the assumption is, of course, that woman is the equivalent of the deception of which language is capable, a prejudice so deeply rooted in the medieval discourse on gender that it often even passes unnoticed.<sup>59</sup>

Gwelwn hyn yn ‘Englynion y Misoedd’ a gasglwyd gan Jackson:

tri pheth a dry dryg-wenwyn,  
kyngor gwraic, murn, a chynllwyn.<sup>60</sup>

Cymaharer hyn â geiriau Marie de France:<sup>61</sup>

Issi est suvent avenu:  
de plusurs femmes est esü,  
qui si cuneillent lur seignur  
qu’il luv revert a deshonor;  
meinte femme cunseille a faire  
ceo dunt a plusurs nest cuntraire.<sup>62</sup>

[It has often happened this way: many a woman has advised her husband so that it comes back to dishonor him; many women suggest doing something that is disadvantageous to others.]<sup>63</sup>

Trown hefyd at sylw awdur Les Quinze joies de Mariage am wŕr y gweinir arno â chelwyddau y bydd ef yn ‘pori’ arnynt.<sup>64</sup>

<sup>59</sup> R. Howard Bloch, Medieval Misogyny and the Invention of Western Romantic Love (Chicago, 1991), t. 20-1.

<sup>60</sup> EWGP, IX (Englynion y Misoedd), 2, ll. 5-6.

<sup>61</sup> Bardd a oedd yn ysgrifennu yn Lloegr ynghanol y ddeuddegfed ganrif. Ni wyddys ei hanes i sicrwydd, ond credir ei bod yn ferch ordderch i dad Harri II ac iddi fod yn abades Shaftesbury yn Wiltshire.

<sup>62</sup> Gweler Bloch, op. cit., t.206.

<sup>63</sup> Cyfieithiad Mary Lou Martin yn Bloch, op. cit., t. 21

<sup>64</sup> Les Quinzes joies de mariage, gol. Jean Rycher (Geneva, 1963), t. 43, a ddyfynnwyd yn Bloch, op. cit., t. 206.



'Il sers servy de mensonges et le fera l'en pestre'<sup>65</sup>

Dirmygus a drwgdybus yw mwyafrif y cyfeiriadau at ferched yn y cerddi gwirebol  
Cymraeg:

bit wreic drwc ae mynych warth.<sup>66</sup>

a gwraged drwc meduaeth.<sup>67</sup>

digu eneit mam geublant<sup>68</sup>

Cydymdeimlir â gŵr a brioda wraig ddrwg:

gwae wr a gaffo drycwreic.<sup>69</sup>

a hefyd â gwraig anffodus yn ei chymar:

gwae wreic a gaffo drycwr.<sup>70</sup>

Cyfeirir yn ogystal at wrach, a honno'n llawn gwenwyn a malais:

bid chwyrn colwyn, bid wennwyn gwrach.<sup>71</sup>

Nid darlun dymunol ydyw.

Serch hynny, nid negyddol yw pob cyfeiriad. Cawn sôn am wragedd weithiau wrth  
ddathlu afiaith bywyd:

Mis Mehefn, hardd tiredd,  
llyfn mor, llawen marianedd,  
hircain dydd, heinif gwragedd,  
hylawn praidd, hyffordd mignedd.<sup>72</sup>

<sup>65</sup> Gweler Bloch, *ibid.*, t. 21.

<sup>66</sup> EWGP, VII (Bidiau I), 16c.

<sup>67</sup> *Ibid.*, IV, 6b.

<sup>68</sup> *Ibid.*, IV, 9c.

<sup>69</sup> *Ibid.*, III, 17c.

<sup>70</sup> *Ibid.*, III, 16c.

<sup>71</sup> *Ibid.*, VIII (Bidiau II), 6b.

Dirmygus a drwgdybus yw mwyafrif y cyfeiriadau at ferched yn y cerddi gwirebol  
Cymraeg:

bit wreic drwc ae mynych warth.<sup>66</sup>

a gwraged drwc meduaeth.<sup>67</sup>

digu eneit mam geublant<sup>68</sup>

Cydymdeimlir â gŵr a brioda wraig ddrwg:

gwae wr a gaffo drycwreic.<sup>69</sup>

a hefyd â gwraig anffodus yn ei chymar:

gwae wreic a gaffo drycwr.<sup>70</sup>

Cyfeirir yn ogystal at wrach, a honno'n llawn gwenwyn a malais:

bid chwyrn colwyn, bid wennwyn gwrrach.<sup>71</sup>

Nid darlun dymunol ydyw.

Serch hynny, nid negyddol yw pob cyfeiriad. Cawn sôn am wragedd weithiau wrth  
ddathlu afiaith bywyd:

Mis Mehefin, hardd tiredd,  
llyfn mor, llawen marianedd,  
hircain dydd, heinif gwragedd,  
hylawn praidd, hyffordd mignedd.<sup>72</sup>

<sup>66</sup> EWGP, VII (Bidiau I), 16c.

<sup>67</sup> *Ibid.*, IV, 6b.

<sup>68</sup> *Ibid.*, IV, 9c.

<sup>69</sup> *Ibid.*, III, 17c.

<sup>70</sup> *Ibid.*, III, 16c.

<sup>71</sup> *Ibid.*, VIII (Bidiau II), 6b.

<sup>72</sup> *Ibid.*, IX (Englynion y Misoedd), 6, ll. 1-4.

Yn yr enghraifft nesaf y mae canfod merched teg mor arferol â theimlo'r gwynt yn chwythu o'r gogledd:

Gnawt gwynt o'r gocled; gnawt rianed chwec;  
gnawt gwr tec yg Gwyned;  
gnawt y deyrn arlwy gwled;  
gnawt gwedy llynn llefuryed.<sup>73</sup>

Nid oes yma ganu serch fel y cyfryw er y clywir am ferch o bosibl yn dioddef o glefyd serch.<sup>74</sup>

dyly bun pwyth hun y heint.<sup>75</sup>

Mae hwn yn thema a ddatblygir gan y Gogynfeirdd wrth ganu i'w harglwyddesau, a diddorol iawn yw clywed cyfeiriad at y poenau hyn yn gynnar yn y canu brodorol. Hwyrach mai salwch merched yn unig ydoedd yn y cyfnod arwrol hwn, cyn dyfodiad cwrteisi'r llysoedd diweddarach.

Ond nid ymhyfydir mewn poen na dagrau gwragedd yn y canu hwn. Yn wir, rhybuddir rhag taro morynion:

gwae a laddodd i vorwyn.<sup>76</sup>

### CANU LLYWARCH HEN

Y mae safbwynt y sylwedydd sy'n cyflwyno i ni fyd a bywyd Llywarch Hen a'i feibion wedi newid ychydig o'r hyn a gafwyd gan Aneirin a Thaliesin. Ceir yma gamu yn ôl oddi wrth ryfelgarwch penboeth y canu cynharach gan bwylo i fyfyrion ar y dinistr a'r golled, ac ar yr adfeilion a adawyd ar ôl. Serch hynny, yr un, i bob pwrpas, yw

<sup>73</sup> *Ibid.*, IV, 3.

<sup>74</sup> Os nad oes posibilrwydd mai cyfeiro at boenau genedigaeth a wneir yma.

<sup>75</sup> EWGP, VI, 2c.

<sup>76</sup> *Ibid.*, IX (Englynion y Misoedd), 2.8.

swyddogaeth y gwragedd yn y cylch hwn o ganu. Cyflwynna Gwên ei hun i'w dad â'r geiriau canlynol sy'n codi cwestiwn ynghylch pa mor dda'r oedd Llywarch yn 'adnabod' mam Gwên:

Amgyhud vy mam mab yt wyf.<sup>77</sup>

Cawn yma ddarlun hefyd o wraig Pyll yn ymhyfrydu yn ei wroldeb a'i wrhydri:

Pan sauei yn drws pebyll  
Y ar orwyd erewyll,  
Ardelwei o wr wreic Pyll.<sup>78</sup>

"Pyll's wife is mentioned as a mirror for his manliness", meddai Jenny Rowland am y cyfeiriad hwn - ei chrybwyll hi er mwyn ei ddarlunio ef a wneir. Ond mae'r olygfa hon, lle gwelwn wraig y rhyfelwr yn llawn balchder wrth edrych arno'n mynd i'r frwydr ar gefn ei farch yn un ddiddorol iawn. Ymddengys fod balchder y wraig hon yn rhywbeth a brisid gan y milwr a gan y bardd, ac, yn ogystal â dangos dewrder Pyll, adlewyrchai falchder y gymdeithas gyfan yn ei glewion. Roedd y gwragedd hyn yn rhan o'r gymdeithas a roddai groeso arwr i'r dynion a ddychwelai o'r frwydr.

Ond byd cwbl ar wahân i fyd arwrol a rhyfelgar y dynion oedd byd merched y canu hwn, megis hefyd wragedd gosgordd y Gododdin. Er eu bod yn ymfalchïo yn eu gwŷr dewr, nid oedd ganddynt mewn gwirionedd amgyffred na diddordeb yn yr hyn a ddigwyddai ar faes y gad. Gwelwn Gwên yn ceisio cadarnhau ei wrhydri drwy bwysleisio nad un o'r merched hyn ydoedd ef:

Yr ergryt aghen rac aghwyr Lloegr  
Ny lygraf vym mawred:  
Ny duhunaf rianed.<sup>79</sup>

Mae Gwên yma'n gwrthod cynnig Llywarch iddo chwythu ei gorn os bydd arno angen cymorth. Ymateb tebyg a geir yng 'Nghân Rolant':

<sup>77</sup> CLIH, I, 1c.

<sup>78</sup> *Ibid.*, I, 34.

<sup>79</sup> *Ibid.*, I, 11.

“Nyt ef a wnel Duw”, heb y Rolant, “kymraw ohonaf i luossogrwyd ny allwyt eiryot eu kymraw. Ny liwir byth y Rolant y uot yn gornawr yr ofyn paganyeit. Ac nyt ymgeffylpo Rolant vyth y gynyd tra gaffo ef vrwydyr. Kany byd y gynyd namyn o lef y gorn galw bwystvileit o lwyneu”.<sup>80</sup>

Ond fel y pwysleisia Jarman ni welir yno gyfeiriad at amharu ar gwsg merched:

... nid yw neb yn cyhuddo Rolant o lwfrdra. Eto fe wrthyd yntau ganu ei gorn, rhag llygru ei fawredd, er ei fod mewn sefyllfa filwrol anobeithiol. Nid edliwir iddo byth, ebr ef, ei fod yn gornawr er ofn paganiaid, ac nid yw am gael ei gyffelybu i heliwr. Ni sonia ychwaith am ddeffro'r rhianedd. Cyffyrddiad Cymreig yw hynny, canys fe ymddengys mai creadur nodedig o anfilwrol yw gwraig yn ôl yr hen ganu Cymraeg. Ei swydd yw cysgu tra bo'r gwŷr yn ymladd, a galaru ar ôl eu cwmp.<sup>81</sup>

Cadarnhau ei ddewrder a wna Gwên wrth haeru na fynnai unrhyw gysylltiad â byd merched a thrwy hynny chwalu pob syniad o lwfrdra. Gwelir eto'r cysylltiad rhwng gwragedd a diffyg gwroldeb yn yr englyn hwn o sarhad ar Gynddilig;

Nid uid yscaleic; nid vid e leic, vnben.  
Ni'th elwir in dit reid,  
Och Kindilic, na buost gwreic!<sup>82</sup>

Nid oes rheswm pam na ddylai ymuno yn y frwydr gan nad yw'n glerigwr nac ychwaith yn hen ŵr. Ei lwfrdra yn unig sy'n peri i bobl beidio â galw arno mewn argyfwng, ac mae hyn yn ei dro'n taflu gwarth ar Lywarch. Gresynir na anwyd Cynddilig yn ferch a'i osod o'r neilltu gyda'r menywod eraill fel na fyddai ei anallu llwyr fel milwr yn codi cywilydd ar ei dad.

Yn wahanol i waith Aneirin a Thaliesin ceir yng Nghanu Llywarch Hen gyfeiriadau at ferched yng nghyd-destun serch. Rhestrir hwy gan Lywarch Hen ymhlith y pethau a fu bwysicaf iddo tra roedd yn ifanc:

A gereis yr yn was yssy gas gennyf,

<sup>80</sup> Stephen J. Williams, *Ystoria de Carolo Magno* (Caerdydd, 1968), t. 142.

<sup>81</sup> Jarman, 'Y Delfryd Arwrol', t. 144.

<sup>82</sup> CLIH, VIII, 11.

Merch, estrawn, a march glas.  
Neut nat mi eu kyadas.<sup>83</sup>

Dyma brif elfennau bywyd:

‘a run down of the warrior’s chief pleasures: a woman (for love), an enemy (to fight) and a horse (for riding and hunting). Alternatively a stranger could be appreciated as a bearer of news since old age has cut Llywarch off from the passive pleasures of company and conversation as well as more active ones’.<sup>84</sup>

Atgof yw pob cyfeiriad at gariadferch gan Lywarch. Nid yw’r ferch y sonnir amdani uchod bellach yn addas iddo. Y mae’r cyferbynnu rhwng ieuenctid, ffyniant a bywiogrwydd y gorffennol a henaint ac unigrwydd y presennol yn nodwedd amlwg o’r canu. Perthyn i fyd pell y bywyd da heddychol a chymdeithas waraidd y lllys yn y dyddiau cyn dinistr rhyfel a wna’r merched hyn. Nid oes un ohonynt yn ymweld ag ef yn ei unigedd:

Ny’m kar rianed; ny’m kenniret neb<sup>85</sup>

Y mae henaint yn kymwed  
A mi o’m gwallt y’m danned,  
A’r cloyn a gerynt y gwraged.<sup>86</sup>

Wyf diagarat gan uorwyn.<sup>87</sup>

Sefyllfa gyffelyb a ddaeth i ran Myrddin:

neut wyf digarat gan vyl karant.  
a miner gan wyllyon nym atwaenant.<sup>88</sup>

Ac yg coed. Keliton y kisceiss e vy hun.<sup>89</sup>

<sup>83</sup> *Ibid.*, II, 15.

<sup>84</sup> Rowland, *op. cit.*, t. 545.

<sup>85</sup> CLIH, II, 19a

<sup>86</sup> *Ibid.*, II, 12.

<sup>87</sup> *Ibid.*, II, 6c.

<sup>88</sup> Peniarth 3, 27 - 30, a ddyfynwyd gan A. O. H. Jarman, ‘Chwedl Myrddin yn y Canu Cynnar’, traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1936, t. 93.

<sup>89</sup> LIDC, 16.30.

Ag yntau'n crwydro'n unig yng Nghoed Celyddon wedi colli ei bwyll a'i holl gyfeillion cofia Myrddin am y cwmni a fu ganddo unwaith wrth droed y goeden afalau:

Afallen *peren* a tiff ar lan. afon.  
 In y llurv. ny lluit maer. ar y chlaer aeron.  
 Tra fuvm puyll. wastad. am buiad in i bon.  
 a. bun wen wariu. vn weinus vanon.<sup>90</sup>

Wrth ystyried y tebygrwydd rhwng y ddau gylch hwn o ganu gwêl Jarman: 'mai'r ddau beth mwyaf naturiol i'w henwi mewn canu o'r natur hon yw milwriaeth anturus, a merched.'<sup>91</sup> Dyma a ddeisyfir gan y ddau wr atgofus hyn. Ond pethau'r byd a aeth heibio ydynt, pethau sydd bellach y tu hwnt i'w cyrraedd. Mae'r merched y sonnir amdanynt yn gymaint rhan o'r byd yr hiraethir amdano â'r meirch a holl arfau rhyfel.

Deuwn ar draws yr enw 'hwimleian' yn yr Afallennau a hefyd yn yr Oianau o ganu Myrddin.<sup>92</sup> 'Daroganwraig' neu 'lleian' o bosibl a rydd J. Lloyd Jones yn esboniad ar 'chwimleian', ac aeth Jarman yntau ati i gasglu awgrymiadau ar ei ystyr.<sup>93</sup> Arferol yw cysylltu'r enw â Sybilla neu Sybil, ac â Viviane y Rhamantau Ffrangeg. Trafodwyd y cynigion ar ddatrys yr enw gan H. M. Chadwick hefyd:

In the Romances Merlin appears chiefly as a magician. Here also we meet with the story of Viviane, who induced him to impart to her his magic arts, and then utilized the knowledge thus gained to bring about his undoing. Geoffrey and the other authorities know nothing of this story, though there seem to be allusions in BBC, XVIII to a courtship of long ago. But the Welsh poems occasionally use a word hwimleian, 'Sibyl', or rather 'Inspiration' personified (similar to awen) - which shows a curious resemblance to the name Viviane, as was pointed out long ago.<sup>94</sup>

<sup>90</sup> Ibid., 16.54-7.

<sup>91</sup> Jarman, op. cit., t. 88.

<sup>92</sup> LIDC, 16.68; 17.57, 64.

<sup>93</sup> G, d.g., a gweler Jarman, op. cit., tt. 99-102.

<sup>94</sup> H. M. Chadwick, The Growth of Literature. Vol. I. the Ancient Literatures of Europe (Cambridge, 1932), t. 112.

Nid yw Jarman, serch hynny, mor barod i dderbyn mai gwraig o gig a gwaed a ddaw ar gyfyl Myrddin, a chyniga'i gysylltu â 'gwyllan', sef naill ai'r aderyn 'gwylan' neu rywbeth 'gwyllt'.<sup>95</sup>

Dirgelwch arall yw perthynas Myrddin a Gwenddydd. Er y cyfeirir at Gwenddydd droeon fel 'chwaer' Myrddin, nid amhosibl yw deall un o ystyron eraill yr enw hwn a derbyn iddi fod yn gariad iddo ar ryw adeg yn ystod datblygiad y chwedl. Aneglur hefyd ydyw'r hanes y tu ôl i euogrwydd Myrddin. Ni wyddom ond ei fod rywsut yn ei gyfrif ei hun yn gyfrifol am ladd mab a merch Gwenddydd a'i bod hithau o ganlyniad wedi cefnu arno:

Nu nym car i guendit ac nim emeirch.  
 Oef kas gan gwassauc guaessaf Rydirch.  
 Ryrewines y mab ae merch.  
 Aghev a duc paup. pa rac nam kyueirch.  
 A. guydi gwendolev nep rieu im peirch.  
 Nym gogaun guarvy. nym goffvy gortorch.  
 Ac igueith arywderit. oet eur. wy gorthorch.  
 Kin buyf. aelav hetiv gan eiliv eleirch.<sup>96</sup>

Annisgwyl a diweddar iawn ei naws yw'r disgrifiad o'r ferch yn y llinell olaf hon â'r edmygedd o wynder yn ein harwain at safonau prydfferthwch y Gogynfeirdd. Clywsom y geiriau hyn eisoes gan Aneirin wrth gyfeirio at 'feirch eiliw eleirch',<sup>97</sup> ac mae'n bosibl ystyried i'w dull o ddarlunio meirch ddylanwadu ar y modd y disgrifiai'r beirdd ferched, neu'n hytrach mae'r un gwerthoedd a'r un moddion a ddefnyddient wrth fesur a chyfleu harddwch o bob math. Mae'n bosibl hefyd fod croen gwyn eisoes yn nodwedd o'r delfryd o'r ferch berffaith yn y cyfnod hwn, ond rhaid cydnabod y posibilrwydd mai at geffyl y cyfeirir yma.

Sefyllfa debyg i'r hyn a welir yn y dyfyniad uchod a gawn yn y penillion hyn o Gylch Urien:

Handit Euyrdyl aflawen henoeth,

<sup>95</sup> Jarman, *op. cit.*, t. 88.

<sup>96</sup> LIDC, 16.39-46.

<sup>97</sup> CA, XCV, 1165.



A lluosyd amgen.  
Yn Aber Lleu llad Uryen.

Ys trist Eu[y]rdyl o'r drallawt heno,  
Ac o'r llam a'm daerawt.  
Yn Aber Lleu llad e brawt.<sup>98</sup>

Mae'r llefarydd yma'n edifarhau iddo achosi galar Efrddyl drwy ladd ei brawd. Gwriad oddi wrth yr olygfa arferol o ddathlu peri dagrau gwagedd a gawn wrth i Fyrddin uchod a'r milwr sy'n llefaru yma gydnabod cyfrifoldeb am farwolaeth arwyr, neu hyd yn oed blant o'u hochr hwy eu hunain. Cywilyddio a wneir y troeon hyn oherwydd dagrau'r gwagedd, ac yn hyn o beth gwelwn effaith y symud graddol oddi wrth yr hen ddelfryd arwrol yn yr agwedd tuag at ferched. Ond cred Jenny Rowland fod arwyddocâd pellach i ganolbwyntio ar alar Efrddyl yn lle'r 'lluosyd amgen' a grybwyllir. Ystyria fod ffigyrau benywaidd yn bethau mor brin ym myd arwrol, gwrywaidd yr englynion fel bod yn rhaid credu bod rheswm pendant dros gyflwyno Efrddyl.<sup>99</sup> Os yw teyrngarwch y llefarydd wedi ei rannu rhwng dwy ochr, gwél hithau fodd i esbonio pwysigrwydd Efrddyl wrth ei hystryied fel un a gysylltwyd â'r llefarydd, ac â gelynion ei brawd trwy briodas. Ceir yn ogystal draddodiad yn cysylltu gŵr a meibion Efrddyl â gelynion Urien, ac un o'r meibion hyn, cynigia Jenny Rowland, oedd llefarydd 'Pen Urien'.<sup>100</sup>

### CANU HELEDD

Mae'n bosibl mai gwrthdaro tebyg rhwng tylwyth Heledd a'r teulu y gallai hi fod wedi dod yn rhan ohono trwy briodas a arweiniodd at y gyflafan a roddodd i ni ei chylch hi o englynion. Nid yw cefndir hanesyddol y canu hwn yn hysbys i ni ac ni allwn ond dyfalu'r amgylchiadau a flaenorodd gwmp Pengwern. Er y trafodir rhai cymeriadau hanesyddol yng nghanu Heledd a Llywarch Hen, eu defnyddio er mwyn darlunio oes a sefyllfa ddiweddarach a wnaed gan yr awduron, yn nhyb Ifor Williams, gan greu cymeriadau chwedlonol ohonynt.<sup>101</sup> Ar un olwg felly gellir darllen yr englynion hyn

<sup>98</sup> CLIH, III, 30-1.

<sup>99</sup> Rowland, *op. cit.*, t. 82.

<sup>100</sup> *Ibid.*, t. 111.

<sup>101</sup> Gweler CLIH, t. xxxvii.

fel ymgais i ymgodymu ag adeg helbus yn hanes Powys drwy uniaethu â chyfnod tebyg yn ei gorffennol.<sup>102</sup>

Cam trawiadol ond dyrys ar ran y bardd oedd gosod merch yn llefarydd. At wragedd sy'n dylanwadu ar ddigwyddiadau, naill ai'n weithredol neu'n oddefol, y cyfeirir mewn sagâu cynnar, a dyna sy'n esbonio - i Jenny Rowland - leoliad Heledd yn y canu hwn a'i chri 'vyn tauawt ae gwnaeth'.<sup>103</sup> Cofiw'n am syniad Rowland am briodas arwyddocaol Efrddyl a hefyd ran y 'wrach' wrth anfon Maen i frwydro yng nghanu Llywarch Hen:

Boed bendigeit yr aghysbell wrach,  
A dywawt o drws y chell,  
"Maen Wynn, nac adaw dy gyllell!"<sup>104</sup>

Gallwn fwrw amcan felly mai priodas wleidyddol rhwng Heledd a gelynyon ei brawd, priodas a fwriadwyd i leddfu anghydfod, a fu yn y pen draw'n achos y frwydr rhyngddynt. Mae priodasau o'r fath i'w cael drwy hanes a llenyddiaeth y cyfnod, a cheir enghreifftiau mewn testunau canoloesol megis eiddo Sieffre o Fynwy a Pedair Keinc y Mabinogi. Ond mae'n bosibl bod haen ddyfnach i gymeriad y wraig hon. Mae modd gweld ynnddi hefyd gysgod y dduwies sofraniaeth sydd â rhan amlwg mewn llenyddiaeth a thraddodiadau Celtaidd. Dwy wraig, neu un yn hytrach, a ystyrir yn bersonoliad o sofraniaeth Iwerddon oedd Medb Cruchan a Medb Lettderg, ac nid annhebyg yw hanes Mór Munman, fel y dangosodd Proinsias Mac Cana.<sup>105</sup> Casglodd ef nifer o chwedlau'n ymwneud â sofraniaeth ynghyd â'u dosbarthu'n adrannau:

(i) an ugly hag transformed into a beautiful lady by the embraces of the hero destined to be king ... (ii) a wild wandering female who is restored to sanity and beauty through union with the rightful king ... (iii) a girl of royal birth brought up among cowherds and elevated again to her due dignity through marriage to the king.<sup>106</sup>

<sup>102</sup> Gweler Rowland, *op. cit.*, tt. 142-5.

<sup>103</sup> CLIH, XI, 46b.

<sup>104</sup> *Ibid.*, IV, 8.

<sup>105</sup> Proinsias Mac Cana, 'Aspects of the Theme of King and Goddess in Irish Literature', *Études Celtiques*, Cyfrol 7 (1955-6), tt. 7-114, 35-413; Cyfrol 8, tt. 59-65.

<sup>106</sup> *Ibid.*, tt. 63-4.

Yn yr ail adran y gosodwyd Mór Muman sy'n gymeriad arbennig o ddiddorol o safbwynt ein hastudiaeth o Heledd. Clywn am Mór Muman yn crwydro Iwerddon mewn gorffwylledd am ddwy flynedd wedi ei gwisgo mewn cadachau ac wedi ei duogan y gwynt a'r haul.<sup>107</sup> Ond wedi iddi gysgu gyda Fingan ac adrodd iddo'i henw dychwelodd ei synnwyr a rhoddwyd iddi dlws a mantell borffor yn arwydd o uchelwriaeth. Mae'r gwallgofrwydd hwn hefyd yn thema amlwg yn stori Suibne Geilt. Hanes tebyg sydd i Heledd yn crwydro adfeilion Pengwern a'r hiraeth am Gynddylan yn dirywio'i hiechyd a'i phwyll. Gwelwn hi hefyd yn teneuo ac yn gwisgo carpiâu, a hithau wedi arfer â moethusrwydd bywyd y llys:

Kynn bu vyl kylchet croen[nen] gauyr galet  
Chwannawc y gelyn,  
Ry'm goruc y uedw ued Brynn.<sup>108</sup>

Gwedy meirch hywed a chochwed dillat  
A phluawr [mawr] melyn,  
Mein uyg coes, ny'm oes dudedyn.<sup>109</sup>

Mae dioddefaint y dduwies sofraniaeth yn absenoldeb y brenin yn adlewyrchiad o gyflwr y deyrnas, a chyffredin yw iddi alarnadu amdano. Ond yn wahanol i Mór nid oes gobaith gan Heledd ddarganfod Cynddylan ac adfer ffyniant Pengwern. Bu ganddi hi unwaith fantell a thrysorau (megis a roddwyd i Mór) a bu ganddi sefydlogrwydd a moethusrwydd. Y mae effaith eu colli, a hynny am byth, yn ddwys iawn.

Os oes unrhyw gysylltiad mewn gwirionedd rhwng stori Heledd a thema sofraniaeth ceir gwyriad oddi wrth y berthynas gyffredin rhwng duwies sofraniaeth a'r brenin wrth wneud Heledd yn chwaer i Gynddylan yn hytrach nag yn wraig iddo. Cynigiwyd gan rai i'r traddodiad hwn am y ddau ddatblygu o'r cyfeiriad atynt yn y gerdd 'Marwnad Cynddylan':

<sup>107</sup> Mae'r modd y pwysleisir dŵch ei chroen i adlewyrchu ei chyflwr yn arwyddocaol iawn, yn enwedig o ystyried y pwysigrwydd a roddid ar groen gwyn arglwyddesau uchelwrol.

<sup>108</sup> CLIH, XI, 69.

<sup>109</sup> *Ibid.*, XI, 72.

Nid engis o'r ffosawd brawd ar ei chwaer.<sup>110</sup>

Er gwaethaf, os nad oblegid, yr holl ansicrwydd yn ei chylch y mae Heledd yn greadigaeth drawiadol ymysg merched ein Hengerdd. Hyd yn oed heb gynseiliau mytholeg na chefnidir hanesyddol cadarn, saif ar ei thraed ei hun yn gymeriad byw a chredadwy sy'n ennyn cydeimlad ei chynulleidfa. Hawdd yw cymhwyso sylw Proinsias Mac Cana am Mór Muman i gynnwys yr arwres hon:

... are we to regard Mór Muman as a historical personage of the early seventh century upon whom various attributes and association of a pagan goddess were foisted by later tradition, or ought we to see her as an unhistorical figure conceived in the traditional pattern of the goddess and set in a particular place and in a particular period of Irish history? Perhaps the difference is not of great importance except as a possible illustration of how particular tales like M[ór] M[uman] came by their characters, but, whatever the accepted answer, it appears to me that the investigation of the question is in itself illuminating.<sup>111</sup>

Gwelir thema sofraniaeth ar ei hamlycaf yn yr englyn a ganlyn lle dychmyga Heledd gyflwr ardal Gyrrhmwl petai'n wraig. Troir y sefyllfa 'sofranaidd' ar ei phen wrth i Heledd drosglwyddo ei symptomau hi ei hun i'r tir yn lle dioddef ar ei ran:

Bei gwreic Gyrrhmwl bydei gwan hediw.  
Bydei bann y disgwyr .  
Hi gyua; diua y gwyr.<sup>112</sup>

Mae'r sylw cynyddol a roddir i ddinistr dianghenraid rhyfel yn ein symud ymhellach oddi wrth gymdeithas arwrol Aneirin a Thalesin, nes ein bod yn wir, ym marn Meirion Pennar, yn troi cefn yn llwyr arno:

Thus with the poetry of Heledd we have the greatest poetic tribute to an heroic age, but also its farewell piece, for a woman's world was not heroic in the strictly ancient sense.<sup>113</sup>

Ac eto:

<sup>110</sup> *Ibid.*, XIII, 60.

<sup>111</sup> Mac Cana, *op. cit.*, t. 90.

<sup>112</sup> CLIH, XI, 76.

<sup>113</sup> Pennar, *op. cit.*, t. 73.

The unheroic world of a woman has become the focus of tragedy: it has come into its own.<sup>114</sup>

Ond cam naturiol yn natblygiad topos y wraig wylofus, alarus, a'r fam 'ae deigr ar y hamrant' yw cymeriad Heledd. Cyflwyna'r un dyletswyddau wrth alaru a chofio am eu brodyr ac ymfalchïo yn eu gallu milwrol:

Vym brodyr a'm tymyr a gwynaf.<sup>115</sup>

Yr hyn sy'n gosod Heledd ar wahân i'r merched eraill y cyfarfuom â hwy eisoes yw'r modd ingol o bersonol y cyfleir ei galar. Am y tro cyntaf clywn safbwynt y wraig ei hun; ei galar hi, ei hedifeirwch hi, ei balchder hi, a'i hofnau hi - oll yn ei geiriau hi ei hun. O gofio effeithiolrwydd un llinell erchyll megis y sôn am ddiodefaint mamau yn Y Gododdin y mae i osod cylch cyfan yng ngenau gwraig alarus rym emosiynol arbennig. Er mor frawychus yw'r darlun a gawn yn yr englynion am Eryr Eli ac Eryr Pengwern o gorff milwr yn cael ei bigo gan adar ysglyfaethus a gwraig yn galaru drosto, darlun ydyw yr ydym wedi ei weld - ac i raddau wedi cyfarwyddo ag ef - yn y canu arwrol cynharach. Cofiw'n linellau Y Gododdin:

kynt y vwyt y vrein  
noc y argyurein.<sup>116</sup>

kynt y gic e vleid nogyt e neithyawr.  
kynt e vud e vran nogyt e allawr.<sup>117</sup>

Gwyrddroad dramatig a chreulon ydyw'r newid safbwynt a geir yng Nghanu Heledd o'r haeriadau damcaniaethol hyn yn y trydydd person i'r person cyntaf a'r presennol. Mae Cynddylan wedi ei ladd ac mae'r eryr wrthi'n rhwygo'i gnawd a Heledd yn llygad-dyst i'r cyfan:

Eryr Eli, ban y lef [heno],  
Llewsei [ef] gwy[a]r llynn,  
Creu callon Kyndylan Wynn.<sup>118</sup>

<sup>114</sup> Ibid., t. 73

<sup>115</sup> Ibid., XI, 62c.

<sup>116</sup> CA, I, 15-16.

<sup>117</sup> Ibid., V, 52-3.

Golygfa waedlyd, gïaidd ydyw a hon wedi ei dwysáu gan berthynas Heledd â'r corff marw. Dwysáu'r sefyllfa a wna'r modd y cyfeiria dro ar ôl tro at gorff marw'i brawd fel 'cig':

Eidic am gic [a gerais].<sup>119</sup>

Eidic am gic Kynndylan.<sup>120</sup>

ac yna:

Eidic am gic a garaf.<sup>121</sup>

Manteisir yma ar y defnydd o ailadrodd a'r newid yn amser y ferf i gyfleu'r modd y mae Heledd yn araf sylweddoli ei cholled. Symudwn yn nes bob cam nes bod y cyfan o flaen llygaid Heledd ac felly ein llygaid ninnau, a sgrech iasol yr eryr yn merwino ein clustiau.

Cawn yn y cylch hwn hefyd ddefnydd bwriadol o ansoddeiriau'n ymwneud â theimlad neu emosiwn, megis 'diheint',<sup>122</sup> 'gwann',<sup>123</sup> a 'lletkynt',<sup>124</sup> na fyddid yn disgwyl eu clywed yng nghanu'r Cynfeirdd. Ond cawn hefyd ddisgrifiadau arwrol a delweddau grymus gan Heledd wrth iddi farwnadu ei brodyr:

Kynndylan, callon iäen gaeaf.<sup>125</sup>

Kynndylan, callon godeith wannwyn.<sup>126</sup>

Kynndylan, beuyrbwyll ovri,  
Kadwynawc kynndynyawc llu.<sup>127</sup>

<sup>118</sup> CLIH, XI, 34.

<sup>119</sup> *Ibid.*, XI, 40c.

<sup>120</sup> *Ibid.*, XI, 41c.

<sup>121</sup> *Ibid.*, XI, 42c.

<sup>122</sup> *Ibid.*, XI, 57a.

<sup>123</sup> *Ibid.*, XI, 58a.

<sup>124</sup> *Ibid.*, XI, 87a.

<sup>125</sup> *Ibid.*, XI, 3a.

<sup>126</sup> *Ibid.*, XI, 4a.

<sup>127</sup> *Ibid.*, XI, 5a-b.

Kyndylan, Gulhwch gynnifat llew,  
Bleid dilin disgynnyat,<sup>128</sup>

Byddai rhestr gyflawn o'r holl gyfeiriadau hyn at Gynddylan yn un faith iawn.

Clywn hefyd am Llemenig:

Arbennig lleithig, llurig ynghyhoedd,  
Aergi gwyth gwaithfuddig,  
Fflam daffar llachar Llemenig.<sup>129</sup>

Ac am eraill o'i brodyr meddir:

Pedwarpwnn broder a'm bu,  
Ac y bob un pen teulu.<sup>130</sup>

Pedwarpwnn terwyn o adwyn vrodyr.<sup>131</sup>

Sefyllfa debyg a geir yn 'Y Cyfoesi', yng nghanu Myrddin, lle clywir ef a Gwenddydd yn ymddiddan. Nid oes sôn am yr anghydfod a fu rhyngddynt yn 'Yr Afallennau', a daw hithau ato a'i gyfarch yn llawen. Fel y dengys Jarman:

... y mae pob pennill, bron, a leferir gan Weneddydd yn dechrau gyda chyfarchiad i Fyrddin, a'r cyfarchiad hwnnw'n aml yn cynnwys disgrifiad ohono. Ar y llaw arall, anaml y mae Myrddin yn cyfarch Gwenddydd yn uniongyrchol.<sup>132</sup>

Clywn ganddi:

Cyfarchaf i'm llallogan  
Merddin y chwedlau dysgogan.<sup>133</sup>

Kyfarchav ym llallogan Vyrddin  
Gur doeth darogenyd  
Kan hepkoryd o honau

<sup>128</sup> *Ibid.*, XI, 10a-b.

<sup>129</sup> *Ibid.*, XI, 113.

<sup>130</sup> *Ibid.*, XI, 104a-b.

<sup>131</sup> *Ibid.*, XI, 106a.

<sup>132</sup> Jarman, 'Chwedl Myrddin', t. 124.

<sup>133</sup> MA, 'Kyvoesi Myrddin a Gwendyd y Chuaer', t. 108, 2.

Pan au bun ganthau,<sup>134</sup>

Myrdin dec daunglot gywyt<sup>135</sup>

Caiff Gwenddydd hithau ei disgrifio hefyd:

Gwendydd meuneduc virein<sup>136</sup>

Y Wendyd waessaf unbyn<sup>137</sup>

Gwendyd wenn benn mynogi<sup>138</sup>

vy eirioes chwaer<sup>139</sup>

Nid yw'r enghreifftiau hyn, serch hynny, yn creu argraff gyffelyb i'r un a grëir o Fyrddin, a rhyfedd yw hynny ar un olwg o ystyried y rhan a chwery Gwenddydd wrth ysbrydoli ei ddawn ddaroganol ef.

Er ei bod yn llefaru o safbwynt merch, yr un - mewn gwirionedd - yw agwedd Heledd tuag at safle gwagedd o fewn ei chymdeithas â'r agwedd a geir gan Aneirin a Thaliesin. Trafodir hwy o hyd yng nghyswllt eu gallu i fagu arwyr:

Ny vagas y uam uab llyth<sup>140</sup>

Mae hi hefyd yn ategu'r syniad nad oedd gan wragedd unrhyw amgyffred, nac yn wir, ddiddordeb mewn materion milwrol:

Mi a Ffreuer a Medlan,  
Kyt ytuo cat ym pob mann,  
Ny'n tawr; ny ladawr an rann.<sup>141</sup>

<sup>134</sup> *Ibid.*, t. 108, 3.

<sup>135</sup> *Ibid.*, t. 112, 77.

<sup>136</sup> *Ibid.*, t. 114, 115.

<sup>137</sup> *Ibid.*, t. 114, 123.

<sup>138</sup> *Ibid.*, t. 114, 125.

<sup>139</sup> *Ibid.*, t. 115, 141.

<sup>140</sup> CLIH, XI, 84c.

<sup>141</sup> *Ibid.*, XI, 65.



Merched fel hwy y gwrthodai Gwên eu deffro. Mae hi hyd yn oed yn cyhuddo dynion o lwfrdra ac yn eu sarhau drwy eu cymharu â merched yn yr un modd ag y gwna Llywarch Hen:

Ny mat wisce baraf am y drwyn  
Gwr ny bo gwell no morwyn.<sup>142</sup>

Mae'r modd y mae Heledd yn diystyru gwragedd ei chymdeithas ar ei amlycaf yn ei hagwedd at ei chwiorydd. Ychydig o sylw a roddir iddynt yng nghorff y canu, a thra gwahanol yw'r marwnadau a gânt hwy o gymharu â'r sylw a gaiff ei brodyr. 'Gwrthfarwnad' a genir i Ffreuer ym marn Jenny Rowland,<sup>143</sup> ac nid oes fawr o ymdeimlad o golled ychwaith yn yr englynion i'w chwiorydd eraill:

Amser i buant addfwyn,  
I cerid merched Cyndrwyn,  
Heledd, Gwladus, a Gwenddwyn.

Chwiorydd a'm bu diddan.  
Mi a'u collais oll achlan,  
Ffreuer, Medwyl, a Medlan.

Chwiorydd a'm bu hefyd,  
Mi a'u collais oll i gyd,  
Gwledyr, Meisyr, a Cheinfryd.<sup>144</sup>

Di-fflach a llipa, ar yr olwg gyntaf, yw'r unig ddau ansoddair a geir gan Heledd wrth iddi sôn am ei chwiorydd, o'u cymharu â'i darlun o'i brodyr. Diddorol iawn, fodd bynnag, yw gweld mai addfwynder, sef bonedd,<sup>145</sup> a diddanwch eu chwiorydd sy'n ennyn mawl Heledd yma. O ystyried pwysigrwydd y nodweddion hyn ar ferched yn llysoedd y Gogynfeirdd mae arwyddocâd arbennig i'w canfod wrth foli merched yn y cyfnod cynnar hwn. Ymddengys felly fod safonau delfrydol y wraig uchelwrol wedi

<sup>142</sup> *Ibid.*, XI, 13.

<sup>143</sup> Rowland, *op. cit.*, t. 160.

<sup>144</sup> CLIH, XI, 107-9.

<sup>145</sup> Gweler GPC d.g. lle rhoddir 'anrhydeddus' yn un o ystyron yr ansoddair hwn. Cawn enghraifft debyg yn chwedl Peredur: 'ac yn odeu ardeiryw ae uwrw ae lad. os y uwrw ryderyw eiryf gwr mwyn auyd arnaw gan y marchawc ae aglot tragwydaw y arthur ae vilwyr', J. Gwenogvryn Evans (gol.), *The White Book Mabinogion* (Pwllheli, 1907), 125.4-5. 'Gentleman, one of nobility' a nodir fel ystyr yr enghraifft hon o 'ŵr mwyn' yn GPC t. 1695.

eu pennu'n gynnar iawn yn ein traddodiad llenyddol er na cheir cyfeiriadau mynych atynt yng nghanu arwrol yr Hengerdd.

Serch hynny, negyddol a diymadferth ar y cyfan yw'r darlun a gawn gan Heledd o'i chwiorydd. Tra bod colli ei brodyr yn peri iddi gwyno ac wylofain, dywed i'w chwiorydd deilyngu cariad eu cymdeithas - tra oeddent yn fyw. Ni haeddant alar. Nid yw eu marwolaeth hwythau'n golled i neb wrth ochr trychineb enbyd marwolaeth Cynddylan, ac y maent oll yn well eu byd yn y bedd nag yn fyw heb eu brodyr i'w hamddiffyn a'u cynnal. Pwysleisio'r sefyllfa adfydus a'i chyfyngder hi ei hun a wna Heledd wrth genfigennu wrth angau Ffreuer, ac mae'r ymatal hwn yn peri dwyster pellach o'i gyfosod â'r dagrau sydd ar adegau'n drech na hi:

Nyt angheu Ffreuer a'm de heno,  
Am damorth brodyre  
Duhunaf wylaf uore.

Nyt angheu Ffreuer a'm gwna heint,  
O dechreu nos hyt deweint,  
Duhunaf wylaf bylgeint.

Nyt angheu Ffreuer a'm tremyn heno,  
A'm gwna grudyeu melyn,  
A choch dagreu dros erchwyn.

Nyt angheu Ffreuer a erwinaf heno,  
Namyn my hun yn wan glaf,  
Vym brodyr a'm tymyr a gwynaf.<sup>146</sup>

Mae Heledd yma'n dioddef yn emosiynol ac yn gorfforol oherwydd marwolaeth ei brodyr. Gwelwn effaith y golled ar ei hiechyd, ac ar ei hiechyd meddyliol. Aeth yn "orfwylllog", yn ôl Ifor Williams, wrth iddi grwydro o amgylch beddau eu brodyr ac adfeilion bro'i mebyd.<sup>147</sup> Mae Heledd ei hun yn cyfeirio at ei chrwydriadau diamcan yn ei galar:

<sup>146</sup> *Ibid.*, XI, 59-62.

<sup>147</sup> *Ibid.*, t. lxiv. Tynn Ifor Williams hefyd ein sylw at orffwylledd mam Culhwch: 'Ac o'r awr y delis beichiogi, yd aeth hitheu ygwylldawc heb dygredu anhed. Pan dyuu y thymp idi, ef a dyuu y iawn bwyll iti.' CO, 5-7.

Heled hwyedic y'm gelwir.  
O Duw! Padiw yt rodir  
Meirch vym bro[dyr] ac eu tir?

Heled hwydeic a'm hyueirch,  
"O Duw! Padiw yt rodir gurumseirch  
Kyndylan, a'e bedwardeg meirch?"<sup>148</sup>

A chlywsom hi'n gofyn uwch Stafell Gynddylan:

Namyn Duw, pwy a'm dyry pwyll?<sup>149</sup>

Gwelsom eisoes uchod y traddodiad am dduwiesau sofraniaeth Iwerddon yn crwydro'r wlad yn eu gorffwylledd, a dylanwad posibl y traddodiad hwn ar gymeriad Heledd. Ond gwêl Jenny Rowland hefyd debygrwydd rhwng y crwydro a'r gorffwylledd hwn a'r traddodiad Gwyddelig o wragedd yn galaru:

Madness appears to be an aspect of the goddess bereft in some Irish instances, and avoidance of settlements and wandering alone are typical of Celtic madmen and wild men (cf. Suibhne, Owain). But it has been shown that in Irish tradition mourning women have striking characteristics in common with the *gealta*, probably because in both cases their state places them apart from society.<sup>150</sup>

Rhodddwyd cryn sylw i wallgofrwydd neu salwch meddyliol merched mewn llenyddiaeth - yn gymeriadau ac yn awduron, yn enwedig yn llenyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a bu llawer o ddamcaniaethu ynglŷn ag achos y gwallgofrwydd hwnnw.<sup>151</sup> Dadleuwyd mai ymateb i rwystrau a hualau cymdeithas oedd y gwallgofrwydd hwn, a chanlyniad gwrthdaro rhwng creadigrwydd llenyddol a rôl disgwylidig y ferch o fewn y gymdeithas honno:

<sup>148</sup> *Ibid.*, XI, 78-9.

<sup>149</sup> *Ibid.*, XI, 19c.

<sup>150</sup> Rowland, *op. cit.*, t. 165.

<sup>151</sup> Gweler er enghraifft Sandra M. Gilbert a Susan Guber, *The Madwoman in the Attic: The Woman Writer and the Nineteenth-Century Literary Imagination* (New Haven, 1979); Jane M. Ussher, *Women's Madness: Misogyny or Mental Illness?* (Hemel Hempstead, 1991); Denise Russell, *Women, Madness and Medicine* (Malden MA, 1995).

Indeed, much of the poetry and the fiction written by women conjures up this mad creature so that female authors can come to terms with their own keen sense of the discrepancies between what they are and what they are supposed to be.<sup>152</sup>

Nid ei anhawster wrth ddygymod â'i rôl fel merch o fewn ei chymdeithas sy'n peri gwallgofrwydd Heledd, ond yn hytrach ei gofid o ganfod y gymdeithas honno wedi ei dinistrio a'i dileu. Y mae hi wedi ei gwahanu'n barhaol oddi wrth ei chymdeithas mewn modd ysgytwol. Roedd yr eithrio cymdeithasol hwn yn ddigon ynddo'i hun i esbonio gwewyr meddwl cymeriadau llenyddol a'u hawduron ym marn Branimir Rieger:

Is literary madness similar to the clinical madness of psychology? Or is it closer to anomie, a sociological term for a type of madness in which individuals are alienated from society?<sup>153</sup>

Mae astudiaethau seicolegwyr wrth geisio cynorthwyo pobl i ddygymod â thrychinebau mawr yn dangos mai colli eu cymdeithas yw'r ergyd fwyaf i iechyd meddyliol y rhai sy'n goroesi:

Some of the most damaging aspects of a disaster are disruptions in social support networks ... and community cohesion. Extreme disasters ... are viewed as "a blow to the tissues of social life that damages the bonds linking people together and impairs the prevailing sense of community" with the clinical distress of victims "as much a reaction to the shock of being separated from meaningful community bases as to the actual disaster itself".<sup>154</sup>

Onid naturiol fyddai i Heledd ymateb yn y modd yma wrth weld y diffeithwch diamgyffred hwn o'i blaen: ei chartref yn ddeilchion; ei theulu a'i chyfeillion a holl gymdeithas ei llys wedi eu lladd; a brain yn bwyta'i brawd.

<sup>152</sup> Gilbert a Guber, *op. cit.*, t. 78.

<sup>153</sup> Branimir M. Rieger (gol.), *Dionysius in Literature: Essays on Literary Madness* (Bowling Green, 1994), t. 1.

<sup>154</sup> Mark S. Slazer a Leonard Bickman, 'The Short- and Long-Term Psychological Impact of Disasters: Implications for Mental Health Interventions and Policy', *Response to Disaster: Psychological, Community, and Ecological Approaches*, Richard Gist a Bernard Lubin (gol.), (Ann Arbor, MI, 1999), t. 74.

Ond at hynny, clywn Heledd yn ei beio'i hun am y gyflafan.<sup>155</sup>

Eglwysseu Bassa ynt ffraeth heno.  
 Vyn tauawt a'e gwnaeth.  
 Rud ynt wy, rwy vy hiraeth.<sup>156</sup>

Gwynn y byt, Ffreuer, mor yw diheint heno,  
 Gwedy colli kenuent.  
 O anffawt vyn tauawt yf [l]lesseint.<sup>157</sup>

Brodyr a'm bwyat a duc Duw ragof.  
 Vy anffawt a'e goruc.  
 Ny obrynynt ffaw yr ffuc.<sup>158</sup>

Clywsom euogrwydd tebyg o enau Llywarch Hen hefyd:

Pedwarneib ar hugeint a ueithyeint vygknawt  
 Drwy vyn tauawt lledesseint.  
 Da dyuot vygcot colledeint.<sup>159</sup>

Ni wyddom i sicrwydd yr hanes y tu ôl i Ganu Heledd ac felly anodd yw deall pam ei bod yn ei hystyried ei hun, a'i thafod, yn gyfrifol am y drychineb. Awgryma Jenny Rowland mai Heledd yn edliw dewrder a gallu milrwol ei brawd i'w gŵr a arweiniodd at y frwydr, ac ati hi'n cael ei gadael ar ôl yn yr adfeilion:

... it is often a woman's role in saga, both Germanic and Celtic, to initiate warfare by reminding her husband of wrongs unavenged and intimating that his inaction is the result of cowardice or laziness. Heledd's unfortunate tongue can be explained if while in the Mercian court she made a taunting reference to wrongs not fully satisfied by the peace settlement or an unwise boast about Cynddylan's prowess.<sup>160</sup>

Tybed ai rhywbeth tebyg i'w beirniadaeth o lwfrdra'i brawd claf a sbardunodd y frwydr:

<sup>155</sup> Cofier hefyd eiriau Branwen: "Oy a uab Duw," heb hi, "gwae ui o'm ganedigaeth. Da a dwy ynys a diffeithwyt o'm achaws i." PKM, t. 45.

<sup>156</sup> CLIH, XI, 46.

<sup>157</sup> *Ibid.*, XI, 57.

<sup>158</sup> *Ibid.*, XI, 86.

<sup>159</sup> *Ibid.*, I, 28.

<sup>160</sup> Rowland, *op. cit.*, tt. 143-4.

Ny mat wisce briger nyw dirper o wr  
 Yn diruawr gywryssed.  
 Nyt oed lleuawr vym broder.<sup>161</sup>

Y mae yn ogystal yn gosod y sarhad pennaf ar y milwyr a gefnodd ar Hedyn ar faes y gad:

Meuyl barueu madeu Hedyn<sup>162</sup>

Ond mae Heledd hefyd yn beio'i hanffawd, ac anffawd ei thafod am yr hyn a ddigwyddodd i Lys Pengwern. Tynged yw'r anffawd hwn yn ôl Ifor Williams, a gwêl yr un grymoedd ar waith yng Nghanu Llywarch Hen:

O dan y cyfan i gyd y cysail yw cred mewn Tynged - neu, os mynnwch, dyna un o'r cynseiliau, a'r llall yw'r gred fod balchder trahaus yn arwain i gwymp.<sup>163</sup>

Gwêl ef Heledd yn cyfaddef i'w 'balchder trahaus' mewn dyfyniad a gawsom uchod, wrth iddi honni nad oedd hi na'i chwirydd yn poeni dim wrth weld brwydro o'u hamgylch gan y gwyddent na fyddent hwy'n cael eu lladd.<sup>164</sup> Gwelwn ei balchder hefyd, meddai, wrth iddi wrthod codi ei choes fel arwydd o barch:<sup>165</sup>

Amser y bu[u]m vras vwyt,  
 Ny dyrchafwn vy mordwyt  
 Yr gwr a gwynei, claf gornwyt.<sup>166</sup>

Gwelwyd y traha hwn yn arwain at drallod yn eglur iawn yn y gerdd 'Boddi Maes Gwyddneu' lle cawn hanes Cantre'r Gwaelod yn diflannu o dan y dŵr oherwydd ymddygiad y trigolion:<sup>167</sup>

<sup>161</sup> CLIH, XI, 100.

<sup>162</sup> *Ibid.*, XI, 88c.

<sup>163</sup> *Ibid.*, t. lxvi.

<sup>164</sup> *Ibid.*, XI, 65.

<sup>165</sup> Rowland, *op. cit.*, t. 609.

<sup>166</sup> CLIH, XI, 98.

gnawd guydi traha trangc hir.<sup>168</sup>

gnawg guydi traha attreguch.<sup>169</sup>

G. G. traha tramguit.<sup>170</sup>

gnawd guydi gormot eissev.<sup>171</sup>

gnawd guydi traha tranc pell.<sup>172</sup>

Ac unwaith eto cawn mai merch, sef Mererid, fu'n gyfrifol am y drychineb:

Boed emendiceid y morvin  
ae hellygaut guydi cvin.  
finaun wenestir mor terruin.

Boed emendiceid y vachteith.  
ae. golligaut guydi gueith.  
finaun. wenestir mor diffeith.<sup>173</sup>

Clywn am ferched yn y canu arwrol hwn pan fod ganddynt rôl weithredol yn y digwyddiadau - wrth ollwng dŵr y môr i foddï tiriogaeth neu wrth achosi cwmp llys. Ac oni ellir dweud yr un peth am y cymeriadau gwrywaidd? Cyffro a digwyddiadau cynhyrfus sy'n ennyn diddordeb y Cynfeirdd a'u cynulleidfaoedd yn yr oes ryfelgar hon. Gwrhydri a gallu arbennig wrth arfau a folir fel arfer ar wŷr a frysiai i flaen y gad, ond cawn hefyd sôn am ddynion yn osgoi maes y frwydr. Trwy annog ei feibion bob yn un i fynd i ryfela yr achosodd Llywarch laddfa, gan ddileu ei linach ef ei hun. Nid oedd angen medr wrth gleddyf na gwaywffon i greu cyflafan o'r math hwn. Cam

<sup>167</sup> Gweler Rachel Bromwich, 'Cantre'r Gwaelod and Ker-Is', *The Early Cultures of North-West Europe*, gol. Sir Cyril Fox a Bruce Dickens (Cambridge, 1950).

<sup>168</sup> LIDC, 39, 12.

<sup>169</sup> *Ibid.*, 39, 15.

<sup>170</sup> *Ibid.*, 39, 18.

<sup>171</sup> *Ibid.*, 39, 21.

<sup>172</sup> *Ibid.*, 39, 24.

<sup>173</sup> *Ibid.*, 39, 4-9.

bychan felly oedd gosod merch yn anuniongyrchol gyfrifol am ddinistr a thywallt gwaed. Ni wyddom am y traddodiad y tu ôl i gymeriad Heledd, ond roedd gosod cylch o ganu yn ei genau hi yn wyriad effeithiol.

Mae mwy nag un wedi cymharu ei hymateb hi i gyflwr llys Pengwern â'r hyn a geir gan y sylwedydd ar aelwyd Rheged. Medd Ifor Williams:

Nid oes ddagrau na sôn am ddeigryn uwch aelwyd Rheged. Ond llifa'r dagrau ar ruddiau Heledd wrth edrych ar ei chartref, a chlywir *w* ei chwyno ym mhob gair o'r llinell,  
 Wylaf wers : tawaf wedy.<sup>174</sup>

Ategir hyn gan Meirion Pennar:

Yet, the very helplessness of Heledd in a situation where the menfolk, upon whose shoulders lies the onus of survival, have been taken away from her makes her lament over the hall of Cynddylan all the more poignant than its counterpart in the Llywarch saga, 'Diffaith Aelwyd Rheged'. The elegy of Heledd shows the poet's disconcertment. In 'Diffaith Aelwyd Rheged' it is a man who speaks, a man in a heroic age. He laments the passing of the communal feasting, the clash of arms, the generous bestowal of gifts. She, however, bewails the loss of domestic well-being, warmth of the fire the comfort of her bed, the light of the candle, the side of a companion, the shield of her protector; the song of the bard.<sup>175</sup>

Galar personol unigolyn a geir yn 'Stafell Gynddylan' o'i gymharu â'r cofio mwy ffurfiol am lys Rheged. Yn lle mynd ati i gofnodi a chynnal y cof am lys delfrydol a'i gymdeithas a'i arferion canmoladwy, yn ddewrder ac yn haelioni, manylir ar y pethau a'r unigolion y bydd eu colled yn ergyd uniongyrchol i'r llefarydd. Tynnir y cyfan yn nes hefyd wrth i Heledd gyfarch y llys ei hun. Serch hynny, y mae wedi eu hymblethu i'r meddyliau teimladol hyn gyfeiriadau at 'deulu', 'gwen gyweithyd', 'ketwyr bodawc' a 'mawr ymgyuyrdan' y llys, a chofiwn hefyd y statws a fu i Heledd ar un adeg o fewn y muriau hyn:

Stauell Gynddylan ys oergei heno,  
 Gwedy y[r] parch a'm buei,

<sup>174</sup> CLIH, t. lxi.

<sup>175</sup> Pennar, *op.cit.*, tt. 69-70.



Heb wyr, heb wraged a'e katwei.<sup>176</sup>

Ei chartref - ei chartref fel tywysoges - ydoedd, ac ni ellir disgwyl gwrthrychedd bardd llys ganddi uwch ei adfeilion.

Mae grym dramatig hefyd i'r modd y mae hi'n gwrthod marwnadu ei chwiorydd. Nid diffyg parch nac ymdeimlad o golled a geir yma, ond ymgais bwriadol i bwysleisio ymhellach y golled ar ôl Cynddylan. Yn wyneb ei angau ef roedd pob colled arall yn ddibwys. Pa wahaniaeth fod y llys wedi disgyn a'r gymdeithas wedi darfod pan nad oedd Cynddelw yn fyw i'w cynnal a'u hamddiffyn? Clywn Heledd yn ogystal ag yn diystyru ac yn cenfigennu marwolaeth ei chwiorydd, yn deisyfu ei hangau hi ei hun yn hytrach na byw heb ei brawd - gmewn marwnadau:

Wi a angheu, byr y'm gat?<sup>177</sup>

Marw vy glyw, buw mu hunan.<sup>178</sup>

Rhydd yr emosiwn cignoeth a'r ddrama a gydblethir yn y cylch hwn inni ganu soffistigedig ac ymdriniaeth aeddfed o alar a chanlyniadau rhyfel.

Byd y glewion oedd byd yr Hengerdd - byd milwyr, arwyr a rhai dawnus wrth drin arfau. Cawn yn y canu hwn ddarluniau byw o erchyllderau rhyfel sy'n peri cryn anesmwythyd wrth eu darllen heddiw, a ninnau ymhell o faes y gad a heb fod yn adnabod y gwŷr a laddwyd yno. Nid oedd y merched yn rhan o'r brwydro hyn a gofnodwyd gan y beirdd, ac er mwyn darlunio effeithiau'r ymladd y crybwyllwyd hwy gan amlaf. Dyma sylwadau Meirion Pennar:

Peripheral and pathetic is the passive world of women; they are mentioned by the way as wooed and wived, again in passing as mourners whose state reflects the ebb and tide of the affairs of heroes.<sup>179</sup>

<sup>176</sup> CLIH, XI, 29.

<sup>177</sup> *Ibid.*, XI, 23c.

<sup>178</sup> *Ibid.*, XI, 27c.

<sup>179</sup> Meirion Pennar, 'Woman in Medieval Welsh Literature: An Examination of Some Literary Attitudes before 1500', traethawd D.Phil. Prifysgol Rhydychen, 1975, t. 75.

Ond mewn digwyddiadau a gweithredoedd, a gweithredoedd arwrol yn arbennig, yr oedd didordeb pennaf y Cynfeirdd, a chlywn ganddynt am ferched, fel y dynion, pan fod iddynt rôl yn y digwyddiadau hynny - merched megis Heledd, Mererid, Efrddyl a merch Eudaf Hir, a oedd â rhyw ran yn y gweithrediadau. Pan ddôi merched yn rhan o'r digwyddiadau fe ddeuent hefyd yn rhan o'r canu.

Cofiw'n am y ferch a ysbardunodd Bradwen i ymladd fel tri dyn ar faes y frwydr, a'r ferch yr oedd un arall o osgordd y Gododdin yn 'ddiffun' o'i blaen, ac efallai y dylem ofyn a oedd gwreiddiau'r syniad o serch cwrtais yn datblygu'n araf bach yng Nghymru ar adeg y canu arwrol hwn. Gellir ystyried mai syniad tebyg, yn y bôn, a oedd wrth wraidd mynd i frwydro rhag ennyn sarhad gwragedd, fel Heledd a'r anghysbell wrach, ac ymladd er ennill eu hedmygedd a'u ffafir. Mae'n bosibl y cawn egin y canu serch diweddarach hefyd yn y cyfeiriad a welsom at ferch yn dioddef o 'heint' serch yn y canu gwirebol cynnar.

Mae disgrifiad Heledd o'i chwiorydd bonheddig a diddan yn awgrym clir fod safonau delfrydol eisoes wedi eu ffurfio wrth foli gwragedd uchelwrol yn yr oes hon, a gan mai yn y llys y gwelwyd y gwragedd hyn y mae'n naturiol mai rhinweddau llysaidd a folid arnynt. Parhau i ddyrchafu a chynnal y safonau hyn a wnâi beirdd diweddarach wrth gyfarch arglwyddesau, megis yr arglwyddi. Yn yr un modd ag y molid uchelwyr yn ôl rhinweddau disgwylidig arwyr byddin y Gododdin, yn wŷr cadarn a charedig, molid eu gwragedd, megis chwiorydd Heledd, am eu bonedd a'u diddanwch. Ymddengys felly fod y beirdd yn ymwybodol o'r drefn ddisgwylidig wrth foli arglwyddes y llys, a'u bod yn gyfarwydd â thraddodiad o ganu nas cadwyd i ni gan gopiwyr y canu arwrol.

## II. Y GOGYNFEIRDD

## 1. CANU RHYFEL

Er y gwelir lle amlycach i wragedd yng ngherddi'r Gogynfeirdd ac er iddynt gyflwyno agwedd a syniadaeth gymdeithasol newydd, ni chefnir yn llwyr ar feddylfryd cyfnod y Cynfeirdd. Parheir i ddyrchafu'r un gwerthoedd arwrol ac uchelwrol a'u haddasu drwy eu cyfuno â delweddau a delfrydau newydd oes y llys a serch chwrtais. Yng ngwaith y Gogynfeirdd cynharaf y ceir y berthynas agosaf â milwriaeth ac arwriaeth byd yr Hengerdd. Gwelir hyn ar ei amlycaf yn y ddau Orhoffedd o waith Gwalchmai a Hywel ab Owain Gwynedd sydd gennym ar glawr. Cyfunir ynddynt hwy y bri a roddid ar allu milwrol a dewrder ar faes y gad a'r diddordeb cynyddol a welwyd ym myd gwaraidd a chwrtais y llys; byd a gynhwysai wragedd.

'The two gorhoffeddau are explicit celebrations of aristocratic warrior society and its values', meddai Helen Fulton.<sup>1</sup> Ond nid mawl cyffredinol i ryfelgarwch a rhestru arwyr a geir ynddynt; mae i'r beirdd eu hunain le amlwg yn y canu ac yn y brwydro:

Mi ydwyf eurddeddf ddiodyn yn nhrin,  
Mi ydwyf llew rhag llu, lluch fy ngorddin.  
Gorwyliais nosau yn achadw ffin  
Gorloes rydieu dyfr Dygen Freiddin.

.....

Lluch fy nghleddyf, fy ngheiniaw ni llwydd,  
Ni lluddiaf i'm llaw lladd niss gwehyr.

.....

Dybrysais innau yn aroloedd i Eingl:  
Dyfrydedd yn Lloegr rhag llwybr fy llaw!<sup>2</sup>

Gwneuthum â gwth gwayw gwaith ardderchedd.  
I rwng glyw Powys a glwys Wynedd,<sup>3</sup>

<sup>1</sup> Helen Fulton, *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (Cardiff, 1989), t. 89.

<sup>2</sup> GMB 9.3-6, 75-6, 127-8 (Gwalchmai).

<sup>3</sup> GLIF 6.21-2 (Hywel ab Owain Gwynedd).

Y mae Gwalchmai hyd yn oed yn ei enwi ei hun ac yn haeru ei fod yn enwog am ei elyniaeth tuag at y Saeson:

Gwalchmai y'm gelwir, gelyn y Saeson.

.....

Gwalchmai y'm gelwir, gâl Edwin ac Eingl,<sup>4</sup>

Cyfeiria Hywel hefyd ato'i hun fel 'trachas Lloegyr'.<sup>5</sup> Cawn ymffrost tebyg gan Lywarch ap Llywelyn, Prydydd y Moch, yn ddiweddarach yn ei awdl o fawl i Wenllian ferch Hywel o Wynllŵg:

Llywarch y'm gelwir, llu dyganre,  
Lloegr ddistryw, ddistrach, ddilawch ddile;  
Dyfnwyd fy ysgwyd yn ysgardde,  
Dyfnant ysgarant gwayw o'i hasgre.  
Y ffordd yd gerddwyf, gwrdd yd gre - branes,  
Gŵr o farannwg yn eu harfle.  
Llawer uchenaid i'm rhaid dyre,  
Llwybrant o'm nwyfiant uch no'r nwyfre.<sup>6</sup>

Mae teimladau gwrth-Seisnig yn gyffredin yng ngwaith y Gogynfeirdd, a diddorol, fel y dengys Jane Ann Cousins, yw:

fod y syniad o ymrafael â'r Saeson neu'r Bryneich yn un a gynhelir yn gyson gan y beirdd, yn groes i'r dystiolaeth hanesyddol sy'n dangos bod y Cymry yn fynych ar delerau da â'r Saeson, a'u bod yn rhyfela yn erbyn eu cyd-Gymry cyn amled ag yn erbyn y Saeson.<sup>7</sup>

Ond cawn yn Nghorhoffedd Gwalchmai ddarlun erchyll a gwaedlyd o ryfel, darlun sy'n nes ei naws at ganu'r Cynfeirdd:

Gwelais angerdd rhi rhag Craig Gwyddy

<sup>4</sup> GMB 9.39, 51.

<sup>5</sup> GLIF 6.3.

<sup>6</sup> GLILI 13.13-20.

<sup>7</sup> Jane Ann Cousins, 'Moliant beirdd gyda sylw arbennig i waith y Gogynfeirdd', traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1978, t. 46.

Pan amwyth udd Môn maws o'i dymyr.  
 Gwelais yn Rhuddlan rythr fflam rhag Owain  
 A chalanedd rhain a rhudd fehyr;  
 Gwelais yno ym mro yn amrygyr:  
 Tewi gan llyw a wŷr o anystyr.

.....

Endewais-i eryr ar ei giniaw dynin,  
 Dyraith Gwynedd gwyar iddaw.<sup>8</sup>

Ymffrostia Cynddelw Brydydd Mawr yn ei allu milwrol hefyd yn ei Rieingerdd  
 i Efa ferch Madog ap Maredudd:

Bardd Llywelyn hael hud ym gelwir,  
 Geleurudd gelyn i bob enwir;  
 Enwawg i'm ceinioes y'm ceinmygir,  
 Anwar fy lluchfar oni'm llochir;<sup>9</sup>

Ond mewn cyfran fechan iawn o'i rieingerddi y mae Cynddelw yn dewis canolbwyntio ar ei allu milwrol ac, yn wir, ar ryfelgarwch yn gyffredinol. Pedair llinell yn unig o'r cant tri deg a phedair yn y gerdd hon sy'n ymwneud â milwriaeth o gymharu ag wyth llinell Prydydd y Moch yn ei awdl o wyth llinell ar ddeg ar hugain, ac â Gorhoffedd Gwalchmai sy'n ymylu ar fod yn ganu rhyfel pur. Y mae bron pob caniad o gerdd Gwalchmai yn agor â chyfeiriad at frwydro:

Llachar fy nghleddau, lluch ydd ardwy - glew,  
 Llewychedig aur ar fy nghylchwy.

.....

Llachar fy nghleddyf, lluch ei annwyd - yng nghad,  
 Llewychedig aur ar fy ysgwyd.

.....

Gwaedraidd fy nghleddyf a godrudd - yng nghad,  
 Yng nghyfranc â Lloegr llawr nid ymgudd!

.....

Achubais rhag llu lliwed a [ ]

<sup>8</sup> GMB 9.77-82, 123-4.

<sup>9</sup> GCBM i 5.125-8.

.....  
 Angerddawl fy march, mawr ys profais<sup>10</sup>

Gwelir ef hyd yn oed yn cloi trwy ateb ei gwestiwn ei hun:

Ac wrthyf cyferchynt, 'O deyrnedd Prydain  
 Pa wron heilin haelaf ysydd?'  
 A minnau a'm cyhudd heb gywilydd  
 Ef ydoedd Owain hir, hywystyl bedydd!<sup>11</sup>

Ac yn dâl am ei ffyddlondeb a'i eiriau teg caiff 'fun fenwawl ddefnydd',<sup>12</sup> ond ni cheir darlun mor fanwl ohoni hi ag a geir o Owain Gwynedd, sy'n ddelfryd o arwr dewr a hael:

Addwyn yfais-i fedd a'i fenestri o aur  
 Yn llys Owain hir hŷwr ddlidau.  
 Dy-m-gwallofied ei win o'i wen addaf udd  
 Yn Arfonig gaer ger Hiriell bau.  
 Derllesid i'm llaw llad i'm goddau  
 Yng Ngwaith Maes Carnedd can frehyrau.  
 Dyhepgyr alaf, elyf ddoniau,  
 Dychlud clod Brydain bedrydannau.  
 Dywystlir iddaw o Ddin Alclud gogledd,  
 Draig yw yn nyhedd draw yn neu.<sup>13</sup>

Canu arwrol yw hwn a cheir cyfeiriadau cyson ynddo at Owain,<sup>14</sup> fe'i enwir ddeg o weithiau, a cheir nifer cyffelyb o gyfeiriadau ato'n anuniongyrchol yng nghyswllt ei deulu neu ei dir.<sup>15</sup> Awgryma hyn mai cerdd o fawl i'w noddwr yw'r gerdd hon o eiddo Gwalchmai yn y bôn.

Clywir mawl tebyg i Owain ab Urien gan Cynddelw yn ei Rieingerdd i Efa:

Praidd preiddwyr preiddwr yng nghynired,  
 Pargoch cad gadarn rac calchdöed,

<sup>10</sup> GMB 9.19-20, 33-4, 43-4, 69, 97.

<sup>11</sup> *Ibid.* 9.157-60.

<sup>12</sup> *Ibid.* 9.161.

<sup>13</sup> *Ibid.* 9.137-46.

<sup>14</sup> *Ibid.* 9.17, 37, 47, 71, 79, 101, 104, 125, 138, 160.

<sup>15</sup> *Ibid.* 9.40, 45, 50, 54, 78, 84, 86, 106, 120; gweler hefyd t. 194.

Pering Cynferching cyn no'i fyned:  
 Gwedy hael Owain, hawl orddifed,  
 Hwyl ddiwyl, ddiiofn am ei drefred.  
 Neud hwy a'i gofwy (nid gofyged!)  
 Gofalon eilon aelwyd Reged.<sup>16</sup>

Ond mae'r ymffrost rhyfel hwn yn gymaint rhan o ganu'r beirdd i wragedd ag ydyw eu hymffrost serch. Rhan o'u cymeriad barddol ydyw fel y noda Helen Fulton:

Gwalchmai and Hywel ... portray themselves as lovers as an integral part of their warrior personae'.<sup>17</sup>

Gwelwn y beirdd yn creu rôl iddynt eu hunain fel cymeriadau arwrol o fewn y cerddi ymffrost hyn, ac mae'r darlun ohonynt fel carwyr llwyddiannus yn ychwanegu at y portread delfrydol hwn.

Ceisiwyd olrhain y canu ymffrostgar hwn yn ôl drwy froliant cyfansoddwyr chanson de geste yn Ffrainc yr oesoedd canol, canu'r Skaldiaid, y gab cyfandirol a'r ymffrost a geir yng Nghymru yn Llyfr Taliesin.<sup>18</sup>

wyf kerdolyat. wyf keinyat claer.  
 wyf dur wyf dryw wyf saer wyf syw.  
 wyf sarff wyf serch yd ymgestaf.  
 Nyt wyf vard syn yn aryfredaw.<sup>19</sup>

I'r bardd a ganodd y gerdd y dyfynnwyd ohoni yma yr ymson ymffrost oedd 'y cyfrwng hwylusaf a mwyaf effeithiol i arddangos ei alluoedd rhyfeddol', medd Marged Haycock.<sup>20</sup> Y mae'r Gorhoffedd felly'n deillio o draddodiad brodorol o ganu, a gellir ei gyfrif yn ffurf â'i wreiddiau'n ddwfn yn y canu arwrol a ddatgenid gerbron llys yn llawn o ryfelwyr. Wrth i gymdeithas newid ac wrth i'r llys ddatblygu'n ganolbwynt iddi, tyfodd dosbarth newydd o farchogion â'u

<sup>16</sup> GCBM i 5.64-70.

<sup>17</sup> Fulton, *op. cit.*, t. 89.

<sup>18</sup> Gweler Kathleen Ann Evans, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i rianedd a gwagedd', traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1972, tt. 66-80.

<sup>19</sup> BT, Buarth beird, 7.17-20.

<sup>20</sup> Haycock, *op. cit.*, t. 55.



bryd hwythau hefyd ar brofi eu dewrder a'u gallu milwrol, megis trwy gystadlu mewn twrnameintiau. Noda Sioned Davies:

Rhan o'r newid hwn oedd ymddangosiad dosbarth cymdeithasol newydd - y marchogion urddol - a arddelai frawdoliaeth â'i gilydd trwy gyfrwng delfrydau a defodau cydnabyddedig chevalerie (sifalri). Dechreuodd y dosbarth milwrol proffesiynol hwn fagu cymeriad cwrtais a moesau bonheddig. Datblygodd confensiynau arbennig, er enghraifft y twrnameint, lle gallai'r marchog arddangos ei wrhydri, a rhoddwyd pwyslais ar ddelfrydau cwrtais, sef rhestr o rinweddau, yn cynnwys dewrder, ffyddlondeb, anrhydedd, parch at ferched.<sup>21</sup>

Eu gosod eu hunain mewn cyd-destun gwrywaidd oedd bwriad y beirdd drwy gyfrwng eu hymffrost, yn union fel arwyr oes yr Hengerdd a marchogion llenyddiaeth courtoisie. Ceir y cyd-destun gwrywaidd hwn yng nghanu serch y trwbawriaid hefyd: dyma a noda Simon Gaunt:

... even in the many texts where troubadours apparently address women, they may well be more concerned with their relationship with other men ... for most troubadours only the male view of love was interesting, that their love poetry examines male emotions, never those of women, masculine relationships, rarely relationships between the sexes, and that more often than not their singing was intended for the ears of other men and only rarely for the ostensible dedicatee, the lady. In other words, the troubadour love lyric is usually not for a woman but a representation of a man, talking about himself or other men to a male audience.<sup>22</sup>

Nid agwedd i ryfeddu ati yw hon o ystyried y gymdeithas glôs o barch ac ymddiriedaeth a glymai osgorddau o filwyr ynghyd. Fel hyn y gosododd C. S. Lewis y peth:

The deepest of wordly emotions in this period is the love of man for man, the mutual love of warriors who die together fighting against odds, and the affection between vassal and lord.<sup>23</sup>

<sup>21</sup> Sioned Davies, 'Y Ferch yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol', Cof Cenedl, IX, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 1994), t.28.

<sup>22</sup> Simon Gaunt, 'Poetry of Exclusion: A Feminist Reading of Some Troubadour Lyrics', Modern Language Review, LXXXV (1990), t. 311.

<sup>23</sup> C. S. Lewis, The Allegory of Love: A Study in Medieval Tradition, (Oxford, 1936), t. 9.

Gwyddom i Hywel ab Owain Gwynedd fynd i frwydro, a molir ei allu milwrol gan Gynddelw. Nid annisgwyl felly yw ei ymffrost yn ei Orhoffedd, nac ychwaith yn y ddwy gerdd arwrol bur o'i eiddo, ond ceir hefyd bron i holl elfennau'r canu rhyfel hwn yn un o'i bum awdl serch:

Caraf-i, amser haf, amsathr gorŵydd,  
Gorawenus glyw rhag glew arglwydd.  
Gorewynnawg ton tynhegl ebrwydd,  
Gorwisgwys afall arall arwydd.  
Gorwen fy ysgwyd ar fy ysgwydd - i drais;<sup>24</sup>

Agorir y gerdd serch hon drwy gyfeirio at yr haf fel adeg brwydro - yn hytrach na'r adeg i garu, fel y byddid yn disgwyl. Thema o gyfnod y Cynfeirdd ydyw, fel a welir yng Nghanu Llywarch Hen:

Kynnteuin, kein pob amat.  
Pann vryssyant ketwyr y gat.<sup>25</sup>

Yn yr un modd y dechreua awdl Prydydd y Moch i Wenllian:

Duw Sulgwyn yw hyn, hynt gyfwyre - glyw,  
Hynt a ddyco glew, gloyw ddyddwyre;<sup>26</sup>

Ceir darlun tebyg dipyn yn ddiweddarach gan Gasnodyn yn ei awdl yntau i ferch Gruffudd ab Iorwerth:

Saethfarch ceindrafnidr dindir danaf,  
Seri eglurfryn cyn cynhaeaf,  
Syw dymawr, rhwyfwawr, yr haf - arbennig,  
Soredig eiddig elwig alaf.<sup>27</sup>

Mae'n bosibl cymryd fod Casnodyn yma'n personoli'r haf fel arglwydd, a hynny cyn i Ddafydd ap Gwilym wneud peth tebyg.<sup>28</sup>

<sup>24</sup> GLIF 7.1-5.

<sup>25</sup> CLIH, VI. 17 a-b; a gweler Kathleen Anne Bramley, GLIF t.137.

<sup>26</sup> GLILI 14.1-2.

<sup>27</sup> GC 4.9-12.

Ceir yn yr awdl serch fer o eiddo Hywel y dyfynnwyd ohoni uchod holl gynhwysion arwrgerdd. Mae yma fyddin ac arglwydd dewr, mae yma farch a tharian, ac ymffrost wrth fynd i ryfel; a hyn oll mewn cyfuniad â disgrifiad manwl a chwrtais ei naws o'r ferch nad oes gennym gofnod o'i bath yn gynharach na hyn. Dyma ddisgrifiad a nodwyd fel un 'ymhlith y cywreiniaf yn yr iaith':<sup>29</sup>

Cegiden hirwen, hwyrwan ogwydd,  
 Cyfeiliw gwenwawr yn awr echwyydd,  
 Wrth gamu brwynen braidd na ddygwydd.  
 Bechanigen wen, wan ei gogwydd,  
 Bychan y mae hŷn no dyn dengmlwydd.  
 Mabinaidd, lunaidd, lawn gweddeiddrwydd,  
 Mabddysg oedd iddi rhoddi yn rhwydd.  
 Mabwraig, mwy yd ffaig ffenedigrwydd - ar wen  
 No pharabl o'i phen anghymhenrwydd.<sup>30</sup>

Tanlinellir y cyfosodiad hwn o ddau fyd a dau feddylfryd wrth i'r bardd gyflwyno dau farch i'w gynulleidfa. Agorir y gerdd â delwedd arwrol y cadfarch cadarn, yr 'amsathr gorwyydd',<sup>31</sup> sy'n rhagarweiniad i ymffrost rhyfel y bardd. Ond erbyn diwedd y gerdd clywn y bardd yn troi i gyfarch ei farch gan erfyn arno i drefnu oed â'r ferch:

Peddestrig iolydd, a'm bydd-i eilwydd?  
 Pa hyd y'th iolaf? Saf rhag dy swydd.  
 Adwyf-i yn anfedredd o ynfydrwydd - caru,  
 Ni'm cerydd Iesu, y Cyfarwydd.<sup>32</sup>

Eirchiaid, 'ymbiliwr ar droed' yw'r march hwn,<sup>33</sup> a'r bardd erbyn hyn mor ffôl oherwydd ynfydrwydd caru nes ei fod yn gofyn i'w farch a oes gobaith iddo

<sup>28</sup> Gweler Geoffrey Charles Ballinger, 'Astudiaethau o waith Casnodyn, Dafydd y Coed ac eraill yng nghyd-destun barddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg', traethawd M.Phil. Prifysgol Cymru, 1991, t.501.

<sup>29</sup> Kathleen Anne Bramley, GLIF, t. 131.

<sup>30</sup> GLIF 7.7-16.

<sup>31</sup> GLIF 7.1.

<sup>32</sup> *Ibid.*, 7.17-20.

<sup>33</sup> *Ibid.*, t.136.

gyfarfod â'r ferch. Trawsffurfiad ac, yn wir, dirywiad dramatig a ddaeth i ran y bardd, a hynny drwy gyfrwng disgrifad trawiadol o'r ferch.

Awdl arbennig yw hon sydd fel petai'n ein tywys trwy'r newid cymdeithasol a welwyd o'r delfryd o arwr eofn, hyderus i'r marchog gostyngedig yng ngŵydd ei arglwyddes, ac sy'n cloi drwy roi inni'r enghraifft gyntaf yn ein barddoniaeth o'r llatai. Adlais o'r march hwn yw'r llatai y mae Cynddelw'n ei anfon at Efa:

Peddestrig iolydd, pa hyd y'th iolir?<sup>34</sup>

Yn yr un modd ag y mae Gwalchmai'n dechrau caniadau ei Orhoffedd â chyfeiriadau at ei arfau, dechreua Cynddelw bob un o chwe chaniad ei rieingerdd drwy gyfarch ei farch, ei 'gorfynnawg drythyll'.<sup>35</sup> Ond o'r llinell gyntaf, negesydd serch yw'r march hwn ac nid rhan o offer milwrol y bardd:

Gorfynnawg drythyll, gorfynt - a ddygaf  
Wrth ar a folaf, a folais-i gynt.<sup>36</sup>

Yr awdl hon o eiddo Cynddelw a ystyrir fel yr enghraifft gynharaf o gerdd latai yn y Gymraeg. Ynddi hi y cawn yr unig wir ddefnydd o'r march fel negesydd serch ac nid fel modd i'r bardd ei hun deithio at y ferch - fel y sylwodd Katherine Ann Evans.<sup>37</sup> Mae Cynddelw yn alltud o lys Efa wedi iddi ddigio wrtho ac nid oes ganddo ddewis felly ond anfon ei farch ar ei ran:

Gorfynnawg drythyll, gorddyfn-di fyned  
(Gorthrych lys Leisiawn ei hystlyned!)  
Llys y daw deon i'w darymred:  
Llys Efa i feirdd y'i digoned.

.....

A dywed yno eniwed - ohanaf  
A dywan ataf ag ateb ced,  
Ac erof na chël fy rhyweled,

<sup>34</sup> GCBM i 5.134.

<sup>35</sup> *Ibid.*, 5.1, 21, 39, 71, 91, 113.

<sup>36</sup> *Ibid.*, 5.1-2.

<sup>37</sup> Evans, *op. cit.*, t.58; a gweler hefyd Ann Parry Owen, 'Rhieingerdd Efa Merch Madog ap Maredudd Cynddelw Brydydd Mawr a'i Cant', *YB*, XIV (1988), t. 65.

Ac erddi ydd wyf o nwyf, ni'm cred,  
 Ac erod tithau, na'm hamheued!  
 Ac er Peryf nef, na'm difanwed!  
 Difanw a'm goreu cyn no'm gwared,  
 Ei gwaredd oedd rhaid pei rhybued;<sup>38</sup>

Y cyfarwyddiadau hyn a rydd y bardd i'r march sy'n cynnal strwythur dramatig y gerdd. Wrth glustfeinio ar yr hyn a ddywed wrth ei negesydd dysgwn am y berthynas agos a fu unwaith rhwng Cynddelw ac Efa, ac am ei ddiodefaint yntau wedi iddi ei anfon ymaith. Cwyna wrth ei farch am ei boenau gan erfyn arno i gyfleu'r trallod hwn i'r arglwyddes, ond yn fwy na hyn, y mae'n disgwyl i'r llatai ddychwelyd ag ateb iddo. Ond er gwaethaf yr holl ddolefain, bygythia roi'r gorau i'w gariad oni dderbynia ateb cadarnhaol ganddi. Nid yw hi'n werth taith hir ar droed!

Na chymydd â hi o hir obaith,  
 Na chymer wrtheb a dan wrthiaith.  
 Nid af-i ar hirdwf ni dâl hirdaith  
 I ar draed awel y drydewaith!<sup>39</sup>

Nid hirhoedlog, serch hynny, yw'r difaterwch hwn.

Gorfynnawg drythyll, gorddyfn arlwy,  
 Arlwyaw erlid gobrid gobrwy!  
 Gorfynnawg drythyll, syll na saffwy,  
 Ysaffwn ydd wyf o nwyf neud rhwy!<sup>40</sup>

Mae Cynddelw hefyd yn ychwanegu at dyndra a drama'r awdl wrth ei gyfosod ei hun â'i farch. 'Gorfynnawg drythyll' yw'r march yn gyson drwy'r gerdd, ac fel y dengys Ann Parry Owen:

Ceir yma ddefnydd effeithiol o ffigur traddodiadol, y bardd yn cyfarch y march sy'n fywiog ac yn awchus ei symudiadau a'r bardd yn awchus ac yn effro ei feddwl oherwydd ei serch tuag at y ferch y mae yn ei moli.<sup>41</sup>

<sup>38</sup> GCBM i 5.39-42, 51-8.

<sup>39</sup> GCBM i 5.75-8.

<sup>40</sup> *Ibid.*, 5.91-4.

<sup>41</sup> *Ibid.*, t. 71.

Ond wrth i'r gerdd fwrw ymlaen a'r march yn parhau'n fywiog, mae Cynddelw yn gwanhau'n gorfforol ac yn feddyliol oherwydd ei ddiodefaint:

Gorfelyn, called, colledig wyf,  
Collais gall ateb y neb a'm nwyf.  
Ym mhwyllad newid, neud ydwyf - am fun  
Yn anhun anhedd, ced rhys porthwyf.<sup>42</sup>

Ar thema'r llatai y seiliwyd fframwaith dramatig awdl Prydydd y Moch i Wenllian hefyd, ond ei fod ef yn gofyn i'w farch ei gludo at y ferch ac nid ei chyrru ar ei ran. Dechreuir drwy osod golygfa arwrol o fyddin o ddewrion yn cychwyn ar ymgyrch yn y gwanwyn, a cheir darlun mawreddog o'r march a fydd yn cario'r bardd:

Dygychwyn, olwyn, elwaf mangre,  
Dygymer hwyl ffêr, heul neud ffofre!  
Dos heb argyswrrw ar llwrw i'r lle,  
Dosawg, hyddolawg, hawdd ei belre.<sup>43</sup>

Ond nid sbarduno'i geffyl i gyfeiriad dychryniadau maes y gad y mae'r Prydydd. Wedi iddo adeiladu ei gerdd yn filwrol hyd at adran o ymffrost rhyfel pur, deallwn mai at arglwyddes y mae'n anelu, a hynny o ganlyniad i'w boenau serch:

Neu'm dwg meirch mygrfawr, dyrawr, dyre,  
Ar hwyl ganmawl hawl, ar haul orne,  
Caeroedd Gwenlliant Gwynllŷwg se,  
Caradwy lywy, lewych ystre;<sup>44</sup>

Llys Gwenllian ferch Hywel yng Ngwynllŷwg yw pen y daith, ac nid llys unrhyw ferch arall. Yn wir, rhoddir cyfarwyddiadau i'r march garlamu heibio i lys Nest ferch Cynfelyn:

---

<sup>42</sup> *Ibid.*, 5.23-6.

<sup>43</sup> GLIL1 14.3-6.

<sup>44</sup> *Ibid.*, 14.27-30.

Cyd boed unbennes ys anebre.<sup>45</sup>

Wedi iddo greu'r sefyllfa ddramatig hon gan chwarae rhan y milwr a'r carwr, a rhoi i'w farch rôl y cadfarch a'r llatai am yn ail, dychwela Prydydd y Moch at ganu ffurfiol i gloi'r gerdd drwy ddatgan ei fwriad i ledaenu clod Gwenllïan. Y mae yma hefyd ran i'r march:

Diamau anfon granwynyon gre,  
A chludaw ei hawl, ei chlod a he  
Hyd y daerawd haul, hyd y dwyre.<sup>46</sup>

Rhoddid sylw a pharch sylweddol i'r march gan y gymdeithas a welodd ddatblygu'r marchog yn ddelfryd gwrywaidd newydd. Ond mae pwysigrwydd y march yn ymestyn yn ôl ymhellach na'r twrnameint courtoisie, ac y mae iddo arwyddocâd dyfnach na bod yn rhan o offer angenrheidiol marchog. Roedd disgrifiadau o feirch buan, hardd a chadarn yn elfen amlwg yng nghanu'r Cynfeirdd ac yn rhan annatod o'r darlun o filwr dewr yn cyrchu i frwydr:

Gredyf gwr oed gwas  
gwrhyt am dias.  
meirch mwth myngvras.  
a dan vordwyt ysgauyn lledan  
ar bedrein mein vuan.<sup>47</sup>

Ny mat wanpwyt ysgwyt  
ar gynwal carnwyt.  
ny mat dodes y vordwyt  
ar vreichir men - llwyt.<sup>48</sup>

Medel migned; kalet riw.  
Rac carn kann tal glann a vriw.  
Edewit ny wnelher ny diw.<sup>49</sup>

Adlewyrchai grym ac ysblander yr anifail hwn gryfder a bonedd y gŵr a'i marchogai.

---

<sup>45</sup> Ibid., 14.10.

<sup>46</sup> Ibid., 14.36-8.

<sup>47</sup> CA, I, 1-6.

<sup>48</sup> CA, LIII, 1-4.

<sup>49</sup> CLIH, I, 8.

Ffactor nodweddiadol o'r cyfeiriadau hyn yw'r modd yr hepgorir yr enw 'march' gan osod ansoddair i weithredu fel enw yn ei le.<sup>50</sup> Trawiadol yw amllder y defnydd o liw fel enw wrth sôn am feirch, megis 'felyn o Faelienydd'<sup>51</sup> a 'meingan'<sup>52</sup> Hywel ab Owain Gwynedd, ac 'erchlas dossawc'<sup>53</sup> Gruffudd ap Maredudd. Yn wir, tynna T. Gwynn Jones ein sylw at farwnad Gwalchmai i Fadog ap Maredudd lle rhestrir meirch o bob lliw:

Lliaws gorwyd gwelw gwalch frowys,  
 Frwysg ffer ffraeth, fraisg grawnfaeth grewys;  
 Lliaws gwiniau fadw frawd tywys,  
 Tu hir, tref tremyniad amdyfrwys;  
 Lliaws llwyd a llai,  
 Lliaws erch erfai,  
     Lliaws grai, grym diffwys;  
 Lliaws coch ceinwiw,  
 Cynfyn ford [cynffon fforch?] fawliw [lliw ffawydd]  
     Felaig riw, redecwys;  
 Lliaws du a dwn a mygdwn melyn,  
     A milwyr dragonwys.<sup>54</sup>

Wrth gwrs yr oedd pwysigrwydd i'r march fel arwydd o statws ei berchennog ac o ran ei ddefnydd ymarferol ar faes y gad. Sylwodd Georges Dumézil fel y bu i'r march ran mor arwyddocaol ym myd milwriaeth fel y gellid olrhain llwyddiant y Celtiaid i'w gallu i drin ceffylau.<sup>55</sup> Ond yr oedd pwysigrwydd y march yn tarddu o wreiddiau hŷn. Dangosid parch mawr i'r ceffyl yn gynnar iawn yn hanes y gymdeithas Indo-Ewropeaidd, a dyfodd yn sail i gwlt. Sylwodd Anne Ross:

<sup>50</sup> Gweler Ifor Williams, CA t. 64; CLIH t. 62.

<sup>51</sup> GLIF 6.36.

<sup>52</sup> Ibid., 9.4.

<sup>53</sup> R 1329.12.

<sup>54</sup> T. Gwynn Jones, Rhieingerddi'r Gogynfeirdd (Dinbych, 1925), tt. 19-20 (ef sydd biau'r tanlinellu); gweler hefyd LIH t.28, ll. 9-20.

<sup>55</sup> Georges Dumézil, Rituels Indo-Européens à Rome (Paris, 1954), t. 78, gweler Cousins, op. cit., tt. 61-2.



In Indo-European contexts, the horse was of great economic and ritual importance, and its cult role amongst the Celts reflects this widespread attitude.<sup>56</sup>

Ymddengys y diddordeb hwn yn rhan gynhenid o gymdeithas gynnar:

The early Indo-Europeans were undoubtedly ‘crazy about horses’, and so were the Gauls.<sup>57</sup>

Cwlt poblogaidd iawn ymysg y Celtiaid oedd cwlt y dduwies Epona, duwies y ceffyl a’i henw’n tarddu o \*ékwo-s, yr enw proto-Indo-Ewropeaidd am geffyl (equus yn Lladin, aśva yn Sanscrit).<sup>58</sup> Dyma hefyd, yn ôl Wendy Doniger O’Flaherty, bron yr unig dduwies a addolwyd yn yr un dull gan y Celtiaid cyfandirol ac ynysol fel ei gilydd. Mae’r dduwies hon yn gyfarwydd i ni mewn elfennau o gymeriad Rhiannon yn Pedeir Keinc y Mabinogi.

Gwelir perthynas agos rhwng stori Rhiannon â’r chwedl Wyddelig am Mácha, y chwedl Indiaidd am Vivasvant a Saranyū, a’r chwedl Roegaidd am Demeter. Roedd y Groegiaid, medd O’Flaherty, yn nodedig am eu diddordeb mewn ceffylau:

They were, if anything, horsier than Vedic Indians, and their literature presents an equine mythology of dazzling complexity.<sup>59</sup>

Sylwodd hefyd ar gysylltiad rhwng cwlt y ceffyl a defodau brenhinol cyntefig:

A final link between far-flung Indo-European cults of the horse is supplied by linguistics, the darling of Indo-European studies. The Gallic proper name Epómeduos may be cognate with the Sanskrit aśvamedha, both royal names, possessive compounds designating kings who have (performed) horse sacrifices.<sup>60</sup>

---

<sup>56</sup> Anne Ross, Pagan Celtic Britain: studies in iconography and tradition (London, 1967), t. 321.

<sup>57</sup> Wendy Doniger O’Flaherty, Women, Androgynes, and Other Mythical Beasts (Chicago, 1980), t.165.

<sup>58</sup> Ibid., t. 153.

<sup>59</sup> Ibid., t.190.

<sup>60</sup> Ibid., t.165.

Mae'r dystiolaeth gynnar hon yn pwysleisio statws y march ac yn esbonio'i amlygrwydd mewn llenyddiaeth, yn enwedig mewn molawdau grymus i arweinwyr bonheddig. Ond nid cam naturiol ar yr olwg gyntaf yw anfon yr anifail urddasol hwn a addolid ac a farchogid i ganol cyflafan i ymbil ar ferch ifanc ar ran gŵr sy'n glaf o serch ac yn ofni ei hwynebu. Fodd bynnag, mae modd olrhain arwyddocâd pellach i ran y march mewn chwedloniaeth gynnar. 'Nid yw'n amhosibl' fel y gwêl J. E. Caerwyn Williams, 'fod delweddu'r marchog a'r march yn cario arlliwiau rhywiol - yr oedd y 'centauri' yn cynrychioli'r bywyd gwyllt, y chwantau anifeiliaidd, a barbariaeth i'r Groegiaid'.<sup>61</sup> Gwelai T. Gwynn Jones, ar y llaw arall, ddefnydd y Gogynfeirdd o'r march fel llatai yn arwydd o ddylanwad y Trwbawriaid arnynt.<sup>62</sup> Ond rhaid cofio mai adar oedd negeswyr serch beirdd Profens, ac roedd yr adar hynny'n llawer mwy cyffredin yng nghanu poblogaidd Ffrainc lle anfonid hwy gan ferch at ei chariad.<sup>63</sup>

Dadleua Chotzen, fodd bynnag, dros ystyried y llatai'n gymeriad brodorol o linach creaduriaid cynorthwyol chwedloniaeth Geltaidd, a chyfeiria at y drudwy a anfonodd Branwen at ei brawd a'r Anifeiliaid Hynaf sy'n arwain Cai a Bedwyr at Fabon fab Modron yn Culhwch ac Olwen.<sup>64</sup> Mae'n bosibl cysylltu'r creaduriaid cynorthwyol hyn hefyd â chwlt y ceffyl, ac yn arbennig â'r ebol a anwyd yn gyfamserol â Phryderi - ebol a roddwyd iddo yn ddiweddarach gan Teyrnnon, a'r ddau ebol a anwyd ger drws y tŷ ar enedigaeth Cuchúlainn i Mácha ac a roddwyd yn rhodd iddo yntau gan wŷr Ulster. Mae'r thema hon i'w gweld hefyd gan Chrétien, fel y dengys Rachel Bromwich wrth drafod 'Trioedd y Meirch':

Lluagor reappears in the first continuation of Chretien's Conte del Graal as Lorzagor, the horse of Carados Briebras; and the French poem has an elaborate but highly primitive tale to tell of the horse's being born at one birth with the hero who afterwards owned him: a tale which

<sup>61</sup> J.E. Caerwyn-Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i wragedd a merched, a'u cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir', Llên Cymru, 13 (1974/79), t.88.

<sup>62</sup> Jones, op. cit., tt. 41-2.

<sup>63</sup> Evans, op. cit., t. 59.

<sup>64</sup> Gweler ibid. tt. 59-60.

fits appropriately enough with the epithet rhoddedig varch which is bestowed on Lluagor in triad 38.<sup>65</sup>

Yn ‘Nhrïoedd y Meirch’ y gwêl Kathleen Ann Evans wreiddiau’r llatai o farch a geir gan y Gogynfeirdd:

Awgrymaf nad o’r traddodiad poblogaidd, hynny yw trwy gyfrwng y beirdd eilradd megis y tyb Chotzen, y cafodd y Gogynfeirdd eu syniad cychwynnol am y llatai ond, yn hytrach, oddi wrth y traddodiadau a gofnodwyd yn y Trioedd.<sup>66</sup>

Diddorol yw hyn wrth ddarllen awdl Gruffudd ap Maredudd i Wenhwyfar lle y mae’r bardd yn cymharu ei farch â meirch enwog o eiddo arwyr traddodiadol:

Gorhevc amdvc dec orsedua gav  
gywirvarch nyphalla.  
eil y kethin ny blinha.  
kyflym yr llun grym llavn gra.

Brynn kav brynhunav brenhineid vroyd.  
eil rudvreon duth vleid.  
bryt eurwryt arwreid  
brondoryf varch tref lywarch treid.

Kyrch yr bun wanllun wenllav anryded.  
vn redyat karn aflav.  
brysc gvyl yr hoen breisc alav  
brvysc rvysc rydein brynn kein kav.

Keirch ordyvyn archlyvyn kyrch erchlas dossavc.  
deissyf neityav fferlas.  
car varwein karv mein myngvras.  
kaer veinir glaer vynor glas.<sup>67</sup>

Perthyn chwech o drioedd i adran y meirch yn Trioedd Ynys Prydein,<sup>68</sup> a cheir cyfeiriadau at bedwar ohonynt yn y rhan fer hon o’r awdl i Wenhwyfar. Un o ‘Dri Gorderchvarch Enys Prydein’ yw ‘Feras, march Dalldaf eil Cunun Cof’.<sup>69</sup>

<sup>65</sup> TYP, t. civ.

<sup>66</sup> Evans, *op. cit.*, t. 61.

<sup>67</sup> R 1329.4-14.

<sup>68</sup> Gweler TYP rhif 39-44.

<sup>69</sup> *Ibid.*, rhif 41.

‘Three Lovers’ Horses of the Island of Britain’ a rydd Rachel Bromwich yn gyfieithiad i’r teitl hwn, ond meddai ymhellach:

Perhaps we should render ‘Beloved Horses’, since no tradition has survived to account for any amatory propensities attributed to their owners. The scribe of Pen. 47 (or its source) evidently felt the lack, and substituted for c. the name of a renowned lover: a gvelv gohoyw march drystan. This includes that by the fifteenth century tri gordderchvarch was understood to mean “Lovers’ Horses”. And as Chotzen has pointed out ... this triad may well contain an allusion to the poetic convention by which horses were employed as llateion or love-messengers; a convention which we find already in the twelfth-century Gogynfeirdd.<sup>70</sup>

Deisyfu march o anian Fferlas y mae’r bardd yn nhyb Dr. Bromwich. Ond os deallwn mai gweithredu fel llatai y mae’r ceffyl hwn, haws yw dilyn K. A. Evans gan gymryd mai ei gyfarch y mae Gruffudd, fel y cyfarchodd Cynddelw ei farch yntau, a’i annog i lamu fel y llamai march enwog Dalldaf.<sup>71</sup> Cymherir ef hefyd â Rhuddfreon Tuthflaid march Gilbert mab Cadgyffro,<sup>72</sup> Carnaflawg, march Owain ab Urien,<sup>73</sup> a Cethin Cyflym march Dinogad fab Cynan Garwyn.<sup>74</sup> Gellid hefyd ystyried ‘erchlas dossawg’ Gruffudd yn gyfeiriad at Erch, neu Heith, farch meibion Gyrtwl Wledig.<sup>75</sup>

Clywn Casnodyn hefyd yn ceisio sbarduno’i farch i garlamu at Wenllian drwy ei gyffelybu â meirch enwog am eu nerth a’u cyflymder.<sup>76</sup>

Elw dreiddiaw, ni’ m daw traw trwy gysteg,  
Elfydd twf clodrydd, dydd na deuddeg;  
Ail Cain Galed, rhed i’ m rheidreg - obaith,  
Oleufaith hoywdaith, fraint ehedeg.

<sup>70</sup> Ibid., t.103

<sup>71</sup> Evans, op. cit., t. 382.

<sup>72</sup> TYP 39, cf. hefyd ‘Ar gefn Rhuthreon rhuthrais-i drefydd’, GBF 30.26 (Iorwerth Fychan).

<sup>73</sup> TYP rhif 40.

<sup>74</sup> Ibid., rhif 44.

<sup>75</sup> TYP rhif 44, a gweler t. 115.

<sup>76</sup> Mae’n bosibl mai Becheslom march Gwgawn Gledyfrudd, TYP rhif 40, yw Bugethal yma, neu Bucephalus march Alexander Fawr, gweler Evans, op. cit., t. 338. Gellid cymryd hefyd mai’r ‘Kein Caled m(arch) Gualchmei’ a geir yn Llyfr Du Caerfyrddin a oedd ym meddwl Casnodyn, gweler TYP t. 106, ac Evans, op. cit., t. 338.

Arial Bugethal, brif ddial breg,  
 Arwydd dieilwydd, rhwydd fo'n rhedeg  
 Ar hoywlun ludd hun hoen gwenfaneg - maen  
 Pan wisg ton frwysgflaen gaen am garreg.<sup>77</sup>

Ond gan Gruffudd ap Dafydd ap Tudur y cawn yr enghraifft gynharaf o'r term  
 'llatai', a hynny yn y ffurf luosog, mewn awdl i Hywel yn gofyn am fwa:

Er mwyn mireinson morwynol ddynion  
 A sôn llateion a'i lletya,<sup>78</sup>

Nid gwir lateion, serch hynny, yw'r meirch hyn. Nid negeswyr serch ar ran y  
 beirdd ydynt ond, yn hytrach, modd i'w cludo at wrthrychau eu serch.  
 Pwysleisia Hywel ab Owain Gwynedd ei ddymuniad i deithio gyda'i farch:

As unasn-i heddiw, farch gloyliw glas,  
 Athreiddiaw arnat geinwlad Gynlas,<sup>79</sup>

Yd garwn-i fyned (cyni'm cared yn rhwy)  
 Rhy eiddun ofwy i ar feingan<sup>80</sup>

Felly hefyd Llywelyn Brydydd Hoddnant:

Clodfawr dwn, cyrchwn, cyrch diludd - feinfarch  
 Ar fwynferch Faredudd.<sup>81</sup>

a Hywel ab Einion Llygliw:

Gorwydd crych ebrwydd, ceirch ebran - addas,  
 Dwg dristwas, dig Drystan,  
 Llwrw buost, farch llary, buan,  
 Lle arlloes fre eurllys Frân.<sup>82</sup>

---

<sup>77</sup> GC 5.5-12.

<sup>78</sup> GGDT 2.13-14.

<sup>79</sup> GLIF 11.1-2.

<sup>80</sup> *Ibid.*, 9.3-4.

<sup>81</sup> GLIBH 3.45-6.

<sup>82</sup> GGLI 1.21-4.

Cynddelw'n unig sy'n anfon march heb farchog at y ferch. Ond nid y march yn unig a gyferchir ganddo. Try ar ddiwedd yr awdl at ei gynulleidfa o wŷr y llys:

A glywch chi, ddeon, a dywedir?<sup>83</sup>

Canu iddynt hwy ac nid i Efa y mae'r bardd mewn gwirionedd. Atynt hwy yr anelwyd yr ymffrost milwrol a manylder y sôn am feirch. Canu am fyd a bywyd dynion i gynulleidfa o ddynion a wneir. Medd Ann Parry Owen:

Ffugiad llenyddol yw'r cyfan: cerdd i'w datgan o flaen llys ac nid mynegiant cyhoeddus o serch y bardd. Y mae'r ffaith mai yn y carwr yn hytrach na'r gariadferch, y gorwedd y prif ddiddordeb, yn cadarnhau hyn.<sup>84</sup>

Cyflawni swyddogaeth y Gorhoffedd y mae'r rheiengerdd hon a fwriadwyd i ddifyrru gwyrda'r llys wrth iddynt wledda. Diwallu gofynion cymdeithasol y llys oedd diben y canu ac nid mynegi dwyster emosiwn y bardd. Ceir gan y Gogynfeirdd cynnar ganu am ferched yng nghyd-destun perthynas honedig y beirdd â hwy, ond ni cheir ganddynt ganu uniongyrchol i ferched. At ei gyd-dynion yr anelai Hywel ab Owain Gwynedd ei ymffrost serch:

an exercise in exaggeration for the purpose of claiming pride of place among all men in every manly activity.<sup>85</sup>

Roedd y gydymdeithas wrywaidd hon i'w gweld yng nghanu'r Trwbadwriaid hefyd fel y dengys Sarah Kay:

Many troubadours whether implicitly or explicitly marginalize the women in their audience by addressing their songs to men, or by considering themselves and other male singers.<sup>86</sup>

---

<sup>83</sup> GCBM i 5.119

<sup>84</sup> *Ibid.*, t.55.

<sup>85</sup> O'Sullivan, *op. cit.*, t. 151.

<sup>86</sup> Sarah Kay, *Subjectivity in Troubadour Poetry* (Cambridge, 1990), t. 90.

Nid yn y berthynas rhwng dynion a merched y mae diddordeb y bardd Marcabru, yn ôl Simon Gaunt, ond yng nghyd-berthynas dynion â'i gilydd:

His main preoccupation is a relation between men, even when discussing heterosexual amorous activities.<sup>87</sup>

Ac ymhellach meddai:

Both Bernart and Guilem are concerned with their own feelings rather than the lady's; but they do want the articulation of their desire to be heard by others, more particularly, to be compared to similar articulations by other men.

... [Arnaut] situates his poetry not in relation to his lady but in relation to other troubadours: that is to say, in relation to other men, and the reason for this is that it helps to show the sincerity of others. Singing, it would appear, is not an exchange between a man and a woman, it is part of a masculine competition.

Indeed, for some troubadours love is quite explicitly an aspect of male companionship.<sup>88</sup>

Gellid ystyried felly nad oedd cŵyn y beirdd ynglŷn ag effaith y merched arnynt yn wyriad oddi wrth y delfryd arwrol ond, yn hytrach, yn gadarnhad ohono. Rhinwedd ac nid gwendid yng nghymeriad yr arwr o fardd oedd y sylw a roddai i ferched. Yn wir, yn ôl Helen Fulton, roedd i'r canu mawl i wragedd swyddogaeth farddol arbennig, sef pwysleisio pwysigrwydd a statws y bardd ei hun o fewn cyd-destun cymdeithasol filwrol.<sup>89</sup> Wrth foli'r uchelwraig roedd y beirdd yn anuniongyrchol yn canu mawl i'w thylwyth, gan danlinellu ei phwysigrwydd hithau ac felly hefyd bwysigrwydd ei llinach. Wrth ddilyn hyn gwelir cysylltiad rhwng arglwyddesau'r Gogynfeirdd a Sofraniaeth:

Gwalchmai says he fights to win the favour of his mistress, while Hywel describes himself as 'karyadawc kerted ovyt', (a lover in the manner of Ovid). Both poets imply a single-minded devotion and loyalty, as well as the experience of physical desire, but there is little suggestion of the sufferings of unrequited love. Instead, their references to the woman

<sup>87</sup> Gaunt, *op. cit.*, t. 317.

<sup>88</sup> *Ibid.*, tt. 319-20, 326.

<sup>89</sup> Fulton, *op. cit.*, t. 85.

they love are closely associated with the celebration of their native lands. The lands, like the women, are physically beautiful, fertile and productive in a way that is crucial to the continuation of the ruling dynasty, and thus inspire loyalty and protection from the warrior class. These lands are owned by the dynasty as the essence of their power, while the women are possessed by the warriors as a token of their social status.

The five awdlau of Hywel ab Owain Gwynedd, sometimes singled out as 'genuine' love-poems, make the same connection between warrior-society, land, and women. In these poems, the primary function is not eulogy of an individual but rather of the aristocratic way of life.<sup>90</sup>

Clywn Gwalchmai'n brolio iddo frwydro er mwyn ennill ffafir arglwyddes,  
syniad y gwelwyd ei wreiddiau yng ngwaith y Cynfeirdd - os nad cyfeiriad at  
Owain sydd gennym yma mewn gwirionedd.<sup>91</sup>

Ac er bodd llywy eiry ar goed  
Pan fu aer rhag Caer, cyforiais waed.<sup>92</sup>

Cyfeiria Cynddelw a Iorwerth Fychan at ddylanwad merched ar filwyr. Meddir  
am Efa:

Llif dragon fanon falch ei thynged,<sup>93</sup>

ac am Wenllïan dywedir:

Ys cain, ys cyhoedd ar ysgwydydd - cyrdd,<sup>94</sup>

Gellid ystyried y rhain yn enghreifftiau cynnar o ganu courtoisie yn y Gymraeg  
ac yn gyfeiriadau at rôl gynyddol y marchog o fewn cymdeithas y llys. Roedd  
yr awydd hwn i frwydro er mwyn plesio gwragedd yn amlwg iawn yng  
nghanu'r Trwbadwriaid hefyd, ond yn ddiweddarach, medd Linda Paterson, yr  
ymddangosodd y thema yn Ne Ffrainc:

---

<sup>90</sup> Ibid., t.89.

<sup>91</sup> Gweler t. 6 uchod.

<sup>92</sup> GMB 9. 41-2.

<sup>93</sup> GCBM i 5.45.

<sup>94</sup> GBF 30.57.



Nowhere in the Occitan epic texts, at least up until 1230, do women provide the inspiration or reward for military prowess.<sup>95</sup>

Cyfeiria, serch hynny, at destun didactig a gyfansoddwyd rhwng 1170 ac 1180 gan y Gascon, Arnaut Guilhem de Marsan, i gyfarwyddo marchog ar batrwm a defodau cwrtais y llys:

Presented in the form of advice offered by the author to a young man suffering from love, it instructs how to please ladies by wearing elegant and fashionable clothes, keeping oneself well groomed and well mannered, entertaining guests graciously and according to correct etiquette, and choosing well-mannered servants. When the knight attends court he is advised to spend freely, show liberal hospitality, be generous in redeeming others' pledges, and gamble for high stakes, careless of his losses. He needs to have a good war horse, armour and equipment: lance, shield and hauberk with an emblem on it, saddle and bridle, breastpiece and undersaddle for the horse, with matching emblems on saddle, undersaddle, shield and pennant, and a rouncy to carry the double hauberk and squires to accompany him. The knight is reminded that it is shameful and uncourtly to have to beg or borrow pieces of equipment; and that a lady is unimpressed by a knight who wearies quickly of courts and war, and wants him constantly to seek to increase his reputation. He should love *cavalaria* (i.e. deeds of arms) above all riches, and seek to draw attention to himself in battle by unusual clashes and dashing attacks, for prowess on the battlefield is the way to win fair ladies. It is worth observing that notions of love here are rather unsophisticated, involving promiscuous conquests, and hardly correspond to the *fin' Amors* of the troubadours.<sup>96</sup>

Ond ni ddatblygwyd y thema hon o frwydro ar ran gwraig, thema sy'n elfen anhepgor o gymeriad marchogion *courtoisie* y Cyfandir, i'r fath raddau yng ngwaith y Gogynfeirdd. Perthyn i feddylfryd arwrol y mae eu hawydd hwy i ymladd. Dyrchafu'r bardd o filwr a wneir yng nghanu'r Gogynfeirdd cynnar hyn, gan bwysleisio ei allu i gynnal enw da ei arglwyddes yn ogystal ag enw ei arglwydd ar faes y gad.

---

<sup>95</sup> Linda M. Paterson, *The World of the Troubadours: Medieval Occitan Society, c. 1100 - c. 1300* (Cambridge, 1993), t.72.

<sup>96</sup> *Ibid.*, t.72.

Mae'r beirdd hyd yn oed yn cyfeirio at yr arglwyddes gydag epithetau arwrol. Un o 'hil gwalch gweilch nwyf' yw'r ferch o Eitun a gyferchir gan Gruffudd ap Dafydd ap Tudur,<sup>97</sup> ac am Wenhwyfar medd Gruffudd ap Maredudd:

Wyr yardur wr gvaewdur gvych.  
am gvnaeth gwyn vrvyn vronnlech.  
ac wyr Ithel uchel ach.  
gam odegeingyl - gem degwch.<sup>98</sup>

Cyfeirio atynt yn ôl eu tras arwrol a wneir, yn ôl arfer y beirdd wrth foli eu gwŷr a'u cyndeidiau. Cenir iddynt yng nghyd-destun gwrywaidd ac fe'u mesurir yn ôl safonau arwrol. Y mae Cynddelw yn mynd mor bell â rhoi i Efa'r enw canmoliaethus 'peddestres weddaidd',<sup>99</sup> sef 'filwres lunaidd' wrth nodi ei llinach ryfelgar.<sup>100</sup>

Rhoddir rhinweddau milwrol i'r arglwyddesau a'u darlunio'n ymosod ar y beirdd ac yn eu clwyfo. Er bod cyfeiriadau at ddioddefaint y bardd oherwydd difaterwch y ferch tuag ato a sôn am golli cwsg a cholli gwedd yn gonfensiwn canu serch llysaidd, annisgwyl yw'r disgrifiadau o'r arglwyddes yn ei lofruddio ac yn ei lethu:

Goror maendwr gwir benydiwr gwael fy nghyflwr  
Gwae ryfelwr gwyr ofalu  
Gwawn wedd neud tau gwynbryd Tegau gwan a'th faddau  
Gwenn a golau gwenn ei gelu  
Gwen laes chwerthin gweheniawdr gwin gweilging eurin  
Gwawr loyw iessin gwyr leassu.<sup>101</sup>

Llofrudd fy neurudd yn awr echwydd.<sup>102</sup>

Gwelir y ferch o Fôn yn arfog gerbron Casnodyn:

Rhyddhyddnaid i'm rhaid, bu rhôn - fy nigio;

<sup>97</sup> GGD 4.5.

<sup>98</sup> R 1329,17-19.

<sup>99</sup> GCBM i, 5.133.

<sup>100</sup> *Ibid.*, t. 70.

<sup>101</sup> MA 337 (Goronwy Ddu, I Ferch), 1-6.

<sup>102</sup> GBF, 30.8 (Iorwerth Fychan).

Câr hwylio cur hoelion,<sup>103</sup>

Nid yw'r cysylltiad hwn rhwng gwagedd ac arfau'n gysyniad hollol newydd ychwaith mewn chwedloniaeth Gymraeg o gofio'r modd y gwrthodwyd arfau i Leu gan Arianrhod a hefyd y modd yr enillodd Peredur ei arfau ef:

A chyda'r dydd Peredur a glywai ddiabod engiriol, a chyfodi yn gyflym a orug Peredur o'i grys, a'i lawdr, a'i gleddyf am ei fwnwgl, ac allan y daeth. Sef y gwelai widdon yn ymorddiwes â gwylwr, ac yntau yn diasbedain. Peredur a gyrchodd y widdon ac a'i trawodd â chleddyf ar ei phen oni ledodd yr helm a'i phenffestin fel dysgl ar ei phen. "Dy nawdd, Peredur deg fab Efrog, a nawdd Duw". "Paham, wrach, y gwyddost ti mai Peredur wyf i?" "Tyngedfen a gweledigaeth inni oddef gofid gennyf, ac i tithau gymryd march ac arfau gennyf finnau. A chyda mi y byddi yn dysgu marchogaeth a theimlo dy arfau". "Fel hyn", ebe Peredur, "y ceffi nawdd. Dy gred na wnelych gam fyth yng nghyfoeth yr iarllles". Cadernid ar hynny a gymerth Peredur, a chan gariad yr iarllles cychwyn gyda'r widdon i Lys y Gwiddnod. Ac yna dewis ei farch a'i arfau, a chychwynnu rhagddo.<sup>104</sup>

Trawiadol hefyd yw'r defnydd o fformiwlâu Cynfarddol wrth ddisgrifio'r merched, megis y cyfeiriadau at olwg neu lygaid adar ysglyfaethus, arfer sy'n gosod arlliw uchelwrol ar y darluniau:<sup>105</sup>

Golwg gwalch dwythfalch o brif deithi<sup>106</sup>

Kereis drem gwalch valch vanwyl<sup>107</sup>

Gwâr dremwalch, gwawr fwynfalch Fôn<sup>108</sup>

Hebogaid lygaid euraid araf.<sup>109</sup>

<sup>103</sup> GC, 3.17-18.

<sup>104</sup> Bobi Jones, *Y Tair Rhamant* (Ceredigion, 1960), tt. 58-9.

<sup>105</sup> Gweler t.123 isod.

<sup>106</sup> GMB 26.26 (Einion ap Gwalchmai).

<sup>107</sup> R 1326. 25.

<sup>108</sup> GC 3.28.

<sup>109</sup> *Ibid.*, 4.24.

Delwedd yw hon sy'n parhau'n ddiweddarach yn y traddodiad o ganu serch fel arwydd o fonedd a harddwch er iddi golli ei harwyddocâd milwrol.<sup>110</sup>

Rhoddiad Angharad yng ngheyrydd - gwyngalch,  
Rhieddog dremwalch wylfalch elfydd.<sup>111</sup>

Cawn ddisgrifad tebyg yn y chwedlau hefyd wrth gyflwyno Olwen:

Na golwc hebawc mut, na golwc gwalch trimut, nyd oed olwg tegach  
no'r eidi.<sup>112</sup>

Elfen o ganu'r Gogynfeirdd a fyddai'n ddieithr i'r Cynfeirdd yw eu hymffrost serch, a gwelir hyn ar ei amlycaf yn gyfochrog â'r ymffrost rhyfel cyfarwydd yn y ddwy Orhoffedd:

Caraf y morua y meiryonnyt.  
men ym bu ureich wenn yn obennynt.<sup>113</sup>

medd Hywel ab Owain Gwynedd cyn prysuro ymlaen i enwi Gwenllïant, Gweirfyl, Gwladus, Lleucu, Nest, Perweur,<sup>114</sup> Generys, Hunydd a Hawis yn gariadon iddo, gan ychwanegu:

Cefais-i fun dduun, ddiwyrnawd,  
Cefais-i ddwy, handid mwy eu molawd,  
Cefais-i dair a phedair â ffawd,  
Cefais-i bump o rai gwymp eu gwyngnawd.  
Cefais-i chwech heb odech pechawd  
(Gwenglaer uch gwengaer ydd ym daerawd),  
Cefais-i saith, ac ef gwaith gorddygnawd.  
Cefais-i wyth yn nhâl pwyth peth o wawd - yr gaint;  
Ys da daint rhag tafawd!<sup>115</sup>

<sup>110</sup> Ar amllder cyfodod 'gwalch' â'r ansoddair 'balch' gweler Cousins, *op. cit.*, t. 57.

<sup>111</sup> GSRh 1.29-30 (Sefnyn).

<sup>112</sup> CO 493-5.

<sup>113</sup> GLIF 6.30-1.

<sup>114</sup> Gweler Kathleen Anne Bramley, *ibid* t. 56 lle dadleua dros hepgor yr enw hwn o'r rhestr gan ddarllen 'a'm berweur, beruet uymhechawd' neu 'a'm beirw em peruet uympechawd', ac hefyd ei sylwadau yn Evans, *op. cit.*, t. 129-30.

<sup>115</sup> *Ibid.*, 6.75-83.

Efallai ei bod yn bosibl deall mai'r un rhai yw'r rhain a enwyd uchod, ond mwy tebygol yw fod Hywel yn dweud iddo lwyddo i ddenu'r wyth hyn wedi iddo fethu gyda'r naw arall a enwodd.<sup>116</sup> Nid annhebyg yw sefyllfa Gwalchmai ar ddiwedd ei Orhoffedd yntau:

Ac a'm dawl o fun fenwawl ddefnydd  
 A ddyfnwys â mi maith garennnydd,  
 Ac y'm daerawd i draul o dra newydd  
 Ag amrant hirwrm a grudd hirwlydd,  
 Ac yn llys afneued y'm heiddunir  
 (Henoeth oeth dybyddaf o dybwyf rydd!)  
 Ac os Duw o nef neu ym cynnydd  
 Ceinfod gan lywy imi, lawr, i'm hunydd!<sup>117</sup>

Ond nid ei ddawn fel carwr a enillodd y wobr hon i Walchmai, ac nid canu ei glodydd ei hun yw ei brif amcan wrth gloi'r gerdd. Arwydd pellach o haelioni Owain yw'r rhodd olaf hon. Adlewyrchiad o'i fonedd ef yw ei harddwch hi, yn union fel ansawdd y gwin a dywallta. Clodfora'r bardd 'fenwawl ddefnydd' ei anrheg yn yr un modd ag y byddai'n gwerthfawrogi mantell o ddefnydd cain a drudfawr neu farch cadarn a chyflym. Prisiaid gallu arglwydd fel perchennog eiddo canlmodadwy'n fawr yn ystod yr oesoedd canol, ond yn fwy na hynny edmygid ei radlonrwydd wrth ei rannu.

Prawf yw hyn, a'r wythfed ferch a dalwyd i Hywel, medd Helen Fulton, o'r modd yr ystyrid gwragedd yr oesoedd canol:

... the possession of women is explicitly regarded as the poet's reward for his praise-songs ... This clearly implies the social and economic value placed on women in a male-dominated society, and equates women with the material possessions of the warrior élite.<sup>118</sup>

Yn yr un modd gwelwn Casnodyn yn canu i dad Awd ac yn ei gyhuddo o gybydd-dod gan iddo wrthod ei rhoi hi iddo'n dâl am fawl:

<sup>116</sup> *Ibid.*, t. 111.

<sup>117</sup> GMB 9.161-8.

<sup>118</sup> Fulton, *op. cit.*, t. 94.

Erchi merch fy rhi rhoddnawd - ys gwneuthum,  
 Ys gwnaeth gwŷd tros folawd,  
 Arwydd nad rhadlwydd, rhydlawd;  
 Eres ymoedes am Awd.<sup>119</sup>

Serch hynny, mae Gwalchmai'n awyddus i'n darbwylo o wir ddiddordeb  
 merched ynddo wrth iddo frolio'r niferoedd sy'n ei geisio:

Lliaws a'm golwch ni'm gwelsant ermoed  
 O rianedd Gwent gwyllt i'm crybwyllaid.<sup>120</sup>

Clywn hyd yn oed am ferch sy'n lleisio'i hedmygedd ohono:

Cyf-ym-golwch bun ban ym dennairch o bell,  
 Pwyllid erof ar ni leueis!  
 A minnau o'm cof cefais (dyfnais  
 Deuawd o'i haddawd) oeth - ys difflais!<sup>121</sup>

Roedd merched yn mawrhau Cynddelw hefyd, meddai ef:

Rhiain ni'm rhifai-i ced am rhifynt.  
 Rianedd iddi a ddyweddynt,  
 'Rhieingerdd Efa' a fawrhëynt.  
 Tremyn y treiddiwn-i (trefn a gedwynt)  
 Treiddle glyw Powys, pei am getynt,  
 Pan dreiddiais-i yno yn ydd oeddynt,  
 Trwy ffenestri gwydr ydd ym gwelynt:  
 Trybelid wylain a wylent - arnaf,  
 Traul ateb ataf a ddanfonynt.  
 Llawen y'u carwn-i ceni'm cerynt,  
 Llawforynion gwry, gwirion oeddynt;  
 Amgall a bwyllad a bell bwyllent,  
 Am Gynddelw Brydyd yd bryderynt!<sup>122</sup>

A chlywn ganddo am addfwynder y merched tuag ato:

<sup>119</sup> GC, 6.45-8.

<sup>120</sup> GMB 9.35-6 .

<sup>121</sup> *Ibid.*, 9.109-12.

<sup>122</sup> GCBM i 5.8-20.

Pall gwylfan gwylain, gwylfalch wrth gerddawr,<sup>123</sup>

a'r berthynas a fu rhyngddo ag Efa unwaith:

Ac im oedd ei llaw, fy llawenrhaith;  
Ac nid oes fardd dwfn, dinus gyfiaith,  
A garwy yn hwy o hir obaith.<sup>124</sup>

Gwelwn yn ogystal ymateb y ferch i ymffrost y bardd anhysbys y mae ei gerdd yn cloi Llawysgrif Hendregadredd:

Ban ymhoffwyf, nwyf nifer,  
Wrth fun a'm gwnaeth cawddfaeth cur,  
Sef dyweid, gwiw amnaid gwâr,  
Hithau mai gorau yw'r gŵr.<sup>125</sup>

Fel y dengys Ann Parry Owen, mae yma amwysedd bwriadol yng nghanmoliaeth y ferch a allai gyfeirio naill ai at y bardd neu at ei gŵr.<sup>126</sup>

Prawf yw'r diddordeb hwn mewn edmygedd gwagedd o'u statws cymdeithasol cynyddol yn ôl K. A. Evans:

... am y tro cyntaf, ceir ymfalchïo cyson ynghylch edmygedd a serch y merched tuag atynt [y beirdd] sy'n adlewyrchiad pellach o safle amlycach yr uchelwraig mewn cymdeithas fwy gwareiddiedig.<sup>127</sup>

Cawsom gip ar ymdeimlad tebyg gan wraig Pyll yng Nghanu Llywarch Hen, ac ym mawl helaeth Heledd i Gynddylan.

Ond nid yw'r newid hwn a welwyd yn rôl gwagedd o fewn y traddodiad barddol Cymraeg o reidrwydd yn arwydd o chwyldro cymdeithasol a roddai iddynt statws a hawliau newydd. Mae'n wir y ceir gan y Gogynfeirdd cynnar

<sup>123</sup> *Ibid.*, 5.129.

<sup>124</sup> *Ibid.*, 5.82-4.

<sup>125</sup> GLIBH, 14.

<sup>126</sup> Gweler *ibid.*, t. 153.

<sup>127</sup> Evans, *op. cit.*, t. 107.

ymffrost yn eu gallu i ennill ffafir merched na welwyd ei debyg gan feirdd cynharach, ond prin iawn yw'r enghreifftiau hyn o gymharu â'r doreth o enghreifftiau o ymffrost rhyfel a welir o fewn y canu serch hwn. Nid swyno'i gariadferch oedd bwriad bardd wrth restru ei goncwestau carwriaethol nac ychwaith ei gampau milwrol, er gwaethaf cyngor y Gascon Arnault Guilem de Marsan. Ei gynulleidfa o wŷr y llys oedd ganddo ef mewn golwg wrth gyfansoddi, ac nid yr arglwyddes.

Fodd bynnag, roedd y beirdd yn ceisio addasu eu crefft i fodloni cymdeithas waraidd y llys a oedd yn prysur ymsefydlu. Â rhyfela'n graddol ddod yn llai pwysig dechreuwyd cynnwys elfennau newydd o fywyd y llys yn y farddoniaeth - ac roedd y merched yn elfen bwysig o'r bywyd hwn. Ond cofiwn fod eisoes gyfeiriadau at gonfensiynau bywyd llysaidd yn yr hen ganu. Molai'r Cynfeirdd addfwynder y rhyfelwyr yng nghwmni merched y llys, a datblygiad naturiol felly fyddai ymestyn y darluniau o'r merched hyn wrth ehangu'r canu am y gymdeithas honno a chanolbwyntio ar ymddygiad gwaraidd a chwrtais ei thrigolion. Allan o ymffrost milwrol y Cynfeirdd hefyd y tyfodd ymffrost serch y Gogynfeirdd, nes i haeriad Hywel ab Owain 'cyd bwyf-i cariadawg cerdded Ofydd'<sup>128</sup> ennill iddo gymaint o barch ymhlith ei gyd-ryfelwyr â'i gyfeiriad ato'i hun fel 'trachas Lloegr'.<sup>129</sup> Dyma ymestyn y safonau a osodwyd i'r dewrion ymgyrraedd atynt, a rhoi'r un gwerth i'r gallu i ennyn edmygedd a serch gwragedd ag i godi arswyd ar elynion: i ennill llu o gariadon ag i ladd lluoedd o filwyr.

Yn yr un modd, tyfodd carwyr enwog traddodiadol yn gymaint arwyr i'r beirdd a'u gwrandawyr gwrywaidd â rhyfelwyr y gorffennol. Clywn Hywel ab Owain Gwynedd yn deisyfu'r ddawn i ganu fel Myrddin a enillodd enw fel bardd serch:

Cyfarchaf i'r Dewin gwerthefin, - gwyρθfawr,  
Gwrth ei fod yn Frenin,  
Cysylltu canu cysefin,

<sup>128</sup> GLIF 6.40.

<sup>129</sup> *Ibid.*, 6.3.



Cerdd foliant, fal y cant Myrddin,  
I'r gwagedd a'i medd fy marddin  
(Mor hir hwyrweddawg ýnt am rin!)<sup>130</sup>

Ymddengys Myrddin fel carwr enwog eto yng ngwaith Iorwerth Fychan:

Ys mwy gan y beird heirdd bob hirddyd  
No phan gant Myrddin mawrddysg Gwenddyd,  
Meith arwyrain cain cynedwydd - forwyn.<sup>131</sup>

Tyfodd traddodiad tebyg ynglŷn ag Arthur a'i gariadferch Indeg ferch Garwy  
Hir, traddodiad a gofnodir yn y Trioedd:

A'e deir Karedicwreic oed y rei hynn:  
Indec verch Arwy Hir,  
A Garven verch Henin Hen,  
A Gvyl verch Eudavt.<sup>132</sup>

Cyfeirio at hyn y mae Gruffudd ap Maredudd wrth gymharu ei boenau serch ef  
â'r eiddo Arthur:

Meu dogyngur arthur o orthir prydein.  
yr dyn prifdec llawir  
arwyd y chlot a eurir.  
eiry hoen am verch arwy hir.<sup>133</sup>

Ymddengys hefyd yr ystyrid Garwy Hir ei hun yn garwr enwog ac yn eilun i'r  
beirdd!<sup>134</sup>

Neud athwyf o nwyf yn ail Garwy Hir,  
I wen a'm lluddir yn llys Ogrfan.<sup>135</sup>

Er bod Hywel ab Owain Gwynedd yma wedi ei wrthod gan y ferch, yn y  
dyfyniad diwethaf y mae ei angerdd a'i nwyf o hyd yn hafal i eiddo Garwy ac

<sup>130</sup> *Ibid.*, 6.43-8.

<sup>131</sup> GBF 30.59-61.

<sup>132</sup> TYP t. 157, rhif 57.

<sup>133</sup> R 1326.16-18.

<sup>134</sup> Gweler TYP, t. 354.

<sup>135</sup> GLIF 9.14-5 (Hywel ab Owain Gwynedd).

yn haeddu ei frolio. Dioddef fel Garwy y mae Hywel ab Einion hefyd, a chando ef y cawn yr unig gyfeiriad at Creirwy fel cariad i'r arglwydd hwn:

Neud wyf ddihunwyf, hoen Creirwy - hoywdeg  
 A'm hudodd fal Garwy,  
 O fynag byd, rhwym gwŷd rhwy,  
 O fynor gaer Fefanwy.<sup>136</sup>

Â yn ei flaen i'w gyffelybu ei hun i'w arwyr, sydd erbyn hyn yn garwyr enwog yn hytrach nag yn filwyr nodedig:

Mi, dy fardd digardd dygn gystuddiad - Rhun,<sup>137</sup>  
 Dwg dristwas, dig Drystan<sup>138</sup>

Yn yr awdl y cyfeiriwyd ati uchod, ar ôl ei gymharu ei hun ag Arthur, y mae Gruffudd ap Maredudd hefyd yn ei weld ei hun ar lun Trystan.<sup>139</sup>

Trawstaer serchawl fryt Trystan  
 ar Esyllt-wedd a roesswn<sup>140</sup>

ac ymhellach:

echwynawd bard ar hardlun  
 vcheneit uthur a chynon.<sup>141</sup>

Honna Einion ap Gwalchmai yntau ei fod fel Pryderi yn ei alar.<sup>142</sup>

Ydd wyf pryderus fal Pryderi<sup>143</sup>

---

<sup>136</sup> GGLI 1.1-4.

<sup>137</sup> *Ibid.*, 1. 41

<sup>138</sup> *Ibid.*, 1, 22.

<sup>139</sup> Gweler TYP, tt.329-33.

<sup>140</sup> R 1327.7-8.

<sup>141</sup> R. 1326.31-2.

<sup>142</sup> Gweler TYP tt. 496-7

<sup>143</sup> GMB 26.38.

Dadlennol iawn, fodd bynnag, yw'r modd y cyfeiria Prydydd y Moch, at Arwy Hir, nid er mwyn pwysleisio ei allu carwriaethol ei hun, ond fel rhan o'i fawl i Lywelyn fab Iorwerth:

Ceraist o'th febyd, gwryd Garwy,  
Caru bun weddaidd, lunaidd lywy,<sup>144</sup>

Treiddiodd gwerthoedd llysaidd a chonfensiwn canu serch i awdl foliant i arglwydd, a molwyd ei ddawn fel carwr â'r un afiaith ag a ddisgwyliid wrth nodi ei wrhydri ar faes y gad. Nid tynnu sylw at wendid yng nghymeriad ei arglwydd y mae'r Prydydd na'i ddwrddio am fethu peri dagrau nac arswyd i wragedd y gelyn, yn ôl arfer noddwyr y Cynfeirdd, ond yn hytrach rhoi iddo nodweddion delfrydol gŵr a berthynai i'r gymdeithas courtoisie newydd. Serch hynny, ni all y bardd wrthsefyll yr awydd i ymffrostio yn ei allu carwriaethol ei hun hefyd:

Cerai a selais cer Dinsylwy,  
Eisyddyn gwylain, riain, yn rhwy,<sup>145</sup>

Yn ddiamau, rhoddwyd lle amlycach i wragedd yng nghanu'r Gogynfeirdd nac a oedd iddynt yng nghanu'r Cynfeirdd. Ond un elfen o fyd a bywyd perffaith y bardd oedd y merched hyn. Clodforid gŵr am ei wrhydri ar faes y gad, brolid ei feirch cadarn, ei arfau gloyw, a hefyd ei gariadon hardd:

Caraf-i eos Fai forehun ludd  
A golygon hwyr, hirwyn ei grudd.  
Caraf eilon mygyr, maith arnaddudd  
Eilywedd aserw â seirch cystudd.  
Ni charif llaw-wyr 'n eu llawr gythrudd  
[ ] chan gynnif cynnor gŵyith gwnedd [ ]hudd<sup>146</sup>

Cawn ddarlun llawen o'r byd delfrydol hwn yn ei gyfanrwydd gan Walchmai yma, a chan Hywel ab Owain hefyd yn ei Orhoffedd yntau:

<sup>144</sup> GLILI 22.29-30.

<sup>145</sup> *Ibid.*, 22.9-10.

<sup>146</sup> GMB 9.57-62.

Caraf ei morfa a'i mynyddoedd.  
 A'i chaer ger ei choed a'i chain diroedd.  
 A dolydd ei dwfr a'i dyffrynedd,  
 A'i gwylain gwynion a'i gwymp wragedd.  
 Caraf ei milwyr a'i meirch hywedd.  
 A'i choed a'i chedyrn a'i chyfannedd.<sup>147</sup>

Nid pell yw'r byd hwn oddi wrth yr hyn a garai Llywarch Hen yn ei ieuenctid,  
 sef elfennau hanfodol bywyd gwrywaidd:

Merch, estrawn, a march glas.<sup>148</sup>

---

<sup>147</sup> GLIF 6.9-14.

<sup>148</sup> CLIH, II, 15b.

## 2. CANU NATUR

Wrth i'r beirdd ddathlu'r byd delfrydol yn y Gorhoffeddau, elfen anhepgor o'r darlun yw'r un o fyd natur. Agorir y ddwy gerdd gyda'r beirdd yn ymhyfrydu yn y byd o'u hamgylch:

Mochddwyreawg huan haf dyffestin,  
 Maws llafar adar, mygyr haear hin.  
 Mi ydwyf eurddeddf ddiolfn y nhrin,  
 Mi ydwyf llew rhag llu, lluch fy ngorddin,  
 Gorwyliais nosau yn achadw ffin  
 Gorloes rydiau dyfr Dygen Freiddin.  
 Gorlas gwellt didryf, dwfr neud iesin,  
 Gorddyar eaws awdl gynefin.  
 Gwylain yn gware ar wely liant,  
 Lleithrion eu pluawr pleidieu edrin.<sup>1</sup>

Ton wen orewyn a orwlych bedd,  
 Gwyddfa Rufawn Bybr, ben teyrnedd.  
 Caraf, trachas Lloegr, lleudir Gogledd - heddiw  
 Ac yn amgant Lliw lliaws calledd.  
 Caraf a'm rhoddes rhybuedd medd  
 Myn y dyhaedd mŷr meith gywrysedd.  
 Caraf ei theulu a'i thew annedd - ynddi,  
 Ac wrth fodd y rhi rhwyfaw dyhedd.<sup>2</sup>

Dechreua'r ddau fardd gan ddatgan pwysigrwydd natur o fewn yr amgylchfyd y maent yn ei ddyrchafu; ond nid canu natur pur a geir ganddynt yma, serch hynny. Nid disgrifio byd natur a bywyd gwyllt oedd eu prif amcan, eithr creu darlun llawn a lliwgar o fywyd mewn byd perffaith. Mae yma foroedd a llwyni, haul ac adar, ond wedi eu cydblethu â hwy y mae ymffrost rhyfel a chlod i wrhydri dyn.

Er bod cyfeirio at natur yn gyson drwy gydol y Gorhoffeddau, gellid ystyried yr agorawdau uchod â'u pwyslais ar ddisgrifio byd natur yn enghreifftiau o'r

<sup>1</sup> GMB 9.1-10 (Gwalchmai).

<sup>2</sup> GLIF 6.1-8 (Hywel ab Owain Gwynedd).

prolog natur a dyfodd yn fformiwla ddechreuol i'r beirdd llys. Ceir dechreuad o'r fath yn awdl Prydydd y Moch i Ddafydd ab Owain Gwynedd;

Calan hyddref, tymp dydd yn edwi,  
Calaf gan, lloer fan llwrw fynegi,  
Cynnwrf yn ebyr, llŷr yn llenwi,  
Cyngyd gaeafawr hwylfawr heli.<sup>3</sup>

Gwelir prolog cyffelyb hefyd ym marwnad Bleddyn Fardd i dri mab Gruffudd ap Llywelyn, fel y nodia J. E. Caerwyn Williams yn ei drafodaeth ar y prolog natur mewn barddoniaeth llys Gymraeg.<sup>4</sup>

Bu dadlau ynglŷn â tharddiad yr arfer hon o ddechrau awdl ffurfiol ag adran o ganu natur. Wrth drafod barddoniaeth natur gynnar Wyddeleg a Cheltaidd meddai Kuno Meyer:

Indeed, these poems occupy a unique position in the literature of the world. To seek out and watch and love nature in its tiniest phenomena as in its grandest, was given to no people so fully as to the Celts.<sup>5</sup>

Gan y Gwyddelod, yn ôl J. Glyn Davies, y dysgodd y beirdd Cymraeg ganu i natur; 'the only discernible probability of initiative in nature poetry is in Irish' meddai,<sup>6</sup> a hynny gan i agosatrwydd y Cymry at y tir eu llesteirio rhag gwerthfawrogi nodweddion a newidiadau byd natur:

.. early nature poetry is not to be expected from a rural provenance. Men who till the soil, and whose comfort depends on the vagaries of weather can hardly find joy in the contemplation of the incessant foe that wild nature must ever be to them.<sup>7</sup>

<sup>3</sup> GLIL1 2.1-4.

<sup>4</sup> Gweler J. E. Caerwyn Williams, 'The Nature Prologue in Welsh Court Poetry', *SC* 24/25 tt. 70-90

<sup>5</sup> Kuno Meyer, *Selections from Ancient Irish Poetry* (London, 1913), t. xii; gweler hefyd Williams, *op. cit.*, t. 70.

<sup>6</sup> J. Glyn Davies, 'The Welsh Bard and the Poetry of External Nature', *THSC*, 1912-13, t.93; gweler hefyd Evans, *op. cit.*, t. 96.

<sup>7</sup> Davies, *op. cit.*, t. 91; gweler hefyd Williams, *op. cit.*, t. 71.

Serch hynny, mae modd gweld mai wrth weithio ar y tir y byddai pobl yn gwir sylwi ar natur ac yn dod yn ymwybodol o ddylanwad ac arwyddocâd y tymhorau. Mae Kenneth Jackson yn diystyru damcaniaeth J. Glyn Davies:

The whole theory of Welsh poet-hermits under Irish influence is based on a false analogy unsupported by internal evidence.

As for external evidence, there is nothing to show that the early Welsh hermits were interested in nature poetry, any more than the Irish hermits were before the ascetic movement of Maelruain. In short, Welsh literature is in the same position as regards hermit nature poetry as Irish would have been in but for the Tallaght movement - it does not exist.<sup>8</sup>

Olrheiniwyd gwreiddiau'r prolog natur yn ôl i waith llenorion Lladin hefyd.<sup>9</sup> Er na cheir ganddynt hwy nifer o ddisgrifiadau natur, cyfeirir at fotif y gwanwyn yn aml gan feirdd serch megis Ofydd a Catullus.

Yng ngherddi'r trwbawriaid yr ymddengys y prolog natur am y tro cyntaf mewn iaith frodorol. Fe'i ceir yng ngwaith Guilhem IX, y trwbawr cyntaf, fel y nododd J. E. Caerwyn Williams. Ond ymddengys o gerddi Guilhem nad ef oedd y cyntaf i ddefnyddio'r fformiwla hon, a'i fod yn hytrach yn adeiladu ar thema gyfarwydd. Defnyddiwyd y prolog natur fel topos artistig a rhyngwladol gan y trwbawriaid, ond nid ymddangosodd yn gyson nac yn unffurf trwy gorff canu'r beirdd hynny.<sup>10</sup> Dyma, yn nhyb T. Gwynn Jones, darddiad y dechreuadau natur a welir yng ngherddi'r Gogynfeirdd.<sup>11</sup>

Egyr y bardd Rambaut de Vaqueiras o Brofens un o'i gerddi â dathliad o wanwyn:

Chalenda Maia  
ni fueilhs de faia  
ni chanz d'auçell

<sup>8</sup> SECNP, tt. 180-1.

<sup>9</sup> *Ibid.*, tt. 76-78.

<sup>10</sup> *Ibid.*, t. 79.

<sup>11</sup> T. Gwynn Jones, 'A 'Court of Love' Poem in Welsh', *Aberystwyth Studies*, iv, (1922), t.88.

ni flors de glaia  
 non es qem plaia ...  
 [The Calends of May nor the leaves of the beech nor the songs of birds  
 nor the flowers of the iris do not please me so much ...]<sup>12</sup>

Mae hyn yn ein hatgoffa o gerdd yn Llyfr Du Caerfyrddin sy'n dechrau â'r  
 llinellau:

Kintevin keinhaw amsser.  
 Dyar adar glas callet.  
 Ereidir in rich. ich iguet.  
 Guirt mor brithottor tired.<sup>13</sup>

a'r gyfres o englynion '*Kalan gaeaf*'.<sup>14</sup> At fis Mai y mae Einion ap Gwalchmai  
 yn cyfeirio hefyd yn ei farwnad i Nest ferch Hywel;

Amser Mai, maith dydd, neud rhydd rhoddi,  
 Neud coed nad ceithiw, ceinlliw celli.<sup>15</sup>

Dynodai'r cyntaf o Fai a'r cyntaf o Dachwedd ddechrau'r haf a dechrau'r gaeaf  
 yn y flwyddyn Geltaidd ac yr oedd y rhain yn adegau gwyliau pwysig. Naturiol  
 felly oedd dathlu'r cyfnodau hyn ar gân.<sup>16</sup> Ond gellid gweld perthynas hefyd  
 â'r Natureingan gyfandirol lle dethlid tymhorau'r flwyddyn, yn arbennig yng  
 nghyd-destun canu serch. Roedd y genre hwn yn ddylanwadol iawn felly, fel y  
 dengys Kenneth Jackson:

The fashion spread to most of the languages of Western Europe, including English, later Irish, and perhaps (as we shall see) twelfth to fourteenth century Welsh. One of the most persistent conventions in the new poetry was that by which a poem, usually a love-song, was given a setting in spring, particularly on May Day, when the woods were growing green, the birds singing, the flowers opening, the day becoming longer and the air warmer - and, a common but invariable corollary, depending on the nature of the main form - when girls and young men were rejoicing and it was right to love, dance and sing. Or it might be at the beginning of winter, when the trees were bare and

<sup>12</sup> SECNP, t. 152.

<sup>13</sup> LIDC 8.1-5.

<sup>14</sup> EWGP V.

<sup>15</sup> GMB 26.1-2.

<sup>16</sup> Gweler EWGP IX (Englynion y Misoedd).



snow and ice had covered everything, when the birds had become silent, the days were short and the air cold, and the time of love was over.<sup>17</sup>

Gwyliau cynhenid Geltaidd, fodd bynnag, oedd gwyliau Calan Mai a Chalan Gaeaf, a rhan ddisgwyliedig o'r dathliadau fyddai cyfarch y tymhorau newydd. Gellid felly ystyried mai o'r canu tymhorol poblogaidd hwn y datblygodd prologau natur ffurfiol y Gogynfeirdd.

Cyfuniad o'r brodorol a'r cyfandirol a wêl Helen Fulton yng nghanu natur y beirdd llys Cymraeg, a gwêl 1284 yn ddyddiad arwyddocaol yn hyn o beth:

The few examples which survive, in nature poetry, gnomic verse, and the bardic Grammar, suggest that a popular tradition of love and nature was available to the court-bards and that they consciously selected themes from it when appropriate. This tradition was largely rejected by earlier court-poets as being unsuitable for official bardic composition, and did not begin to emerge as an acceptable bardic resource until 1284 when bardic conventions were changing and relaxing, and the model of French poetry, with its established assimilation of courtly and popular themes, set a precedent for the later gogynfeirdd. Just as the rigidity of bardic conventions began to disintegrate during the thirteenth century, so the attitude to particular themes and forms also broadened.<sup>18</sup>

Gwêl Fulton ddylanwad canu poblogaidd ar ei amlycaf yng ngwaith Gwalchmai, Hywel ab Owain Gwynedd a Chynddelw Brydydd Mawr. Mae ar ddechrau ac, yn wir, yng nghorff cyfan Gorhoffedd Gwalchmai, meddai, ddisgrifiadau natur sydd yn perthyn i'r canu gwirebol cynnar Cymraeg a'r traddodiad reverdïe poblogaidd Ffrengig:

Cyfun-westlawg dyfr, dydd neud gawy,  
Cathl oar adar awdl osymwy.  
Gorfynnig fy mhwyll ym mhell amgant heddiw  
Wrth athreiddiaw tir tu Efyrrwy.  
Gorwyn blaen afall blodau fagwy,  
Balch caen coed, bryd pawb parth yd garwy.

Endewis-i eaws am ryhiraeth yr gŵyl,

<sup>17</sup> SECNP, t.150.

<sup>18</sup> Fulton, op. cit., t.86.

Gweilging porffor pwyllad fyfyr.  
 Pell nad hunawg gwen (gogwn pahyr!)  
 Pan ddyfrig trawd blawd blaen efellgyr.  
 Bid ewynnawg ton tu Porth Wygyr,  
 Bid swysawc serchawg, bannawg bréyr.<sup>19</sup>

Ar un olwg gellid ystyried y cyfeiriadau hyn fel enghraifft o ganu natur pur, ond mae modd hefyd eu darllen fel rhagarweiniadau natur i wirebau dynol. Adlewyrchir cysyniadau tebyg yn y canu englynol gwirebol a gasglwyd ac a drafodwyd gan Kenneth Jackson.<sup>20</sup>

Bid gogor gan iar; bid trydar gan lew,  
 bid ofal ar a'i car;  
 bid tonn calon rac galar.

Bid aha byddar; bid anwadal ehud;  
 dirieid bid ymgeingar,  
 dedwydd yr a'i gwyl a'i car.<sup>21</sup>

Gorwyn blaen kelli, goghyt y gwyd,  
 a deil deri dygwydyt;  
 a wyl a gar, gwynn a uyt.

....

Gorwyn blaen berwr; bydinawr gorwyd;  
 Kein gyfreu coet y lawr;  
 Chwerdyt bryt wrth a garawr.<sup>22</sup>

Naws wirebol sydd hefyd i 'Fyfyrddod ar fywyd' Gwalchmai:<sup>23</sup>

Calan Hyddfre! Cain cyfwyre,  
 Cyfarwydd dwfr yn y dyfrlle.

...

Gnaws edn adnabod bore,

<sup>19</sup> GMB 9.21-26, 87-92.

<sup>20</sup> Gweler EWGP, ac hefyd tt. 17-21 uchod.

<sup>21</sup> EWGP VIII (Bidiau II), 1-2.

<sup>22</sup> EWGP VI (Gorwynion), 23, 29.

<sup>23</sup> Gweler dadl Peredur Lynch dros ddarllen y teitl 'I Efa y Wraig' ar yr awdl hon, 'Cân Gwalchmai 'Y Eua y Wreic' YB, XIX, t. 42.

Gnaws am ban benial ystre.

Gnawd o'm gwawd gwychran i falchlan febin,  
Gnawd o drin dres aele;

....

Gnawd erof hiraeth (etgyllaeth echen)  
Ac uchenaid fore;

Gnawd gwraig gwell genthi a fo gwaeth iddi.<sup>24</sup>

Nid annhebyg yw ei gŵyn a'i ddull o gyfleu'r gwirionedd a wêl i'r gwirebau a gyflwynir inni mewn llinellau o ganu natur yn y gyfres 'Eiry Mynydd':

Eiry mynyd, gwynn keunant,  
rac ruthur gwynt gwyd gwyrant;  
llawer deu a ymgara//t  
a phyth ny chyfaruydant.

Eiry mynyd, brith bronn twr,  
kyrchyt aniuail glydwr;  
gwae wreic a gaffo drycwr.

Eiry mynyd, brith bronn kreic,  
krin kalaf, alaf dichleic;  
gwae wr a gaffo drycwreic.<sup>25</sup>

Cawn ychydig enghreifftiau o ganu gwirebol yng nghanu natur rhai Gogynfeirdd diweddarach hefyd:

Gorphell y'm cymell camre iolydd - cain:  
Gorffysg dadwyrein gwawr ddwyrain ddydd,  
Gwynlliw arien briw bric huenydd,  
Gwynlluch eiry uchuch aches dolydd.<sup>26</sup>

medd Iorwerth Fychan wrth ganu i Wenllian, a chan Brydydd y Moch clywn:

Nest a ddywawd im, dim ny ddwyre,  
Gnawd y ddyn dylaw dylif ni'i gwe.<sup>27</sup>

<sup>24</sup> GMB 13.1-2, 9-11, 15-16, 19.

<sup>25</sup> EWGP, III 2, 16 - 17.

<sup>26</sup> GBF 30.41-4.

Dadluedd Kenneth Jackson mai amherthnasol oedd y disgrifiadau natur yng nghanu'r Gogynfeirdd, megis yn y canu englynol, ac fe'u cymharwyd ganddo â'r disgrifiadau a ystyriai'n llinellau llanw yn Canu Llywarch Hen:

We saw that the Gogynfeirdd seasonal-beginnings were meagre and as it were conventional formulae attached to poems with which they were not really connected. This indicates perhaps that they are the last of a dying tradition; and it may be that the original nature song which was the source of the englyn seasonal carols or what else, became a bardic fashion and passed as naturally into the early court poetry - for court poetry there must have been before the time of the Gogynfeirdd - as into the different type of literature called the englyn poems; and hence it appears in the earliest Gogynfeirdd poems as a convention already somewhat worn. The association of elegy with natural scenery would help in the process and would explain why apparently unconnected nature-beginnings are found in some Gogynfeirdd elegies. It is to be noted that the May and Winter seasons are prominent, and even the Calends. This may then have been overlaid in the twelfth and thirteenth centuries with certain characteristics from the poetry of the French civilisation which the Welsh had learned to know and respect by that time, all more easily because that poetry was considerably similar in its nature-beginnings to the Welsh convention already in existence.<sup>28</sup>

Nid oedd diben ychwaith i'r gwirebau dynol heb sôn am y disgrifiadau natur a gafwyd yn rhagarweiniadau iddynt, yn ôl J. Glyn Davies.<sup>29</sup> Ond nid diwerth yw'r gwirebau a'r diarhebion a gawn gan Walchmai. Yn wir, amcan y bardd yw cyflwyno i ni ei 'Fyfyrddod ar fywyd' gan brofi a diriaethu'r gwirionedd a wêl. Medd Peredur Lynch am y gwirebau hyn:

Eu diben cyntaf yw tanlinellu gwirionedd sylfaenol gweledigaeth y bardd. Drwy gyfosod ei sylwadau ei hunan ochr yn ochr â'r gwirioneddau diymwad a fynegir yn y rhain, fe'u dyrchefir hwythau yn eu tro i dir y diymwad a'r tragwyddol. Fe welir, wrth gwrs, fod yna gyfatebiaeth rhwng cynnwys rhai o'r gwirebau a'r diarhebion a sylwadau personol y bardd, ond nid yw hynny'n gwbl angenrheidiol. Nid yw gwireb megis Gnawd edn adnabod bore yn ddirym nac yn

<sup>27</sup> GLILI 14.11-12.

<sup>28</sup> SECNP, tt.197-8.

<sup>29</sup> Davies, op. cit., tt. 82-90.

amherthnasol yn y cyd-destun; y mae'r hyn a gyfleir ynddi yn wirionedd, dyna'r pwynt pwysig, felly hefyd honiadau'r bardd.<sup>30</sup>

Nid llinellau llanw, diystyr a dibwrpas yw'r enghreifftiau o ganu natur yn ei waith ychwaith, yn rhagarweiniadau i wirebau nac yn brologau natur.

Haf ydyw yng nghyflwyniad natur Gwalchmai i'w Orhoffedd a phwysleisia hyn eto wrth gloi'r gerdd:

Addfwyn cyntefin, cain hin dydd,  
Araf y rhiw haf hyfryd, dedwydd.  
Addfwyn dyddaw dyfr (dychwardd gwyrdd wrth echwydd)  
Ogfanw a Chegin a Chlawedawg drydydd.  
Dy-m-hunais ton môr y merwerydd,  
O Abermenai mynych dyllydd.  
Dygogladd gwenyg gwyn Gyngreawdr fynydd,  
Morfa Rhianedd Maelgwn rebydd.<sup>31</sup>

Mae'r haf, fel y gwêl y bardd, yn ogystal â bod yn dymor rhyfela ac yn adeg hardd a bywiog, hefyd yn amser i garu. Tyf disgrifiadau o ysblander byd natur yn yr haf a llawenydd y bardd o fod yn dyst i'r hoywder hwn yn rhan annatod o'i ganu serch:

Gorlas gwellt didryf, dwfr neud iesin,  
Gorddyar eaws awdl gynefin.  
Gwylain yn gware ar wely lliant,  
Lleithrion eu pluawr pleidiau edrin.  
Pellynnig fy nghof yng nghynteferin  
Yn ethryb caru caerwys febin.<sup>32</sup>

Pwysleisir y tymor hwn hefyd gan Iorwerth Fychan yn ei awdl i Wenllian:

A dyngai cyn Mai merwerydd - gyfliw,  
Gne gwyn gyllestr rhiw, rin diednydd;  
A chyn Mehefin hywyn glodrydd,  
Hi dyngawdd yn hawdd heddiw o'i ffydd:  
Hoyw wanfain riain na weinydd - hawdd wên

<sup>30</sup> Lynch, *op. cit.*, tt. 40-1.

<sup>31</sup> GMB 9.147-54.

<sup>32</sup> *Ibid.*, 9.7-12.

Yni wnêl orffen fy nihenydd.  
 Calan Gorffennaf gorffwyll a'm bydd,  
 Gorffwyf gwedi nwyf rhwyf gan rihydd.<sup>33</sup>

Nid yw'r prolog natur yn nodwedd neilltuol i ganu serch neu ganu i ferched; y mae i'w weld mewn amrywiaeth o gerddi. Ond y mae i'r cyfeiriadau aml at yr haf, neu'r gwanwyn, arwyddocâd arbennig yn y canu hwn. Dyma a ddywedodd J.E. Caerwyn Williams am hyn:

The bond between men and nature must have been stronger in early times than it is now, and as we shall see, it is vividly expressed in the idea that Spring rather than Winter was the time for love. At Spring time people become aware of a resurgence of life in themselves as well as in nature, and it is no wonder that they had occasion to celebrate this resurgence and that their poets helped them to do so even as they expressed their own feelings of love for the opposite sex and for nature. This, however, does not mean that these people shared the sentiments of later Romantic poets regarding nature.<sup>34</sup>

Â ymhellach:

... it seems reasonable to suppose that any festivity celebrating the coming of spring would be accompanied by a song containing a reference to the season, and, as the season was associated in the popular mind with love, contain a reference to love ... the assumption seems to be that the coming of Spring signalled the resumption of lovemaking.<sup>35</sup>

Nodwyd y meddylfryd hwn yn y Carmina Burana gan Theoder Frings:

Gruonet der walt altenthalben.  
 wâ ist mîn geselle alsô lang?  
 der ist geriten hinnen.  
 Owî! wer sol mich minnen?<sup>36</sup>

Mae yna hefyd ymarferoldeb i'r brwdfrydedd hwn tuag at yr haf ar ran carwyr o feirdd fel y dengys A.C. Spearing:

<sup>33</sup> GBF 30.17-24.

<sup>34</sup> Williams, *op. cit.*, t.74.

<sup>35</sup> *Ibid.*, t.81.

<sup>36</sup> Dyfynnwyd gan Williams, *ibid.*, t. 81.

In the later Middle Ages, the notion of private life expanded in conjunction with the multiplication of private rooms. It is hard to say which comes first, the desire for privacy or the material arrangements that make it possible. However much you desire privacy, you cannot have a private room unless you can afford it - which is why so much love-making in medieval fiction takes place in the open air, and therefore not in winter. On the other hand, given the cultural pressures towards ostentation and largesse, a medieval lord able to afford privacy might still prefer to devote his resources to splendid robes, jewels, and feasts.<sup>37</sup>

Deuai rhyddid i'r beirdd gyda dyfodiad yr haf, fel y gwelir yn yr enghraifft nesaf gan Gasnodyn:

Ciglau cyn Difiau defawd - cyntefin,  
Cant afar fyfyrdawd,  
Cyrdd ednaint glwysnaint gloesnawd;  
Cerddgar cad adar coed Awd

Da gyngor rhagor rhag fy nifrawd - ym  
Am nas caf yn briawd,  
Dwyn hwyl, dyn gŵyl golau wawd,  
Dan frig y goedwig ag Awd.<sup>38</sup>

Bwriad tebyg sydd gan Ruffudd ap Dafydd ap Tudur:

Yn ôl Addaf, naf nwyfradd,  
Cyn cyfraith pab na'i drabludd,  
Y gorug pawb ei garedd  
Â'i gares yn ddigerydd.

Digerydd fydd, rhydd rhwyddgael,  
(Da y gwnaeth Mai dai o'r dail)  
Deuod dan goed i dan gël  
I minnau, fi a'm annwyl.<sup>39</sup>

<sup>37</sup> A. C. Spearing, *The Medieval Poet as Voyeur: Looking and Listening in Medieval Love-Narratives*, (Cambridge, 1993), t.17.

<sup>38</sup> GC 6.33-6, 41-4.

<sup>39</sup> GGDT 4, 85-92.

Yn y dyfyniad uchod cawn gan Ruffudd ap Dafydd ap Tudur y cyfeiriad cyntaf at topos y deildy a dyf yn elfen amlwg yng nghanu serch y cywyddwyr, yn arbennig yng ngwaith Dafydd ap Gwilym. Nid dyfais wreiddiol yw hon gan Ruffudd, yn ôl Huw M. Edwards, ac yn hytrach gwelwn y bardd yn defnyddio traddodiad poblogaidd cyfarwydd.<sup>40</sup> Cawn gyfeiriad at oed o dan y llwyn yn englynion y Gorwynion:

Gorwyn blaen banadyl, kynnadyl y serchawc,  
goruelyn kangeu bacwyawc;  
bas ryt; gnawt hyfryt yn hunawc.

Gorwyn blaen auall; amgall pob dedwyd;  
wheueryd y arall,  
a gwedy karu gadu gwall.<sup>41</sup>

Noda Huw Edwards hefyd gyfeiriad at oed o dan yr 'Afallennau' gan Fyrddin:

Afallen *peren* a tiff ar lan. afon.  
In y llurv. ny lluit maer. ar y chlaer aeron.  
Tra fuvm puyll.wastad. am buidd in i bon.  
a. bun wen warius. vn weinus vanon.<sup>42</sup>

Ond mwy arwyddocaol na hyn, meddai, yw'r chwedlau Aithid Celtaidd am gariadon yn dianc i'r coed, megis y ffodd Trystan ac Esyllt i Goed Celyddon, a hefyd chwedlau am oruchafiaeth yr haf dros y gaeaf, fel a welir yn chwedl Gwyn ap Nudd a March ap Meirchion. Ceir hyd yn oed gyfeiriad at oed o'r fath yn Gramadegau'r Penceirddiaid:

Kathleu eos nos yn oet - y kigleu,  
[M]eu gofeu gofalhoet,  
Koethlef, herwodef hiroet,  
Kethlyd, kein awenyd koet.<sup>43</sup>

<sup>40</sup> Huw M. Edwards, Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues (Oxford, 1996), t.74.

<sup>41</sup> EWGP, VI (Gorwynion), 12 - 13.

<sup>42</sup> LIDC 16.54-7; gweler Edwards, op. cit., t.75.

<sup>43</sup> GP 7. 34-7; gweler Edwards, op. cit., t.105.



Yn y chwedl hon am Gwyn ap Nudd clywn amdano'n ymgorffori'r haf ac yn trechu'r gaeaf, a gwelwn bersonoli'r haf yn dod yn thema amlwg yng nghanu Dafydd ap Gwilym:

Harddwas teg a'm anrhegai,  
Hylaw wŵr mawr hael yw'r Mai.<sup>44</sup>

Fel arglwydd bonheddig y gwêl Casnodyn yntau'r haf yn ei awdl i ferch Gruffudd fab Iorwerth:

Saethfarch ceindrafnidr dinidr danaf,  
Seri eglurfryn cyn cynhaeaf;  
Syw dymawr rhwyfwawr, yr haf - arbennig  
Soredig eiddig elwig alaf.<sup>45</sup>

Gellir olrhain y syniad hwn hefyd yn ôl at ddefodau ac arferion gwerin, fel y dengys T. Gwynn Jones:

Dafydd ap Gwilym, in describing Summer as a King on horseback, invading woods and glens and clothing all places with a web of green, seems to be reflecting some symbolical procession (BDG 228). In another poem, summer, in a dialogue with the poet, describes itself as a prince of powerful magic, fated to come for three months to make things grow and then to escape the blast of winter, "to the deep land of Annwfn I go" (BDG 329). In fact, the poems attributed to Dafydd, and many others, derive much of their "natural magic" from legends, and what often passes for imagination on the part of the bards is basically the symbolism of early nature cult.<sup>46</sup>

Elfen amlwg yn y canu i ferched yw'r disgrifiadau o adar, ac yn arbennig yr eos.

Caraf y morfa ym Meirionnydd,  
Men y'm bu fraich wen yn obennydd.  
Caraf yr eaws ar wyriaws wŷdd.  
Yng Nghymer Deuddyfr dyffrynt iolydd.<sup>47</sup>

<sup>44</sup> GDG 23.9-10.

<sup>45</sup> GC 4.9-12.

<sup>46</sup> T. Gwynn Jones, *Welsh Folklore and Folk Custom*, (London, 1930), t.154.

<sup>47</sup> GLIF 6.30-33.

Dyma a ddywed Hywel ab Owain Gwynedd yn ei Orhoffedd. Dilyn beirdd Lladin, Ofydd o bosibl, y mae Hywel yma yn ôl Huw Edwards, yn enwedig os derbynnir na fentrodd yr aderyn hwn yn bell dros Glawdd Offa.<sup>48</sup> Ymddengys yr eos eto yng Ngorhoffedd Gwalchmai, yng nghwmni adar eraill:

Gorddyar eaws awdl gynefin.  
Gwylain yn gware ar wely liant,  
Leithrion eu pluawr pleidieu edrin.

.....

Cathl oar adar awdl osymwy.  
Gorfynnig fy mhwyll ym mhell amgant heddiw.

.....

Caraf-i eos Fai forehun ludd  
A golygon hwyr, hirwyn y grudd.

.....

Endewais-i eaws am ryhiraeth yr gŵyl,  
Gweilging porffor pwyllad fyfyr.

.....

Caraf-i yr ednan a llarian llais  
Cathl fodawg coed, cadr y ethais.  
Kyf-ym-golwch bun ban ym dennairch o bell,

.....

Diesig yd gân ednan arnaw,  
Argoed nwy aswe aserw ynddaw.<sup>49</sup>

Perthyn tynerwch a llonder i gân yr eos a'r adar mân sy'n awgrymu'r haf a chanu serch, a dilynir y cyfeiriadau at yr adar hyn yn aml gan ddisgrifiad o ferch. Annisgwyl a dramatig ar ôl yr adeiladu hwn a'r patrwm llawen a osodwyd yw'r cyferbyniad a greir drwy'r darlun erchyll:

Endeweis-i eryr ar y giniaw dynin,

<sup>48</sup> Edwards, *op. cit.*, t.82.

<sup>49</sup> GMB 9.8-10, 22-3, 57-8, 87-8, 107-8, 115-16.

Dyraith Gwynedd gwyar iddaw.<sup>50</sup>

Cysylltiadau rhyfelgar, treisgar sydd i'r aderyn hwn a'i lefain oer, a dyma ein gosod yn ôl ym myd canu rhyfel a chanu ymffrost y beirdd llys. Fe glywir yr aderyn bach unwaith eto, ond erbyn hyn gelynyon y bardd sy'n gynulleidfa i'w gân ac nid y gariadferch:

Diesig yd gân ednan eneu  
Addawd i'm gwrthrawd, gwrthred goreu.<sup>51</sup>

Hyd yn oed yn ystod oes fwy heddychlon a chwrtais y llys y mae rhyfela yr un mor amlwg â charu ym meddyliau'r beirdd yn yr haf, ac anodd yw iddynt ddathlu'r tymor llawen hwn heb grybwyll na march na gosgordd:

Caraf-i, amser haf, amsathr gorwÿydd,  
Gorawenus glyw rhag glew arglwydd.  
Gorewynnawg ton tynhegl ebrwydd,  
Gorwisgwys afall arall arwydd.<sup>52</sup>

Dyma eiriau Hywel ab Owain wrth agor un o'i bum awdl serch i ferch anhysbys. Gellir deall mai cyrchu rhyfel y mae Casnodyn yntau yn ei gerdd i ferch Gruffudd fab Iorwerth:

Saethfarch ceindrafnidr dinidr danaf,  
Seri eglurfryn cyn cynhaeaf;<sup>53</sup>

ac felly hefyd Brydydd y Moch:

Duw Sulgwyn yw hyn, hynt gyfwyre - glyw,  
Hynt a ddyco glew, gloew ddyddwyre;  
Dygychwyn, olwyn, elwaf mangre,  
Dygymer hwyl ffêr, heul neud ffofre!<sup>54</sup>

<sup>50</sup> *Ibid.*, 9.123-4.

<sup>51</sup> *Ibid.*, 9.133-4.

<sup>52</sup> GLIF 7.1-4.

<sup>53</sup> GC 4.9-10.

<sup>54</sup> GLILI 14.1-4.

Yr un yw'r olygfa a ddarlunnir yng 'Nghlaf Abercuawg':

Kynntein, kein pob amat.  
Pan vryssyant ketwyr y gat,  
Mi nyt af, anaf ny'm gat.

Kynteuin, kein ar ystre.  
Pan vrys ketwyr y gatle,  
Mi nyt af: anaf a'm de.<sup>55</sup>

O'u cyfuno, elfennau un darlun o fyd a bywyd perffaith yw'r nodweddion hyn gyda bywiogrwydd natur yn yr haf yn arwyddo tymor rhyfela a charu. Medd Helen Fulton:

In the work of the early gogynfeirdd, nature imagery fulfills its traditional function of enhancing heroic and martial themes, and by extension comes to be associated also with the expressions of love in the rhieingerddi. The connection between love and nature is therefore already established in Welsh court-poetry as part of the bardic tradition.<sup>56</sup>

Ystyriai J. Lloyd Jones fod arwyddocâd manylach i'r prologau natur, gan eu cyfrif yn gyfeiriadau at adegau cyfansoddi'r cerddi. Gofynna:

... is it not preferable to see a deliberate indication of the time or season of the occurrence and consequently of the composition, and the design and accord or antithesis with the poet's experience, rather than the old tradition of Welsh Cyntefin Ceinaf amser and the Irish Céttamain ré, 'Maytime, fairest of seasons?'<sup>57</sup>

Mae i'r haf ran amlwg yn y cerddi hyn a pherthynas bendant â'u prif thema, ond nid yw hynny ynddo'i hun yn brawf o adeg eu cyfansoddi. Fformiwla farddol yw'r haf sy'n gosod golygfa ac yn creu awyrgylch, ac a ddefnyddir yn gyson fel rhagarweiniad ffurfiol i ganu rhyfel a chanu serch. Nid oes rhaid derbyn pob cyfeiriad at y tymor yn ddisgrifiad o realiti, nac ystyried iddo gael ei ddefnyddio i adlewyrchu gwirionedd. Yn wir, byddai arddull agored ac

<sup>55</sup> CLIH VI, 17-18.

<sup>56</sup> Fulton, *op. cit.*, t.102.

<sup>57</sup> J. Lloyd Jones, The Court Poets of the Welsh Princes (Cardiff, 1978), t.22.

uniongyrchol o'r fath yn ddieithr i natur dywyll cerddi'r Gogynfeirdd, fel y dadleua J. E. Caerwyn Williams:

... the Court Poets themselves by and large do not seem to be concerned to give us much factual information about the events they celebrate: indeed, they seem to be content to affirm that the events are to be celebrated irrespective of when and where they occurred, with the result that such an event as a famous battle is identified with the minimum detail, generally with the name of the place where it occurred, rarely with the date of occurrence.<sup>58</sup>

Gellid gweld arwyddocâd a grym dyfnach i elfennau natur y canu hwn os ystyrir mai defnyddio delweddu o fyd natur i ddiriaethu a darlunio agwedd ar fywyd dyn y mae'r beirdd yn hytrach na gosod y gerdd mewn cyd-destun amseryddol. Gwelwn Brydydd y Moch, wrth ei osod ei hun mewn cefndir naturiol, yn cyfod ei fethiant a'i ddioddefaint ef â ffyniant natur:

Neur arwedd dyfredd yn eu dyfrlle  
 Gwisg gwynddail gwyail gwedd adarre,  
 Neud adnau cogau, coed neud atre,  
 Neud adwen ar ddyn rhy-ddwyn fy ngne.  
 Neur ddug Wysg, gantwysg gan ei godre,  
 Dolydd Caerllion ddail lliaws bre;  
 Neu'm dwg meirch mygrfawr, dyrawr, dyre,  
 Ar hwyl ganmawl hawl, ar haul orne,<sup>59</sup>

Darlunnir y tir yn iach a hardd; ceir dŵr yn llifo, dail ar ganghennau, cogau'n gysgodol - a'r bardd yn welw. Wrth i'r afon redeg a chludo dŵr i Gaerllion cludir y Prydydd ar ei farch at Wenllian.

Uniaethu â'r bardd yn ei hiraeth a'i lesgedd y mae natur yn rhieingerdd Cynddelw Brydydd Mawr i Efa:

Neud lluddedig glan rhag glas fordwy,  
 Neud llawen awen, awel neud mwy!  
 Neud llawer y'm llif-i lliw amaerwy - ton  
 Ban llewych y bron ger y breichrwy:<sup>60</sup>

<sup>58</sup> Williams, *op. cit.*, t. 74.

<sup>59</sup> GLIL 14.21-8.

‘Delwedd o’i gyflwr ei hun’ yw’r darlun hwn o fyd natur, gyda churiadau cyson y môr ar y lan yn adlais o’r modd y trywenir Cynddelw gan yr un o liw ymyl ton.<sup>61</sup> Cydymdeimlo y mae’r môr hefyd â Mab y Clochyddyn yn ei farwnad ef i Wenhwyfar:

Llafar mor hwyrwar o’i marw herwydd!  
 Llawer deigr is gran oedran edrydd.  
 Llyw nefol dwyfol, Dofydd, - o’i dygiad  
 Lle yw ynn arnad girad gerydd.<sup>62</sup>

Y mae natur ei hun yn dioddef oherwydd ei cholli hi.

Daw’r môr hefyd yn elfen amlwg ym marwnadau’r Gogynfeirdd i wragedd bonheddig. Nodir safle bedd merch uwchben y môr gan Oronwy Gyriog yn ei farwnad i Wenhwyfar:

Llan-faes fan uwch marian môr  
 A gudd Gwen-hoewfudd-hwyfar,<sup>63</sup>

Mewn modd tebyg y disgrifir y man y claddwyd y Wenhwyfar y canodd Gruffudd ap Maredudd ei marwnad:

Gwisgvyt heul gvindreul ger gwynndraeth kyrchell.  
 myvn karchar glasved kaeth.<sup>64</sup>

Gorchud hoen blaen. gorlliw gvelwgaen. gerllav gweilgi.<sup>65</sup>

Bron na ellir ystyried i natur ei hun gael ei chladdu yn y ddwy farwnad hon. Cynhelir ynddynt ddelwedd o’r arglwyddes fel yr haul a’r lloer, sef goleuni a

---

<sup>60</sup> GCBM i 5.97-100.

<sup>61</sup> *Ibid.*, t. 73.

<sup>62</sup> GGrG 6.49-52.

<sup>63</sup> *Ibid.*, 2.5-6.

<sup>64</sup> R 1319.17-19.

<sup>65</sup> *Ibid.*, 1321.25-7.

disgleirdeb y byd. Diffoddir goleuni a bywyd yr holl fyd ar ei marwolaeth ac wrth ei chladdu caethiwir y lloer:

Hevl wyned neut bed nyt byv vnbennes  
 heb ennill ychfyryw.  
 henv gorhoffter a deryw.  
 hoen lloer hvn oer heno yv.

Echwng gvenlloer oed oer doe<sup>66</sup>

Hir yw ynof cof cyffro  
 Herwydd trais Dofydd trosti;  
 Hawdd ymurddawdd â mawrdda,  
 Hael hoendeg liw haul hundy.

Rhên nef, rhan ofid dynggoll  
 Rhyhun bun, byd nis hennill;  
 Rhoed llawr ar lloer harddedd byll,  
 Ni rodded llawr ar wawr well.

Gwellwell fu bwyll, gannwyll gain,  
 Gwenhwyfar haul daear hoen;  
 Gorchudd gwawr yw llen fawr faen,  
 Garchweddl i'w cheneddl ei chwyn.<sup>67</sup>

Chwery natur ran amlwg ym marwnad Einion ap Gwalchmai i Nest ferch Hywel hefyd. Agorir y gerdd â chyfres o ddisgrifiadau o fyd natur ym mis Mai, gyda choed ac adar yn ein harwain i ddisgwyl cerdd serch lawen:

Amser Mai, maith dydd, neud rhydd rhoddi,  
 Neud coed nad ceithiw, ceinlliw celli.  
 Neud llafar adar, neud gwâr gweilgi,  
 Neud gwaedddgreg gwaneg gwynt yn edwi.<sup>68</sup>

<sup>66</sup> *Ibid.*, 1318.27-9; 1318-9.

<sup>67</sup> GGrG 2.9-12, 21-8.

<sup>68</sup> GMB 26.1-4.

Cymaint mwy trawiadol felly yw dilyn hyn â galar y bardd o golli Nest a darlun o'r môr yn ffyrnig a hallt fel dagrau:

Endewais-i wenyg a wynofi - dir  
 I am derfyn mawr meibion Beli.  
 Oedd hydraiddd wychyr llŷr yn llenwi;  
 Oet hydr am ddylan gwynfan genthi.  
 Hyll nid oedd ei deddf-hi, hwyr reddf holi,  
 Hallt oedd y dagrau, digrawn heli.<sup>69</sup>

Adlewyrchiad allanol o dymestl fewnol y bardd a gawn yma. Mae'n bosibl mai syniadau tebyg a gawn yma gan Ruffudd ap Maredudd, os nad cyfeirio at wynder Gwenhwyfar a wneir:

Treigyl yr gallon honn. hoen geirv kreichneit glwys.  
 gloes alar orveilyeint<sup>70</sup>

Tynna Jane Ann Cousins ein sylw at natur wirebol y gyfres o linellau yn awdl Einion ap Gwalchmai sy'n dechrau â'r gair 'neu(d)'<sup>71</sup> a'u tebygrwydd i'r canu englynol cynnar, yn arbennig i englynion 'Claf Abercuawg' lle mae'r 'bardd yn cyferbynnu ei stad alaethus ef ei hun â phrydferthwch natur.'<sup>72</sup> Noda'r tebygrwydd mawr rhwng y llinellau canlynol o 'Glaf Abercuawg':

Pan orwisc coet teglyw  
 Haf, terys glaf wyf hediw.

Coc lauar a gan gan dyd

Neus e[n]deweis i goc ar eidorwc brenn.<sup>73</sup>

â geiriau Einion ap Gwalchmai wrth farwnadu Nest ferch Hywel:

Neud coed nad ceithiw, ceinlliw celli

<sup>69</sup> *Ibid.*, 26.7-12.

<sup>70</sup> R 1318.38-9.

<sup>71</sup> GMB 26.1-6.

<sup>72</sup> *Ibid.*, t.207.

<sup>73</sup> CLIH, VI, 2b-c, 4a, 8a.



Neud llafar adar, ....

Endewais-i wenyg a wynofi - dir <sup>74</sup>

Gwêl Kathleen Ann Evans hefyd wreiddiau'r canu natur hwn yn nefnydd y Cynfeirdd o ddisgrifiadau natur wrth gyfleu agwedd ar fywyd dyn. Noda'r modd yr uniaethai Llywarch Hen ei gyflwr ei hun â thynged y ddeilen grin, a'r dull a ddefnyddir ganddo i bwysleisio'i drallod wrth ddarlunio'r gaeaf o'i amgylch.<sup>75</sup>

Dyr gwenn gwynt; gwynn gne godre  
Gwyd; dewr hyd, diwlyd bre.  
Eidyl hen, hwyr y dyre.<sup>76</sup>

Cyfeirio at yr hydref a wna Gwalchmai wrth gwyno am serch yn ei gerdd 'I Efa'r Wraig', ac efallai y gellid gweld arwyddocâd i'r ffaith mai ar adeg Calan Gaeaf yr honna Gruffudd ap Dafydd ap Tudur iddo gael ei 'ladd heb arfau':

Yn y Llun cyntaf o ddechrau gaeaf,  
Pan fydd anaraf ton fasaf fais,  
Yr unfed flwyddyn - o oed a therfyn  
Iawnder yw gofyn, hyn a honnais -  
Ar ddeg, rwymedig rin, trwy lid a gorddin,  
O oed y brenin, breiniog Cemais,  
Yn llygrant i'm gran, yn lle y gelwir Llan,<sup>77</sup>

Mae modd ystyried y cyfeiriadau natur hyn, nid yn unig yn ddatblygiad o ganu englynol a gwirebol brodorol, ond hefyd yn ffrwyth dylanwad cyfandirol, fel y dengys Kathleen Ann Evans:

O sylwi ar y disgrifiadau natur a geir fel math o ragymadrodd yng ngherddi'r Gogynfeirdd, fe'n hatgoffir o'r hyn a elwir yn Natureingang yn y canu cyfandirol yn yr Oesoedd Canol. Un o'r defodau cyson yng nghaniadau serch y Goliardi neu'r clerici vagantes, sef ysgolheigion crwydrol a ymgyfenwent yn deulu Golias, ac yng ngherddi'r Trwbawriaid oedd dechrau cân â disgrifiad o ddadeni byd natur yn y

<sup>74</sup> GMB 26.2-3, 7.

<sup>75</sup> Evans, *op. cit.*, t. 93.

<sup>76</sup> CLIH, II, 10.

<sup>77</sup> GGDT 5.13-19.

gwanwyn. Cyfeirir, dro ar ôl tro, at yr adar yn telori, y coed yn deilio a'r blodau yn egino ym mhob man ac ymddengys mai confesiynol ac ystrydebol i'r eithaf oedd y disgrifiadau hyn. Er hynny, ymhyfrydai'r bardd wrth uniaethu'i deimladau â'r gorfoledd ym myd natur neu, bryd arall, wrth wrthgyferbynnu llawenydd y gwanwyn â'i ddigalondid ef ei hun. Dechreuir weithiau, â disgrifiad o farwolaeth natur yn y gaeaf ac awgrymir fod noethni'r tymor yn gydweddd â'r gwacter y teimlai'r bardd oherwydd diystwrch rhyw ferch tuag ato. Ond, yn raddol, dirywiodd arwyddocâd y disgrifiadau agoriadol hyn ac fe'u defnyddid fel addurniadau rhagarweiniol yn unig, heb unrhyw gysylltiad â gweddill y gerdd.<sup>78</sup>

Ond o ba le bynnag y deilliodd y cyfeiriadau natur hyn rhybuddia J. E. Caerwyn Williams ni rhag gorymdrechu i'w dadansoddi yn ôl safonau beirniadaeth fodern. Wrth drafod cerdd Hen Tsieineeg meddai:

'This,' according to Lai Ming, 'was perhaps one of the first poems to use the technique of alluding to things in nature as a means of illustrating the sentiment people wanted to convey.' It is perhaps easy to forget that applying modern methods of analysis to such specimens of ancient poetry as this has its perils. It is tempting to say that the poet of olden times is seeking an analogy in nature for his feelings and that he compares his feelings of longing for his beloved with those of the stork calling for his mate. It is possible, however, that it is only by reading his sense of longing into the cry of the stork that he understands his own feelings, and that it is only by doing so that he has the slightest chance of making his audience understand those feelings.

... Even if we assume that the author of the Chinese verse understood his own feelings and could express them to himself without any reference to nature, it is possible that to convey those feelings to others, in this case his beloved, he had no choice but to refer to nature.<sup>79</sup>

Tynna ein sylw hefyd at ddamcaniaeth Hugo Kuhn ynglŷn â gwaith y Minnesang Almaeneg:

Hugo Kuhn ... has advanced the theory that 'Nature' and 'the Beloved' were not in themselves objects of feelings, joyful or painful, to the Minnesinger; that they had rather become symbols of certain feelings for them and for society at large, and that the Minnesinger used the two, Nature and the Beloved, to externalize their own feelings.<sup>80</sup>

<sup>78</sup> Evans, *op. cit.*, t.88.

<sup>79</sup> Williams, *op. cit.*, t.83.

<sup>80</sup> *Ibid.*

Beth bynnag oedd swyddogaeth y darluniau o fyd natur a geir yng nghanu'r Gogynfeirdd i ferched, boed hynny'n ymgais i ddiriaethu profiad neu i osod golygfa a chreu naws, roedd y beirdd yn ymwybodol o draddodiad o ganu natur ac o arwyddocâd y tymhorau i'w cynulleidfa. Os yr haf oedd tymor caru, naturiol fyddai dathlu'r adeg honno o'r flwyddyn wrth ddatgan awdlau serch i ferched hardd, a chanu'n llawen am afiaith y cyfnod hoenus hwnnw.

### 3. DISGRIFIADAU O'R ARGLWYDDES

Defnyddir disgrifiadau o elfennau o fyd natur nid yn unig i ddiriaethu serch y bardd a chyfleu cyd-destun, ond hefyd i gynorthwyo i bortreadu gwrthrych y serch hwnnw. Yn un o awdlau Casnodyn, ymddengys yr arglwyddes drwy gyfrwng trosiad o fyd bywyd gwyllt:

Rhuddhyddnaid i'm rhaid, bu rhôn - fy nigio:  
Câr hwylio cur hoelion,<sup>1</sup>

Felly hefyd yng ngwaith Gruffudd ap Maredudd:

Trefnawd honn arnaud kavd nyw kudijr.  
troir iyrchell ymhell agymhvyllir.<sup>2</sup>

Gwelwn ddelweddau tebyg yn ddiweddarach gan Ddafydd ap Gwilym, megis yng nghywydd 'Y Breuddwyd' lle gwelir ef yn hela ewig, sef delwedd o'r ferch:

Ewig wen uwch y llennyrch  
A welwn, carwn y cyrch,  
A rhawt fytheiaid ar hynt.  
Yn ei hôl, iawn eu helynt;  
Cyrchu'r allt dros ddiwalltrum,  
A thros ddwy esgair a thrum,  
A thrachefn dros y cefnydd  
Ar hynt un helynt â hydd,  
A dyfod wedi dofi,  
A minnau'n ddig, i'm nawdd i.<sup>3</sup>

Gwelwn Ddafydd hefyd yn cymharu ei gariad ag anifeiliaid anwadal, anniolchgar yn y cywydd 'Anwadalrwydd':<sup>4</sup>

Iwrch drythyll, hely deilgyll hawl  
*Erchwys* hydr, iyrchus huadawl,

<sup>1</sup> GC 3.17-18.

<sup>2</sup> R 1320.29-31.

<sup>3</sup> GDG 39.13-22.

<sup>4</sup> Gweler John Rowlands, 'Delweddau Dafydd ap Gwilym', *YB*, II (1966), tt. 58-76.

Rhywyllt ei ruthr mewn rhewynt,  
 Rhyfain hydd, rhy fuan hynt.  
 Rhydain iwrch, rhedai yn Iâl,  
 Rhy dinwyn lwdn rhedynwal.  
 Astud air, ys doud erof,  
 Ystid goch, os da dy gof,  
 Bennod yr hydd, gelltydd gil,  
 Ban oeddud gynt banw eiddil.<sup>5</sup>

Ond er gwaetha'r cyfeiriadau uchod gan Gynddelw a Gruffudd ap Maredudd, anghyffredin iawn yw trosiadau o'r arglwyddes fel anifail gwyllt a bywiog yng ngwaith y Gogynfeirdd. Cenir gan amlaf amdani fel blodyn eiddil a phrydferth:

Er hoen blodau'r sirian<sup>6</sup>

Detholir blodau unigol gan y beirdd i'w cyffelybu i'r merched hyn:

Lleddf englynion lliw rhos gwynion<sup>7</sup>

Rhof a phryd alaw, fal ffrwd wylais<sup>8</sup>

Yn *nau* hoen blodau blawd ysbyddad.<sup>9</sup>

Blodau hardd ydynt oll, a hawdd deall pam y dewiswyd hwy gan y beirdd i ddisgrifio'r arglwyddesau teg. Cawn dri chyfeiriad at ruddiau merch yn goch fel 'ffion', sef rhosyn neu fysedd y cŵn:<sup>10</sup>

Gwangain riain rudd ffion<sup>11</sup>

Wenhwyfar rudd ffion<sup>12</sup>

<sup>5</sup> GDG 60.13-22.

<sup>6</sup> GGLI 1.30 (Hywel ab Einion Lygliw).

<sup>7</sup> GGrG 4.27 (Iorwerth ab y Cyriog).

<sup>8</sup> GGDY 5.2.

<sup>9</sup> GGLI 1.80 (Hywel ab Einion Lygliw).

<sup>10</sup> Cafwyd disgrifiad tebyg o ruddiau Olwen: 'Oed kochach y deu rud no'r fion', CO 496. Tynn Rhiannon Ifans (GGrG t. 130) hefyd sylw at ddisgrifiad o'r fath am Owain ap Gruffudd gan Hywel Foel, 'Dewr Ewein, deurutliw fion', GBF 22.3.

<sup>11</sup> GC 3.7.

<sup>12</sup> GGrG 6.106.

Mewn gwisg eurnadd, gradd gruddiau ffion.<sup>13</sup>

Ond, serch hynny, ymddengys mai yng ngwynder y blodau y mae eu prif apêl i'r Gogynfeirdd wrth iddynt ddarlunio'r merched. Bwriadol ac effeithiol yw dewis petalau blodau afalau i greu'r argraff o wynder eiddil eu croen:

Gorwyn blaen afall blodau fagwy<sup>14</sup>

Am Nest deg debyg afallflawd,<sup>15</sup>

Gorfflemych llewyh llen afallwyd - can.<sup>16</sup>

Arwyddocâd nid annhebyg sydd i gymharu gwedd arglwyddes â gwawn:

Gwenned gwawn a'i dawn o'i daioni,<sup>17</sup>

Aelaw iawn yw dawn gne gwawn gwawtchweg,<sup>18</sup>

Gweddgain gwynnaf, gwedd gwawn gweunydd.<sup>19</sup>

Datblygir y delfryd hwn o wynder yr arglwyddes gan ehangu ffynonellau'r cymariaethau ym myd natur. Darlunnir y merched fel gwynder bregus barrug (*arien*) y bore:

Lludd gwen lliw arien ar Eryri.<sup>20</sup>

Gwynlliw arien briw brig huenydd,<sup>21</sup>

Arien decced eirian drefred arwydd coddod<sup>22</sup>

<sup>13</sup> GGrG 8.24 (Gruffudd ap Tudur Goch).

<sup>14</sup> GMB 9.25 (Gwalchmai).

<sup>15</sup> GLIF 6.69 (Hywel ab Owain Gwynedd).

<sup>16</sup> GBF 30.37 (Iorwerth Fychan).

<sup>17</sup> GMB 26.27 (Einion ap Gwalchmai).

<sup>18</sup> GC 5.1.

<sup>19</sup> GGrG 4.12 (Iorwerth ab y Cyriog), gweler hefyd llinell 32 yr un gerdd; GGLI 1.72 (Hywel ab Einion Lygliw); R 1319.2 (Gruffudd ap Maredudd); MA 337, Goronwy Ddu I Ferch, ll. 3.

<sup>20</sup> GMB 26.42 (Einion ap Gwalchmai).

<sup>21</sup> GBF 31.43 (Iorwerth Fychan).

<sup>22</sup> MA 337, Goronwy Ddu I Ferch, ll. 7.

Am wynder o'r fath y mae Gwalchmai'n breuddwydio:

Breuddwydiaw er bun balchliw arien ddos.<sup>23</sup>

Daeth disgrifio gwynder croen yr arglwyddes bron yn obsesiwn gan y beirdd, a gwelwn hwy'n pentyrru cymariaethau a throsiadau o fyd natur yn eu hymgais i fawrygu lliw ei chnawd. Rhoddwyd sylw arbennig ganddynt i wynder eira, a chymaint yw eu hawydd i ddisgrifio union wynder yr eira hwnnw, ac felly wynder a thegwch yr arglwyddes, fel y gellid bron gymharu manylder a sylwgarwch y Gogynfeirdd wrth ddisgrifio eira ag eiddo'r Esgimo! Nid yw'r rhaiain o liw eira, ond o liw'r eira gwynnaf neu liw eira newydd:

Myfanwy, hoen blaen eiry blaen gaen gawad.<sup>24</sup>

Cymherir yr arglwyddes hefyd â lliw eira disathr:

Lliw difrisg lluwchwisg eiry llechwedd - maenawl,<sup>25</sup>

Lleufer eiry didraul neu haul yn haf,<sup>26</sup>

Gwynlliw eiry difriw, dyfrys hoedran.<sup>27</sup>

Gwelir lliw ei chroen fel lliw eira cyn dadlaith:

Gwynbryd nyf cyn datawdd,<sup>28</sup>

Prif degwch dilwch eiry dolydd - cyn glaw,<sup>29</sup>

Mae yma hefyd fanylu ar adeg yr eira:

---

<sup>23</sup> GMB 9.93 (Gwalchmai).

<sup>24</sup> GGLI 1.56 (Hywel ab Einion Lygliw).

<sup>25</sup> GSRh 5.15 (Rhisierdyn).

<sup>26</sup> GLIBH 3.17 (Llywelyn Brydydd Hoddnant).

<sup>27</sup> GDB 22.4 (Goronwy Foel). Gweler hefyd GGDT 5.46.

<sup>28</sup> GGrG 4.30 (Iorwerth ab y Cyriog).

<sup>29</sup> GSRh 1.13 (Sefnyn).

Hoyliw manot ionawr<sup>30</sup>

Er lliw lluch Ionawr, er nef a llawr,<sup>31</sup>

Eglurder eiry ystwyll,<sup>32</sup>

Nodir lleoliad yr eira hefyd, a chawn ef ar ucheldir:

Lliw gwiw gwymp gyfnod manod mynydd.<sup>33</sup>

am vun dec y llun lliw nyf gorthir<sup>34</sup>

Gwynlluch eiry uchuch aches dolydd.<sup>35</sup>

Gwelwn eira ar goed:

Gwae arodes . ac ae kolles . bryt eiry kelli.<sup>36</sup>

ac mewn llannerch:

yeirll annun eiry llannerch<sup>37</sup>

Pwrpas hyn oll yw pwysleisio gwynder a gwycheder yr arglwyddes. Creir naws mwy personol a phenodol wrth i'r bardd enwi man arbennig ac felly ei osod ei hun, a'i arglwyddes o bosibl, yn eu cynefin. Cawn gip ar sylwgarwch y bardd drwy hyn wrth iddo nodi lle'n union y gwelodd wynder tebyg i lendid ei arglwyddes:

Cyfliw eiry gorwyn gorwydd Epynt,<sup>38</sup>

<sup>30</sup> R 1327.13-14 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>31</sup> GGD 2.17.

<sup>32</sup> GGrG 6.102 (Mab y Clochyddyn). Gweler hefyd GGLI 1.35 (Hywel ab Einion Lygliw).

<sup>33</sup> *Ibid.*, 6.48 (Mab y Clochyddyn).

<sup>34</sup> R 1320.21-2 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>35</sup> GBF 31.44 (Iorwerth Fychan). Gweler hefyd GBF 30.12 (Iorwerth Fychan); GLIF 9.10 (Hywel ab Owain Gwynedd); GSRh 1.14 (Sefnyn) a 5.15 (Rhisierdyn).

<sup>36</sup> R 1321.28-9 (Gruffudd ap Maredudd). Gweler hefyd, o bosibl, GMB 9.41 (Gwalchmai).

<sup>37</sup> R 1326.42-3 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>38</sup> GCBM i 5.6.



Lliw eiry cynnar pen Aran,<sup>39</sup>

kannlliv eiry gvenvro kanybo byt.<sup>40</sup>

Mae'r beirdd hefyd yn dewis disgrifiadau o'r môr a thonnau wrth ddarlunio ansawdd cnawd y ferch:

I edryd llywy lliw ton dylan<sup>41</sup>

Myned er gweled (gwenned gwaneg!)<sup>42</sup>

Gwynlleufer gwynder gwendon dylan.<sup>43</sup>

ac yn 'kerd Sefnyn y liwr ewyn o nann heudwy' ceir:<sup>44</sup>

Llathrodd dros fydoedd, drumoedd dramwy,  
Llwybr nod gwyn friwdod, myn Gwynfrewy,  
Lliw ewyn ar ddyn, i'r ddwy - adlif,  
Llanw mynudrew llif Llyn Mynedy.<sup>45</sup>

Defnyddir delwedd ewyn ar don nid yn unig oherwydd ei wynder ond hefyd o ganlyniad i'w disgleirdeb:

Lliw golau tonnau, taenferw gwenig,  
Llanw ebyr a'r llŷr lle ni mawrdrig;<sup>46</sup>

Hwyl orne heulfre ar froydd - glasfor<sup>47</sup>

Lleufer ebyr mŷr morfeydd - dylan<sup>48</sup>

---

<sup>39</sup> GGLI 1.35 (Hywel ab Einion Lygliw).

<sup>40</sup> R 1319.44 - 1320.1 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>41</sup> GLIF 9.8 (Hywel ab Owain Gwynedd).

<sup>42</sup> GC 5.33.

<sup>43</sup> GDB 22.6 (Goronwy Foel).

<sup>44</sup> R 1259-60.

<sup>45</sup> GSRh 3.1-4.

<sup>46</sup> GCBM i 4.3-4.

<sup>47</sup> GBF 30.5 (Iorwerth Fychan).

<sup>48</sup> *Ibid.*, 30.9 (Iorwerth Fychan).

a hefyd ei gwelwder:

Gorchud hoen blaen. gorlliw gwelwgaen. gerllaw gweilgi.  
Gwanec loewder. gwynnvrlic aber. gwenvro gybi.<sup>49</sup>

Meddwl serchawl hawl, liw ton hwyliad - welw.<sup>50</sup>

Eir ati hefyd i greu argraff o union ansawdd a lliw'r don. Darlunia Gruffudd ap Maredudd lendid croen yr arglwyddes yn gelfydd drwy ei chymharu â dŵr yn torri'n wyn:

am valchliw ewyn glasdyfyr rynn ryt.<sup>51</sup>

roi yn rwym irderv. lliw berw basryt<sup>52</sup>

lliw geirw ryt o bryt awnaeth brat ym gne<sup>53</sup>

Fel y gwelsom uchod, cyfeiria at don mewn aber:

Gwanec loewder. gwynnvrlic aber. gwenvro gybi.<sup>54</sup>

ac at ddŵr bas yn torri:

lliw bas ewinblas wennbleit.<sup>55</sup>

a thon yn torri ar y lan:

Hitheu hoen gwenndon lonn don amdir<sup>56</sup>

Cawn ddisgrifiad hefyd gan Gynddelw o Efa fel ton mewn tywydd mawr:

<sup>49</sup> R 1321.25-28 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>50</sup> GGL1 1.57 (Hywel ab Einion Lygliw).

<sup>51</sup> R 1319.27.

<sup>52</sup> R 1320.4-5.

<sup>53</sup> R 1326.44 - 1327.1.

<sup>54</sup> R 1321.27-8.

<sup>55</sup> R 1319.12-13.

<sup>56</sup> R 1321.2; gweler hefyd GGDT 4.22.

Cymrawd ewyn dwfr a'i dyfriw gwynt,<sup>57</sup>

ac unwaith yn rhagor, o bosibl:

Gorne gwawr fore ar fôr diffaith.<sup>58</sup>

Awgryma natur wyllt ton mewn gwynt a thywydd garw y byddai'r ewyn yn tasgu'n wynnach nag erioed, ac felly'n debyg i liw croen Efa. Ymddengys yr argraff hon o wedd y ferch fel crych ar don neu don yn torri'n aml yng nghanu'r Gogynfeirdd:

Bwiad gair difrad, bryt geirw dyfredd - glud<sup>59</sup>

Na wna feinwar ne berw tonniar gwenwenhwyfar<sup>60</sup>

“Gwelir mai ‘pwrpas’ y disgrifio gan amlaf”, medd Gilbert E. Ruddock, “yw apelio at y gynneddf weld”.<sup>61</sup> Portreadu gwynder croen y ferch a phwysleisio'r gwynder hwnnw yw diben yr holl fanylu hwn ar donnau ac ar ewyn, fel yn y disgrifiadau o eira a barrug. Mae'n ddiddordol sylwi mai am wynder dŵr y môr, ac nid ei lesni, y mae'r Gogynfeirdd yn sôn bob tro wrth ddisgrifio'r arglwyddesau. Ni cheir un disgrifiad o lesni llygaid arglwyddes drwy holl ganu serch y Gogynfeirdd. Nid peintio a lliwio darlun byw o'r ferch oedd uchelgais y beirdd drwy gyfansoddi'r cymariaethau hyn ond nodi a chyfleu ei gwynder syfrdanol.

Ond apelia'r disgrifiadau hyn o ewyn ar donnau'n torri at y synhwyrau eraill yn ogystal ag at y gynneddf weld. Creir argraff o ysgafnder a hoywder y ferch, a phwysleisir sŵn y don wrth ddisgrifio'r môr cynhyrfus:

<sup>57</sup> GCBM i 5.3.

<sup>58</sup> *Ibid.*, 5.90.

<sup>59</sup> GSRh 5.27 (Rhisierdyn).

<sup>60</sup> MA 337, Goronwy Ddu, I Ferch, ll. 11; gweler hefyd GGDT 5.9.

<sup>61</sup> G. Ruddock, ‘Prydferthwch Merch yng Nghywyddau Serch y Bymthegfed Ganrif’, *LIC*, XI (1977), t.145.

Mynnawd molawd gnawd, gne ton waeddgreg,<sup>62</sup>

Hoen gwaedgreg gwaneg gweunydd,<sup>63</sup>

A dyngai cyn Mai merwerydd - gyfliw,<sup>64</sup>

Enwir tonnau nodedig hefyd er mwyn pwysleisio arbenigrwydd gwedd yr arglwyddes:

Lliw ewynfriw teg rhag ton nawfed.<sup>65</sup>

hoen tonn ogledd wyned wawr<sup>66</sup>

Enwir ardaloedd penodol lle ceir dyfroedd, yn union fel y gwneir wrth ddisgrifio eira:

Gorffurfrwydd gwendon gwyndir Mechydd.

Gorphlyg rawd wenyg rhyd Dderwennydd.<sup>67</sup>

Gwelir ôl dychymyg mewn rhai o'r cymariaethau mwyaf cofiadwy, megis y darlun o ewyn o amgylch rhwyf a gawn gan Gynddelw:

Celadwy lywy, liw ton am rwyf,<sup>68</sup>

Ceir hyn hefyd gan feirdd eraill yn ddiweddarach:

O mynnwn fy nghlwyf gan liw ton wrth rwyf,<sup>69</sup>

dec oroen tonn am rwyf.<sup>70</sup>

---

<sup>62</sup> GC 5.25.

<sup>63</sup> GGD 4.75.

<sup>64</sup> GBF 30.17 (Iorwerth Fychan).

<sup>65</sup> GCBM i 5.46.

<sup>66</sup> R 1327.15 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>67</sup> GBF 30.30, 36 (Iorwerth Fychan).

<sup>68</sup> GCBM i 5.29.

<sup>69</sup> GGD 5.27.

<sup>70</sup> R 1327.10-11 (Gruffudd ap Maredudd).

Cawn ddelwedd drawiadol o ferch o liw ewyn gan Gasnodyn yn ei awdl i Wenlliant wraig Gruffudd Llwyd o Dregarnedd:

Arial Bugethal, brif ddial breg,  
Arwydd dieilwydd, rhwydd fo'n rhedeg  
Ar hoywlun ludd hun, hoen gwenfaneg - maen  
Pan wisg ton frwysgflaen gaen am garreg.<sup>71</sup>

Mae'n bosibl mai adlais o'r darlun hwn a gawn yn awdl enwog Dafydd ap Gwilym i'r Wylan:

Yr wylan deg ar lanw dioer  
Unlliw ag eiry neu wenlloer,  
Dilwch yw dy degwch di,  
Darn fel haul, dyrnfol heli.<sup>72</sup>

Defnyddir delwedd o fôr creulon, tymhestlog hefyd i ddiriaethu effaith yr un o liw ton ar y bardd:

Neud lluddedig glan rhag glas fordwy,  
Neud llawen awen, awel neud mwy!  
Neud llawer y'm llif-i lliw amaerwy - ton.<sup>73</sup>

Ceir elfen debyg yng nghanu serch canoloesol Gwlad yr Iâ:

Brim gnýr, brattir hamrar  
bláklands Haka strandar,  
allt gjalfir eyja þjalfa  
út úðr í stað viðis.  
Mér kveðk heldr of Hildi  
hrannblikis an þér miklu  
svefnfátt; sorva Gefnar  
sakna mank, ef ek vakna.

[‘The ocean roars, the waves like steep mountains on the sea-god’s shore. All the uproar of the sea ebbs back into the deep. I declare I am

<sup>71</sup> GC 5.9-12.

<sup>72</sup> GDG 118.1-4.

<sup>73</sup> GCBM i 5.97-9.

far more sleepless than you for the lady of the gleam of the sea - I miss her whenever I wake.' ]<sup>74</sup>

Ceir delweddau eraill i ddisgrifio gwynder yr arglwyddes sydd yn drawiadol oherwydd eu gwreiddioldeb, megis:

Lliw gwynblyg gwenyg, gwen ei hadaf.<sup>75</sup>

Gne gwyn gyllestr rhiw, rin ddiednydd.<sup>76</sup>

Lloer gwyngnawd lliw blawd blodau meillion,<sup>77</sup>

Weithiau bodlonir ar ailadrodd y lliw a chyfansoddeiriau sy'n cynnwys y lliw nes peri fod glendid y ferch yn ddiymwad:

Cegiden hirwen, hwyrwan ogwydd,  
Cyfeiliw gwen wawr yn awr echŵydd,  
Claer wanllun, wenlleddf, wynlliw, cyŵydd,  
Wrth gamu brwynen braidd na ddygwydd.  
Bechanigen wen, wan ei gogwydd,<sup>78</sup>

Oed gwingar wen, oedd gwen gall.<sup>79</sup>

Llaes wengall, wengan, wengaen deced;<sup>80</sup>

Roedd arwyddocâd arbennig i'r glendid hwn yr ymdrafferthai'r beirdd i'w ddisgrifio. Credid fod harddwch pryd a gwedd yr arglwyddes yn adlewyrchiad allanol o'i moesoldeb mewdol, a glendid ei chroen yn arwydd o burdeb. Rhinweddau y tu hwnt i gyrraedd pawb ond aelodau haen uchaf y gymdeithas, yr *élite* uchelwrol bonheddig, oedd y rhain, a datblygasant yn brawf o dras ac o fonedd. Roedd hyn yn wir yn holl wledydd y Gorllewin a thrwy gyfnod y Dadeni Dysg a'r Oes Oleuedig, fel y dengys Véronique Nahoum-Grappe:

<sup>74</sup> Dyfynnwyd gan Dronke, *op. cit.*, t. 41.

<sup>75</sup> GLIBH 3.16 (Llywelyn Brydydd Hodnant).

<sup>76</sup> GBF 30.18 (Iorwerth Fychan).

<sup>77</sup> GGrG (Gruffudd ap Tudur Goch).

<sup>78</sup> GLIF 7.7-11 (Hywel ab Owain Gwynedd).

<sup>79</sup> GGrG 6.36 (Mab y Clochyddyn).

<sup>80</sup> GCBM i 5.44.

Beauty was a sign from which a diagnosis followed : a glimpse of a face or a figure was enough to predict the future. Beauty was a gift, an identifying characteristic as object as wealth or education. Distributed randomly at birth, wealth and beauty were strokes of fortune, facts that could not be justified but had to be taken into account. The fairy tales that had been making their way around Europe since the late Middle Ages often featured beautiful heroines. Words were inadequate to capture their perfection, which was a sign of grace, like the stroke of a fairy's magic wand above a baby's cradle. Such beauty was the formal concomitant or other tokens of good fortune such as wealth, rank and moral purity (signified by a pure complexion). It was as if physical beauty alone was not sufficient to ensure good fortune. Beauty complemented other, truer gifts (the gifts of "birth") and gave physical evidence of their legitimacy.<sup>81</sup>

Roedd arwyddocâd symbolaidd i'r lliw gwyn ymhlith y marchogion hefyd. Cyfunwyd gwyn, lliw purdeb, a choch, lliw aberth a dewrder, ar darian Lawnslot yn Queste de Saint Graal.<sup>82</sup> Pwysleisir gwynder croen Urien yng Nghanu Llywarch Hen drwy gyfrwng cyferbyniad ysgytwol:

Ac ar y vronn wenn vran du.<sup>83</sup>

Mae cyferbyniaeth o'r fath a'r sylw a roddir i wynder a goleuni yn rhan o natur gynhenid dyn yn ôl Yale Forman. Wrth olrhain gwreiddiau geirfa'n ymwneud â lliw meddai:

When we talk about colours, we usually mean hues. But the fact that the oldest colour terms in every language are usually black and white, suggests that, strictly speaking, these should be translated 'dark' and 'light'. They were originally words that referred to degrees of lightness, not hues. When 'red' is added, it is commonly used to describe a whole gamut of colours from brown through red to yellow.<sup>84</sup>

<sup>81</sup> V. Nahoum-Grappe, 'The Beautiful Woman', cyfieithiad Arthur Goldhammer, A History of Women in the West III: Renaissance and Enlightenment Paradoxes, gol. Natalie Zamon Davis a Arlette Farge (Harvard, 1993), t. 89.

<sup>82</sup> Gweler Yale Forman, et al. (gol.) Colour (London, 1991), t. 77.

<sup>83</sup> CLIH, III, 8c.

<sup>84</sup> Forman, op. cit., t. 50.

Ond ni cheir ôl y fath ymdrech i sylwi ar union liw nac ymddangosiad yn y traddodiad barddol Cymraeg cyn i'r Gogynfeirdd ganu i'w harglwyddesau, hyd yn oed yn nisgrifiadau'r beirdd o feirch.

Gwraig ddelfrydol, berffaith a ddarlunnid yn awdlau'r beirdd llys, ac roedd pwysleisio gwynder ei chroen yn cadarnhau hyn. Arwydd o fonedd ydoedd fel y pwysleisia Gruffudd ap Tudur Goch:

A bysedd hwyrwedd, hirion, - a'i gwynnedd  
Mal y bydd bunedd boneddigion.<sup>85</sup>

Roedd y safon hon yn nod cyffredin iawn yn yr oesoedd canol ar draws Ewrop gyfan:

The face, neck, breasts, and hands were supposed to be creamy white, enlivened by rosy hues in strategic places. White was the colour associated with purity, chastity, and femininity. It was the colour of the "female" heavenly body, the moon, as distinct from the more vibrant hues of the "masculine" sun. A white complexion was also the privilege of the leisured city dweller as distinct from the sunburnt skin of the peasant. Renaissance paintings systematically gave men a darker, more "virile" complexion because they spent more time outdoors than women, who tended to be cloistered in the home. White was delicate, more feminine, more beautiful. Dark was more robust, more tenebrous. Accordingly, cosmetic recipe books contained not only "secrets" for turning women's hair golden but also information for men on how to dye their beards black.<sup>86</sup>

Nid canlyniad ffasiwn newydd na nodweddion cenedl neu ardal arbennig oedd y disgrifiadau a gafwyd o'r wraig ddelfrydol hon. Yr oedd y nodweddion hyn, fel y nota D. S. Brewer, i'w canfod mewn amryw o wledydd ac mewn sawl canrif. Dyfynna ef y disgrifiad ffurfiol cyntaf a erys o wraig hardd, sef disgrifiad o eiddo Maximanian, o Oed Crist, a ysgrifennwyd yn y chweched ganrif, gan nodi mai dyma deip holl wragedd prydfferth llenyddiaeth Ewrop hyd ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg:

<sup>85</sup> GGRG 8.31-2.

<sup>86</sup> Nahoum-Grappe, *op. cit.*, t. 62.



Aurea cæsaries demissaque lactea cervix,  
 Vultibus ingenuis visu sedere magis,  
 Nigra supercilia, frons libera, lumina clara,  
 Urebant animum sæpe notata meum.  
 Flammea dilexi modicumque tumentia labra  
 Quæ gustata mihi basia plena darent.

‘Milky’ whiteness; the golden hair contrasting strikingly with the black eyebrows; the slightly swelling lips; these establish the type to which every lady conforms in all the medieval Latin and vernacular literature of Europe. This conformity is a remarkable illustration of the cultural unity of medieval Europe, and of the general aim of medieval writers to achieve a uniform, non-realistic ideal. Nor does the ‘renaissance’ make much difference.<sup>87</sup>

Daw Helen O’Sullivan i gasgliad tebyg wrth drafod datblygiadau mewn canu serch cynnar Gwyddeleg.<sup>88</sup> Gwallt melyn cyrliog, aelïau duon, llygaid llwyd-las, bochau o liw rhwng coch a phorffor, gwefusau cochion, dannedd disglair gwynion, a chroen gwyn oedd i ferch ddelfrydol y canu hwnnw. Sylwodd hefyd fod y delfryd o brydferthwch a welir mewn cerdd o’r ail ganrif ar bymtheg yn union yr un fath â’r hynny a folwyd mewn chwedlau Gwyddeleg cynnar, a rhai o’r Oesoedd Canol. Gwêl hyn yn brawf mai ffrwyth addysg farddol oedd y disgrifiadau hyn.

Gellid ystyried yr unffurfiaeth hon yn ddiffyg dychymyg ar ran y beirdd ac yn arwydd o’u hanallu i amgyffred gwragedd fel unigolion. Dyma eiriau Simon Gaunt wrth iddo drafod canu’r trwbadwriaid:

... to set a woman up as an ‘image’ of perfection is, as feminists have pointed out, to deny her humanity, for she is confronted with a choice between living up to this ideal, imposed by a male, or failing to meet this impossible criteria, with no middle ground at all.<sup>89</sup>

<sup>87</sup> D.S. Brewer, ‘The Ideal of Feminine Beauty in Medieval Literature’, *Modern Language Review*, L (Gorffennaf 1955), tt. 257- 8

<sup>88</sup> O’Sullivan, *op. cit.*, tt. 20-1.

<sup>89</sup> Simon Gaunt, ‘Poetry of Exclusion: A Feminist Reading of Some Troubadour Lyrics’, *Modern Language Review*, LXXXV (1990), t. 321.

Ond nid yw darlunio'r arglwyddes fel enghraifft o deip o reidrwydd yn arwydd o awydd bwriadol ar ran y bardd i'w bychanu a dileu ei hunaniaeth: darlunio delfryd a wnaed, megis wrth ddisgrifio arglwydd y llys yn rhyfelwr ffyrnig. Nid creu portread gwir ac adlewyrchu realiti oedd uchelgais y beirdd, ond dyrchafu eu harglwydd a'u harglwyddes drwy eu disgrifio'n cyflawni pob safon a osodwyd gan y gymdeithas gwrtais yr oeddynt yn rhan ohoni. Anrhydeddu'r arglwyddes felly oedd amcan y beirdd wrth ei mowldio i ffurf y wraig ddelfrydol hardd, disglair a gwyn ei chroen, ac efallai na ddylid eu beirniadu'n rhy hallt am beidio ag ymdrechu i'w darlunio fel yr oedd.

Er yr enwir nifer o'r gwagedd a'r merched y cana'r Gogynfeirdd iddynt, gellir eu hystyried yn 'formulaic women' fel y gwnaeth Meirion Pennar.<sup>90</sup> Merched perffaith ydynt, yn cydymffurfio â'r delfryd canoloesol Ewropeaidd. Ond y mae i'r arfer hon o ddyrchafu patrwm delfrydol gynseiliau yn y canu mawl Cymraeg cynharach hefyd, fel y noda Jane Ann Cousins yn ei hastudiaeth o foliant beirdd:

Pan ystyriwn yr agwedd hon ar feddwl y bardd cynnar, y mae'n fodd i ni ddeall paham yr oedd y beirdd yn canu mewn dull sydd yn ymddangos i ni yn rhyfedd iawn. Ni cheir darluniau personol o wrthrychau'r moliant yn y cerddi hyn, eithr darlun o'r hyn y teimla'r bardd y dylai'r person hynny fod a geir. Fe adlewyrchir hyn yn y defnydd mynych o "fformiwlâu" i ddisgrifio'r gwrthrych moliant, er enghraifft, fe'i gelwir yn angor, yn fur ac yn ddraig, ac mae'r delweddau hyn yn gyffredin, nid yn unig i feirdd yr ail gyfnod, ond maent hefyd yn digwydd yng ngweithiau'r Cynfeirdd. Nid darlun o'r tywysog unigol, eithr darlun o'r delfryd a geir, neu yng ngoleuni'r ddamcaniaeth hon, darlun o'r hyn yr ewyllysia'r bardd i'r tywysog fod. Er bod syniadaeth yr oesoedd canol yn bur wahanol i'n syniadaeth ni, ac ar wahân i'r ffaith fod y beirdd yn perthyn i urdd gonfensiynol dros ben, credaf fod y ddamcaniaeth hon fod y bardd fel pe bai'n swyno'r tywysog â'i eiriau yn gyfrifol i raddau am y portread delfrydol, yn hytrach na phersonol, a geir o'r tywysog gan Feirdd y Tywysogion. Mae bwriad y beirdd cynnar yn bur wahanol i fwriad y beirdd diweddar, ac o gofio hynny ni ddylem fod yn feirniadol o'r diffyg gwreiddioldeb yng ngwaith y Gogynfeirdd.<sup>91</sup>

<sup>90</sup> Pennar, *op. cit.*, t. 245.

<sup>91</sup> Cousins, *op. cit.*, t. 41

Wrth greu eu portread o'r arglwyddes cyfeiria'r Gogynfeirdd at rannau ac at aelodau o'i chorff i greu argraff ddelfrydol. Fe drafodir y rhannau unigol hynny yma fesul un.

### Gwallt

Mae'r disgrifiadau o walltiau'r arglwyddesau yn gyson yn cynnwys mawl i'w lliw aur neu felyngoch:

Ac uch wyneb gwyn, gwinau fagwy.<sup>92</sup>

y tal dan eur mal am ael veinir<sup>93</sup>

ac eur mal yvch y gvrvm ael.<sup>94</sup>

Gellid hefyd ddeall mai cyfeirio at wallt aur Myfanwy y mae Rhisierdyn yn y dyfyniad nesaf hwn:<sup>95</sup>

Manon aur hoywdal mywn enrhydedd,<sup>96</sup>

Mae'r gymhariaeth hon ag aur yn gyffredin mewn canu serch Gwyddeleg, fel y dengys Helen O'Sullivan:

Ba cosmail leó dath ind fhoiltsin fri barr n-ailestair hi samrad nó fri dergór iar ndénam a datha.

TBDD, Sect. 1

[The colour of her hair seemed to them like the flower of the water-flag in summer, or like red gold that has been polished.]<sup>97</sup>

Noda hefyd gymhariaethau â briallu, gellhesg a sidan y waun wrth ddisgrifio gwallt merch yn y canu cynnar Gwyddeleg, a hefyd gyfeiriadau at saffrwm,

<sup>92</sup> GCBM i 5.106.

<sup>93</sup> R 1320.25 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>94</sup> R 1328.42-3 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>95</sup> Gweler GSRh t. 96.

<sup>96</sup> Ibid., 5.6.

<sup>97</sup> O'Sullivan, op. cit., t. 21.

afalau ac ambr yng ngwaith beirdd rhwng 1200 a 1400. Cyrliog gan amlaf yw'r gwallt yn y cerddi Gwyddeleg hyn.

“Ceir mwy o gyfeiriadau at y gwallt nag at unrhyw ran arall o'r corff”, medd Gilbert E. Ruddock yn ei arolwg o ddisgrifiadau o ferched yng nghywyddau serch y bymthegfed ganrif.<sup>98</sup> Rhestra gymariaethau ag aur, llwyn, tidau, sidan, toi, brig, cwyr a mwg. Sonia hefyd am dwf a thrymder y gwallt a'r arfer o'i blethu. Rhyfedd felly yw gweld cyn lleied o gyfeiriadau at wallt merch yng nghanu serch y Gogynfeirdd ac unffurfiaeth yr ychydig ddisgrifiadau hynny. Nodi lliw yn unig a wneir ac ni chrybwyllir ei ansawdd na'i hyd.

Mae'n bosibl ystyried y prinder hwn o gyfeiriadau at wallt yn ganlyniad i'r ffasiwn o'i orchuddio. Dyma Joan Nunn ar y pwnc hwn:

Women's costume was strongly influenced by church doctrine, which held that sin entered the world through Eve and that women were the eternal cause of sinful lust and thus the source of all wickedness. Women were therefore urged to conceal their physical charms, occasionally without success. With the exception of very young girls and brides, the hair had to be covered and as little as possible of the anatomy revealed. It is interesting to note that even the Virgin Mary was invariably portrayed with her hair covered, and that many nuns' headdresses today are similar to those worn by most women in the 13th century.<sup>99</sup>

Cedwid gwallt merch o'r golwg o dan len, neu wedi ei blethu a'i droi'n dorchau dros y clustiau tan y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>100</sup> Tyfodd eillio blaen y pen gan greu talcen llydan ac uchel yn ffasiynol rhwng 1370 a 1480 - arfer a bwysleisiai awydd y dosbarth uchelwrol i ymddangos yn ddoeth ac yn ddysgedig. Câi merched ifainc wisgo'u gwallt yn rhydd, ond erbyn y bymthegfed ganrif gorchuddid y gwallt yn gyfan gwbl - ac eithrio gan

<sup>98</sup> Ruddock, *op. cit.*, t. 146.

<sup>99</sup> Joan Nunn, *Fashion in Costume 1200-1980* (London, 1984), t. 9.

<sup>100</sup> Gweler C.W. Cunnington, *et al.*, *A Dictionary of English Costume* (London, 1960), a Nancy Bradfield, *Historical Costumes of England from the Eleventh to the Twentieth Century*, trydydd argraffiad (London, 1970).

freninesau ar adeg eu coroni, gan briodferched, gan ferched di-briod (tan tua 1420) a phlant. Byddai peth gwallt i'w weld hefyd pan wisgid twrban agored.

Cawn ddisgrifiadau o wallt aur mewn dwy awdl o waith Gruffudd ap Maredudd. Awgryma Kathleen Ann Evans mai'r un mewn gwirionedd yw gwrthych y ddwy gerdd, ac y gellid casglu oddi wrth y modd y'i gelwir yn 'bun' ac yn 'rhiain' nad gwraig briod oedd y Wenhwyfar hon.<sup>101</sup> Gallwn ddod i gasgliad tebyg ynglŷn ag Efa y canodd Cynddelw ei Rieingerdd iddi. Mae'n bosibl felly mai merched di-briod a wisgai eu gwallt yn rhydd a heb ei orchuddio yw'r merched y ceir cyfeiriadau at eu gwallt yng nghanu'r Gogynfeirdd. Gwyddom, serch hynny, mai gwraig Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd oedd Myfanwy, gwrthrych awdl Rhisieryn y dyfynnwyd ohoni uchod.<sup>102</sup> Ond os derbyniwn fod gwallt pob gwraig arall y canwyd mawl iddi wedi ei orchuddio'n llwyr, a deall hyn fel esboniad o brinder y disgrifiadau o wallt, annisgwyl yw'r prinder a geir hefyd o gyfeiriadau at benwisgoedd, yn enwedig o ystyried y pwyslais a roddid ar geinder a moethusrwydd gwisg yr arglwyddes. Dau gyfeiriad yn unig y gellir, o bosibl, eu darllen fel disgrifiad o benwisg. Cawn sôn am benwisg urael gan Ruffudd ap Maredudd mewn awdl i Wenhwyfar:

Tec om pvyll ovec ym pall auael hun  
oed wenvun hoewlun hael.  
a gereis dan vric vrael  
ac eur mal yvch y gvrvm ael.<sup>103</sup>

Ond sylwn fod gwallt y ferch ifanc hon o hyd i'w weld fel 'eur mal' o dan ei phenwisg. Cawn hefyd ddarlun o '[ben]wisg wedi ei gweithio ag aur' gan Gruffudd ap Tudur Goch hefyd:<sup>104</sup>

Ac uwch gloyw naw llaw llygaid duon,  
Bonheddig eilig aelïau meinïon  
Mewn golau wyneb mal galon - ymladd

<sup>101</sup> Evans, *op. cit.*, tt.353, 356.

<sup>102</sup> GSRh t. 95.

<sup>103</sup> R 1328.40-2.

<sup>104</sup> GGrG t. 122.

Mewn gwisg eurnadd, gradd gruddiau ffion.<sup>105</sup>

Ond mae'n bosibl mai gwallt melyn y ferch sydd yma'n ffrâm i'w hwyneb hardd.

Mae'n debyg, felly, na roddai'r Gogynfeirdd fawr o bwys ar ddisgrifio gwalltiau eu harglwyddesau, a hynny efallai gan nad oedd angen eu darlunio'n fanwl. Gwyddai'r gynulleidfa am foneddigeiddrwydd gwrthrych gwaith y bardd, am ei chroen gwyn ac am ei disgleirdeb. Gallai fod crybwyll rhai o'r disgrifiadu stoc yn rhyw fath o law-fer a awgrymai'r arglwyddes ddelfrydol gyfan i'r gwrandawyr.

Meddai D.S. Brewer wrth drafod portread Chaucer a Boccacio o Emily:

Neither he nor Boccacio needed to describe every aspect of the heroine. Everybody knew her. She was always the same. And the frequency of descriptions shows that she corresponded to a profound need and recurrent image of the mind. We have here in fact on the literary level an excellent example of a stock convention, with its stock response. We respond to Emily because of the scores of other golden-haired girls, bright, pure, gay, which literature has created - even later than the Middle Ages, but first then - which have been vehicles for so many day-dreams, secret desires, aspirations, hopes and fears. Such girls, in medieval literature at least, represent not realistic individuals, unique, never to be met again, like Fielding's Amelia, charming as she is; they represent universals in concrete form. A convention in feeble hands loses particularity and vividness; but in capable hands like Chaucer's, it achieves the kind of power which no mere reportage of individuals can attain. The convention both formulates and releases that 'stock response', the deliberate organization of the mind and feelings which has been described as 'one of the first necessities of human life' if it is to be civilized life, truly human. The idealized beautiful girl corresponds to a basic element in man's experience. This element was so organized in medieval literature - the physical description is but a part of it - that a great poet need only to touch on an essential detail or two to suggest the whole and, indeed, to bring it more powerfully alive than could be done by a full description. Even Dante's Beatrice perhaps draws life from tradition.<sup>106</sup>

<sup>105</sup> *Ibid.*, 8.21-4.

<sup>106</sup> Brewer, *op. cit.*, tt. 266-7.

Aelïau

Prin eto yw'r cyfeiriadau at aelïau'r merched. Nodir aelïau'r arglwyddes yn syml yma gan Ruffudd ap Maredudd a Mab y Clochyddyn:

y tal dan eur mal am ael veinir<sup>107</sup>

Dan llawr ael dyn llary olwg,<sup>108</sup>

Ond pwysleisir hefyd dduwch yr aelïau:

Fuchudd ael, fun hael, fyw'n hwy.<sup>109</sup>

Dygyn ymyrraedd gwaed bu gwael ymylchlaur  
roi mwyalchliw dwyael<sup>110</sup>

ac eur mal ywch y gwrwm ael<sup>111</sup>

Roedd y cyfuniad hwn o groen gwyn, gwallt melyn ac aelïau duon yn nodwedd gyffredin ar y wraig hardd ddelfrydol yn yr oesoedd canol. Manylir hefyd ar siâp bwaog aelïau gwragedd yn Le Roman de la Rose, yr Harley Lyrics, ac yn Descriptio cuiusdam puellae Gerallt Gymro, a ysgrifennwyd yn y 1160au:

prodit in arcum / Forma supercillii

[the shape of her brows show as an arch]<sup>112</sup>

Ceir yr elfen hon yng nghanu serch Iwerddon hefyd:

ar mhalaigh as camdhubh gcuilg

<sup>107</sup> R 1320.25.

<sup>108</sup> GGrG 6.22, ond y mae W. Dyfed Rowlands ac Ann Parry Owen yn darllen 'Dan ymyl [y] llawr ferch fwyn [ei] golygon' yma, tt. 95, 103.

<sup>109</sup> GGLI 1.12 (Hywel ab Einion Lygliw).

<sup>110</sup> R 1318.29-31 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>111</sup> R 1328.42-3 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>112</sup> Dyfynnwyd gan O'Sullivan, *op. cit.*, t. 35.

[in her brow with its curling dark crest]<sup>113</sup>

Gwêl Helen O'Sullivan bosibilrwydd ôl dylanwad Lladin ar farddoniaeth  
Wyddeleg y cyfnod, er nad yw'n amhosibl i'r Gwyddelod ddatblygu'r arfer o  
foli aelïau main, bwaog yn annibynnol ar unrhyw draddodiad tramor. Cawn un  
enghraifft o aelïau main gan Ruffudd ap Tudur Goch:

Bonheddig eilig aelïau meinïon<sup>114</sup>

Ond rhaid disgwyl tan y bymthegfed ganrif, fodd bynnag, cyn y gwelir ymgais i  
greu argraff o ffurf bwaog yr ael gan feirdd Cymraeg.<sup>115</sup>

Ceir un cyfeiriad gan Walchmai at amrant hir a dulas - a hynny ar rudd hir a  
thyner:

Ag amrant hirwrm a grudd hirwlydd,<sup>116</sup>

### Llygaid

Ceir nifer sylweddol o ddisgrifiadau o lygaid yr arglwyddesau, ac eir i gryn  
drafferth i'w darlunio'n fanwl. Cawn olwg ar lygaid gloyw a disglair:

gloewdrem riein arglwydryw<sup>117</sup>

Hyloyw draws, hoywliw ei drem,<sup>118</sup>

Goleuliw golwg i'r a'i gwelwy.<sup>119</sup>

Rhin wolaith woleddf, woleu ddremynt,<sup>120</sup>

<sup>113</sup> Folt Eimhire, dyfynnwyd gan O'Sullivan, ibid., t. 34.

<sup>114</sup> GGrG 8.22.

<sup>115</sup> Gweler Ruddock, op. cit., tt. 153-5.

<sup>116</sup> GMB 9.164.

<sup>117</sup> R 1326.28-9 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>118</sup> GGrG 6.27 (Mab y Clochyddyn).

<sup>119</sup> GCBM i 5.102.



Ceir cyffelybiaeth drawiadol gan Ruffudd ap Maredudd o lygaid o liw gem:

Ny chwsc drem hoen gem gyvwlch.<sup>121</sup>

Nodwedd arbennig o'r cyfeiriadau hyn at lygaid yw'r darlun o lygaid gwalch neu hebog. Yn ogystal â'r elfen weledol, ddiriaethol, creir argraff o fonedd ac urddas o ganlyniad i gysylltiadau uchelwrol yr aderyn hwn.<sup>122</sup>

Kereis drem gwalch valch vanwyl.<sup>123</sup>

Rhieddog dremwalch wylfalch elfydd.<sup>124</sup>

Hyboen yw fy hoen, ni hunaf - o blaid  
Hebogaid lygaid euraidd araf.<sup>125</sup>

Llygaid hebogaidd sydd i un o'r uchelwragedd delfrydol a ddisgrifir yn Le Roman de la Rose hefyd, fel y dengys D. S. Brewer:

The first we meet is Idleness. Her hair is yellow, her eyebrows curved and sleek, her eyes grey - as falcon this time - her complexion white and red, mouth small, chin cloven (perhaps the earliest occurrence of this popular feature) - in a word, she is of the usual type.<sup>126</sup>

Yn y dyfyniad diwethaf uchod o waith Casnodyn ceir enghraifft o effaith edrychiad llygaid yr arglwyddes ar y bardd, elfen a ddatblygir gan y Cywyddwyr.<sup>127</sup>

<sup>120</sup> *Ibid.*, 5.7.

<sup>121</sup> R 1327.3-4 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>122</sup> Gweler t. 69 uchod.

<sup>123</sup> R 1326.24-5 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>124</sup> GSRh 1.30 (Sefnyn).

<sup>125</sup> GC 4.23-4, a gweler hefyd 3.28.

<sup>126</sup> Brewer, *op. cit.*, t. 259.

<sup>127</sup> Gweler Edwards, *op. cit.*, t. 100. Am gyfeiriadau eraill at lygaid yng ngwaith y Gogynfeirdd gweler GMB 9.41, 58 (Gwalchmai); 26.26 (Einion ap Gwalchmai); R 1321.15 (Gruffudd ap Maredudd); GDB 22.5 (Goronwy Foel); GGrG 6.27 (Mab y Clochyddyn).

Wyneb

Dwywaith yn unig y cyfeirir at yr wyneb cyfan, a hynny, eto, er mwyn pwysleisio ei wynder:

Ac uch wyneb gwyn, gwinau fagwy<sup>128</sup>

amdiweirdeb. am loerwyneb. amyl rieni.<sup>129</sup>

Gwelir eto debygrwydd rhwng y disgrifiad diwethaf hwn â phersonoliad Prydferthwch yn Le Roman de la Rose. Yn ôl D.S. Brewer, dyma Brydferthwch:

She is as bright as moonlight, her flesh tender, face lily and rose, she is slim, her hair is yellow and reaches to her heels.<sup>130</sup>

Tynn Peter Dronke ein sylw hefyd at ddelweddau goleuni yng ngwaith y Minnesinger Heinrich von Morungen, ac yn arbennig at ei gymariaethau â'r lleuad a'r haul:

geblüejet rehetē alsam ein voller mâne.  
daz was der ongen wunne, des herzen tôt.

[in her blossoming like the full moon:  
that was the eyes' bliss, the heart's death.]<sup>131</sup>

Gruddiau

Ymddengys y gruddiau'n aml ac yn amlwg yng nghanu'r Gogynfeirdd i ferched a gwragedd. Ceir disgrifiadau o'u gloywder:

<sup>128</sup> GCBM i 5.106.

<sup>129</sup> R 1321.7-8 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>130</sup> Brewer, *op. cit.*, t. 259.

<sup>131</sup> Dyfynnwyd gan Dronke, Medieval Latin and the Rise of the European Love-Lyric. Cyfrol I, t. 133.

Lloer hynod, a'i glod i'r gloywaf - deurudd,

Claer orne ddwyre ddeurudd,<sup>132</sup>

Lliwloyw deurudd Eigr, lleilai dirwy,<sup>133</sup>

Cawn hefyd gan Ruffudd ap Maredudd enghraifft gynnar o gymharu grudd â chwrel, arfer a ddaeth yn boblogaidd ymysg y Cywyddwyr yn ddiweddarach:

Oed grud gwrel. kein a thavel kynnoethewi.<sup>134</sup>

#### Aelodau eraill y corff - Braich / Coes / Gwddf / Dannedd

Er mwyn nodi eu gwynder, ac felly profi ei harddwch a'i bonedd, y cyfeiriwyd at amryw o rannau eraill o gorff y ferch yng nghanu'r Gogynfeirdd:

Men y'm bu fraich wen yn obennydd.<sup>135</sup>

Mynyglwen yn llen yn lle rhennid - gwyrdd,

Mor wen ei hesgair uwch y hesgid!<sup>136</sup>

Rhag braint merch wynddaint, Wenddydd - wybodau,<sup>137</sup>

Gellid eto ystyried prinder y disgrifiadau o freichiau a choesau'r arglwyddesau'n ganlyniad i ffasiwn neu ddisgwyliadau cymdeithasol yr oes iddynt gael eu gorchuddio. Mae'n bosibl hefyd y byddai anawsterau deintyddol yn peri i ddannedd fod yn ddirgel. Tynn Diane Bornstein ein sylw at La Clef

<sup>132</sup> GLIBH 3.23, 47 (Llywelyn Brydydd Hodnant).

<sup>133</sup> GSRh 3.8 (Sefnyn).

<sup>134</sup> R 1321.14-15 (Gruffudd ap Maredudd). Am gyfeiriadau eraill at ruddiau gweler hefyd R 1319.15-16, 1320.38, GMB 9.164 (Gwalchmai); GGrG 6.17 (Mab y Clochyddyn).

<sup>135</sup> GLIF 6.31 (Hywel ab Owain Gwynedd).

<sup>136</sup> GBF 29.15, 20 (Iorwerth Fychan).

<sup>137</sup> GSRh 1.27 (Sefnyn).

d'amors a ysgrifennwyd yn nhafodiaith gogledd orllewin Normandi ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg, sef cyfieithiad rhydd o waith Ofydd yn cynghori merched ar sut i feithrin pryd a gwedd hardd a chuddio gwendidau:

She should wash her face and body and clean her teeth every day. She should wash her hair frequently, part it evenly, and arrange it in a flattering hairdo. Her eyebrows should be shaped well. Her nails and hands should be well groomed and protected by gloves. When it is hot, she should stay in the shade to avoid sunburn and protect her skin.

... shoes should be as small as possible to make the feet appear petite. A woman should hide or disguise physical faults. If she is bald or has thin hair, she should wear wigs or hairpieces. If she is grey, she should tint her hair. She should use makeup but not let her lover see her apply it. If she is too short, it is better for her to be seen when seated. If she is too thin, she should wear many garments and heavy fabrics. If she has ugly feet, she should not be seen barefoot. If her breasts are too large she should tie bands around them. If her hands are ugly, she should not make gestures with them. If her breath is bad, she should not be too close to people when speaking. If her teeth are ugly, she should not open her mouth too wide.<sup>138</sup>

Roedd dannedd yn elfen bwysig mewn disgrifiadau mewn llenyddiaeth Hen Wyddeleg a Gwyddeleg Canol, fodd bynnag, ac yr oedd eu gwynder yn cwblhau'r darlun delfrydol.<sup>139</sup> Sonnid amdanynt yn gyffredin â'r ansoddair 'nemanda', sef perlaidd:

Déitgen némanda fo lí  
Amal sóer - dath snechtaidi  
LMU, Sect 18

[Teeth pearly in colour, like the noble colour of snow.]<sup>140</sup>

<sup>138</sup> Bornstein, *op. cit.*, tt. 40-1. Mae'r pwyslais ar wisgo esidiau mor fach â phosibl i roi'r argraff o draed bychain yn dwyn i gof yr arfer Tseineaidd o rwymo traed merched:

The Chinese woman with correctly bound and disfigured feet could not walk on her gilded stumps. Her fidelity was thus unquestioned and her status as a dependant clear to the world. Her mind was as restricted as her feet, resulting in little challenge to her male protector and keeper. The woman could walk only with the aid of sticks, or on the arm of an attendant, permanently disabled in the name of man's pleasure. Chinese noble women were carried on the backs of their servants, or forced to crawl if no one was present. The degradation which footbinding entailed was justified in the name of its true function: male sexual gratification. For the lotus flower hooks were perceived to be the height of male erotic stimuli ...

Ussher, *op. cit.*, t. 25.

<sup>139</sup> Gweler O'Sullivan, *op. cit.*, tt. 23, 36.

<sup>140</sup> *Ibid.* t. 23.

Cawn un cyfeiriad at ddannedd gwynion arglwyddes gan Gruffudd ap Tudur Coch yn ei ddisgrifiad o fyd perffaith yn Awdl y Breuddwyd:

Am ddannedd gwanwedd, gwynion,<sup>141</sup>

### Gwefusau

Ni cheir unrhyw sôn am wefusau gan y beirdd llys Cymraeg. Erbyn y bymthegfed ganrif âi'r beirdd ati i ddisgrifio'u blas fel gwin, medd, mêl, osai, siwgr a thriogl, ond eto nid oedd lliw'r gwefusau o ddiddordeb iddynt.<sup>142</sup> Gwefusau coch fel lliw lledr y Parthianwyr oedd i'r merched yn y cerddi Gwyddeleg, ond cafwyd cymhariaeth newydd hefyd gan Donnachadh Mór Ó Dálaigh o wefusau fel mefus gwyllt.<sup>143</sup>

Fe geir gan Iorwerth Fychan, serch hynny, gyfeiriad at wên, neu'n hytrach ddiffyg gwên ei arglwyddes:

Hoyw wanfain riain na weinydd - hawdd wên.<sup>144</sup>

Canlyniad edmygu gwraig anhygyrch oedd hyn efallai neu, o bosibl, arwydd o'i hymgais i guddio'i dannedd!

### Bron

Un cyfeiriad yn unig a gawn at fron arglwyddes, a hynny gan Ruffudd ap Dafydd ap Tudur:

<sup>141</sup> GGrG 8.26.

<sup>142</sup> Gweler Ruddock, *op. cit.*, tt. 155-7.

<sup>143</sup> Gweler O'Sullivan, *op. cit.* tt. 22, 34.

<sup>144</sup> GBF 30.21.

Pan fydd eglur fron, a llon ei llais<sup>145</sup>

Efallai na ddylem synnu at brinder cyfeiriadau o'r fath yn awdlau'r Gogynfeirdd, o gymharu ag amllder disgrifiadau beirdd y bymthegfed ganrif o wynder y rhan hon o gorff arglwyddes, a'i weld yn arwydd arall o ffasiwn gwisg yr oes, diweirdeb y gwragedd a moesgarwch cwrtais y beirdd llys. Nid yw O'Sullivan yn nodi unrhyw gyfeiriadau at y fron yn y canu serch Gwyddeleg ychwaith.

### Dwylo

Ceir disgrifiad o law wen, ac felly anrhydeddus, gan Ruffudd ap Maredudd:

Kyrch yr bun wanllun wenllav anryded.<sup>146</sup>

Pwysleisir boneddigrwydd y llaw hefyd drwy ddarlunio'r gemwaith a wisgai:

Lliw eiry, fedrus fryd, llaw eurfodrwy.<sup>147</sup>

Ond haelioni dwylo'r arglwyddesau yw eu prif nodwedd yng nghanu'r Gogynfeirdd:

Llwyddai amod mawl, llaw ddiomedd<sup>148</sup>

Llywyawg, law eurawg, liw eiry bronnydd.<sup>149</sup>

llunyeid a gvedeid gviwdyn llavhir<sup>150</sup>

<sup>145</sup> GGD 5.36. Mae Dafydd Johnston yn diweddarau'r llinell hon fel hyn: 'Pan fydd ei hymchwedd yn olau, a llon ei llais', t. 27.

<sup>146</sup> R 1329.8-9.

<sup>147</sup> GSRh 3.12 (Sefnyn).

<sup>148</sup> *Ibid.*, 5.16 (Rhisierdyn).

<sup>149</sup> GBF 31.12 (Iorwerth Fychan).

<sup>150</sup> R 1320.26 (Gruffudd ap Maredudd); gweler hefyd 1328.39 a 1326.17.

Y mae pob cyfeiriad at law felly'n tanlinellu urddas ac uchelwriaeth ei pherchennog. Syniad yw hwn sy'n parhau yng ngwaith beirdd serch y bymthegfed ganrif, er mai gwynder a meinder yw prif nodweddion dwylo erbyn y cyfnod hwnnw, fel y sylwodd Gilbert Ruddock.<sup>151</sup> Awgryma amllder y cyfeiriadau hyn at ddwylo - ac felly haelioni'r arglwyddes - eu bod yn wedd ar ei chymeriad a brisid yn fawr, ac yr anogid yr arglwyddes i fod yn 'llaw-rydd' gan feirdd ei llys a geisiai nawdd. Y mae disgrifiadau o ddwylo gwagedd eto'n absennol o waith beirdd Gwyddeleg a astudiwyd gan O'Sullivan.

### Gwasg

Cawn ddarlun achlysurol o wasg yr arglwyddes:

Am archfain riain: rhaid ei meni<sup>152</sup>

Gwelais-i ystlys glwys, gloyw ei gylchwy<sup>153</sup>

Canmolir meinder y gwasg yn fynych gan feirdd diweddarach hefyd, a thynna Ruddock ein sylw at bresenoldeb y rhan hon o'r corff a'r pwyslais ar ei feinder yng nghanu Saesneg y drydedd ganrif ar ddeg:

Middel heo haþ menskful, smal<sup>154</sup>

### Y Corff

Un cyfeiriad yn unig a geir at y corff cyfan a hynny gan Ruffudd ap Maredudd yn ei farwnad i Wenhwylfar. Fel y disgwyliid, y corff prydferthaf a ddarlunnir:

<sup>151</sup> Gweler Ruddock, *op. cit.*, tt. 166-7.

<sup>152</sup> GMB 26.46 (Einion ap Gwalchmai).

<sup>153</sup> GCBM i 5.103.

<sup>154</sup> Dyfynnwyd gan Ruddock, *op. cit.*, t. 173.

glwyssaf corff dan brid glassar.<sup>155</sup>

Y mae'n arwyddocaol mai wrth gyfeirio at gorff marw'r arglwyddes ac er mwyn pwysleisio difrifwch ac anghyfiawnder y weithred o'i chladdu y cyfeirir at ei chorff heb ei rannu'n adrannau ac yn aelodau unigol. Wrth ystyried y modd y trafodai'r trwbawriaid ymddangosiad corfforol eu harglwyddesau meddai Sarah Kay:

... the domna's body is chopped up into tempting mouthfuls, a smile here, an eye there. The point seems to be to maintain the sexual interest of the man without the threat of an active female sexuality; to keep sexual activity under control, releasing its excitement a little at a time; to keep the domna, therefore, in the role of object.<sup>156</sup>

Ond rhaid cofio defnydd y Gogynfeirdd o'r ddyfais farddol o enwi neu grybwyll darn neu fanylyn er mwyn cyfleu argraff o'r gwrthrych cyflawn. Ac, fel y nodwyd eisoes, y mae'n bosibl y gellir ystyried yr arfer hwn fel enghraifft o law-fer farddol neu gynildeb ar ran y bardd yn hytrach nag ymgais bwriadol i ddarnio'r arglwyddes.

Fodd bynnag, rhoddir argraff neu amlinelliad cyffredinol o'r arglwyddes fel gwraig fain ac eiddil yn gyson drwy ganu'r Gogynfeirdd:

Ys addef, feingan annwyl,<sup>157</sup>

Pwysleisiai'r rhinwedd hwn hefyd urddas a bonedd y gwrthrych, fel y dengys Iorwerth Fychan yn ei awdl i Weirfyl:

Meddwl a ddodais, meddwid - fy nghofain,  
Am dwf mirain main cain cyfrdelid.

<sup>155</sup> R 1318.42-3.

<sup>156</sup> Kay, *op. cit.*, t. 96.

<sup>157</sup> GGDT 4.27.



Meingan weddeiddwan huan hoywnid.

Mawreddus feinus fen yd fernid - crair,  
Mor wen ei hesgair uwch ei hesgid!<sup>158</sup>

Mewn rhai disgrifiadau y mae taldra hefyd yn nodwedd ddisgwyliedig o'r arglwyddes ddelfrydol. Disgrifir hi fel gwraig hir:

Enaid yw hirwen gennyf,<sup>159</sup>

Mawl i hirwen ddoeth, mil a'i harwedd,<sup>160</sup>

Fe'i darlunnir hefyd yn ferch laes:

Ni'm bydd dydd llonydd â llun - llary gwanllaes  
Ar llawr gwenllys Eitun,<sup>161</sup>

Llaesferch Faredudd a brudd brydaf.<sup>162</sup>

Saif yn dalach ac uwchlaw morynion y llys â'i hosgo unionsyth yn arwydd o'i huchelwriaeth;

Union hoywdeg ferch o Nanheudwy.<sup>163</sup>

Uniawn bill hirddawn o ball harddedd,<sup>164</sup>

---

<sup>158</sup> GBF 29.1-2, 14, 19-20. Am gyfeiriadau at feinder gweler hefyd GMB 9.13 (Gwalchmai); GMB 26.46 (Einion ap Gwalchmai); GLIF 11.12 (Hywel ab Owain Gwynedd).

<sup>159</sup> GGD 4.59.

<sup>160</sup> GSRh 5.5 (Rhisierdyn). Gweler hefyd GCBM i 5.43, 77, er mae'n bosibl mai cyfeiriadau at wallt hir a gawn yma.

<sup>161</sup> GGD 4.29-30.

<sup>162</sup> GLIBH 3.24 (Llywelyn Brydydd Hoddnant). Gweler hefyd llinell 52 yn yr un gerdd a GGD 5.7.

<sup>163</sup> GSRh 3.24 (Sefnyn).

<sup>164</sup> *Ibid.*, 5.1 (Rhisierdyn).

Nid yng Nghymru yn unig yr ystyrir taldra yn brawf o fonedd a thras uchelwrol. Medd D.S. Brewer am y ferch ddelfrydol ganoloesol:

An interesting point is her height. Boccaccio seems to have favoured tall women - both his Emilia and his Criseida (against the evidence from Dares onward) are tall. Chaucer found Criseyde described as of average height in Dares, Benoit and Guido. So when Boccaccio describes her as tall, Chaucer describes her not among the least of stature (I, 281), and later as 'mene' (V, 806), which means medium (not, as Robinson seems to think, short - an unthinkable quality for the aristocratic medieval heroine).<sup>165</sup>

Serch hynny, cân Hywel ab Owain Gwynedd un o'i awdlau serch anhysbys i ferch ifanc iawn gan bwysleisio'i bychander dro ar ôl tro drwy'r gerdd:

Bechanigen wen, wan ei gogwydd,  
Bychan y mae hÿn no dyn dengmlwydd.  
Mabinaidd, lunaidd, lawn gweddeiddrwydd,  
Mabddysg oedd iddi rhoddi yn rhwydd.  
Mabwraig, mwy yd ffaig ffenedigrwydd - ar wen.<sup>166</sup>

Mae'r gwyro bwriadol hwn oddi wrth y patrwm disgwylidig yn pwysleisio ei bychander, ei hieuentid a'i harbenigrwydd, ac efallai na ddylem synnu wrth ddarganfod gwreiddioldeb y darlun anghonfensiynol hwn yng ngwaith bardd-dywysog yn hytrach nag yng ngwaith un o feirdd nodedig y llys.

### Goleuni a Disgleirdeb

Agwedd arall ar harddwch delfrydol yr arglwyddes oedd ei goleuni a'i disgleirdeb. 'Bun oleu',<sup>167</sup> 'oleuwedd',<sup>168</sup> oedd yr arglwyddes yn goleuo'r tir a'r môr:

<sup>165</sup> Brewer, *op. cit.*, tt. 264-5.

<sup>166</sup> GLIF 7.10-14.

<sup>167</sup> R 1319.30 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>168</sup> GSRh 5.7 (Rhisierdyn).

Caradwy lywy, lewych ystre,<sup>169</sup>

Mynyd hoyw fun loyw, oleuad - gwledydd,<sup>170</sup>

O'r môr bu golau mawr bwy gilydd.<sup>171</sup>

Syniad a bwysleisir yma gan Gruffudd ap Maredudd:

morwyn loev mirein leuver<sup>172</sup>

Rhinwedd canmoladwy oedd ei disgleirdeb hefyd. Nodir hyn yn gofiadwy gan Hywel ab Owain Gwynedd yn ei Orhoffedd:

Lleucu glaer, fy chwaer, yn chwerthin,<sup>173</sup>

ac yn un o'i awdlau serch i ferch anhysbys:

Claer wanllun, wenlleddf, wynlliw, cywyydd,<sup>174</sup>

Gellid ystyried y nodwedd hwn, fel y gwna Véronique Nahoum-Grappe, yn arwydd o bŵer a grym megis prydfferthwch a gwisgoedd moethus:

Power, holiness, sunlight, the Beautiful Woman - all were, in one way or another, social spectacles, means of captivating the gaze and dazzling the onlooker so as to dominate the social scene.

.... The closer one came to the sources of political power, the more ostentatious the display and the more stately the ceremony. The awed spectator was overwhelmed by the stupefying sight of vast halls, palaces, squares, hairpieces, and trains and by the coruscating radiance of chandeliers, mirrors, jewels, and gold. In the forefront were the women, bejeweled, painted, and wrapped in finery. By the nineteenth century they held exclusive claim to the light and color renounced by their male companions.<sup>175</sup>

<sup>169</sup> GLIL1 14.30.

<sup>170</sup> GGL1 1.45 (Hywel ab Einion Lygliw).

<sup>171</sup> GSRh 1.28 (Sefnyn).

<sup>172</sup> R 1329.15 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>173</sup> GLIF 6.65.

<sup>174</sup> *Ibid.*, 7.9.

<sup>175</sup> Nahoum-Grappe, *op. cit.*, t.88.

Un ddelwedd o oleuni'r arglwyddes yw'r modd y syniai'r Gogynfeirdd amdani fel kannwyll. Perthynai mwy na rhamant i'r trosiad hwn mewn oes ddirydan lle byddai fflam kannwyll wir yn ffynhonnell goleuni i'r bardd:

Cannwyll Bowys lwys, na'm dilysa.<sup>176</sup>

I rof a rhain, gannwyll rhyfig,<sup>177</sup>

Gwen gannwyll llysoedd a lluosydd,<sup>178</sup>

Ceir cyfeiriad diddorol at yr arglwyddes fel lamp gan Rhisiedryn;

Mygr hoywlamp Bowys, magwyr hywledd.<sup>179</sup>

Chwery goleuni ran bwysig yn nisgrifiadau'r trwbawriaid o'u harglwyddesau hefyd, fel y dengys Sarah Kay;

In cases where the whole body of the domna is imagined or glimpsed it is reclining alone, welcoming, and illumined:

Las! e viure que.m val,  
s'eu no vei a jornal  
mo fi joi natural  
en leih, sotz fenestral,  
cors blanc tot atretal  
com la neus a nadal.

(Bernart de Ventadorn XVII, vv. 33-8)

quan la candela.m fetz vezer  
vos baizanrisen, a! cal ser!

(Raimbaut d'Aurenga XXVII, vv. 65-6)

qe.l seu bel cors baisan rizen descubra  
e. qe.l remir contra.l lum de lampa.

<sup>176</sup> GGDT 2.20.

<sup>177</sup> GCBM i 4.6.

<sup>178</sup> GBF 30.46 (Iorwerth Fychan). Gweler hefyd GMB 26.19 (Einion ap Gwalchmai); GGrG 2.25 (Goronwy Gyriog); *ibid.*, 6.39 (Mab y Clochyddyn); GGDT 4.69 a R 1319.1 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>179</sup> GSRh 5.8.

(Arnaut Daniel XII, vv. 31-2)

[Alas, and what is the point of life if I do not daily see my true, natural joy in bed, under the window, her white body just like the snow at Christmas?

when the candle showed you to me, kissing and smiling, ah! what an evening!

when she unclothes her lovely body, kissing and smiling, and I gaze on it against the lamplight.]<sup>180</sup>

Ond yr arglwyddes ei hun a'i phrydferthwch yw ffynhonnell y goleuni yng ngwaith y Gogynfeirdd. Nid yn gorwedd yn y goleuni y mae ond yn disgleirio ar bawb a'i gwêl:

Gorfflamliw cywiw cyhefelydd<sup>181</sup>

(Claer aur freisg-gorff llathr) clêr ar frwysgedd.<sup>182</sup>

I'i prydfawr gwenwawr, llawr llewychid;<sup>183</sup>

Ceir y disgleirdeb hwn yn nisgrifiadau'r beirdd Lladin canoloesol o wragedd eu llysoedd. Yn ôl Peter Dronke:

... the image of the lady's radiance is the Aristotelian one of the particles trembling in the air which are given form by light, for, like the active intellect, 'light too makes colours that exist potentially into actual colours.' All men who behold her are illuminated by her.

If the beloved manifest such a light, then this is something that reaches beyond our understanding. The light of her eyes, even though it shows itself as a gentleness towards her lover, becomes something inexpressible: it is an absolute. She is not simply a *donna umimle*, she is a *domna d'umiltà*, the absolute embodiment of this power; so it cannot be told by a *poeta amante* - it would have to be expressed by the correspondingly absolute Amor.<sup>184</sup>

<sup>180</sup> Kay, *op. cit.*, t. 91.

<sup>181</sup> GBF 30.35 (Iorwerth Fychan).

<sup>182</sup> GSRh 5.24 (Rhisierdyn).

<sup>183</sup> GBF 29.36 (Iorwerth Fychan).

<sup>184</sup> Dronke, *op. cit.*, tt. 144-5.

Dyma ni felly'n dychwelyd at y cysylltiad a welai Véronique Nahoum-Grappe rhwng goleuni a grym neu bŵer:

Metaphors of light express stupefaction or dazzlement at beauty's radiance. Working within the confines of rules of rhetoric and literary codes, these clichés represent an attempt to capture a specific type of interaction, a silent explosion that takes place in a complex strategic setting. The context in which beauty manifests itself is precarious and unreal.<sup>185</sup>

Cawn gan y Gogynfeirdd gyfeiriadau niferus iawn at yr arglwyddes drwy gyfrwng delwedd o'r haul:

Euraf i haul amaerwy<sup>186</sup>

Hwyl orne heulfre ar froydd - glasfor<sup>187</sup>

Hael hoendeg liw haul hundy.<sup>188</sup>

Datblygir y ddelwedd hon wrth ystyried harddwch yr arglwyddes fel toriad y wawr, pan wna goleuni'r haul fwyaf o argraff ar dywyllwch y byd:

Llathrwedd gwenwawr fawr fore hafddydd.<sup>189</sup>

Cyflefer gwawr ddydd pan ddwyre hynt,<sup>190</sup>

Gorffurfawr glodfawr wawr wir hafddydd.<sup>191</sup>

<sup>185</sup> Nahoum-Grappe, *op. cit.*, t. 97.

<sup>186</sup> GGLI 1.15 (Hywel ab Einion Lygliw).

<sup>187</sup> GBF 30.5 (Iorwerth Fychan).

<sup>188</sup> GGrG 2.12 (Goronwy Gyriog). Gweler hefyd er enghraifft GGrG 6.7, 24 (Mab y Clochyddyn); GMB 9.67-8 (Gwalchmai); GC 3.8; GLIBH 3.50; GSRh 5.33 (Rhisierdyn); R 1326.33, 1327.13 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>189</sup> *Ibid.*, 6.53 (Mab y Clochyddyn).

<sup>190</sup> GCBM i 5.5.

<sup>191</sup> GBF 30.32 (Iorwerth Fychan). Mae'r cyfeiriadau hyn yn niferus iawn: gweler hefyd er enghraifft GC 3.16; GLILI 14.32; R 1327.4 (Gruffudd ap Maredudd).

Cawn gan Walchmai a Mab y Clochyddyn gyfeiriadau posibl ati fel y machlud hefyd:

[ ] ach llywy o gynllewyc huan  
[ .. ] eir yd gynachludd.<sup>192</sup>

Haul a garai draul geir Drym.

Lleufer haul ucher hyloew echwydd,<sup>193</sup>

Ond ym marwnadau Gruffudd ap Maredudd a Goronwy Gyriog i ddwy Fyfanwy y gwelir y defnydd mwyaf ingol o'r delweddau hyn wrth i'r beirdd wyrddroi egni ac ysbrydolrwydd goleuni'r gwragedd yn enbydrwydd wrth i'r haul a'r lloer, sef ffynonellau goleuni'r byd, gael eu cuddio am byth o dan y pridd pan gleddir yr arglwyddesau. Ystyriwn yn gyntaf y golled gyflawn a ddarlunia Goronwy Gyriog:

Hael hoendeg liw haul hundy.

Rhoed llawr ar lloer harddedd byll,  
Ni rodded llawr ar wawr well.

Gwellwell fu bwyll, gannwyll gain,  
Gwenhwyfar haul daear hoen;  
Gorchudd gwawr yw llen fawr faen,  
Garchweddl i'w cheneddl ei chwŷyn.<sup>194</sup>

Chwaraeir yma â'r gair 'gwawr' a ddefnyddir yn llythrennol ac yn drosiadol wrth gyfeirio at yr arglwyddes. Gwelwn y bardd hefyd yn plethu elfennau aruchel megis goleuni'r haul a'r lloer â ffynonellau mwy cyffredin o oleuni a welid o ddydd i ddydd megis y gannwyll.

Agora Gruffudd ap Maredudd ei farwnad yntau drwy sefydlu'r ddelwedd hon o osod yr haul, sef yr arglwyddes, mewn bedd:

<sup>192</sup> GMB 9.67-8 (Gwalchmai).

<sup>193</sup> GGrG 6.28, 46 (Mab y Clochyddyn).

<sup>194</sup> *Ibid.*, 2.12, 23-8.

Hevl wyned neut bed nyt byv vnbennes  
 heb ennill ychyfryw.  
 henv gorhoffter a deryv.  
 hoen lloer hvn oer heno yv.<sup>195</sup>

Cawn disgrifiadau cyson ohoni fel yr haul, y wawr a'r lloer drwy gydol yr awdl gan adeiladu at y drychineb a wêl y bardd:

Echwng gvenlloer oed oer doe  
 ymaengist vavrdrist varwdrei.  
 amyl gwed yn emyleu gwae.  
 am dyn daeth emdindaethwy.  
 .....

Nym davr o hoen gvawr ynhun gveryt.  
 is glasgor mynor manon y phryt.<sup>196</sup>

Tynn Peter Dronke ein sylw at ddefnydd tebyg o iaith a delweddaeth yn yr 'Harley Lyrics':

the Harley Lyrics are full of incongruities between an exalted and a down-to-earth language of love. The beloved's radiance surpasses that of the moon (7, 19) - at the same time 'hir lure lumes liht ase a launterne anyht'; she is 'feynes wipout fere' (phoenix uniac) - at the same time she is 'jolif as the jay'.<sup>197</sup>

Wrth astudio elfennau serch cwrtais ar draws canrifoedd a chyfandiroedd daw Dronke o hyd i gyfeiriadau helaeth at arglwyddesau fel yr haul. Un arbennig o drawiadol yw'r dyfyniad isod o gerdd a gyfansoddwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg, neu'r bymthegfed, yng Nghalabria, mewn tafodiaith Roegaid a oedd yn frith o eiriau Eidaleg:

O ìgliemu, na mi pai, mino na di  
 Poss' ène òria futi pu agapò:  
 O ìgliemu, pu olo tò cosmo pradi,  
 Oria secundu tui ide tinò?

<sup>195</sup> R 1318.27-9.

<sup>196</sup> R 1319.9-11, 42-3.

<sup>197</sup> Dronke, op. cit., t. 117.



Ce o iglio mu 'pe: - Mù canni antropi,  
 Jati fui e pleon òria to diplò -  
 En'o ìglio, agàpimu, pu sè flumizi,  
 Ce ambrò's tes adde sà n ìglio ghializi.

[O my sun, do not go - stay to behold  
 how lovely is she I love!  
 O my sun, who traverse the universe,  
 have you seen any as lovely as she?

And the sun replied, 'She puts me to shame,  
 for she is twice as lovely as I.'  
 It is the sun, my love, makes you radiant,  
 and among other women you shine like the sun.]<sup>198</sup>

### Gwisg

Gwelwn i'r beirdd sôn am brydferthwch yr arglwyddes fel modd o bwysleisio ei bonedd a'i thras uchelwrol. Felly hefyd, wrth ganmol ceinder ei gwisg tynnai'r beirdd sylw at ei chyfoeth a'i statws. Daeth yr arglwyddes yn symbol o'r llys ac yn adlewyrchiad o'i urddas a'i fawredd. Wrth ddarllen rhieingerdd Cynddelw Brydydd Mawr, daw Helen Fulton i'r casgliad mai bod yn ddrych i uchelwriaeth y llys oedd unig swyddogaeth Efa drwy gydol y gerdd:

Descriptions of the girl's beauty, courtly virtues, and rich apparel serve to emphasize the aristocratic nobility of Madawg's court and his family.<sup>199</sup>

Roedd ysblander ac amrywiaeth y defnyddiau a addurnai wraig y llys, megis y danteithion a osodid gerbron gwesteion y wledd, yn adlewyrchiad o bwysigrwydd yr arglwydd a'i allu i sicrhau ffyniant ei lys. Er y disgwyliid gwyleidd-dra gan yr arglwyddes, tybid mai priodol oedd iddi arddangos

<sup>198</sup> *Ibid.*, t. 42-3.

<sup>199</sup> Fulton, *op. cit.*, t. 81.

moethusrwydd bywyd ei theulu a'i llys, a thrwy hynny ddod yn arwydd o uchelwriaeth yr arglwydd. Gwelir hyn yng ngwaith *Ménagier de Paris* lle cynghorir gwraig ifanc gan ei gŵr hŷn ar yr ymddygiad priodol i wraig o'i statws hi. Pwysleisir y delfryd o'r wraig wylaidd ac ufudd, ac yna troir at ei hymddangosiad, fel y dengys Diane Bornstein:

Speaking of activities appropriate for the morning brings the *Ménagier* to the subject of dress. He recognizes that dress is an important means of demonstrating one's rank. Dignity, suitability, and neatness are of the utmost importance. A woman should not indulge in new fashions. She should not use too much or too little adornment. Rich fabrics and furs were a means of displaying one's wealth, and the *Ménagier* did not object to such garments for himself or his wife. In fact, he gives elaborate instructions for their care. He did not object to a bold, careless appearance.<sup>200</sup>

Ceir cyfoeth o gyfeiriadau at ddefnyddiau drud ac ysblennydd yng nghanu'r Gogynfeirdd i ferched. Clywn am wisgoedd o ffwr:

A gra a wisgodd ei grudd.<sup>201</sup>

Da o fywn gra a fu'n grair.<sup>202</sup>

Gwisgavd llun kain main maendo.  
gwasgrwym llavr ar ol gweisgra.<sup>203</sup>

Ymddengys 'urael' hefyd yn aml yng ngwaith Gruffudd ap Maredudd. Cawn yr enghreifftiau hyn yn ei Farwnad i Wenhwyfar:

dyn eur a vun dwyn vrael

Pell vrael ydoed kynn pell wryt gro.  
dan rudglo maendo. meindvf kerdglyt

hael o vywn vrael yn eurav gwir.<sup>204</sup>

<sup>200</sup> Bornstein, *op. cit.*, t. 54.

<sup>201</sup> GGrG 2.32.

<sup>202</sup> GGDT 3.24, ond cyfeirio at ffwr o fewn gwregys a gafwyd yn rhodd gan yr arglwyddes a wneir yma.

<sup>203</sup> R 1318.32-4 (Gruffudd ap Maredudd).

‘Defnydd drudfawr i wneuthur gwisgoedd’ yw’r ‘urael’ hwn yn ôl Katherine Ann Evans, a dyfynna John Davies. ‘Vrael yw lliewisg o’r manweiddiaf o’r maen ystinos, ac a olchid â’r tân wedi y budreddi’ ac hefyd LIA, 95. 8 -12, ‘Sef yr [yr] ystinos. maen gwerthuawr clerwynn, ac a geffir ynyr yspaen eithaf. ac aellir ynyddu. a gwneuthur gviscoed or adaued hvnnv. ar wisc a wneler ohonav a olchir nny tan pan vvtraho. abyth y para. ac aelvir vryael.’<sup>205</sup>

Ceir hefyd sôn am ddefnyddiau gwerthfawr y benthyciwyd eu henwau o’r rhamantau Ffrangeg, yn ôl Marie Surridge, a hynny er gwaethaf ceidwadaeth y Gogynfeirdd a’u hymdrech i ddiogelu’r eirfa farddol draddodiadol:

Some prose texts of the Middle Welsh period are dotted with nonce words of Romance origin, and other borrowings scarcely less ephemeral. However, the borrowed words used by the Gogynfeirdd, although their density of usage in this body of poetry is comparatively light, appear to be characterized by their tenacity. Apart from those which might be considered ‘fashion words’ (bliant, pali, syndal), most could be found in use in modern form today. As befits their place in this largely conservative linguistic corpus, they would seem to have worked their way into the heart of the Welsh language.

If this information is placed in the context of J. Lloyd Jones’s generally indisputable observations, it dictates an obvious conclusion: that the vocabulary of the Gogynfeirdd reflects not only archaism pure and simple, but also a selectivity which may have been dictated as much by social as by linguistic or literary considerations. Like other court poets of all times, the Gogynfeirdd were doubtless not above concessions to their patrons. The neologisms of the aristocracy, as long as they remained the property of the élite, remote from the normal social registers of speech, and untainted by association with English, were evidently esoteric enough to be considered worthy of the poet’s art.<sup>206</sup>

Roedd y termau newydd ac egsotig hyn am ddillad a defnyddiau yn fodd i gadarnhau statws a dylanwad llys yr arglwyddes. Profai’r gallu i fod yn berchennog ar ddefnyddiau drudfawr a dieithr, a edmygid yn llysoedd Ffrainc,

<sup>204</sup> R 1318.12, 1320.7-9, 29.

<sup>205</sup> Evans, *op. cit.*, t.354.

<sup>206</sup> Marie Surridge, ‘Words of Romance origin in the works Gogynfeirdd’, *BBCS* 29 (1981), t. 530.

bwysigrwydd a chyfoeth yr arglwydd, a hefyd ei allu i arddangos ei olud a'i chwaeth - nodweddion a brisid yn yr oesoedd canol. Roedd felly rym amgenach na'r un esthetaidd i wisgoedd cain yr arglwyddesau, ac awydd y beirdd i'w disgrifio.

Wrth dorri arfer a benthyg termau dieithr i'w geirfa a'u traddodiad, geiriau megis 'pali' o'r Hen Ffrengig 'paile / palie', a 'syndal' o'r Hen Ffrengig 'cendal', a'r 'sendal' Hen Saesneg,<sup>207</sup> pwysleisiai'r beirdd y modd y croesawai'r arglwydd y moethau a'r datblygiadau diweddaraf o dramor i'w lys ef ei hun. Ymddengys y diddordeb hwn am y tro cyntaf yng ngwaith Hywel ab Owain Gwynedd:

Ni ddirper pebyll, ni syll pali,  
Neb, a rwy garwy, yn fwy no hi.<sup>208</sup>

Mae'n bosibl mai o ganlyniad i agwedd bersonol y bardd-dywysog hwn neu ei lwyddiant i sicrhau'r fath geinderau i'w lys ef ei hun y sylwai yntau ar ddefnyddiau o dramor. Ymddengys "pali" eto yng ngwaith Einion ap Gwalchmai:

Cannwyll Cadfan lan, o len bali,<sup>209</sup>

Ond gan Ruffudd ap Maredudd y gwelwn y diddordeb hwn mewn defnydd a lliw yn cyrraedd ei benllanw yng nghyfnod y Gogynfeirdd:

Lle bu kynn pallu pvyll ahoffir.  
syric a syndal mal y molir.  
lle bu fflvch degvch deigyr a wylir.  
aphorffor a rud neut grud grodir.<sup>210</sup>

Gwelais agerais yn ragori pryt  
o vyvn prifdeg sendri.  
aphall syndal a phali.

<sup>207</sup> *Ibid.*, t. 529.

<sup>208</sup> GLIF 10.9-10.

<sup>209</sup> GMB 26.19.

<sup>210</sup> R 1320.35-7.

a phvyll oed y hirdwyll hi.<sup>211</sup>

Disgrifiwyd moethusrwydd gwisg yr arglwyddes gan eraill o blith y Gogynfeirdd. Darlunia Cynddelw Efa'n gyson drwy ei Rhieingerdd yn ei mantell euraidd:

Gorddawg pall eurawg pell nas gwelwyf

Llysaidd ei hirdwf o'i heurdudded,

O ruddaur gwerthfawr y'i gorthöir<sup>212</sup>

Yn yr un modd y gwisgwyd Gweirfyl gan Iorwerth Fychan:

Yn eurlen, yn wen, yn wan obrid,<sup>213</sup>

Ond cawn gan Ruffudd ap Maredudd gyfoeth o liwiau a defnyddiau cain na welir eu tebyg yng ngwaith yr un arall o feirdd y tywysogion:

Gwelais symut sut sidan ac awmael  
ac vrael ac arian.  
ac assur drvc agussan.  
ac eur mal am hoen geirv man.<sup>214</sup>

Manteisia ar yr elfen hon wrth ganu marwnad i Wenhwyfar a chyferbynna'r dillad amryliw, y ffwr meddal a'r aur disglair a wisgai tra roedd yn fyw â'r gangell dywyll a oedd bellach yn ei chuddio. Collwyd y lliw a fu ac y mae bywiogrwydd llawen a lliwgar yr arglwyddes wedi darfod. Yn gynnil, diriaethir yr hyn a gollwyd yn ei hangau hi:

Lle bu ra a gvyrd. lle bu rud aglas.  
neut gloes angeu gystud.  
lle bu eur am deurud.  
lle bu borffor kor ae kud.<sup>215</sup>

<sup>211</sup> R 1328.43 - 1329.1.

<sup>212</sup> GCBM i 5.22, 43, 130.

<sup>213</sup> GBF 29.22.

<sup>214</sup> R 1329.1-3.

Yn ôl Fulton, diben pennaf y cyfeiriadau at wisg yr arglwyddesau oedd nodi eu safle a'u statws o fewn y llys, neu'n hytrach hysbysebu statws y llys ei hun.<sup>216</sup>

Manyla Joan Nunn ar arwyddocâd cymdeithasol y defnyddiau a'r lliwiau moethus:

The continuous desire for change in dress cannot be dismissed as arbitrary. Fashion, whether in art, architecture, furniture or dress, must rather be seen as the expression of ideas shared by a number of people at any one time, often linked to fundamental changes in moral or social values, and thus reflecting the essential characteristic of a particular period; and dress as an art form, a skillful arrangement of materials through which ideas or messages, both personal and social, are communicated.

Articles of clothing were first used in this way as symbols of rank, authority or occupation, a function that still survives in, for example, a king's crown, a bishop's mitre and cope, special robes for judges or men of learning, and the whole range of uniforms for military or specialized services. From these specific symbols developed the use of clothes to convey less obvious or direct messages such as the superiority of one individual over another, particularly in terms of wealth (which frequently also meant power), indicated by jewels, rich fabrics and furs, or garments in which it would be difficult to undertake physical labour. Even today the desire to wear a mink coat, diamonds or ostentatious clothing as a sign of financial and social success is not uncommon.<sup>217</sup>

Yn ogystal â'r cyfeiriadau mynych at aur, a'r sôn am arian ac enamel a welsom eisoes yng ngwaith Gruffudd ap Maredudd, cawn hefyd gyfeiriadau at dlysau'r arglwyddesau gan y Gogynfeirdd. Yn ei rieingerdd i Efa mae Cynddelw o bosibl yn sôn am freichled a wisgai hi:

Ban llewych y bron ger ei breichrwy.<sup>218</sup>

<sup>215</sup> R 1319,14-17.

<sup>216</sup> Fulton, *op. cit.*, t. 81.

<sup>217</sup> Nunn, *op. cit.*, t. 7.

<sup>218</sup> GCBM i 5.100.

Gellid hefyd ystyried mai cyfeirio at fodrwy aur o'i heiddo, os nad at ei gwallt cyrliog, y mae'r bardd isod:

Ac a dan ruddem, ruddaur fodrwy,<sup>219</sup>

Disgrifir perlau neu feini gwerthfawr Gweirfyl gan Iorwerth Fychan:

Yn arllwybr arwain main merierid.<sup>220</sup>

Mae'n bosibl hefyd mai ei mwelis a grybwyllir ganddo yn y fan hon, os nad disgrifio cnawd gwyn ei gwddf y mae:

Mynyglwen yn llen yn lle rhennid - gwyrdd,<sup>221</sup>

Symbol amlwg o statws uchel oedd gwisg borffor, ffaith y manteisiwyd arni gan y Gogynfeirdd wrth ddarlunio'u harglwyddesau uchel eu tras:

Gweilging porffor pwyllad fyfyr.<sup>222</sup>

Mynych lle llewych lliw ehöeg - ym<sup>223</sup>

Tremyn ar ddillyn porffor ddillad<sup>224</sup>

Nid canlyniad ffasiwn newydd oedd goblygiadau cymdeithasol gwisg o liw porffor. Cawn yng Nhanu Aneirin ddarlun o ferch Eudaf Hir a oedd, mae'n debyg, yn wraig i Fynyddog Mwynfawr wedi ei gwisgo mewn porffor. Cymaint oedd arwyddocâd y lliw hwn fel na theimla'r bardd yr angen i ymhelaethu ar ei ddisgrifad ohoni:

---

<sup>219</sup> *Ibid.*, 5.105.

<sup>220</sup> GBF 29.32.

<sup>221</sup> *Ibid.*, 29.15.

<sup>222</sup> GMB 9.88.

<sup>223</sup> GC 5.31.

<sup>224</sup> GGLI 1.64 (Hywel ab Einion Lygliw). Gweler hefyd GMB 9.64 (Gwalchmai); R 1319.16, 1320.37 (Gruffudd ap Maredudd).

Ardyledawc canu claer orchyrdon.  
 ar neges mynydawc mynawc maon.  
 a merch eudaf hir dreis gwananhon.  
 oed porfor gwisgyadur dir amdrychyon.<sup>225</sup>

Nid statws merched yn unig a arwyddid gan wisg o'r lliw coeth hwn. Darlunnir Blaen fel un o arwyr cyflawn y Gododdin yn hael wrth rannu medd yn y llys, yn gadarn wrth roi gorchymyn i'w filwyr ar faes y gad, ac yn berchen ar geffylau gwych a gwisgoedd o aur a phorffor:

blaen gwirawt vragawt. ef dybydei.  
 blaen eur a phophor kein as mygei.  
 blaen edystawr pasc ae gwaredei.  
 gwrthlef ac euo bryt ae derllydei.<sup>226</sup>

Nid yn yr Hengerdd ychwaith, nac yng Nghymru y mae tarddiad arwyddocâd bonheddig ac uchelwrol y lliw porffor. Dyma oedd lliw mwyaf parchedig y Groegiaid a'r Rhufeiniad, a daw'r enw o'r Groeg porphyra, sef y gwalc a ddefnyddir i greu'r lliw porffor Tyriaidd:

Purple has been the most significant colour in the history of dyeing. Yet the famous Phoenician Tyrian purple, the colour most prized in the ancient world, is lost.

... Historically it was a regal prerogative. Tyrian purple had been 'precious as silver'. Porphyrogenitus ('born to the purple') was a surname of the tenth-century Byzantine Emperor, Constantine VII. It is the designation for a son to be born to a reigning sovereign, literally reinforced in Byzantine Empire by the purple-draped chamber of the Empress used for her confinement.

Purple robes have long been the prerogative of those engaged in sacred activities, such as the priest who officiated at the ancient Greek mysteries at Elusis. Roman emperors later appropriated the colour to represent their personification of the god Jupiter; but their power was more earthly than divine and, by the sixteenth century, purple was simply the colour of royalty.<sup>227</sup>

<sup>225</sup> CA, LXVIII.

<sup>226</sup> CA, XVI, 144-7, ac am gyfeiriadau eraill at wisgoedd porffor yn yr Hengerdd gweler ibid., t. 233.

<sup>227</sup> Forman, op. cit., tt. 218, 220.



Mae'r ddelwedd hon o'r uchelwraig ganoloesol mewn gwisg o ddefnydd porffor felly'n symbol grymus iawn o gyfoeth a statws. Agwedd ddiddorol ar y defnydd o'r lliw hwn yng ngwaith y Gogynfeirdd yw'r modd y darlunnid yr arglwyddi nid yn ei wisgo, fel y gwnei eu gwragedd, ond yn rhannu gwisgoedd wedi eu llunio ohono - a hynny'n arbennig ymhlith y beirdd. Mae hyn yn elfen amlwg yng nghanu Llywarch ap Llywelyn, Prydydd y Moch:

Ei anaw a ddaw, a ddyfnad,  
 I anant ei eni bu mad,  
 Ei aur rhudd yn rhodd o'i geiniad  
 A'i emys a'i amryw dillad;  
 Ei bali porffor parth nâd - a wyrthia  
 A'i werthfawr ysgarlad.<sup>228</sup>

Mad y'th ymddug mam, wyt ddoeth, wyt ddinam,  
 Wyt ddiddawl o bob chwant  
 O borffor, o bryffwn fliant,  
 O bali ac aur ac ariant.  
 Dy emys gochwys gochanant - dy feirdd,  
 Yn fyrddoedd y'u caffant.  
 Minnau, o'm rhadau, rym anant,  
 Yn rhuddaur, yn rhwydd ardduniant  
 O bob rhif i'm rhwyf y'm doniant,  
 O bob rhyw y'm rhodded yn gant:  
 Cyd archwyf i'm llyw y lloergant - yn rhodd,  
 Ef a'm rhydd yn geugant.<sup>229</sup>

Iorwerth gad gannerth gyd gynnor, - cynran,  
 Cynrhaul aur a phorffor,  
 Ef oedd lew, llew llu angor,  
 Dyhedd teyrnedd, tud iôr.<sup>230</sup>

Diben y cyfeiriadau hyn at wisgoedd porffor yw pwysleisio cyfoeth yr arglwydd a'i radlonrwydd wrth rannu ei eiddo. Pwysleisir hefyd mai wrth noddi beirdd y dosberthid y rhoddion gwerthfawr hyn, a chyfeiria Prydydd y Moch ato'i hun wedi ei wisgo yn lliwiau coch ac aur ei arglwydd.

<sup>228</sup> GLIL1 1.39-44 (Mawl Dafydd ab Owain o Wynedd).

<sup>229</sup> *Ibid.*, 23.185-196 (Mawl Llywelyn ab Iorwerth o Wynedd).

<sup>230</sup> *Ibid.*, 28.21-24 (Marwnad Iorwerth ap Rhotbert o Arwystli).

Gwisgoedd a roddid yn rhoddion gan arglwyddesau'r Gogynfeirdd hefyd:

Ni ddirper pebyll, ni syll pali,  
Neb, a rwy garwy, yn fwy no hi.<sup>231</sup>

Nodwedd arbennig y dillad a roddid ganddynt hwy oedd eu lliw gwyrdd.<sup>232</sup>

Gwasgarai wyrdd, cyrdd ai cwyn,<sup>233</sup>

Mynyglwen yn llen yn lle rhennid - gwyrdd,<sup>234</sup>

Os ystyriwn anrhegion porffor yr uchelwr yn arwydd o'i statws a'i rym ac felly ei wrywdod, mae'n bosibl mai fel symbol o ffrwythlondeb neu rywioldeb y bwriadwyd rhoddion gwyrdd y gwragedd. Trown eto at astudiaeth Yale Forman o liw:

Green is the colour of the planet Venus, and therefore of love. Green was traditionally worn at weddings in Europe, where it symbolized fertility, a custom ironically portrayed in Van Eyck's Wedding Portrait, in which the pregnant bride is wearing green.

After reaching a zenith in the Middle Ages, colour symbolism gradually lost much of its resonance. Green, for example, was still used for bridal gowns up to Elizabethan times and beyond, to express the hoped-for fecundity. But the symbolism become somewhat debased when green came to stand for the tell-tale grass-stains on a previously virgin frock, which signified inconstancy - a charge leveled at 'Greensleeves' in the ballad attributed to Henry VIII.<sup>235</sup>

<sup>231</sup> GLIF 10.9-10 (Hywel ab Owain Gwynedd).

<sup>232</sup> Gweler t. 186 isod.

<sup>233</sup> GGrG 6.6 (Goronwy Gyriog).

<sup>234</sup> GBF 29.15 (Iorwerth Fychan).

<sup>235</sup> Forman, op. cit., tt. 206, 78.

#### 4. RHINWEDDAU BENYWAIDD A RHINWEDDAU LLYSAIDD

##### Rhinweddau Benywaidd

Yn yr oesoedd canol daeth yn amlwg fod amrywiol ddisgwyliadau ynglŷn ag ymddygiad ac ymarweddiad priodol i arglwyddes. Yn ogystal ag arddangos rhinweddau llysaidd a chwrtais a amlygai ei thras a'i bonedd, disgwyliid iddi hefyd feddu ar rinweddau benywaidd. Wrth gyfosod y rhinweddau benywaidd hyn â'r nodweddion cwrtais ymddangosai'r rhai cyntaf yn wan ac yn oddefol, ac fel petaent yn tanseilio cryfder a grym y darlun o'r cymeriad llysaidd a bortreadid. Dyma farn Diane Bornstein ar y pwnc hwn:

Although medieval women needed to exercise the active virtues in leading their lives, the passive ones were emphasised in the courtesy books. Femininity was equated with modesty, humility, chastity, and obedience. Women were exhorted to see themselves in the mirror of men's eyes and to act as servant, nurse, lover, wife, and mother to meet the needs of men. Although women played important roles in political and economic spheres, their duties within the home were emphasized, and the household was considered their proper domain.<sup>1</sup>

Ochr yn ochr â chanmoliaeth i haelioni a diddanwch y gwragedd, a ystyrid yn rhinweddau 'llysaidd' canmoladwy, gwelwn yng ngwaith y Gogynfeirdd fawl i'w haddfwynder ('hwyr'), sef rhinwedd 'benywaidd':

A golygon hwyr, hirwyn ei grudd.<sup>2</sup>

Gwylia, bwyll hirdwyll hwyrdfw,<sup>3</sup>

Gwawr gerddgar, hwyrwar herwydd - adnabod,<sup>4</sup>

<sup>1</sup> Bornstein, *op. cit.*, t. 120-1.

<sup>2</sup> GMB 9.58 (Gwalchmai).

<sup>3</sup> GGD 4.95.

<sup>4</sup> GSRh 1.17 (Sefnyn).

Ystyrir ‘hwy’ gan Ifor Williams yn gyfystyr ag ‘araf’,<sup>5</sup> ond ceir yr ystyron ‘tyner’ ac ‘addfwyn’ yn Geiriadur Prifysgol Cymru,<sup>6</sup> ac y mae’n dra thebygol mai dyma a olygir wrth sôn am ‘arafwch’ yr arglwyddes hefyd, fel yn yr enghreifftiau a ganlyn:

Ei hufudd-dod, ceudod cof,  
I hardd Wenhwyfar araf,<sup>7</sup>

Mi a baraf i ddyn araf  
O’r a garaf rwyf o gerydd<sup>8</sup>

Cyfeirir hefyd at ‘dristwch’ drwy gyfrwng yr un gair, sef ‘araf’:

Lle ni’ m llwydd eilwydd, arwydd araf,<sup>9</sup>

Pwysleisid ‘hoywder’ y gwragedd hefyd gan y beirdd a’i ddisgrifio’n gyson fel nodwedd o gymeriad arglwyddes fonheddig. Fel y gwelir yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru, y mae dwy elfen i ystyr y gair hwn, un yn cyferio at ymddygiad, a’r llall yn cyfeirio at ymddangosiad neu natur, sef, yn gyntaf, ‘heini, sionc, gwisgi, nwyfus, bywiog, hoenus, siriol, llon, llawen’; ac yn ail, ‘hardd, gwyh, cain, dilyn, cymen, destlus, taclus, trwsiadus, ffyniannus.’<sup>10</sup> Clywn gan Sefhyn am nwyfusrwydd Myfanwy:

I’r nêr, edmycer, oed macwy - o serch,  
Union hoywdeg ferch o Nanheudwy.<sup>11</sup>

Canmolir y bywiogrwydd hwn hefyd gan Ruffudd ap Dafydd ap Tudur mewn amryw o’i awdlau:

<sup>5</sup> Gweler CA t. 118; CLIH t. 107.

<sup>6</sup> GPC d.g.

<sup>7</sup> GGrG 2.17-18.

<sup>8</sup> *Ibid.*, 4, 1-2 (Iorwerth ab y Cyriog).

<sup>9</sup> GLIBH 3.30.

<sup>10</sup> GPC d.g.

<sup>11</sup> GSRh 3.23-4.

O rodd dawn hoywfodd dyn hael.<sup>12</sup>

Gwyddiwn na haeddiwn haddun, - hygerais  
Hoyw gares yn Eitun,<sup>13</sup>

Gwen - a hoyw yw hon, gwynlliw ertrai ton  
Pan fydd eglur fron, a llon ei llais -<sup>14</sup>

Defnyddia ef y gair hefyd wrth drafod harddwch a ffurf arglwyddes:

Cymered, haeled hoywlun, - o'm dolur  
Am dalu pwyth fy hun,

Yd oedd cam, llwrw cytgam llif,  
Nad anfonud, hud hoywdwf,  
O Eitun gennad ataf  
Hyd tra gaid enaid ynof.<sup>15</sup>

Nid yw hoywder ffurf y wraig hon, fodd bynnag, yn dod â dim ond gofid a dioddefaint i'r bardd. Ei ddinistr ef fydd canlyniad hoywder y ferch y mae Iorwerth Fychan yn canu amdani isod hefyd:

Hoyw wanfain riain na weinydd - hawdd wên  
Yni wnêl orffen fy nihenydd.<sup>16</sup>

Mae'r nodweddion cadarnhaol hyn o eiddo'r arglwyddesau'n arwain at gyflyrau negyddol iawn yn y beirdd. Ond cawn enghreifftiau hefyd o harddwch a hoywder llawen a diniwed:

Manon aur hoywdal mywn enrhydedd,<sup>17</sup>

Hoywlun hael eiddun, o hil Addaf.<sup>18</sup>

<sup>12</sup> GGD 3.4.

<sup>13</sup> *Ibid.*, 4.41-2.

<sup>14</sup> *Ibid.*, 5.35-6.

<sup>15</sup> *Ibid.*, 4.33-4; 53-6.

<sup>16</sup> GBF 30.21-2.

<sup>17</sup> GSRh 5.6 (Rhisierdyn).

<sup>18</sup> GC 4.36.

Llan-faes fan uwch marian môr  
A gudd Gwen-hoywfudd-hwyfar,<sup>19</sup>

Gwelir gwerthfarwogiad o 'hoywder' gwagedd yng ngwaith y trwbadwriaid hefyd, megis yn y dyfyniad hwn o 'Si anc nuills hon' Gaucelm Faidit:

... ils es tant franch'e de bel estage  
que la valors e.l pretz, c'a lieis s'atura  
    fai a totz parer  
    c'Amors i aia poder  
    qe lai on es valors gaia  
    deuria merces caber ...

que tan dopte s'onor e son paratage,  
son gai joven e sa bella faitura ... (w. 23 - 8, 33 - 4)

[She has such noble candour, and is so well-born, that the distinction and merit attaching to her make it apparent that she falls within Love's empire; for where there is gaiety and worth, mercy ought to be found  
....

for I fear her social prestige and her rank, her gaiety and youth and her beautiful form ...]<sup>20</sup>

Roedd 'llawenydd' hefyd yn rhinwedd i'w ganmol mewn arglwyddesau ac yn rhan annatod o'u cwrteisi a'u hymddygiad hael a diddan tuag at westeion y llys:

Llawen eiddun fun, fudd ddiorsaf,  
Llefair rhygwblair, ni rhygablaf,  
Lleddf ddiffol ddethol, ddoethaf - o'r gwagedd,  
Llariedd gludfawredd a glodforaf.<sup>21</sup>

Llywy gymenbwyll ddidwyll ddedwydd:  
Llawen ei gwyngen, gwingar ufydd,  
Llwrw eisiwed ced y'm cydfydd - galar  
Llwyr ddwyn Gwenhwyfar, llun gwâr gwawdrydd.<sup>22</sup>

<sup>19</sup> GGrG 2.5-6 (Goronwy Gyriog). Er mai mewn marwnad y ceir yr enghraifft hon, mai Goronwy yma'n cyfeirio at hoywder Gwenhwyfar tra oedd yn fyw.

<sup>20</sup> Kay, *op. cit.*, t. 94.

<sup>21</sup> GLIBH 3.9-12.

<sup>22</sup> GGrG 6.57-60 (Mab y Clochyddyn).

Clywn hefyd am lawenydd cariad yn ogystal â llawenydd cymeriad yr arglwyddes:

Yn orlliw eiry rhiw, rhetid - 'ym mhwyllad,  
 Yn orllad cariad men y'i cerid.  
 Yn arllafar wâr wawr ddiodid,  
 Yn orllawen wen a weinyddid.  
 Yn orludd hoen grudd, greddf ddodid - rhag poen  
 Yn orllifant hoen, hwn ni geisid.<sup>23</sup>

Rhoddir sylw gan y beirdd hefyd i'w llawenydd hwy eu hunain pan ydynt yng nghwmni'r ferch berffaith a llysaidd:

Braig addurn difurn, neud ufydd - arfer  
 Brenhines haelder, gloywder gwledydd.  
 Brwysg fyddaf, od af, y dydd - y'm gwelo,  
 Bro aml yw yno ym lawenydd.<sup>24</sup>

Â Gruffudd ap Maredudd mor bell ag ystyried yr arglwyddes yn ymgorfforiad o'i lawenydd ef:

Molaf gen riein o ryv arglvydi  
 aglwydes vy hoedyl yv.  
 mavl hirglot mil aeherglyv.  
 meu hoen a nvyf tra vvyf vvyv.<sup>25</sup>

### Hud a Thwyll

Daeth ystyried rhinweddau'r arglwyddes yn nhermau hud a swyn yn thema amlwg yng ngwaith y beirdd llys a ganai yn hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg. Disgrifiwyd yr arglwyddes yn hudo'r bardd â'i haddfwynder:

Ym neud glud dy hud, hydr riain - wanlleddf  
 O'r wenllys ger Dinbrain;  
 Aml yw gwawd, gynefawd gain,

<sup>23</sup> GBF 29.23-8 (Iorwerth Fychan).

<sup>24</sup> GSRh 1.5-8 (Sefnyn).

<sup>25</sup> R 1328.26-8.

O'm arraith i'th dwf mirain.<sup>26</sup>

Pwysleisir yma gan Hywel ab Einion Lygliw linach y Fyfanwy hudol hon, a chysylltir yr hud hwn hefyd â nodweddion eraill o gymeriad yr arglwyddes lysaidd berffaith - megis ei sgwrs ddiddan:

Fynog riain fain, fynud,  
Fun arlludd hun, eirllwydd hud.<sup>27</sup>

Serch hynny, nid canlyniadau da a llawen sydd bob tro i hud rhinweddau'r ferch. Y tro hwn, mae swyn Myfanwy'n achosi dioddefaint y bardd drwy rwystro'i gwsg:

Neud wyf ddiwynwyf, hoen Creirwy - hoywdeg  
A'm hudodd mal Garwy,

Mireinwawr Drefawr, dra fo brad - i'm dwyn,  
Gwarandaw fy nghwyn, frwyn freuddwydiad;  
Meu glwyf a mawrnwyf, murniad - hun oheb,  
Gwrtheb teg ateb tuag atad;<sup>28</sup>

Credid fod yr arglwyddes yn defnyddio'i hud a'i doethineb yn fwriadol i dwyllo'r beirdd, fel y gwelwn yma gan Ruffudd ap Dafydd ap Tudur:

Hoffter fydd, doethder deithdud, - a ddysger  
I ddysgawdr ddywedud,  
A'r gorau, Geirioel fynud,  
I gain bwyll, hydwyll a hud.<sup>29</sup>

Roedd harddwch hon hefyd yn rhan o'r twyll:

Ys addef, feingan annwyl,  
Addau brad golau bryd gŵyl.<sup>30</sup>

<sup>26</sup> GGLI 1.91-4.

<sup>27</sup> *Ibid.*, 1.89-90.

<sup>28</sup> *Ibid.*, 1.1-2, 37-40.

<sup>29</sup> GGDY 4.61-4.

<sup>30</sup> *Ibid.*, 4.27-8.



Yn wir, ymddengys mai'r merched harddaf a'r doethaf, sef yr arglwyddesau delfrydol, oedd beryclaf eu twyll, yn ôl y beirdd:

Gwylia, bwyll hirdwyll hwyrddw,
 Golwg cyn modd dioddef,<sup>31</sup>

Gwelais agerai ynragori pryt
 o vyvn prifdec sentri.
 a phall syndal a phali.
 a phwyll oed ei hirdwyll hi.<sup>32</sup>

Cawn hefyd ddisgrifiad gan Ruffudd ap Dafydd ap Tudur o ferch sy'n trechu synnwyr dynion drwy ei thwyll a'i hud:

Trwy hud bwyll astud o bell ystyr - gwen
 Tua'i gwan a'i hepgyr,
 Tro mwyfwy traha myfyr,
 Trech o dwyll no gwirbwyll gwyr.

Gwyr nwyf, gwir gannwyf gwawr gannwyll - lethrid
 A'm lithrawdd i'm gorffwyll,
 Daith wylboen dyn detholbwyll,
 Doethion mal deillion a dwyll.

Twyll a symud pwyll, pell ddefnydd - meddwl,
 Mal dyn meddw diawrdrydd,
 Hoen gwaedgreg gwaneg gweunydd,
 Hun am neb un ym ni bydd.<sup>33</sup>

Ceir effaith syfrdanol ar feirdd o ganlyniad i dwyll eu harglwyddesau. Cwynant am glwyfau, gofid a diffyg cwsg ac am angerdd a hiraeth a'u cyflwr breuddwydiol:

Gwyl fun a dry hun drwy hud, - cur ortho,<sup>34</sup>

A addawsai, hoed a hud beunydd,
 O'm hoen drwy hirboen hwyrbell gynnydd;<sup>35</sup>

<sup>31</sup> GGD 4.93-4.

<sup>32</sup> R 1328.43 - 1329.1 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>33</sup> GGD 4.64-76.

<sup>34</sup> *Ibid.*, 4.1.

<sup>35</sup> GBF 30.15-16 (Iorwerth Fychan).

Gwelir y ddeuliaeth hon rhwng edmygedd o rinweddau'r arglwyddes ac ofn ohonynt yn gyson yn llenyddiaeth yr oesoedd canol. Dwy elfen annatod ydynt ym mhortread llenorion y llys o'u harglwyddesau. Wrth drafod y rhamantau meddai A. C. Spearing:

Romances habitually present women as either delightful or dangerous, and often both at once. Women stand outside the open hierarchy of public, male life, a hierarchy theoretically based on physical strength, moral integrity, and rationality; women are volatile, unpredictable, seductive, mysterious, magical, everything that from the male viewpoint is Other.<sup>36</sup>

Cofiw'n fod yna draddodiad o ddrwgdybio gwragedd, fel y gwelwyd eisoes yn y canu natur a'r canu gwirebol.<sup>37</sup> Ond nid gwragedd a hen wragedd ceintachlyd a gawn yma'n twyllo'r beirdd, eithr yr harddaf, y doethaf a'r mwynaf eu lleferydd o blith arglwyddesau llysoedd Cymru. Ymdengys felly i'r gallu i dwyllo a hudo'r beirdd dyfu'n un o rinweddau'r arglwyddes ddelfrydol. Rhan o'r mawl ydyw, a haen arall o ddelwedd y ferch fonheddig, uchelwrol yr oedd y Gogynfeirdd yn ei dyrchafu. Dyna, wrth gwrs, fyddai dyletswydd a diben y bardd, ac anodd yw gweld sut y byddai byth yn dderbyniol iddo ddiffrio'r arglwyddes, gwraig ei arglwydd, yn ei llys ac yng ngŵydd ei gwesteion.

### Lleferydd

Rhinwedd angenrheidiol i westeiwraig y llys yn yr oesoedd canol oedd y gallu i ddiddanu drwy sgwrs. Cofiw'n foliant Heledd i'w chwirydd 'diddan', a chawn ganmoliaeth hefyd i sgwrs gwraig Brenin Annwfn yn Pedair Keinc y Mabinogi:

<sup>36</sup> Spearing, *op. cit.*, t. 17.

<sup>37</sup> Gweler tt. 17-21 uchod.

A dechreu ymdidan a wnaeth ef a'r urenhines. Ac o'r a welsei eiryoet wrth ymdidan a hi, dissymlaf gwreic a bonedigeidaf i hannwyt a'y hymdidan oed.<sup>38</sup>

Gwelwn yn yr un modd fod difyrri gwesteion yn rhan cyn bwysiced o ddyletswyddau'r arglwyddes ddelfrydol yn y llysoedd lle canai'r Gogynfeirdd â darparu gwledd o ddanteithion. Adlewyrchai hyn y pwysau a roddid ar gwrteisi, moesgarwch a defodau'r llys gan gymdeithas waraidd y cyfnod, ac roedd i'r arglwyddes ran allweddol yn hyn i gyd. Roedd hi'n symbol o foneddegieiddrwydd yr holl lys a'i hymarweddiad yn arwydd o statws y gymdeithas yr oedd yn rhan ohoni.

Aeth nifer o awduron llyfrau cwrteisi felly ati i gynghori gwragedd ynglŷn â'u hymddygiad yn y llys a'r modd y dylent gyfarch eu gwesteion. Yn ystod trydydd chwarter y drydedd ganrif ar ddeg ysgrifennodd Robert o Blois ei ysgrif *Chastoiement des dames* yn arbennig ar gyfer gwragedd y bendefigaeth. Trafodwyd y gwaith hwn yn fanwl gan Diane Bornstein:

A woman should be courteous to everybody and know how to greet, serve, and entertain people. She should not talk too much or too little. If she talks too much, people will think she is domineering, whereas if she talks too little, people will think she is proud. She should not show anger and not quarrel with others. All of these precepts illustrate woman's role as the server, harmonizer, and peacemaker in social relationships.<sup>39</sup>

Ceir cyngor arbennig i wragedd ynglŷn â diddanu gwŷr y llys, a'r beirdd. Talwyd cryn sylw i hyn gan Garin lo Brun, marchog a thrwbadwr o Veillac yn ystod ddeuddegfed ganrif, mewn *ensenhamen*, sef ysgrif addysgol. Dyma Bornstein eto yn crynhoi ei agwedd:

A lady should not be in an intimate situation with a man unless he is a relative, or she has known him for a long time; otherwise, people will gossip about her. If a man comes to visit her, she should greet him courteously, rising to receive him if she is seated. If he is courteous and honorable, she should invite him to sit beside her. She should listen to

<sup>38</sup> PKM t. 4.

<sup>39</sup> Bornstein, *op. cit.*, t.59.

his conversation. On the other hand, if his speech pleases her, she should respond with a smile, being careful not to say too much. Garin encourages the lady to flirt with male guests whom she can trust, being careful to be discreet and not to go too far.<sup>40</sup>

Mae'n amlwg hefyd yr ystyriai'r gwŷr sgwrsio neu ddadlau â'r gwragedd yn elfen anhepgor o ddifyrrwch ac adloniant y llys. Chwarae gêm serch cwrtais a wnaent â'r arglwyddesau gan arddangos eu medr ar air ac ar ddadl, ac felly ddangos eu cwrteisi yn yr un modd ag yr arddangosent eu dewrder a'u gallu wrth drin arfau ar faes y gad. Cynghorir merched ifainc uchelwrol ynglŷn â sut i chwarae'r gêm hon gan Matfre Ermengaud, mynach o Béziers, yn y Breviari d'amor. Clywn ei farn yntau hefyd gan Bornstein:

If a man speaks to her of love, she should not get angry, cry out, complain to her husband, or become haughty and proud. If women acted that way, it would be impossible for men to amuse themselves.<sup>41</sup>

Ond fe rybuddir yr arglwyddes hefyd ynglŷn â pheryglon i'w henw da o fod yn orchwareus:

She should think therefore before she speaks, not speak too loudly or too softly, and not be familiar with men of another rank. The more attractive a woman is, the more she has to guard her reputation, for it is easy to suspect a pretty woman. She must know how to distinguish the good men from the bad and should not seek the praise of fools. The praise of troubadours, however, will bring her glory.<sup>42</sup>

Rhaid, wrth gwrs, iddynt gofio'r sylw diwethaf hwn!

Pwysleisir bob amser yn y cynghorion hyn na ddylai'r ferch godi ei llais na cholli ei thymmer. Cymhellir hi'n gyson hefyd i gyfyngu ei sylwadau ac i osgoi cleber a chlecian. Roedd y wraig groch yn amlwg ym meddylfryd yr oesoedd canol a cheid cwynion gwastadol yn ei herbyn gan lenorion a gwŷr crefyddol y cyfnod. Rhaid oedd gofalu felly fod ymddiddan yr arglwyddes yn ddigonol i

---

<sup>40</sup> Ibid., t. 34.

<sup>41</sup> Ibid.

<sup>42</sup> Ibid., t. 35.

gyfleu ei chwarteisi a'i moesau da heb beri iddi ymddangos yn aflafar. Rhoes Howard Bloch gryn sylw i dopos canoloesol 'y wraig siaradus', a thema'r 'Wraig yn Cadw Reiad' (*Woman as Riot*) a wêl yn ymestyn y tu hwnt i'r oes hon ac ar draws amryw *genres* llenyddol:

According to the medieval topos of talkative women, which is no doubt motivated by the desire to silence them, wives are portrayed as perpetual speech with respect to which no position of innocence is possible. Woman is conceived as an overdetermined being with respect to which man is always at fault.<sup>43</sup>

Diffrir gwagedd yn gyson drwy'r cyfnod mewn gweithiau llenyddol ac addysgol. Un o'r rhain oedd Lamentations de Matheolus (Lamentationes Matheolui) Jean Le Fèvre, sef ymosodiad ar ferched ac ar briodas trwy gyfrwng cyfieithiad o Liber Lamentationum Matheoluli. Cymherir gwagedd ag anifeiliaid peryglus a rheibus, planhigion annifyr, creaduriaid erchyll, afiechydon a ffynonellau sw'n di-baid:<sup>44</sup>

Pourquoy sont femmes plus noiseuses,  
Plaines de paroles oiseuses  
Et plus jangleuses que les hommes?  
Car elles sont d'os et nous sommes  
Fais de terre en nostre persone:  
L'os plus haut que la terre sonne.

[Why are women more noisy, full of foolish words, and more garrulous than men? Because they are made of bones and our persons are made of clay: bones rattle louder than earth. (2, vv. 241 - 46).]<sup>45</sup>

Dadleuwyd yn frwd na ddylai dynion briodi gwagedd gan eu rhybuddio am y dioddefaint a ddeuai yn sgil hynny, yn enwedig o orfod gwranddo ar gwynion a siarad ffôl y merched. Dyfynna Bloch o'r Roman de la Rose er mwyn dangos y pwyslais a roddid ar leferydd gwagedd; gwnaed hynny drwy sarhau eu cleber:

<sup>43</sup> Bloch, *op. cit.*, t. 17.

<sup>44</sup> Karen Pratt, "Analogy or Logic; Authority or Experience?: Rhetorical Strategies for and Against Women", Literary Aspects of Courtly Culture, gol. Donald Maddox a Sara Sturm-Maddox (Amherst, MA, 1994), t. 58.

<sup>45</sup> Bloch, *op. cit.*, tt. 52-3.

qu'il i a vie trop grevaine,  
 Pleine de travaill et de paine  
 et de contenz des fames sotes,  
 et de dangiers et de reproches  
 qu'el font et dient par leur boches,  
 et de requestes et de plaintes  
 qu'el treuvent par achesons maintes.  
 Si ra grant paine en eus garder  
 Por leur fous volairs retarder.

[That there is there a life too full of torment and strife and arguments and riotousness because of the pride of foolish women - and dangers and reproaches which they do and say with their mouths, and requests and complaints which they invent on many occasions. It takes a great effort to keep them and to hold back their foolish wills. (Rose, v.v. 8539 - 48)]<sup>46</sup>

Dyma sylw Bloch ar y math hyn o beth:

According to the topos of the *molestiae nuptiarum*, wives are portrayed as contentious, prideful, demanding, complaining, and foolish; they are pictured as uncontrollable, unstable, and insatiable: “si ra grant paine en eus garder / Por leur fous volirs retarder.” To push a little further, one cannot help but notice the extent to which the pains of marriage involve verbal transgression, so that the reproach against women is a form of reproach against language itself - “that which is said by the mouth” (“qu'el font et dient par leur boches”), or more precisely, *contenz*, (contention, garrulousness, bickering, and quarrels), *reproches* (criticism, reproach), *plaintes* (complaint), *requestes* (demands), *orguelz* (pride). A wife is depicted as a constant source of anxiety and dissatisfaction, an anxiety expressed - or, as the text suggests, “composed” - with words: “qu'el treuvent par achesons maintes.” The protest against women as a form of verbal abuse, addressed to “anyone who marries,” is thus posited as universal.<sup>47</sup>

Rhybuddia Karen Pratt ni, fodd bynnag, rhag bod yn or-barod i dderbyn y cydweddiad hwn rhwng gwragedd ac iaith. Y mae'n arbennig o amheus o gasgliad Howard Bloch ynglŷn â hyn, sef:

If a woman is defined as verbal transgression, indiscretion, and contradiction, then ... any writer, can only be defined as a woman; and the discourse of misogyny then becomes a plaint against the self or

<sup>46</sup> *Ibid.*, t. 14.

<sup>47</sup> *Ibid.*

against writing itself. ... Put another way, the author seeks to do to his interlocutor ... precisely that of which he accuses women: to deceive with words, to provoke contradiction, and to seduce with what is defined as the essence of the feminine: the ruses of rhetoric...

The danger of woman, according to this reading of the phenomenon of misogyny, is that of literature itself.<sup>48</sup>

Y mae Pratt yn ein rhybuddio rhag y perygl o syrthio i'r fagl o drafod gwragedd a'r agweddau tuag atynt gan ddefnyddio'r un rhesymeg â'r clerigwyr canoloesol. Defnyddia ddadl Bloch i egluro hyn:

Although Bloch is well aware of the role played by analogy in a misogynistic discourse ... he never seems to challenge the analogies which form the basis of these syllogisms. Indeed, his own writings are full of analogical thought and generalizations, and he finds the equation of woman with language, writing, and deception particularly appealing, hence his essentializing conclusion concerning the danger of woman. Had he examined the analogy more closely though, he would have realized that medieval male writers wielding their phallic pens did not equate their own activity with female speech; nor is it valid to argue that because women are said to talk a great deal they are to be compared with language.<sup>49</sup>

Er bod yna, yn sicr, amheuaeth gwrywaidd o barablu gwragedd - onid o barablu'n gyffredinol - eto, yng Nghymru, yr oedd gallu'r arglwyddesau i ddiddanu'r llys yn rhinwedd a werthfawrogid ac a folid gan y Gogynfeirdd. Pwysleisia Gwalchmai sgwrs y gwragedd yn ei Orhoffedd:

Ydd endewais enau yn echlysur gwir,  
Ar lleferydd gwâr gwry eddein,<sup>50</sup>

Tynnir sylw at addfwynder eu geiriau dymunol:

Mabwraig, mwy yd ffaig ffenedigrwydd - ar wen  
No pharabl o'i phen anghymhenrwydd.<sup>51</sup>

<sup>48</sup> Howard Bloch, 'Medieval Misogyny', *Representations*, 20 (1987), tt. 19-20.

<sup>49</sup> Pratt, *op. cit.*, t. 57.

<sup>50</sup> GMB 9.15-16.

<sup>51</sup> GLIF 7.15-16 (Hywel ab Owain Gwynedd).

Lleferis wrthyf lleferydd - didaer,<sup>52</sup>

Ac ni welid bai ar y geiriau hyn yn ôl Cynddelw Brydydd Mawr:

A ddywaid rhaiain, ni rhygeblir.<sup>53</sup>

Nodwedd arbennig o sgwrs yr arglwyddesau a ganmolir gan y beirdd yw cyfoeth a safon eu Cymraeg;

Doeth i'th gyuoeth dy goeth Gymræg.<sup>54</sup>

Cymræg laesdeg o lys dyffrynt;<sup>55</sup>

Main firian riain gain Gymræg,<sup>56</sup>

Ymddengys mai agwedd arall ar fonedd a thras y gwragedd hyn oedd ansawdd eu hiaith. Adlewyrchai coethder eu Cymraeg eu dysg a'u deallusrwydd gan gyfoethogi'r darlun ohonynt fel arglwyddesau uchelwrol Cymreig. Roedd hyn yn fwy nag edmygedd o oslef a sain lleisiau'r merched a'u hymwybyddiaeth o arferion cwrtais - roedd yn ganlyniad addysg ac ymdrech yr arglwyddesau i gyfleu safon a boneddigeiddrwydd y llys. Rhoddwyd sylw i allu ieithyddol a geiriol cymeriadau benywaidd yn y chwedlau Ffrengig hefyd, a chred Joan Ferrante fod hyn yn arwydd o ymgais y cyfieithwyr i ddatblygu elfen lysaidd yr arglwyddesau:

The dedication of the Brut no longer exists, but Layman, who translated the work into English, says that Wace gave it to Eleanor [of Aquitaine]. Wace adds many courtly (and Ovidian) elements to his translation, presumably for Eleanor's taste : Uther's love for Ygerne, which began before he met her, the signs of love he gives her during the banquet, his suffering, and the physical symptoms of love; Arthur's qualities include the requirement that he be served "curteisement;"

<sup>52</sup> GBF 30.13 (Iorwerth Fychan).

<sup>53</sup> GCBM i 5.120.

<sup>54</sup> GLIF 8.8 (Hywel ab Owain Gwynedd).

<sup>55</sup> GCBM i 5.4.

<sup>56</sup> GC 5.29.



Guenevere is beautiful, courtly, generous and well-spoken (bone-parliere); ...<sup>57</sup>

Gwêl bresenoldeb Eleanor o Aquitaine yn y llys Seisnig fel esboniad am y pwyslais a roddid yn rhamantau'r cyfnod ar feistrolaeth gwragedd y llys o'r Ffrangeg;

That the court of king Arthur in Lancelot is the Anglo-Norman court of Henry and Eleanor is suggested by the reference at the beginning of the romance to the ladies of the English court being eloquent in French ("bien parlant en françoise," 40).<sup>58</sup>

Nodwyd 'disymlder ymadrodyon a gweithredoed' fel rhai o'r elfennau y gellid eu moli ar wreigdda yn Gramadegau'r Penceirddiaid. Dyma'r enghraifft gynharaf o'r gair 'disymlder', a rhoddir iddo'r ystyr 'doethineb, pwyll, gostyngeiddrwydd, plaender, symlrwydd' yn Geiriadur Prifysgol Cymru.<sup>59</sup> Gwelwn eu doethoneb yn safon eu Cymraeg ac yn eu dawn wrth ddiddanu'r llys, a cheir hefyd agwedd ar hyn yng nghyfeiriadau'r beirdd at eu huodledd:

Eirgall ddiwall ball, bwyll ogyweg,<sup>60</sup>

Rhiain barabl groyw loew lwys,<sup>61</sup>

Cymhendod dafod, etifedd - lwyddiant,<sup>62</sup>

Yr hyn sy'n drawiadol ynglŷn â'r dyfyniadau hyn, sy'n dyrchafu huodledd a 'pharabl' y merched, yw'r ffaith mai dyma'r unig gyfeiriadau a geir drwy gydol canu'r beirdd hyn at leferydd yr arglwyddesau. Os edrychwn yn fanwl ar ddirgrifiadau'r Gogynfeirdd gwelwn nad lleferydd y gwragedd sydd wir o ddiddordeb iddynt, ond yn hytrach eu distawrwydd. Y mae mwyafrif y

<sup>57</sup> Joan M. Ferrante, 'Whose Voice? The Influence of Women Patrons on Courtly Romances', Literary Aspects of Courtly Culture, gol. Donald Maddox a Sara Sturm-Maddox (Amherst, MA, 1994), t.6.

<sup>58</sup> Ibid., t. 8.

<sup>59</sup> GP d.g.

<sup>60</sup> GC 5.13.

<sup>61</sup> GGrG 2.2 (Goronwy Gyriog).

<sup>62</sup> GSRh 5.19 (Rhisierdyn).

cyfeiriadau at eu sgwrs yn nodi tawelwch eu lleferydd neu eu mudandod llwyr. Dyma, mae'n debyg, 'y gostyngedd'rwydd' neu'r 'disymlder' a ystyrid yn elfen o ddisgwyliadau Gramadegau'r Penceirddiaid.

O gofio'r rhybuddion a glywir yn y llyfrau cyngor rhag ymddangos yn groch ac yn aflafar, ymddengys fod y gallu i ymatal a chyfyngu ar sgwrs a gostegu llais yn arwydd o fonedd yr arglwyddesau a bod hyn yn eu gosod ar wahân i'r gwragedd swnllyd eu cleber. Roedd eu tawelwch felly'n brawf o'u hymwybyddiaeth o ddelfrydau ac arferion y llys:

Gwirion deg, dawel ei chyfariaith,  
Gwan ddeddf ddof i'm cof, i'm canhymdaith.  
Gwry fanon fanwl, gwâr feddwl faith,<sup>63</sup>

Darlunnir tawelwch yr arglwyddes dro ar ôl tro yng nghanu'r Gogynfeirdd. Ond er gwaethaf yr amllder hwn, nodwedd gymhleth oedd hon a ddehonglid mewn amrywiol ffyrdd er mwyn esbonio ymddygiad neu gymeriad y wraig. Fel arwydd o gwrteisi yr ystyrid tawedogrwydd gwraig y llys gan amlaf - prawf o'i bonedd, ei moesau da a'i gwyleidd-dra. Yn hyn o beth dilynid patrwm llyfrau cyngor yr oes. Dyma enghreifftiau o gyfeirio at dawedogrwydd neu lefaru tawel:

Mynawg dawedawg deg gyfnawid,

...

Yn arllafar wâr wawr ddiodid,<sup>64</sup>

Rhain loyw firian leferydd - gwastad,<sup>65</sup>

Mae'r arglwyddesau bonheddig y mae Gruffudd ap Maredudd yn eu moli hefyd yn gyson dawel:

<sup>63</sup> GCBM i 5.87-9.

<sup>64</sup> GBF 29.13; 25 (Iorwerth Fychan).

<sup>65</sup> GSRh 1.31 (Sefnyn).

Ny wnaf kyt bvyf nvyf navtal.  
tewi achlot dyn tavel.<sup>66</sup>

amvun dawel uchelwaet.<sup>67</sup>

kymryt ar tavel bryt teu.  
kymavt eigyr kamedegeu.<sup>68</sup>

Serch hynny, clywn y beirdd yn cwyno ynglŷn â thawelwch yr arglwyddes a'i effaith ddinistriol arnynt hwy. Gwelsant amharoddrwydd yr arglwyddes i siarad fel arwydd o falchder a styfnigrwydd, nodweddion na ddylid eu canfod yng nghymeriad gwraig fonheddig. Cyfeiriodd Meirion Pennar at yr amrywiol agweddau ar dawelwch merched yng nghanu'r Gogynfeirdd gan eu nodi mewn perthynas â'r themâu a rifodd yn ei astudiaeth:

The topos of shyness (11) probably belongs to the praise tradition - but the notion of the demure woman with the accompanying theme of the silent woman (17) is well-known in the love-lyric ...

The mute or soft-spoken woman (17) can be associated with the demure woman (11) or with the cold mute woman of the prose tradition like Angharad Law Eurog in 'Peredur' or the gwrthpwythi (contrariness) of Rhiannon. The motifs of the woman's pride (18) and decorum (19) are complementary to motifs of nobility (9) and courtliness (15), attributes of the praise tradition, but the combination of balch a mud (proud and silent) suggests a cold unsympathetic woman who is also haughty. The occurrence of the mute woman (17) in the eulogy/elegy group betrays once more the cross currents between genres. The proud woman (18) is found mainly in the poems of praise; the decorous woman (19) occurs but once in the praise group but is certainly a concept which sprung from the tradition pointing to the eulogistic temper of the rhieingerdd from the very beginning.<sup>69</sup>

Gwelwn y tawelwch sydd yn effeithio ar y bardd ar ei amlycaf yn awdl Gruffudd ap Dafydd ap Tudur i'r 'Ferch Fud' (y teitl a roddwyd i'r gerdd gan

<sup>66</sup> R 1328.31-2.

<sup>67</sup> R 1319.13.

<sup>68</sup> R 1326.36-7.

<sup>69</sup> Pennar, op. cit., tt. 238, 240.

Dafydd Johnston).<sup>70</sup> Erfynia arni i dorri gair ag ef a phwysleisia ei mudandod drwy gydol y saith englyn cyntaf:

Gŵyl fun a dry hun drwy hud, - cur ortho,  
 Câr wrthyf ddywedud.  
 Nid diboen na'm atebud,  
 Nid hawdd ymadrawdd â mud.

Mud a balch, hil gwalch gweilch nwyf, - y'th welaf  
 O'th farnaf, iaith fawrnwyf.  
 Môn oedd henw men ydd henwyf,  
 Minnau, llaes gofau, llesg wyf.

Gwanllesg wyf, hud rwyf hoed drwg, - am ungair  
 O du maengaer amlwg;  
 Gwannach a digach y'm dwg,  
 Gwennlys hil, gwanllaes olwg.

Dy olwg, treiswg trosaf, - wyf alltud,  
 A â filltir hebof;  
 Dyn a rydd gefyn ar gof,  
 Dywed air diwyd erof.

Dywed air cywair yn ôl cawad - nwyf,  
 Can gorwyf cwyn girad,  
 Ai er gwerth, cannerth ceniad,  
 Ai o'th fodd, enw rhodd yn rhad.

Ym ni chad yn rhad, rhaid ateb - eilwydd,  
 Eiliw gwendon moreb,  
 Nac er gwerth nac er nerth neb,  
 I gan hon eton ateb.

Ateb dihareb, hir orchwyl - enaid,  
 A ddywaid, hawlblaidd hwyl;  
 Ys addef, feingan annwyl,  
 Addau brad golau bryd gŵyl.<sup>71</sup>

Gwrthgyferbynnir hefyd ei mudandod hi a'i 'iaith fawrnwyf' ef. Tyf y cyfosodiad hwn yn thema drwy ail ran y gerdd hefyd lle clywn y bardd yn cwyno am ei ddiodefaint oherwydd tawelwch y ferch, er iddo yntau ganu iddi ac anfon neges ar ôl neges i Eutun heb dderbyn ateb:

<sup>70</sup> GGD 4

<sup>71</sup> GGD 4.2-28.

Aml drwy hiraeth ydd aethan',  
 Amod rhwydd awydd awen,  
 O'm genau, eiriau eirian,  
 Eurddylad, atad Eitun.<sup>72</sup>

Gwêl Helen Fulton yma ymestyniad o gwmpas canu'r bardd wrth i ni ei weld yn adeiladu perthynas rhyngddo ef ei hun a'r arglwyddes, ac nid yn ei moli'n unig. Yn y modd hwn, meddai, mae'r gerdd yn symud y tu hwnt i ffiniau marwnad ac yn sefydlu perthynas farddol yn seiliedig ar fynegiant y bardd o'i ddioddefaint oherwydd tawelwch a dihidrwydd y ferch.<sup>73</sup> Ymddengys y thema hon yng ngwaith Gruffudd ap Maredudd hefyd lle cyfeiria at ei eiriau ei hun:

Eillyaf om ieith gveith gwenglot.<sup>74</sup>

Ac yna clywn am dawelwch y ferch:

kymryt ar tavel brut teu.<sup>75</sup>

Ond erbyn diwedd y gerdd mae'r bardd ei hun yn fud oherwydd ei boenau serch:

madvs oed bum mut o serch.<sup>76</sup>

Effeithiai poen a diffyg cwsg hefyd ar Ruffudd ap Dafydd ap Tudur oherwydd diffyg ymateb y 'Ferch Fud'. Cymaint yw'r dioddefaint a fynegir yn yr englyn cyntaf a welir uchod fel y cafodd yr ail gwpled le ym Marwnad Llywelyn ap Gwilym gan Ddafydd ap Gwilym:

Neud dwfn fy neigr, neud difud - fy llef  
 Am fy llyw cadarnddrud;  
 Nid diboen na'm hatebud,  
 Nid hawdd ymadrawdd â mud.<sup>77</sup>

<sup>72</sup> *Ibid.*, 4.49-52.

<sup>73</sup> Gweler Fulton, *op. cit.*, t. 100.

<sup>74</sup> R 1326.19.

<sup>75</sup> R 1326.36-7.

<sup>76</sup> R 1326.43-4.

<sup>77</sup> GDG 13.21-24.

Gwedd arall ar dawelwch yr arglwyddes a amlygir yn yr awdl hon o waith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur yw'r dehongliad o dawelwch fel prawf o dwyll y wraig:

Gwŷr nwyf, gwir gannwyf gwawr gannwyll - lethrid  
 A'm llithrawdd i'm gorffwyll,  
 Daith wylboen dyn detholbwyll,  
 Doethion mal deillion a dwyll.

Twyll a symud pwyll, pell ddefnydd - meddwl,  
 Mal dyn meddw diawdrydd,  
 Hoen gwaedgreg gwaneg gweunydd,  
 Hun am neb un ym ni bydd.<sup>78</sup>

Mae Gruffudd yn cloi ei gerdd drwy gyfeirio at y ferch fel 'pwyll hirdwyll hwyrdf'.<sup>79</sup> Roedd tawelwch yr arglwyddes, os yn dwyllodrus, yn beryglus iawn.

Twyll a ffalster ei gariad sydd yn sail i'r englyn hwn o waith Bleddyn Ddu:

Un dwyll wyt o bwyll o ball drwmwy - hoed  
 Â hud mab Mathonwy;  
 Unwedd y'th wneir â Chreirwy,  
 Enwir fryd, ryhir frad rhwy.<sup>80</sup>

Roedd y gred hon yn nhwyll gwragedd yn gred gyffredinol yn yr oesoedd canol, fel y dengys Howard Bloch:

Because of the inadequacies of language that she is imagined to embody, she is in some fundamental sense always already placed in the role of deceiver, trickster, jongleur ...

A wife, as deceiver, is conceived to be like a horse that one cannot inspect before the sale; and, like language, she is imagined, as Jean de Meun implies, to be a cover which hides "that she might not displease before being wed" ...

<sup>78</sup> GGD 4.69-76.

<sup>79</sup> *Ibid.*, 4.93.

<sup>80</sup> GBDd 8.

Here the assumption is, of course, that woman is the equivalent of the deception of which language is capable, a prejudice so deeply rooted in the medieval discourse on gender that it often even passes unnoticed. The morals tacked on to the end of many fabliaux, and even the Fables of Marie de France, attest to the naturalized, almost reflexive, status of the topos, which is also written all over the *Quinze joies de mariage* as well as the *Roman de la rose*. “But there is no man in this country who is so smart and who can remain so alert that he cannot be tricked by a woman,” concludes the anonymous author of the fabliau “La Sainersse”.<sup>81</sup>

Mae agwedd feirniadol y beirdd tuag at yr arglwyddes yn ganlyniad i’w diddordeb cynyddol mewn canu serch yn ogystal â chanu mawl pur, ym marn Helen Fulton:

The two-sided nature of the beloved, who causes both joy and pain, is a commonplace of Provençal and French love-song and one of the prime sources of grief and conflict. Its appearance as a convention of the later *gogynfeirdd* love-poem marks the change of stance from all-alluring praise-poet to manipulative love-poet. The convention is not developed in the earlier *rhieingerddi* since the object of praise could not be accused of any faults such as cruelty or deceit. But as the poet’s attitude changes from that of praise poet to love-poet, he becomes more critical of his beloved and uses this criticism to press his claim.<sup>82</sup>

Nid oherwydd tawelwch yr arglwyddes yn unig y dioddefai’r beirdd. Cwynent hefyd am y geiriau creulon a’u trywanai o eneau’r gwragedd. Meddai Gwalchmai am Genilles, ei wraig:

Genilles a’ m llif, cyd am lladdwy - ar air,  
Ei muner (nid mawr imi fy ngofwy!).<sup>83</sup>

Cofiw’n mai cyhuddiad tebyg iawn sydd gan Gruffudd ap Dafydd ap Tudur wrth ddwyn achos yn erbyn merch am ei lofruddio â’i geiriau milain a’i difaterwch tuag ato gan ei ‘ladd heb arfau’. Nid yw’r ferch yn derbyn ei gŵyn, a bychana’i ddadl gan ateb nad oedd modd iddi fod yn euog o hyn gan ei fod o hyd yn fyw:

<sup>81</sup> Bloch, *Medieval Misogyny and the Interpretation of Western Romantic Love*, tt. 20-1.

<sup>82</sup> Fulton, *op. cit.*, tt. 100-1.

<sup>83</sup> GMB 9.29-30.

Dyw gŵyn fu gynnau dy ladd heb arfau  
 Â llafnau geiriau gwyrion llednais;  
 A'm llw, bei'th leddid â gair, llesmair llid,  
 Yn fyw na'th welid, edlid adlais;  
 A byw y'th welaf, i bawb y tystiaf,  
 A brawd a archaf ac a erchais.<sup>84</sup>

Clywn gan Joan Ferrante am ymateb hyderus tebyg gan ferch mewn cerdd gan y trwbadwr Giraut:

When he assures her that he has been hers since the first time he saw her, she tells him that she is as true to him as he is to her (X, 12 - 15), and he is delighted. When he says that he wants to enjoy her love, she tells him to do so where she is not present (X, 19 - 20), in other words, to go off and write another poem about it. In the third encounter, he accosts her without recognizing her and pledges to love her all his life, to which she remarks, literally, "this is so sudden" (XI, 28: "Senher, be ys sobtiva"). Later, he complains of her nasty words and she comments, "they don't hurt you, you're so good at suffering" (XIII, 63 - 4: "no' us ten dan: / tant es bos soffire"). That is, of course, precisely what the courtly lover specializes in.<sup>85</sup>

Pan rydd yr arglwyddes ei hateb clywn ddadl y bardd yn cael ei dryllio:

the courtly lady, when finally allowed to speak for herself is more than a match for her would-be-lover.<sup>86</sup>

Roedd ymateb y merched o gynyddol bwys i'r beirdd ac i'r llys. Trown eto at awdl o eiddo Gruffudd ap Dafydd ap Tudur ac at ei fygythiadau yn erbyn Hywel os na roddai fwa iddo:

Er mwyn mireinson morwynol ddynton  
 A sôn llateion a'i lletya,  
 Er mwyn llifddwyn llaith gwawr geinllawr Gynllaith,  
 Gwawd obaith, gweniaith a'm gweinydda,  
 Er lliw lluch Ionawr, er nef llef a llawr,  
 Er mwyn gwawr Faelawr, na'm gofala.

<sup>84</sup> GGD 5.39-44.

<sup>85</sup> Joan M. Ferrante, 'Male Fantasy and Female Reality in Courtly Literature', *Women's Studies*, II (1984), t. 75.

<sup>86</sup> *Ibid.*, t. 70.



Er cof dof dyfrwys bun loywlun liwlys,  
 Cannwyll Bowys lwys, na'm dilysa.  
 Fy rhwyf a'm rheuffedd, o rhoi'r gair gomedd,  
 Rhianedd Gwynedd a'th ogana.<sup>87</sup>

Os na fydd Hywel yn ateb gofynion y bardd bydd merched Gwynedd yn ei ddifrio.

Clywn Hywel ab Owain Gwynedd yn amau tawelwch y ferch, ond ar yr un gwynt yn canmol hyfrydwch y tawelwch hwnnw:

Dewis gennyf-i di; beth yw gennyt-ti fi?  
 Beth a dewi di, deg ei gosteg?<sup>88</sup>

Cyferchir y ferch yn uniongyrchol gan y bardd gan ofyn iddi am ei barn ynglŷn ag ef. Anarferol ac annisgwyl iawn yw hyn, ac er na roddir gwir gyfle iddi ateb gwelwn yma enghraifft arbennig o ymgais i gynnwys yr arglwyddes yn y canu.

Sonia Goronwy Foel am araith a lleferydd yr arglwyddes yn y llys, ond ansicr, mewn gwirionedd, yw maint ei chyfraniad i drafodaethau'r llys:

Gwan, llaesteg araith, gyfraith gyfran,<sup>89</sup>

Clywn hefyd am ferched llawen yn chwerthin:

Lleucu glaer, fy chwaer, yn chwerthin,<sup>90</sup>

I edrych fy chwaer chwerthin egwan,<sup>91</sup>

Gwen laes chwerthin gweheniawdr gwin gweilging eurin<sup>92</sup>

---

<sup>87</sup> GGDT 2.13-22.

<sup>88</sup> GLIF 8.9-10.

<sup>89</sup> GDB 22.2.

<sup>90</sup> GLIF 6.65 (Hywel ab Owain Gwynedd).

<sup>91</sup> *Ibid.*, 9.5.

<sup>92</sup> MA 337, Goronwy Ddu, I Ferch, ll.5.

Darlun hoffus o'r arglwyddes a gawn yma, ond gwedd drist ar ei thawelwch yw'r modd y sonnir amdani wedi ei thewi gan angau:

Gweryd rhudd a'i tudd wedi tewi,<sup>93</sup>

Oed grud gwrel. kein a thavel kynnoe.<sup>94</sup>

### Rhinweddau Llysaidd

Gyda datblygiad y dosbarth uchelwrol a bywyd y llys datblygodd rôl yr arglwyddes o fewn y sefydliadau hyn a daethpwyd i ddisgwyl nodweddion arbennig ganddi. Gwelsom eisoes y modd y pwysleisid ac y prisid ei haelioni a'i lletygarwch wrth groesawu gwesteion i'w llys, a hefyd ei lleferydd a'i sgwrs ddiddan. Canmolodd y beirdd ei dysg a'i doethineb a'i gallu i werthfawrogi eu gwaith a'u gwobrwyo'n briodol. Roedd y gallu i ofalu am holl anghenion y llys yn absenoldeb ei gŵr hefyd yn rhinwedd hanfodol yng nghymeriad y wraig hon.

Rhinweddau llysaidd neu gymdeithasol yw'r rhain a ddyrchafwyd gan ddosbarth â'i fryd ar hyrwyddo nodweddion a delfrydau cwrtais. 'Math newydd o wraig' a gawn yn llenyddiaeth y gymdeithas hon yn ôl J. E. Caerwyn Williams.<sup>95</sup> Gwêl Sarah Kay, fodd bynnag, ymddangosiad 'trydydd rhyw' yn yr arglwyddes wrywaidd ei natur a welir yng ngwaith y trwbadwriaid:

Thus troubadour lyrics written by men (as most of them are) inscribe a gender hierarchy which privileges the masculine over the feminine. The hierarchy is grounded in essentialism (the feminine 'lacks' the qualities of the masculine, and is 'naturally' corrupt), and justified by clerical authority. By virtue of it, the masculine subject occupies a position of superiority to the feminine - at least in so far as conscious formulations are concerned. It is likely that fear is an important unconscious element in this misogyny, as the subsequent argument will show. The problem with this hierarchy is that it presents 'women' as so reprehensible that

<sup>93</sup> GMB 26.23 (Einion ap Gwalchmai).

<sup>94</sup> R 1321.14-15 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>95</sup> Williams, *op. cit.*, t. 45.

men's desire for them, and love poetry expressing that desire, became implausible. The solution of constructing a third gender, of women-to-whom-love-poems-can-be-written, solves this problem but raises new ones. In projecting a semi-masculine identity onto the love object, the distinctions between self and other, subject and object, individual and social are all to some degree obscured, while the 'threat' of the 'feminine' is not always convincingly evaded....

The soft yieldings of the 'feminine' discerned by patristic thinkers (for example in the etymology *mulier* < *mollitia* of Isidore of Seville) is here read not as stupid perversity but as a gracious accessibility. The terms *aculhirs*, *bel semblan*, *solatz*, *humils*, *doussor* provide an important component of the ideal *domna*'s psychology. Other aspects of it such as *cortesia*, *franquesa*, *partage*, *pretz*, *valor* are held in common with the troubadour, or represent the qualities to which he aspires. The *domna* is therefore morally and psychologically androgynous. In terms of social status, however, she is masculine. Imagery derived from feudalism makes the *domna* the lover's lord from Guilhem de Peitieu onwards, and credits her with masculine powers such as making war, appearing in court and granting territories.<sup>96</sup>

Cyfeirir at yr arglwyddes drwy gyfrwng ffurfiau ieithyddol gwrywaidd hefyd meddai:

Most of the linguistic structures used to refer to the *domna* avoid insistence on the female. In early troubadours she is confused with the *joi* which she brings or the *amors* she inspires. She is often presented *via* the periphrasis *cors*, which means 'person' as well as body, and is masculine in gender. Likewise there is an overwhelming preference for masculine *senhals*, even when they denote a female physical attraction such as the lady's eyes (Bel Vesper).<sup>97</sup>

Nid yw'r cymysgu hwn i'w gael yng ngwaith y Gogynfeirdd, onid ystyrir fod y defnydd o'r term deuryw 'dyn' yn agwedd arno.

Yn hytrach na gwraig newydd neu, yn wir, ryw newydd, yr hyn a gawn gan y Gogynfeirdd, yw adlewyrchiad o ddosbarth cymdeithasol newydd. Roedd yr arglwyddes hon yn adlewyrchiad o'r gymdeithas neu'r dosbarth llysaidd a 'chwrtais' a oedd yn datblygu yn absenoldeb rhyfeloedd mawr y cyfnod cynt. Dadleuwyd mai'r trwbawriaid a'u cymdeithas a fu'n gyfrifol am gychwyn y

<sup>96</sup> Kay, *op. cit.*, tt. 90-2.

<sup>97</sup> *Ibid.*, t. 92.

cwrteisi a'r delfrydau o ran ymddygiad a weddai i fywyd y llys, ac mai dylanwad eu gwaith hwy a fu'n gyfrifol am ledaeniad serch cwrtais ar draws Ewrop yr oesoedd canol. Cofiwn sylw enwog C. S. Lewis:

Every one has heard of courtly love, and every one knows that it appears quite suddenly at the end of the eleventh century in Languedoc.<sup>98</sup>

Yn ôl Peter Dronke, fodd bynnag, tyf y meddylfryd hwn mewn amryw o gymdeithasau a hynny'n annibynnol ar ddylanwadau estron, a gellir felly ei ddarganfod a gweld ei ddatblygiad yn unrhyw le ar unrhyw adeg:

... there is a poetry which is composed for a select, specific audience. Here the poet is less elusive. In composing he uses a range of learning and literary art familiar to his audience. The audience share with their poet certain values, conventions, or artifices not universally recognized. The poetry that springs up in such a situation may be termed courtly poetry, and in medieval Europe the rise and development of such poetry coincides with the rise of the ecclesiastical and secular courts themselves.

... the feelings and conceptions of *amour courtois* are universally possible, possible in any time or place and on any level of society.<sup>99</sup>

Roedd cynulleidfaoedd y Gogynfeirdd yn ymwybodol o nodweddion a delfrydau'r llys ac yn eu cymeradwyo. Gwelir hyn drwy gyfrwng y darluniau o'r arglwyddi a'r arglwyddesau a ddyrchafwyd yn batrymau o berffeithrwydd gan y beirdd. Ond rydym yn gyfarwydd iawn â'r hynawsedd a ddisgwyliid gan ryfelwyr oes y Cynfeirdd pan fyddent yn dychwelyd i'r llys o faes y frwydr, a chofiwn hefyd ymddygiad gwylaidd y milwyr hynny gerbron merched y llys. Ymddengys felly fod yr amodau angenrheidiol ar gyfer datblygiad y serch cwrtais hwn i'w gweld yn gynnar iawn yng nghymdeithas llysoedd Cymru.

<sup>98</sup> Lewis, *op. cit.*, t. 2.

<sup>99</sup> Dronke, *op. cit.*, tt. 1-2.

Ymddengys nodweddion cwrtais a gwaraidd y llys yn gyson drwy ganu'r Gogynfeirdd ond clywn y term 'llysaidd' am y tro cyntaf mewn cerdd foliant gan fardd anhysbys i Guhelyn Fardd:

Lliwed a hun,            llysaidd, eiddun,            llun fenediw;<sup>100</sup>

Roedd y gŵr hwn yn meddu ar nodweddion delfrydol y cyfnod cwrtais hwn - roedd yn ddewr ac yn hael, roedd ganddo feirch campus,<sup>101</sup> ac roedd ei Gymraeg yn goeth ac yn hardd.<sup>102</sup> Daeth y nodwedd olaf hwn hefyd yn rhinwedd i'w foli ar arglwyddesau'r llys fel y gwelwyd uchod, a chlywn eto'r gair 'llysaidd' wrth i Gynddelw Brydydd Mawr ganmol ymddygiad arglwyddes yn ei Rieingerdd i Efa:

Llysaidd ei hirdwf o'i heurdudded,<sup>103</sup>

Syfrdanol braidd yw gosodiad y bardd fod y nodwedd hon o gymeriad ei arglwyddes, sef ymddangosiad ei chorff yn ei mantell euraidd, yn gweddu i ofynion a safonau'r llys. Os yw'r hyn a eilw Cynddelw, a'r bardd anhysbys uchod, yn 'llysaidd' yn cyfateb i courtoisie beirdd llys Ffrainc, agorir yma ddrws i ddadleuon dros ddylanwad uniongyrchol y trwbadwriaid ar ganu'r Gogynfeirdd. Ond cofiwn mai term a fathwyd gan Gaston Paris mewn erthygl yn trafod Chrétien de Troyes yn 1883 oedd yr amour courtois hwn.<sup>104</sup> Fel y dengys Meirion Pennar, mae yma hefyd achos dros dderbyn cyfeiriad Cynddelw fel prawf o gynhenidrwydd barddoniaeth llys Gymraeg a'r gymdeithas y tyfodd ohoni (cyfeiria'r rhifau at themâu ei astudiaeth):

The woman in the castle or llys (13) - a sign of bonedd - definitely belongs to the milieu of the Welsh landed freeman. This is likely to have been influenced by the motif of the woman in the otherworld castle well-known in the Welsh tales if not by the amor de lonh of

<sup>100</sup> GMB 2.46, rwy'n ddiolchgar i Marged Haycock am dynnu fy sylw at yr enghraifft hon.

<sup>101</sup> Ibid., 2.44.

<sup>102</sup> Ibid., 2.5, 39.

<sup>103</sup> GCBM i 5.43.

<sup>104</sup> Gaston Paris, 'Etudes sur le romans de la table ronde: Lancelot du Lac', Romania, 12 (1883), tt. 459-534.

continental poetry ... Linked with (13) the notion of courtliness (llysaidd) (15) is very important in assessing the origin of 'courtly love' in medieval Wales. While not forgetting the likely influence of the Normans on twelfth century Wales it is certain that llysaidd is a concept that had developed indigenously and is closely connected with bonedd (9). Between the two the idea of bonedd or good stock and attendant concepts have a very high frequency in this body of poems.<sup>105</sup>

Ymhellach, mynna fod y gair 'llysaidd' cyn hyned â'r gair 'llys'.<sup>106</sup> Dyma ategu barn Peter Dronke ynglŷn â gallu amour courtois i ymddangos yn annibynnol mewn unrhyw gymdeithas lle ceid amodau'r datblygiad hwnnw.

Cawn gyfeiriadau eraill gan y Gogynfeirdd at rinweddau o eiddo arglwyddesau sydd fel petaent yn arwydd o ymddygiad llysaidd neu gwrtais. Defnyddia Hywel ab Einion Lygliw'r gair 'mynud' wrth ddarlunio'i arglwyddes:

Mynud hoyw fun loyw, oleuad - gwledydd,

Fynog riain fain, fynud,<sup>107</sup>

Wrth ddeall 'mynud' fel ansoddair cawn yr ystyron 'cwrtais, moesgar, boneddigaidd; ?hael' sy'n gweddu'n berffaith i'r darlun o'r arglwyddes ddelfrydol.<sup>108</sup>

Molir yr arglwyddes hefyd am fod yn 'llonydd', sydd o bosibl â'r ystyr 'tawel' a 'moesgar':

Gorffurfaidd weddaidd luniaidd lonydd,<sup>109</sup>

Eilwedd Luned, wyl weddw lonydd;<sup>110</sup>

<sup>105</sup> Pennar, *op. cit.*, tt. 238-9.

<sup>106</sup> *Ibid.*, t. 239.

<sup>107</sup> GGLI 1.45, 89.

<sup>108</sup> GPC d.g.

<sup>109</sup> GBF 30.31 (Iorwerth Fychan).

<sup>110</sup> GGrG 4.22 (Iorwerth ab y Cyriog).

Awgrymir ‘tawel, araul, heddychol, heddychlon, dof, cwrtais’ hefyd ymhlith ystyron y gair hwn, ac y mae’r rhain i gyd yn gweddu i gymeriad yr arglwyddes llysaidd.<sup>111</sup>

Cyfeiria Iorwerth ap y Cyriog yn y dyfyniad diwethaf uchod at wyleidd-dra’r wraig, sef thema amlwg yng ngwaith y Gogynfeirdd i arglwyddesau:

Endewais-i eaws am ryhiraeth er gŵyl,<sup>112</sup>

Myn yd gâr gwyldeg gweled gwylan.<sup>113</sup>

Ceir gan y beirdd nifer o gyfansoddeiriau’n cyfuno’r elfen hon â rhinweddau eraill o eiddo’r wraig a oedd i’w hedmygu, megis, ‘gwylwar’, ‘gwylfalch’, ‘gwylweddw’, a ‘meinwyl’. Ond fel y gwelwyd o’r dyfyniad o waith Iorwerth ap y Cyriog, daethpwyd i gysylltu gwyleidd-dra’n fwyfwy â’i chwrtaisi a’i moesgarwch o fewn y llys. Noda Gruffudd ap Maredudd haelioni’r un wylaidd:

heul y geivw hael y gvylvar.<sup>114</sup>

Cyfosodir ei gwyleidd-dra perffaith a’i doethineb gan Risierdyn:

Deall aelaw doeth, diell wylaidd<sup>115</sup>

Mae’r gwyleidd-dra hwn, hefyd, fel pob rhinwedd llysaidd a chwrtais, yn arwydd o fonedd a gwarineb, fel y dengys Sefnyn a Chasnodyn:

Rhieddog dremwalch wylfalch elfydd.<sup>116</sup>

Gŵyl riain ddianfon,  
Gwir ddiseml a gwâr ddison,<sup>117</sup>

<sup>111</sup> GPC d.g.

<sup>112</sup> GMB 9.87 (Gwalchmai).

<sup>113</sup> GLIF 9.2 (Hywel ab Owain Gwynedd); gweler hefyd 6.59; GC 3.4; R 1320.43 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>114</sup> R 1326.33-4.

<sup>115</sup> GSRh 5.32.

<sup>116</sup> *Ibid.*, 1.30.

<sup>117</sup> GC 3.14-15.

Gellid ystyried y gwyleidd-dra a ganmolir yng nghyd-destun canu'r Gogynfeirdd yn rhinwedd cadarnhaol a grymus. Gwragedd uchelwrol a dysgedig a ddarlunnir â'u gwyleidd-dra'n elfen o'u dysg ac yn brawf o'u magwraeth lysaidd. Roedd eu gwylieidd-dra, megis eu haelioni a'u lleferydd distaw, yn rhinwedd a feithrinwyd yn y gwragedd er mwyn arddangos eu cwrteisi - ac felly eu bonedd - i bawb a ymwelai â'r llys. Roedd hwn felly'n un o nodweddion moesgarwch cynyddol y llysoedd Cymreig, ac nid o reidrwydd yn arwydd o wendid neu oddefgarwch yr arglwyddes. Roedd y canllawiau hyn ynglŷn â moesau ac ymddygiad cwrtais hefyd yn effeithio ar wŷr y llys a'r dosbarth newydd o farchogion.<sup>118</sup>

Yn yr un modd yr ymdriniwyd â thema ufudd-dod yr arglwyddes gan y beirdd. Nodwedd oddefol ydoedd hwn a ddaeth trwy gyfosodiad â nodweddion llysaidd eraill yn arwydd o gwrteisi, ac felly'n brawf o uchelwriaeth. Mae'r gwragedd ufudd a ddisgrifir yn gyson hael, yn uchelwrol (cymherir un â Rhiannon), ac yn ddoeth:

Braisg addurn difurn, neud ufydd - arfer  
Brenhines haelder, gloywder gwledydd.<sup>119</sup>

Dygn gofion, Rhiannon rhodd,  
Digiofaint bun deg ufydd.

Ei hufudd-dod, ceudod cof,  
I hardd Wenhwyfar araf,  
A'i hawl decbwyll, didwyll dwf,  
A'i haelder a dâl Nêr nef.<sup>120</sup>

Clywn gan Walchmai hefyd am ffyddlondeb merch:

A minnau o'm cof cefais (dyfnais  
Ddefawd o'i haddawd) oeth - ys difflais!<sup>121</sup>

<sup>118</sup> Gweler Colin Morris, *The Discovery of the Individual 1050-1200* (London, 1972).

<sup>119</sup> GSRh 1.5-6 (Sefnyn).

<sup>120</sup> GGrG 2.15-20.

<sup>121</sup> GMB 9.111-12.



Trafodir diweirdeb neu weithiau wryfyddod yr arglwyddes yn ôl yr un safonau.<sup>122</sup> Dyfynnir eto o 'Rieingerdd Efa' gan Gynddelw Brydydd Mawr:

Gwry fanon fanwl, gwâr feddwl faith,<sup>123</sup>

Mae Efa nid yn unig yn 'ddoeth' ac yn 'gwrtais', ond y mae hi hefyd yn 'ddiwair'. Darlunnir hi gan Gynddelw yn wraig lysaidd berffaith, yn safon cwrteisi. Un yn unig o nodweddion delfrydol y Wenhwyfar y canwyd ei marwnad gan Ruffudd ap Maredudd oedd ei diweirdeb hithau hefyd:

Diweir oed adoeth dedyf goeth gywir,  
hael ovyvn vrael yn euraw gwir.  
Trevnawd honn arnavd kavd nywkudjir.  
troyrchell ymhell agymhvyllir.<sup>124</sup>

Nodir ei haelioni ynghyd â'i diweirdeb. Pwysleisiwyd haelioni'r arglwyddes ddiwair gan Ruffudd ap Dafydd ap Tudur hefyd yn ei awdl i ddiolch am wregys:

Nid mau rheg adnau: rhag adnair - dilys  
Rhoi gwregys gwraig ddiwair,<sup>125</sup>

Yn ddiddorol, yr oedd rhoi cae yn arwydd o serch ac felly'n rhodd annisgwyl gan wraig y molid ei diweirdeb. Ond ystyria Dafydd Johnston fod y cyfeiriad ati fel 'gwraig ddiwair' yn awgrymu fod y wraig briod hon a roddodd y gwregys i'r bardd yn noddwraig iddo.<sup>126</sup>

Yng ngwaith y beirdd llys gwelwn ddiweirdeb yr arglwyddes, wrth ei gyfosod â'i haelioni a'i doethineb, yn troi'n rhinwedd cwrtais neu lysaidd. Cyfunai'r nodweddion hyn i gyd i greu darlun eglur o fonedd y wraig ac, felly, o

<sup>122</sup> Am astudiaeth fanwl ar ddiweirdeb a gwryfyddod yn yr oesoedd canol gweler Cartwright, *op. cit.*

<sup>123</sup> GCBM i 5.89.

<sup>124</sup> R 1320.28-31.

<sup>125</sup> GGD T 3.21-2.

<sup>126</sup> *Ibid.*, t.32.

uchelwriaeth y llys ei hun. Tynnir sylw gan y beirdd at dras yr arglwyddesau diwair hyn:

amdiweirdeb. am loer wyneb. amyl rieni.<sup>127</sup>

Llin arglwydd llary hylwydd hawl  
Llun diweirfun dywirfawl.<sup>128</sup>

Ystyrir y pwyslais hwn ar ddiweirdeb arglwyddesau bonheddig yn arwydd o awydd y dosbarth uchelwrol i ddiogelu eu llinach. Medd Diane Bornstein:

There were practical reasons for the development of a double sexual standard. As Georges Duby points out in *Medieval Marriage*, the aristocracy was interested mainly in preserving the patrimony. It was of utmost importance that a wife receive only one seed, that of her husband, so that intruders issued from another man's blood would not take their place among claimants to the ancestral inheritance. This is why the moral code of laity rigorously condemned adultery on the part of the woman but was more lenient toward the man. The double sexual standard went along with a differentiation in moral and behavioral codes for men and women. It was fitting for men to be aggressive, but women were supposed to be humble, modest and obedient. The same moral virtues of chastity, humility, obedience, modesty, and piety that were called for in virgins were recommended to wives. Moreover, the strict sexual ethic went along with an ascetic ideal. Even in works addressed to aristocratic women, we find attacks on wearing makeup, tinting hair, enhancing beauty by artificial means, wearing expensive clothes and jewelry, and eating rich food. By disciplining all of their senses and by looking less attractive, women were less likely to be tempted to stray sexually or to be objects of temptation. For these practical reasons, the ideal of the virgin or the chaste wife has remained influential right up to the time of modern birth control and even beyond that period. It is a powerful weapon for controlling the sexual behavior of women.<sup>129</sup>

Rhodddwyd sylw mawr i ddiweirdeb gan gymdeithas yr oesoedd canol, eu beirdd a'r tadau eglwysig. Wrth drafod gwaith Chaucer meddai Howard Bloch:

<sup>127</sup> R 1321.7-8 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>128</sup> GLIBH 3.35-6.

<sup>129</sup> Bornstein, *op. cit.*, t. 29.

... I would like to suggest that the fatality which seems to hang over “The Physician’s Tale” has less to do with the model of the Christian martyr, with the constraints of history or a received story, or with modern allegory per se, than with medieval definitions of virginity, and with the relation of virginity, within the context of medieval poetics, to the specifically literary effects of a poetics of praise. Chaucer participates in a long tradition, most elaborately articulated by the church fathers, put into practice by the French vernacular poets, passed on through Jean de Meun and others, according to which the relation between sexual desire and poetic language was taken for granted and in which the concept of virginity occupied pride of place.<sup>130</sup>

Roedd diweirdeb yn obsesiwn gan y tadau eglwysig gwrth-briodasol yr oedd eu dadleuon yn ymestyn yn ôl i Ardd Eden. Lluniodd gwŷr megis Sant Jerome, Cyprian a Tertullian ddadleuon cymhleth a rheolau manwl a chyfyng wrth drafod diweirdeb merched. Ymdriniwyd â’u gwaith yn fanwl gan Howard Bloch:

And Cyprian: “what have such maidens to do with worldly dress and adornments ... No one on seeing a virgin should doubt that she is one ... Let her fear to be attractive.” The virgin, adorned, Cyprian warns, is no longer a virgin.

Since the desire of a virgin is sufficient to make her no longer a virgin, and since, according to the patristic totalizing scheme of desire, there can be no difference between the state of desiring and of being desired, a virgin is a woman who has never been desired by a man.<sup>131</sup>

Wrth ddilyn eu dadleuon deëllir mai eu diffiniad o wraig ddiwair oedd gwraig nad oedd erioed wedi ei gweld gan ddyn. Ond â Jerome gam ymhellach eto wrth gondemnio baddonau cyhoeddus, pan ystyria nad yw mewn gwirionedd yn dderbyniol i ferched diwair ymdrochi o gwbl gan y byddai perygl iddynt brofi chwant o weld eu cyrff eu hunain.<sup>132</sup>

Daeth y diweirdeb hwn hefyd yn ddyfais lenyddol ac yn dopos yng nghanu’r beirdd llys. Ond, fel y gwelwyd uchod, cydblethwyd diweirdeb, ufudd-dod a phrydferthwch yr arglwyddesau ym mhortreadau’r Gogynfeirdd. Gwnâi’r

<sup>130</sup> Bloch, *op. cit.*, t. 104.

<sup>131</sup> *Ibid.*, t. 99.

<sup>132</sup> *Ibid.*, t. 100.

pwyslais hwn ar ddiweirdeb i'w hawdlau serch ymddangos yn fwy derbyniol, gan ddyrchafu ac nid tanseilio urddas ac enw da'r merched hynny:

Llawen y'u carwn-i ceni'm cerynt,  
Llawforynion gwry, gwirion oeddynt,<sup>133</sup>

Llaesferch Faredudd a brudd brydaf.  
Lledfryd yw gofyn dyn diweiraf<sup>134</sup>

Clywn Hywel ab Owain Gwynedd, fodd bynnag, yn gresynu'n chwareus am y nodwedd hon ar gymeriad Enerys yn ei Orhoffedd:

Am Enerys wry, ni warawd - im hoen,  
Ni orpo hi diweirdawd!<sup>135</sup>

Gellid dadlau fod diweirdeb y ferch anghyraeddadwy yn fwy o reswm gan y beirdd dros ganu iddi a cheisio'i hennill. Trown eto at Bloch:

Put in its simplest terms, the sine qua non of desire - that is, of a woman's being loved - is that she be perfect. Yet the condition of her perfection is that she be self-sufficient, self-contained, complete - or that, being desired, she herself should not desire. "The more I implore her," Bernart states elsewhere, the crueller she is to me." The perfection of the love object excludes or prevents her desiring. To be loved, according to the logic of the courtly relation, the woman must be indifferent, unattainable, unsullied - in short, a virgin. There is, in other words, no way of loving that does not imply the incongruity of persistent singing about dissatisfaction that "Can vei la lauzeta mover" makes explicit.<sup>136</sup>

Roedd yr holl rwystrau, rheolau a disgwyliadau hyn ar un olwg yn cyfyngu'r arglwyddes ac yn ei gosod ar wahân ac islaw'r gwŷr a gâi lawer mwy o ryddid. Ond, fel y dadleuodd Bloch, gallai diweirdeb y merched roi rhyw rym posibl iddynt, a gellid hefyd ystyried eu diweirdeb yn arf yn eu hymgais i geisio sicrhau rhyw fath o annibyniaeth. Cefnogai Christine de Pisan y delfryd o

<sup>133</sup> GCBM i 5.17-18.

<sup>134</sup> GLIBH 3.24-5.

<sup>135</sup> GLIF 6.71-2.

<sup>136</sup> Bloch, *op. cit.*, t. 147.

ddiweirdeb, a hynny gan y gwelai ynddo gyfle i wragedd ennill pŵer a rhyddid. Credai y gallai merched oresgyn rhwystrau natur a chymdeithas drwy gyfrwng eu diweirdeb. Wrth drafod ei gwaith medd Diane Bornstein:

In the *Cité des dames*, virginity is a way of transcending the servitudes of household duties, childbirth, husband, and family, and of gaining access to a free life. By continually linking virginity with strength, achievement, distinction, and fame, Christine suggests that women can attain these hitherto masculine rewards by foregoing their traditional roles as wives and mothers.<sup>137</sup>

Gwobrau gwrywaidd a enillai'r arglwyddes drwy gyfrwng ei diweirdeb, felly, gan glosio at 'drydedd rhyw' Sarah Kay. Yn yr un modd y syniwyd am y santesau diwair gan awduron eglwysig yn ôl Jane Schulenberg:

... these Christian models of virginity had successfully repudiated their own sexuality; they had negated their own unfortunate female nature; and only in this way were they able to transcend the weaknesses and limitations of their sex. Thus as sexless beings, these virgins were viewed nearly as spiritual equals. For their espousal of virginity, they often won the highest patristic compliment: they were praised for becoming 'male' or virile'.<sup>138</sup>

Ymddengys fod trafod y nodweddion annibynnol a chadarn hyn mewn termau benywaidd y tu hwnt i'r confensiwn disgwylidig, ac na ellid darlunio nac esbonio rhinweddau na weddai i fowld yr arglwyddes ddelfrydol. Disgrifio teip neu batrwm o berffeithrwydd a'i ddyrchafu'n uchelgais i holl aelodau'r llys a wnâi'r beirdd. Yr oedd meddu ar rinweddau angenrheidiol yr oes yn hanfodol i wragedd, a gwŷr, bonheddig wrth iddynt gael eu moli. Gweddu i ddisgwyliadau cwrtais y llys oedd uchelgais pob unigolyn a folid ac amcan pob bardd a'i darluniai. Medd Colin Morris:

Most ages have made representations of their great men, for varying purposes and in different media: in stone or on canvas, on seals or coins. Such portraits have both a private and a public aspect. Men are still depicted today showing their insignia of public status, in academic

<sup>137</sup> Bornstein, *op. cit.*, t. 28.

<sup>138</sup> Dyfynnwyd yn Cartwright, *op. cit.*, t. 96, lle mae Jane Cartwright, fodd bynnag, yn dadlau fod y santes yn parhau'n fenywaidd iawn er iddi 'negyddu'i rhywioldeb'.

gown or mayoral chain. On the whole, however, we are now more interested in the portrait as a record of the individual. We hope to find in it a personal likeness and, in the work of a perceptive painter, some expression of his character. Such, at least, has been the tradition of portraiture until the present century, but it has not been universal in the past, and in particular European art in the centuries after the fall of the Roman Empire was more concerned with rank and status than with recording personal features.<sup>139</sup>

Mae'n ddiddorol nodi, fodd bynnag, na anogwyd merched Cymru i fynd yn lleianod er gwaetha'r pwyslais a roddid ar eu diweirdeb. Gwêl Jane Cartwright resymau cymdeithasol ac economaidd am hyn:

Yr oedd angen y merched gwerthfawr hyn ar gyfer priodasau gwleidyddol; i uno teuluoedd cefnog, dylanwadol, i greu cysylltiadau teuluol â'r Normaniaid ac i gynhyrchu etifeddion. Yn hyn o beth, yr oedd diweirdeb gwragedd yn bwysicach na'u gwryfdod parhaol.<sup>140</sup>

Ategrir hyn yn Gramadegau'r Penceirddiaid lle nad ystyrid ei fod yn briodol canu serch i wragedd priod, er y dylid moli eu diweirdeb:

Gwreicda a uolir o doethineb, a chymhendawt, a diweirdeb, a haelyoni, a thegwch pryt a gwed a ffuryf, a disymlder ymadrodyon a gweithredoed. Ac ny pherthyn moli gwreicda herwyd serch a charyat, kany pherthyn idi orderchgerd.<sup>141</sup>

---

<sup>139</sup> Morris, *op. cit.*, t. 86.

<sup>140</sup> Cartwright, *op. cit.*, t. 173.

<sup>141</sup> GP 16.

## 5. NAWDD

Yn ôl Cyfraith Hywel gallai gwraig hawlio tâl sarhad gan ei gŵr os bu iddo'i tharo â hithau heb gyflawni un o'r tri throsedd priodasol; sef, cael ei darganfod gyda gŵr arall, tyngu mefl ar ei farf, a rhoi rhywbeth nad oedd ganddi'r hawl i'w roi. Mae modd deall felly fod ganddi'r hawl a'r rhyddid i roi peth eiddo yn ôl ei dymuniad i'r sawl a fyddai. Dyma a ddywedir yn Llyfr Iorwerth:

Gureyc e brenhyn a eyll rod *hep y ganhyat* traean deuot a del e gan e brenhyn. Gureyc ucheluur a eyll rody e mantell a'e chrys a'e hesgydyeu a'e phenllyeyn a'e buet a'e dyaut a chraun e chell, a benfygyau e holl deodreuen. Gureyc taeauc ny eyll rody namen e penguuch na benfygyau namen e gogyr, a henne mal e klewer e llef e ar y tom o'e duen adref.<sup>1</sup>

Naturiol felly fyddai disgwyl fod gan wraig arglwydd yr hawl i roi rhoddion o fwyd a diod a dillad i'w heirchiaid, ac y gallai eu rhoddi'n rhydd - yn arbennig i'r beirdd a ganai fawl iddi. Nodir hyn yn yr awdlau:

Genilles gnaws aur, awr y'i ducpwyd,  
Cŵl oedd fy ngadu can ni adwyd.  
A adwy Creawdr, mad y'i crewyd,  
Y waddawl er Duw diawd a bwyd,  
A dillad i noeth, nawdd rhag annwyd,  
A gwely a thŷ a thes aelwyd.<sup>2</sup>

Dyna a gawn yn nisgrifiad delfrydol Gwalchmai o'i wraig yn darparu cysgod, bwyd a dillad, mewn dyfyniad o gerdd sy'n grefyddol ei naws. Clywn hefyd y ganmoliaeth draddodiadol i lif y gwin ac ansawdd y wledd ym myd seciwlar y llys, a hynny er mwyn darlunio lletygarwch yr arglwyddes ac nid cyfoeth ei gŵr na moethusrwydd y llys:

Mygr hoywlamp Bowys, magwyr hywledd.  
Gofynnai fawlgerdd yn gyfannedd,  
Gwenlwys eurswllt bobl, gwinllys orsedd,

<sup>1</sup> Aled Rhys Wiliam (gol.), Llyfr Iorwerth (Cardiff, 1960), t. 29.

<sup>2</sup> GMB 12.21-6.

Coeth y gwnaeth eu maeth â medd - bueilsathr  
(Claer aur freisg-gorff llathr) clêr ar frwysgedd.<sup>3</sup>

Gwared yw rhwydded y rhydd - o'i gwydrin  
Gwin o'r llaw iesin i'r lluosydd.<sup>4</sup>

Gwen laes chwerthin gweheniawdr gwin gweilging eurin

Bwrdd iawn uchel bardd i nychu.<sup>5</sup>

Traddodiadol hefyd yw'r rhodd o wisg, ond yn drawiadol mae'r gwisgoedd a rydd yr arglwyddesau hyn i'w beirdd yn gyson yn wyrdd.<sup>6</sup>

Mynylwen yn llen yn lle rhennid - gwyrdd,<sup>7</sup>

Gwasgarai wyrdd, cyrdd a'i cwyn,<sup>8</sup>

I fyrdd dros geinwyrdd a drawsganaf.<sup>9</sup>

Fel y dengys y dyfyniad diwethaf uchod o waith Casnodyn, roedd y beirdd yn disgwyl y rhoddion hyn am ganu i'r arglwyddes, ac roedd disgwyl hefyd i ansawdd a gwerth y rhoddion adlewyrchu safon a gwerth y farddoniaeth. Dyma sydd gan Joan Ferrante i'w ddweud wrth drafod gwaith y bardd Lladin Baudri:

Baudri wrote two poems to Countess Adela of Blois, one an elaborate praise of her erudition and power by way of a fantastic description of her room, the other asking her for a cope that will suit both the giver and the receiver, which will turn her from a countess to a queen for him

<sup>3</sup> GSRh 5.8-10, 23-4 (Rhisierdyn).

<sup>4</sup> *Ibid.*, 1.23-4 (Sefnyn).

<sup>5</sup> MA 337, Goronwy Ddu, I Ferch, ll. 5, 14. Gweler hefyd GBF 30.45 (Iorwerth Fychan); GGLI 1.42 (Hywel ab Einion Lygliw).

<sup>6</sup> Gellid ystyried lliw y dillad hyn yn symbol o ffrwythlondeb y rhoddwraig ac yn awgrym o berthynas posibl rhyngddi hi a'r derbynnydd, ond fe welwn isod fod gwisgoedd gwyrdd yn rhoddion cyffredin gan yr arglwyddi hefyd.

<sup>7</sup> GBF 29.15 (Iorwerth Fychan).

<sup>8</sup> GGrG 6.6 (Mab y Clochyddyn).

<sup>9</sup> GC 4.32.



as his song will spread her fame through the wide world....He describes the cope he expects, implying that her honour rests on its value, that she should adorn it as she does ministers and churches with gold and gems, adding at the very end, "don't forget the fringe."<sup>10</sup>

Roedd cyfoeth y defnydd yn brawf o gyfoeth y sawl a'i rhoddai ac yn dwyn sylw at ei statws cymdeithasol. Gwêl Caroline Jewers rym symbolaidd dosbarthu gwisgoedd moethus yn thema ganolog yn y Roman de la Rose :

Elegant costume is a natural part of the courtly fantasies of Chretien, but in the Roman de la Rose the reader is more aware of the effort and cost required to produce them and of their status as sought-after or hardwon luxury goods. They are still the outward signs of rank and wealth, but often, as in the case of the hero, the appearance created by them is more an illusion, or a means of courtly disguise that exceeds real rank and puts on a show of status: it is reasonable to argue a link on several grounds between new, exchanged clothing and the status of poetry in Jean Renart's *noevele chose*.

Clothing is frequently given as gifts by both Conrad and Guillaume. Once again, this is nothing new set in the context of medieval romances, and there can be little doubt that clothing exchange was a welcome and commonplace part of gift giving in medieval society.<sup>11</sup>

Roedd pwysau ar yr arglwyddes i gyflwyno rhodd deilwng a fyddai'n gweddu i ymdrech a dawn y bardd ac i'w bonedd hi ei hun. Cydnabyddid pwysigrwydd a grym rhoddion yn gyffredinol yn yr oesoedd canol. Meddai'r bardd Conrad:

...N'aiez garde,  
sire, qu'il en avra assez:  
mout est eas borjois bel et sez  
quant il vient emprunter le lor,  
qu'il lor done et fet grant honor,  
et si sont bien a pont paié.  
- Bien a le surcot employé,  
fet l'empereres; si oi bien,  
si est rois qui puet doner rien.  
[Ll.1882-90]

<sup>10</sup> Joan M. Ferrante, 'Whose Voice? The Influence of Women Patrons on Courtly Romances', *op. cit.*, tt. 4-5.

<sup>11</sup> Caroline Jewers, 'Fabric and Fabrication: Lyric and Narrative in Jean Renart's *Roman de la Rose*', *Speculum*, 71 (1996), tt. 915-16.

[... “Never fear,  
 lord, for he will have enough:  
 when he needs to borrow from the bourgeois  
 they are satisfied and content,  
 for he gives them gifts and shows them honor,  
 and also they are well repaid.”  
 “Then he used the tunic well,”  
 said the emperor; “I’ve always heard that  
 a man is a king if he can give something”.] <sup>12</sup>

Roedd gwisgoedd drud yr arglwyddesau yn arwydd o’u tras uchelwrol pwerus, ond nid oedd eu haelioni wrth ddsbarthu’r dillad hyn o reidrwydd yn brawf o’u grym a’u hawdurdod personol o fewn y llys. Gallai eu parodrwydd i dywallt gwin a gosod gwledd fod yn ddim mwy na chanlyniad i’w magwraeth fonheddig, ac yn estyniad o letygarwch yr arglwyddi a ysbardunai fawl gan feirdd ers dyddiau’r Cynfeirdd. Cyflawni dyletswydd y byddai’r arglwyddes felly wrth fodloni’r beirdd a chynnal anrhydedd ei llys, ei llinach a’i gŵr.

Mabddysg oedd iddi rhoddi yn rhwydd. <sup>13</sup>

Edmyga Hywel ab Owain Gwynedd yma haelioni’r ferch ifanc gan ei darlunio fel un hyddysg yn y dull o roi, ac nid fel un a feddai ar natur gynhenid garedig. Roedd yr haelioni hwn yn elfen mor gydwerth yng nghymeriad gwraig fonheddig ag yr oedd dewrder a milwriaeth yng nghymeriad ei gŵr. Sylwa Henrietta Leyser ar ddisgwyliadau cymdeithasol tebyg gan uchelwraedd yn llysoedd canoloesol Lloegr:

Aristocratic women were expected and encouraged to be connoisseurs and patrons of their arts. The generosity such women lavished on the writers, musicians and artists of their courts redounded to the credit of their houses and to the honour of every man and woman associated with them. It was not that such patronage was exclusively a woman’s prerogative - far from it - but whereas their menfolk could be excused if they neglected to do their bit, for a woman to show a comparable lack of concern would have been to demonstrate a shocking lack of decorum and finesse...

<sup>12</sup> *Ibid.*, tt. 917-18.

<sup>13</sup> GLIF 7.14.

The attributes and interests which a woman might cultivate in her bedchamber were not a form of escapism; they complemented the activities of fathers, brothers, husbands and lovers. A woman's fostering of poets and artists was a way of advertising the nobility of her lineage.<sup>14</sup>

'Yr oedd haelioni yn braw o fonedd', yn y llysoedd Cymreig hefyd fel y nododd J. E. Caerwyn Williams. 'Yr oedd haelioni yn gynneddf i'w moli ar ferch fel yr oedd yn ddefod i'w disgwyl mewn llys, ac yr oedd y bri newydd ar fywyd llys yn galw ar ferched i fod yn "llysaidd"'.<sup>15</sup> Mae'n bosibl i'r ddyletswydd llysaidd hon o ddarparu lluniaeth a gofalu am feirdd y llys dyfu'n nes at ryw ffurf o nawdd wrth i'r beirdd gyflwyno ffrwyth eu hawen yn fwyfwy i'r arglwyddes, ac wrth i'w rhyddid hithau i amrywio a dewis ei rhoddion, a'u derbynwyr, gynyddu a hynny yn ôl ei mympwy neu ei chwaeth bersonol. Os oedd y rhoddion eu hunain yn arwydd o fonedd, creai dysg a gallu'r arglwyddes i ddeall a gwerthfawrogi'r farddoniaeth a gyflwynid iddi argraff lawn mor anrhydeddus o'i llinach:

Gwawr gerddgar, hwyrwar herwydd - adnabod,<sup>16</sup>

Llythr a ddysgodd bun llathraidd osgedd,<sup>17</sup>

Gwawr fawr fireinddysg, ffysg ffydd,<sup>18</sup>

Nid yw pob beirniad llenyddol, fodd bynnag, yn argyhoeddedig o allu'r gwragedd hyn i wir ddeall a gwerthfawrogi cerddi'r beirdd gyda'u mesurau cymhleth a'u geirfa ddyrys. Wrth ystyried addysg merched yn Occitania yn yr oesoedd canol medd Linda Paterson:

The large number of women to whom the troubadours dedicated their songs suggests a level of education among aristocratic women sufficient to appreciate the refinements of vernacular literature. This does not necessarily imply literacy of any kind, but the existence of

<sup>14</sup> Leyser, *op. cit.*, tt. 240-2.

<sup>15</sup> Williams, *op. cit.*, tt. 109-110.

<sup>16</sup> GSRh 1.17 (Sefnyn).

<sup>17</sup> GSRh 5.13 (Rhisierdyn).

<sup>18</sup> GGrG 6.43 (Mab y Clochyddyn).

female poets does, unless one accepts the hypothesis of oral composition. Eleanor of Aquitaine is depicted on her tombstone as holding a book. The troubadours often praised aristocratic women as educated, or *ensenhatz*, though this may have had more to do with their courtly manners than their intellectual training. Nevertheless heroines of Occitan narrative are sometimes highly educated ... The eponymous heroine of the late thirteenth-century romance of *Flamenca* could read. Her maid Marguerite praises education - or a smattering of it - in men and women:

An unlettered man is not worth bread or salt. Any man of rank who does not know something of letters loses much of his worth, and a lady's qualities are much improved if she is equipped with a little knowledge of letters.<sup>19</sup>

Rhoddyd cryn bwys ar ddysg fel elfen hanfodol o gymeriad llysaidd ac fel arwydd amlwg o fonedd - cofier y modd yr eillid y talcen mewn ymgais i bwysleisio dysg a hefyd llinach anrhydeddus. Serch hynny, nid llythrennedd y merched oedd prif ofal eu haddysgwyr, ond eu moesau. Darlunnir hyn yn glir yn nisgrifiad y wraig hyddysg, Christine de Pisan, o'r addysg a ystyriai hi'n briodol i ferched:

The princess will also wish that when her daughter has reached a suitable age she will be taught to read, and after that she will learn her Hours and her prayers. She will then be given devotional books describing virtuous behaviour, but by no means will she be allowed to read of vain things, of folly or of loose living. Such books will not be allowed in her presence, for the learning and teaching that a child experiences in her early youth she usually retains all her life.

Thus the wise mother will give great attention to the upbringing and instruction of her daughters, and as they grow older she will especially be careful, keeping them by her side most of the time, making sure that they respect her. Her own virtuous bearing will thus be an example to her daughters to conduct themselves in a similar manner.<sup>20</sup>

Tynnwyd sylw at beth cyffelyb yn y dyfyniad o waith Hywel ab Owain Gwynedd a grybwyllwyd uchod, lle ystyria haelioni'r ferch yn ganlyniad i'w 'mabddysg'. Nid oedd y beirdd o reidrwydd yn disgwyl i'r arglwyddesau ddeall eu cerddi'n llwyr: 'Os oedd y merched yn eu deall,' meddai T. Gwynn

<sup>19</sup> Paterson, *op. cit.*, tt. 253-4.

<sup>20</sup> Christine de Pisan, *The Book of Three Virtues*, cyf. Charity C. Willard (cyfieithiad anghyhoeddedig, 1975). Dyfynnir gan Bornstein, *op. cit.*, t. 70.

Jones 'yr oeddynt yn dra galluog a medrus'.<sup>21</sup> Yn wir, nid yw'n sicr faint o gynulleidfa wrywaidd y llys a allai amgyffred ystyr pob cymal o'r cerddi dyrys hyn, na faint o'r beirdd a fyddai'n gwir ddymuno iddynt wneud hynny. Anghymeradwyai Cerverí de Gerona, trwbadŵr o Gatalan yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg, y syniad o ddysgu merched i ddarllen gan mai unig ganlyniad hynny fyddai eu gwneud yn well am ddadlau. Fel un 'ddeniadol a dymunol, syml a digelfyddyd' y disgrifiai ef y ferch ddelfrydol.<sup>22</sup> Ond waeth pa mor ddysgedig a deallus oedd yr arglwyddesau, yr hyn a oedd o ddiddordeb pennaf i'r beirdd, ac i gynulleidfa'r llys, oedd eu gallu i werthfawrogi'r farddoniaeth yn ddigon i gyflwyno rhoddion i'r beirdd a'u plesiai:

Ni raid tybio eu bod yn ddigon o arbenigwyr i ddeall ac i olrhain holl ystyr yr ymadroddi hynafol ac astrus yn yr awdlau, ond gellir barnu eu bod yn ddigon cyfarwyd â'r gelfyddyd farddol i werthfawrogi'r parch a delid iddynt ym molawdau'r beirdd. Ynghyd â'r gallu hwn, meddent ddigon o hawliau ar eiddo'u cartref i wobrwyo'r beirdd am eu moliant.<sup>23</sup>

Rhoddai'r cyfrifoldeb hwn awdurdod i'r arglwyddes. Roedd iddi eisoes ddyletswyddau yn y llys yn absenoldeb ei gŵr - pan âi'r arglwydd i ryfel, ar bererindod neu i ymweld â llysoedd eraill, neu os oedd wedi ei anafu neu ei ladd mewn brwydr, cyfrifoldeb yr arglwyddes oedd cynnal y llys a'i holl weithwyr. Ar ei hysgwyddau hi y rhoddid holl gyfrifoldebau economaidd y llys. Hi a oruchwyliai'r llys ac a dalai i'r amrywiol weision yr oedd eu hangen i gynnal llys a adlewyrchai ddelwedd o gyfoeth a bonedd anrhydeddus. Galwai hyn am rinweddau arbennig yng nghymeriad y wraig, rhinweddau y ceisiwyd eu meithrin drwy gyfrwng ei haddysg:

Pa resymau bynnag a alwai ar y gŵr i fynd oddi cartref, ac a'i cadwai oddi yno, byddai disgwyl i'w wraig gymryd ei le yn y cartref a gweithredu drosto. Rhaid, felly, ydoedd i ŵr gael gwraig go feistrolgar, a diau mai gwagedd felly a brisid fwyaf o hyd wrth ddewis cymar bywyd, ond, fel yr awgrymwyd eisoes, am ryw reswm neu'i gilydd, mae delwedd y wraig ddelfrydol yn newid yn yr unfed ganrif ar

<sup>21</sup> Jones, *Rhieingerddi'r Gogynfeirdd*, t. 42-3.

<sup>22</sup> Gweler Paterson, *op. cit.*, t. 254.

<sup>23</sup> Evans, *op. cit.*, t. 44.

ddeg - yn un peth, delwedd y wraig iau ydyw; peth arall, nid digon ei bod o dras bonheddig ac o deulu cyfoethog, disgwylir iddi fod yn deg ei phryd a'i gwedd, ie, a'i gwisg, oblegid yr oedd dechrau'r ddeuddegfed ganrif, meddai un hanesydd, yn gyfnod o arbrofi mewn gwisgoedd. Ond yn bennaf peth, efallai, disgwylid iddi fod yn fwy deallus ac yn fwy gwybodus na'i mam a'i nain.<sup>24</sup>

Os oedd disgwyl i'r arglwyddes gyflawni'r holl ddyletswyddau hyn, gan gynnwys talu'r gweision a'r swyddogion, onid naturiol fyddai disgwyl iddi ofalu am anghenion beirdd y llys? Yn wir, daethpwyd i ystyried rhai gwragedd yn haelach tuag at feirdd na'u gwŷr a'u tadau. Bwriwyd haelioni a dysg lenyddol Gwilym Goncwerwr i'r cysgodion gan y sylw a dalai ei ferch, Adela, Iarlles Blois, i feirdd a llenyddiaeth:

This was the 'one way daughter excels her father - she will favour verses and she knows how to have leisure for books. She also knows how to reward poets: no-one returns empty-handed from her uprightness... She possesses copious powers of composition, and she knows how to distinguish one poem from another.'<sup>25</sup>

Dyma oedd barn Baudri, Esgob Dol, o Adela ei noddwraig.

Roedd Adela'n wraig rymus a oedd yn enwog am ei nawdd llenyddol yn ogystal ag am ei gofal cadarn am diriogaeth ei gŵr, Steffan, pan ymunodd yntau â'r Groesgad Gyntaf. Ymestynnai ei chadernid a'i gofal am anrhydedd i'r hyn a ddisgwyliai hi gan ei gŵr, a phan ffôdd yntau yn ystod y gwarchae ar Antioch yn 1098 fe'i hanfonodd ef yn ôl i'r firwydr, lle y lladdwyd ef.<sup>26</sup> Mewn llythyr ati, canmolodd Hildebert o Lavardin lwyddiant Adela yn absenoldeb Steffan. Roedd ei mam, gwraig Gwilym Goncwerwr, hefyd yn enwog am y modd y bu iddi lywodraethu Normandi tra oedd yntau'n ymosod ar Loegr.<sup>27</sup>

O ystyried y grym a'r awdurdod economaidd a gwleidyddol a oedd yn nwylo'r arglwyddesau hyn, ac o gofio'u haddysg lenyddol a'r cyfarwyddyd a

<sup>24</sup> Williams, *op. cit.*, t. 49.

<sup>25</sup> Leyser, *op. cit.*, t. 240.

<sup>26</sup> *Ibid.*, t. 241.

<sup>27</sup> Gweler Evans, *op. cit.*, t. 40.

dderbynient ynglŷn â haelioni a chwarteisi'r llys, naturiol fyddai iddynt chwarae rhan flaenllaw wrth noddî'r beirdd a ganai fawl iddynt. Ond bu dadlau brwd ymhlith haneswyr ynglŷn â dilysrwydd y cyfeiriadau at roddion y gwragedd ac arwyddocâd eu cyflwyno i'r beirdd. Tra gwêl rhai'r cyfeiriadau at dâl a nawdd y merched fel arwydd o'r rhyddid a'r statws newydd a ddaeth iddynt yn sgil datblygiad y delfryd o serch cwrtais, ystyrir y syniad o noddwragedd yn ddim mwy na thopos llenyddol gan eraill:

However compelling it may be, the image of medieval women as purveyors and indirect creators of medieval literature remains largely hypothetical. It is significant, however, because it questions in yet another way the degree to which medieval women fit into the literary or historical milieu surrounding them. If the image of the inspiring and supportive female patron is not easily corroborated by historical fact, could it be a literary topos, a rhetorical convention paralleling the image of woman as the motor force in literary accounts of love?...

...Women cast in the complementary roles of lady-love and reader/patron thus become, in many courtly scenarios, the silent initiators and recipients of male exploits on the field of battle as in the field of literature. Although women are routinely billed as central players in courtliness and its historical development, they are also often made to play more peripheral roles, serving as the audience that will receive and authenticate heroic feats and clerkly tales about them.<sup>28</sup>

Amheuwyd a oedd y gwragedd mewn gwironedd yn rhoi unrhyw beth i'r beirdd, ac nad oedd y sôn am eu nawdd yn ddim mwy nag ymgais i'w darlunio fel arglwyddesau hael a feddai ar yr holl rinweddau llysaidd delfrydol - yn yr un modd ag y disgrifid eu pryd a gwedd i weddu i ddelfryd y cyfnod. Ystyrir Linda Paterson y sail dros gyfri arglwyddesau llysoedd canoloesol Ffrainc yn 'noddwragedd' y trwbadwriaid fel hyn:

How important were Occitan women as patrons of literature? The answer depends on one's own definition of patronage. It might mean payment, in the form of cash, objects, equipment or real estate. It might occasionally mean the granting of social promotion and the knightly equipment that went with it. It might simply involve praise and

---

<sup>28</sup> E. J. Burns ac R. L. Krueger, 'Courtly Ideology and Woman's Place in Medieval French Literature', *Romance Notes*, 25, tt. 210-11.

welcome at court, which could put a troubadour in the way of employment or reward by others. A patron might commission a troubadour to compose a song; or the troubadour might dedicate a song to a patron in the hope that some reward would eventually be forthcoming. If we take as a criterion of patronage the mention of a dedicatee, then we could say that Occitan women were heavily involved in poetic patronage: Bergert lists some 600 women, designated by their proper names or pseudonyms, to whom troubadours address their songs. If on the other hand we consider only patrons who pay, the picture may be rather different. ...women are clearly in the minority when it comes to paying the piper. Women encourage, men pay.

Broadly speaking, the troubadours ask men for economic favours, women for sexual ones. But the second may often be a mask for the first.<sup>29</sup>

Yn ogystal â'r ymffrost serch a gawn gan Hywel ab Owain Gwynedd yn ei Orhoffedd, y mae hefyd yn awgrymu, neu'n hytrach yn brolio, iddo dderbyn ffafrau rhywiol gan y merched y canai iddynt - a hynny yn gyfnewid am ei farddoniaeth:

Cefais-i wyth yn nhâl pwyth peth o'r wawd - yr gaint,<sup>30</sup>

Yn 'dâl', meddai, y cafodd y merched hyn. Pwysleisia'r berthynas rhwng y farddoniaeth a gyfansodda i ferch a'r ffafrau a rydd hithau iddo ef fel ad-daliad yn un o'i awdlau serch:

Pei chwaerei ei budd er barddoni,  
Nebawd noswaith y byddwn nesaf iddi.<sup>31</sup>

Cyfeirir yn benodol mewn rhai o'r cerddi at roddion mwy confensiynol a gyflwynid gan ferched. Cyfansoddodd Gruffudd ap Dafydd ap Tudur awdl i ddiolch i 'deg riain' am wregys a dderbyniodd ganddi am brydyddu:

Rhodd hael, rheg afael, rhy gafas - am wawd  
Ei dafawd, y difas;

<sup>29</sup> Paterson, *op. cit.*, tt. 256-8.

<sup>30</sup> GLIF 6.82.

<sup>31</sup> *Ibid.*, 10.11-12.



Unllythyr llathrwaith cyweithias,  
Unlliw ag aur gwiw gae'r gwas.

Nid mau rhag adnau: rhag adnair - dilys  
Rhoi gwregys gwraig ddiwair;  
Doe y'm doeth cyfoeth cywair,  
Da o fywn gra a fu'n grair.<sup>32</sup>

Ymddengys y diolch hwn ac felly hefyd y weithred o rodde a'i hysbardunodd yn ddigon dilys, ac y mae modd ei gyfrif yn dystiolaeth i ryw wedd ar nawdd llenyddol gan arglwyddes. Mae'n wir mai fel rhodd serch y rhoddid cae gan amlaf a bod y bardd yma, o bosibl, yn manteisio ar yr awyrgylch o ganu serch cwrtais a ddôï, o ganlyniad i hyn, i'w awdl o ddiolch ac o fawl. Ond wrth gloi ei gerdd pwysleisia ddiwirdeb yr arglwyddes gan sôn am ei pharchusrwydd a'i bonedd hithau a'r berthynas swyddogol rhyngddo ef fel bardd â'i noddwraig.<sup>33</sup>

Fe geir gwahaniaethu pendant, fodd bynnag, yn y cyfreithiau rhwng yr hyn a oedd yn briodol i arglwydd ei roi'n rhodd a'r hyn y câi arglwyddes ei gyflwyno. Wedi rhestru swyddogion y llys, a gynhwysai'r bardd teulu, rhoddir cyfarwyddyd ynglŷn â sut y dylid eu talu:

Dylyet y swyddogyon hyn yw kaffael brethynwisc y gan y brenhin, a llienwisc y vrenhines, teir gweith yn y vlwydyn, y Nadolic a'r Pasc a'r Sulgwyn. Brenhines a dyly caffael trayan y gan y brenhin o'r ennill a del idaw o'e tir. Ac ual hynny swyddogyon y vrenhines a dylant trayan y gan swyddogyon y brenhin. Kylch a dyly y vrenhines a'r morynyon a'r meibion ar vilaeneit y brenhin pan el ef y maes o'e tir ehunan.<sup>34</sup>

Ymhellach dywedir:

Pan el bard teulu yn y swyd y keif telyn gan y brenhin a modrwy eur gan y vrenhines.<sup>35</sup>

<sup>32</sup> GGD 3.5-8, 21-4.

<sup>33</sup> Gweler sylwadau Dafydd Johnston, *ibid.*, t. 32.

<sup>34</sup> LIB t. 2-3.

<sup>35</sup> *Ibid.*, t. 22.

Daw hyn â ni'n ôl at y rhoddion a dderbyniai ac a ddymunai Gruffudd ap Dafydd ap Tudur eu cael gan ei noddwyr. Yn ogystal â'r gerdd ddiolch y dyfynnwyd ohoni eisioes, cawn ganddo gerdd yn gofyn bwa gan Hywel, gŵr na wyddom lawer amdano,<sup>36</sup> lle bygythia lid merched Gwynedd ar y noddwr os gwrthoda'r cais:

Er mwyn mireinson morwynol ddyinion  
 A sôn llateion a'i lletya,  
 Er mwyn llifddwyn llaith gwawr geinllawr Gynllaith,  
 Gwawd obaith, gweniaith a'm gweinydda,  
 Er lliw lluch Ionawr, er nef a llawr,  
 Er mwyn gwawr Faelawr, na'm gofala.  
 Er cof dof dyfrwys bun loywlun liwlwys,  
 Cannwyll Bowys lwys, na'm dilysa.  
 Fy rhwyf a'm rheufedd, o rhoi'r gair gomedd,  
 Rhianedd Gwynedd a'th ogana.<sup>37</sup>

Yn ogystal â gwrthrychau defnyddiol neu symbolaidd, clywn hefyd am roddion gwerthfawr a roddid gan arglwyddesau i'w beirdd. Ymddengys aur yn aml yng ngwaith y Gogynfeirdd yn y sôn am haelioni'r gwagedd:

Dinam o aur, oedd dinag,<sup>38</sup>

Aur dy giried er dy garu<sup>39</sup>

Pwysleisia beirdd eraill mai yn gyfnewid am farddoniaeth y cyflwynid rhoddion drud iddynt:

Gnawd oedd dâl aur mâl er ei moli.<sup>40</sup>

Aur mâl a'm bu dâl, dolur atreg - fraw,<sup>41</sup>

Medraist, aurdelaist er adeilad - gwawd<sup>42</sup>

<sup>36</sup> Gweler GGDT t. 30.

<sup>37</sup> *Ibid.*, 2.13-22.

<sup>38</sup> GGrG 6.23 (Mab y Clochyddyn).

<sup>39</sup> MA 337, Goronwy Ddu, I Ferch, ll. 8.

<sup>40</sup> GMB 26. 30 (Einion ap Gwalchmai).

<sup>41</sup> GC 5.15.

<sup>42</sup> GGLI 1.81 (Hywel ab Einion Lygliw).

Ategir y syniad o 'dâl', ar amryw weddau, gan arglwyddes yn gyson drwy ganu'r Gogynfeirdd i ferched a gwragedd:

Yn arllawdd hirgawdd hwyr geblid,  
 Yn arllaw anaw yn y'i rhennid,  
 Yn erllydd cynnydd cynienid - rhiaid,  
 Yn arllwybr arwain main merierid.  
 Pan fu Gymry lu o gymrwynlid  
 Yn cymryd cyfgof am eu gofid,  
 Am brydu canu cerdd a drethid  
 I'i prydfawr gwenwawr, llawr llewychid,<sup>43</sup>

Dywed air cywair yn ôl cawad - nwyf,  
 Can gorwyf cwyn girad,  
 Ai er gwerth, cannerth ceniad,  
 Ai o'th fodd, enw rhodd yn rhad.

Ym ni chad yn rhad, rhaid ateb - eilwydd,  
 Eiliw gwendon moreb,  
 Nac er gwerth nac er nerth neb,  
 I gan hon eton ateb.<sup>44</sup>

Ceisla Cynddelw Brydydd Mawr brofi ei ddidwylledd tuag at Efa gan fynnu nad am dâl y canai iddi, gan awgrymu ei fod yn mynd yn groes i arfer y beirdd:

Nid er chweddl amgen ydd amgyrwyf,  
 Namyn am garu ni geryddwyf;  
 Ni'm dawr, ferch peniaeth, pryd na'th welwyf,  
 Nid er ceisiau tâl tros a ganwyf.<sup>45</sup>

Mynn hefyd nad er mwyn hyrwyddo'i enw da fel bardd y lluniodd yr awdl. Mae hyn yn ein tywys i ystyried beth oedd gwir amcanion a gobeithion y beirdd wrth fynd ati i ganu mawl i arglwyddesau'r llys yn annibynnol ar eu gwŷr. Cynigiwyd amryw o esboniadau ynghylch yr hyn a ysbrydolai'r beirdd i gyfansoddi awdlau cyfain i wragedd. Mae'n bosibl iddynt gael eu symbylu gan

<sup>43</sup> GBF 29.29-36 (Iorwerth Fychan).

<sup>44</sup> GGD 4.17-24 (Gruffudd ap Dafydd ap Tudur).

<sup>45</sup> GCBM i 5.35-8.

edmygedd neu serch diledryw tuag at wrthrychau eu cerddi, a'u bod yn deisyfu ymateb tebyg gan y gwrthrychau hynny. Mae'n bosibl fod y beirdd yn ceisio cyfleu mawl anuniongyrchol i'w harglwyddi gan ddyrchafu eu cyfoeth, eu statws a'u llinach uchelwrol yn sgîl mawl i berffeithrwydd delfrydol eu gwragedd bonheddig. Nid yw chwaith yn amhosibl mai canu am dâl yn syml a wnaent. Dadleuwyd mai dyrchafiad cymdeithasol oedd prif nod y trwbawriaid, ac mai moli a charu merch fonheddig oedd y llwybr cliraf i gyrraedd y nod dymunol hwnnw. Deuai amryw o fanteision i'r beirdd hyn o ymserchu mewn arglwyddes uchelwrol:

The Lady is credited with ennobling and empowering her admirer, bringing him good fortune, good looks, and good character:

De tal dousor sui replenitz  
can de prop la posc remirar,  
c'a totz jorns vei lo meu sobrar  
ta fort sui de s'amor techitz. (40, V)

E dic vos que, s'ilh podia,  
eu seria reis de Fransa  
car al plus qu'ilh pot, m'enansa. (45, VI)

Bernart explains elsewhere how man's value comes from the woman he loves: "Per re non es om tan prezans / com per amor e per domnei" (21, IV). By inspiring her lover to sing well, the Occitan *domna* secures his social status and ensures his fame. Through Love Bernart's good fortune is said to prosper: his fame increases and his songs improve, "per que mos pretz mont' e poya / e mos chans melhura" (44,I). The purpose of the troubadour's love song is thus not only to seduce the Lady but also to enhance his own social standing. While Bernart explains that he sings to acquire *jauzimen*, Elias Careil declares frankly, "I'm not singing to gain sexual pleasure / but for honor and profit" (e s'ieu en dizia lauszor / en mon chantar, no'l dis per drudaria, / mas per honor e pro qu'ieu n' atendia). Both are forms of personal gain, obscured within the typical love-scenario behind pronouncements of adoration.<sup>46</sup>

Mor wahanol yw'r gosodiad olaf hwn gan Careil i'r ymbil a glywsom eisioes gan Gynddelw yn erfyn ar Efa i dderbyn ei ddiffuantrwydd.

<sup>46</sup> E. Jane Burns, 'The Man Behind the Lady in Troubadour Lyric', *Romance Notes*, 25, t. 261.

Roedd y bwllch cymdeithasol hwn rhwng y bardd a'r arglwyddes yn thema ganolog yng nghanu'r trwbawriaid. Manteisiwyd ar y drefn gymdeithasol a greai ffiwdaliaeth a'i throi'n dopos barddol i gyfleu statws isradd y bardd gerbron ei arglwyddes. Dyma wraidd y modd y gosodai'r bardd ei hun islaw'r ferch y canai iddi gan ei dyrchafu hi'n rym pwerus a dylanwadol. Nid ar hap a damwain y defnyddiwyd trosiadau gwrogaeth gan y beirdd hyn: roedd iddynt amcanion bwriadol a phenodol. Sylwa Linda Paterson ar eirfa wasaidd y trwbawriaid:

If the vocabulary of vassalage and servile homage is often barely distinguishable, this supports the idea that vassalage for the troubadours represents a form of subjection often unacceptable to the upper nobility. Why should they adopt this language? An obvious reason might be that it reflects their situation of dependence. The epic adopts the perspective of the upper nobility; the lyric, on the whole, that of humbler men. The realities of their life involve subordination, specifically service. However, no troubadour was ever a serf. The postures in their love poetry are imagined, and readily shifting: the poet can see himself as a vassal one minute, a serf the next. Another obvious reason might be that servility has the rhetorical function of flattery. Beyond this, the language of serfdom has the advantage that a tie of dependency, however repugnant it might be to the great, is a form of intimacy. It is an intimacy that often borders on masochism.<sup>47</sup>

Awgryma hyn mai gosod rôl iddo'i hun a chwarae rhan gwas israddol a wnâi'r bardd, gan greu cyd-destun barddol nad oedd mewn gwirionedd yn ceisio adlewyrchu realiti cymdeithas yr oes. Rhoes Sarah Kay gryn sylw i'r cyflwyniad o statws a dosbarth cymdeithasol yng ngwaith y trwbawriaid a'u harwyddocâd i'r beirdd hynny:

His [the lover's] assumption of low status *vis-à-vis* the *domna* is only provisional. His humility has no necessary connection with low rank, nor commitment to the belief that his status is genuinely inferior. It could equally as well be a rhetorical device for enhancing the value of the anticipated reward: the more a troubadour may grovel, the greater his lack, the greater accordingly, his desire, and the higher his ambition. The objects of this ambition, that is, the precise nature of the status

---

<sup>47</sup> Paterson, *op. cit.*, t. 35.

coveted, will vary from text to text and from troubadour to troubadour, but they are bound up with the subject's positioning of himself as a lover and poet.<sup>48</sup>

Wrth ei iselhau ei hun gerbron yr arglwyddes a gorliwio'i statws hithau gobeithiai'r bardd ei hannog i gyflwyno rhodd fwy gwerthfawr byth iddo, neu o bosibl ei gynorthwyo'n gymdeithasol, oherwydd ei balchder personol a'i thosturi tuag ato ef. Ond gellid gweld sut y byddai moli'r arglwyddes a dyrchafu ei rhinweddau perffaith yn fwy effeithiol wrth ei chyfosod â darlun o fardd nad oedd yn deilwng ohoni. Fe dyfai israddoldeb y bardd felly'n gymaint o dopos llenyddol â bonedd y wraig. Nododd Sarah Kay y modd y cymerai'r trwbawriaid arnynt berthyn i'r dosbarth cymdeithasol a weddai i anghenion eu cerddi:

The high or low rank of a troubadour may, occasionally, correlate with some aspect of poetic practice. For example, it may be that a poet of high rank can permit himself greater adventurousness, obscurity, or eccentricity than a humbler colleague dependent on patronage. Nevertheless it is remarkable how little direct encoding of rank is found in courtly poetry. This is particularly striking in the *sirventes* of Bertran de Born who writes of himself as a poor knight, whereas in reality he was a baron holding fief directly from the Plantagenets. The same discrepancy between real and assumed rank is observable in the *canso*. The love poet in confident mood may lay claim to social dominance whether or not he possesses it by virtue of his birth; conversely even aristocrats may declare themselves the vassals, servants or serfs of their ladies, the motif of the *requête d'amour* in particular inducing troubadours of any background to act out a pantomime of self-abasement. The first-person subject, therefore, is associated in these texts less with rank than with what I shall call status.<sup>49</sup>

Gwelwn hyn yn yng Nghymru hefyd yng ngwaith y bardd-dywysog Hywel ab Owain Gwynedd. Clywn ef yn gyson, y tu hwnt i'w Orhoffedd ymffrostgar, yn cwyno iddo gael ei wrthod gan y merched y canai iddynt. Yn un o'i awdlau serch, wedi cwyno iddo garu'r ferch yn ofer, mae'r arglwydd uchel ei dras hwn

<sup>48</sup> Kay, *op. cit.*, tt. 115-16.

<sup>49</sup> *Ibid.*, tt. 111-12.

yn ymbil ar ei farch i fynd yn llatai at wrthrych ei serch oherwydd ei ddioddefaint:

Peddestrig iolydd, a'm bydd-i eilwydd?  
Pa hyd y'th iolaf? Saf rhag dy swydd.  
Adwyf-i yn anfedredd o ynfydrwydd - caru,  
Ni'm cerydd Iesu, y Cyfarwydd.<sup>50</sup>

Yn yr un modd ag y gellid ystyried ymffrost serch y Gogynfeirdd yn ymgais i ennill parch ac edmygedd eu cynulleidfa wrywaidd, cred Erich Köhler mai ymgyrraedd at y dosbarth cymdeithasol uwch o fewn y llys oedd nod y trwbawriaid drwy gyfrwng eu canu i'r arglwyddesau. *Gesellschaftschicht*, sef dosbarth, oedd prif ddiddordeb Köhler, ac roedd o'r farn mai amodau economaidd a chymdeithasol oedd wrth ei wraidd:

The lord is the patron of the troubadour *qua* poet, and the source of all social promotion to him *qua* vassal. The troubadour's courtship of the lady (who in Köhler's view is the lord's wife) is an expression of his desire for social and economic parity with other members of the nobility.<sup>51</sup>

Ym marn Helen Fulton, un elfen o ddeuoliaeth gymhleth canu'r beirdd serch yw'r cyfosod cymdeithasol hwn, ac nid yw statws uwch yr arglwyddes ond rhith ac ystrydeb farddol:

The fundamental principle of troubadour courtly love is its recognition of the need for conflict and paradox. The individual pursuit of perfect love is in conflict with the social demands of chivalry: the metaphor of the feudal relationship allows the pretence that the beloved is the dominant figure: pursuit of earthly love must be reconciled with the need for spiritual salvation; and a physical reward is desired though this is not in harmony with the ideal of love as virtuous and ennobling.

Troubadour poetry therefore relates specifically to the status and concerns of the knighthood, and the paradox of courtly love represents the struggle of this lower nobility to achieve social advancement and power. The poets typically adopt the persona of a young knight swearing allegiance to a woman of higher status, and this poetic

<sup>50</sup> GLIF 7.17-20.

<sup>51</sup> Kay, *op. cit.*, t. 113.

convention represents the social reality of young knights seeking advancement through marriage or through the influence of wealthy aristocratic patrons. The women in the poems, though apparently held in high esteem, are merely the passive vehicles by which the knights hope to achieve wordly success.<sup>52</sup>

Gwêl, serch hynny, reswm dros erfyn nawdd gan arglwyddesau llysoedd canoloesol Ffrainc a Phrofens gan fod i'r gwraidd hyn wir rym ac awdurdod o dan y drefn ffiwdalaidd. Eu perchnogaeth ar dir a roddai iddynt y safle cymdeithasol manteisiol hwn a'u trawsffurfio'n ddeunydd gwraig ddelfrydol ac yn darged amlwg i feirdd a oedd â'u bryd ar ddyrchafiad cymdeithasol.<sup>53</sup> Fodd bynnag, ym marn Fulton, nid oedd i arglwyddesau llysoedd Cymru yr un grym nac awdurdod â'u chwirydd Ffrengig. Gan nad oedd iddynt eiddo ni allent ddsbarthu rhoddion, ac felly nid oedd diben i feirdd a newynai am fri ac anrhydedd bywyd uchelwrol ganu eu mawl:

Whereas troubadour verse traces the emergence of a new aristocracy of knights, *gogynfeirdd* poetry invokes the weight of centuries of bardic tradition to reinforce the ruling power of ancient Welsh monarchies challenged by Norman baronies. While troubadour verse supported a feudal hierarchy, the poetry of the *gogynfeirdd* supported the ancient power structure of tribal dynasties.

There is also an important distinction to be made between troubadour *fin' amors* poetry and the Welsh *rhieingerddi*. Although both function primarily as forms of eulogy, the women of Provence had a very real and significant power compared to their contemporaries in Wales. Praise of Provençal noblewomen was directed at the women themselves as possessors of property and wealth, and their idealization as courtly love objects masked their desirability as marriage partners.

In medieval Wales, however, women did not generally hold land or money in their own right. Praise of Welsh noblewomen was merely a displacement of the eulogies directed at the lord in whose court they lived. By honouring a patron's wife or daughter, a poet was honouring the patron himself, and therefore fulfilling part of his obligation as court-poet. Because of this difference in women's status in the two cultures, the basic premise of *fin' amors*, that the lover must prove himself worthy of his powerful mistress, is not relevant for Welsh society. The persona of Welsh court-poetry is not the lover-knight of

<sup>52</sup> Fulton, *op. cit.*, tt. 25-6.

<sup>53</sup> *Ibid.*, t.229.



troubadour verse, but rather a warrior-poet who worships a symbol of aristocratic power based on landownership.<sup>54</sup>

Er y gellid deall mai moli arglwydd y llys oedd prif ddyletswydd y Gogynfeirdd, anodd yw derbyn nad oedd gobaith iddynt elwa o ganu i'w wraig - yn enwedig o gofio'r cyfarwyddiadau cyfreithiol ynglŷn â'r hyn a oedd yn briodol iddi ei roi i feirdd a swyddogion eraill y llys. Cofiwn hefyd y modd y gofalai hi am holl faterion gweinyddol y llys yn absenoldeb ei gŵr, a hefyd gyfeiriadau'r beirdd eu hunain at y rhoddion a dderbyniasent gan wragedd. Wrth ystyried y modd y gosodai wragedd y chwedlau Cymraeg a Cheltaidd dasgau i'w dewis briodfeibion, ymddengys yn annhebygol fod y syniad o gariadfab yn gorfod ei brofi ei hun yn deilwng o'r arglwyddes yn gwbl amherthnasol i'r gymdeithas Gymraeg. Yn wir, yn y tasgau hyn y gwêl rhai, megis J. E. Caerwyn Williams, wreiddiau gostyngeiddrwydd y bardd gerbron yr arglwyddes:

O'r rhwymedigaeth a osodai ei anrhydedd ar y cariadfab i gyflawni'r tasgau hyn y cododd y syniad o wasanaeth merch a'r syniadau eraill sydd ynghlwm wrth hwnnw.<sup>55</sup>

Cyn y cyflwynid nawdd neu rodd i fardd mae'n sicr y byddai'n rhaid iddo yntau hefyd fod wedi bodloni'r arglwyddes a chyflawni ei swyddogaeth trwy ei moli. Clywn am ferched yn gofyn am fawl gan feirdd:

Gofynnai fawlgerdd yn gyfannedd,<sup>56</sup>

Mynnawd molawd gnawd, gne ton waeddgreg,<sup>57</sup>

Llun hy a'i dily iaith a dalaf.<sup>58</sup>

<sup>54</sup> *Ibid.*, t. tt. 76-7.

<sup>55</sup> Williams, *op. cit.*, tt. 29-30.

<sup>56</sup> GSRh 5.9 (Rhisierdyn).

<sup>57</sup> GC 5.25.

<sup>58</sup> GLIBH 3.20 (Llywelyn Brydydd Hoddnant), gan ddeall fod Ellylw yma'n 'hawlio'r' farddoniaeth a delir, ond mae modd hefyd deall ei bod yn ei 'deilyngu', gweler G 422.

O safbwynt yr arglwyddes, ymddengys mai diben y bardd oedd cynnal a lledaenu ei henw da, fel y gwnâi'r beirdd ers canrifoedd i'r arglwyddi. 'Cynnal gywirdeb ac enw ac wyneb',<sup>59</sup> fel y dywedodd Gruffudd ap Dafydd ap Tudur wrth ei arglwydd wrth ofyn am fwa, oedd dyletswydd y beirdd a dymuniad eu noddwyr. Cymherid y gwragedd â chymeriadau chwedlonol a oedd yn enwog am eu haelioni gan ddyrchafu eu rhadlonrwyd ac felly eu bonedd:

Dygn gofion Rhiannon rhodd,<sup>60</sup>

ynghaer dec angharat eil.  
liw eiry kaen law eurawc hael.<sup>61</sup>

Disgrifir yr arglwyddesau hefyd â throsiadau a delweddau a amlygai eu haelioni:

Llywyawg, law eurawg, liw eiry bronnydd.<sup>62</sup>

Brenhines haelder, gloywder gwledydd,<sup>63</sup>

Mae'n sicr y byddai hyn wrth fodd y gwragedd. Roedd anrhydedd ac enw da o bwys mawr yn y gymdeithas ganoloesol. Ymddengys fod cynnal parch a statws yn gymaint o bryder i'r arglwyddes ag ydoedd eu hennill i'r bardd. Tynnodd Diane Bornstein sylw at gyngor llyfrau cwrteisi'r cyfnod ynglŷn â hyn:

Garin advises the lady to welcome troubadours and minstrels (a bit of self-interest here). She should listen to their poems, memorize her favourite passages, and give them gifts so that they will praise her and spread her good fame. By honoring guests as well as she can, she will earn a good reputation.

Sordello, the thirteenth-century Italian troubadour, addressed his *Ensenhmen d'onor* to both men and women of the aristocracy. The section addressed to women deals with love and deportment. He states

<sup>59</sup> GGD 2.35.

<sup>60</sup> GGrG 2.15.

<sup>61</sup> R 1326.25-27 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>62</sup> GBF 30.12 (Iorwerth Fychan).

<sup>63</sup> GSRh 1.6 (Sefnyn).

that a woman's reputation depends on the man she loves; therefore, she should be sure to choose an honorable lover. If she loves a worthy knight, she cannot lose her good name.<sup>64</sup>

Roedd haelioni'n rhinwedd anrhydeddus a ystyrid yn arwydd o fonedd a thras uchelwrol, ac roedd lledaenu'r sôn am garedigrwydd yr arglwyddes felly'n gyfystyr â hyrwyddo enw da ei llinach, ei gŵr a'i llys. Roedd yr haelioni hwn a'r bri personol a ddeuai i ran y rhoddwr, neu'r rhoddwraig, yn ei sgil yn elfen mor nodedig o ddsbarth uchelwrol â'i fryd ar hunan-hyrwyddiad fel y rhybuddiwyd lleianod rhag ymroi i'r fath falchder. Gosodir rheolau ar gyfer y merched hyn yn yr *Ancrene Riwe*:

They should not desire wealth, not even to give away to others, since generosity can be a form of pride. The author is particularly emphatic in warning the girls against generosity and courtesy, virtues of the aristocracy which could be faults for anchoresses. They should give food and drink to the women and children who work for them, but man servants should not eat in their presence. No man should ever sleep in their house.<sup>65</sup>

Rhinweddau dymunol os nad hanfodol mewn uchelwraig, fodd bynnag, oedd haelioni a lletygarwch, a'r sarhad mwyaf oedd ei galw'n grintachllyd fel y bygythiai Gynddelw wneud am Efa:

Ni rhifaf-i ar fun fod yn galed:  
Nid clod fy ngwrthod gwrth fy nâed!<sup>66</sup>

Anodd, fodd bynnag, yw tynnu llinell rhwng caredigrwydd merched unigol a chyfundrefn neu draddodiad o nawdd ffurfiol gan wragedd. Clywn gyfeiriadau at roddion ac at haelioni, at 'ddwylo hir' a 'dwylo aur' ac at ddsbarthu trysorau yn gyfnewid am farddoniaeth:

Mi a wŷr moli hil rhi, hawl rheg;<sup>67</sup>

<sup>64</sup> Bornstein, *op. cit.*, tt. 34-5.

<sup>65</sup> *Ibid.*, t. 25.

<sup>66</sup> GCBM i 5.49-50.

<sup>67</sup> GC 5.22.

Mawrweddus feinus fen yd fernid - crair,<sup>68</sup>

Ond cawn hefyd gyfeiriadau pendant a phenodol at yr arglwyddesau fel rhai a ddarparai 'nawdd'. Pwysleisir y nodwedd hwn gan Iorwerth Fychan:

Gwynllad fad fagiad fegidydd - pobloedd,<sup>69</sup>

Fel 'gwasgwawd', sef noddwraig, y mae Mab y Clochyddyn hefyd yn cyfeirio at ei arglwyddes:

Gwasgawd gwawd gwindreul, haul hoen,<sup>70</sup>

Cawn fawl tebyg gan Gynddelw Brydydd Mawr yn ei farwnad i Einion ap Madog ab Iddon, lle sonir am yr arglwydd yn noddi barddoniaeth ac yn rhannu gwisgoedd:

Gwasgawd gwawd, gwisgoedd ddiofer,<sup>71</sup>

Ond yn llinell nesaf yr awdl hon clywn amdano hefyd yn rhoi meirch yn rhoddion:

Gwasgarai weisgfeirch mai muner,<sup>72</sup>

Ymddengys ei fod yn arfer gan arglwyddi roi rhoddion o feirch i'w beirdd. Cawn gyfeiriad at hyn yn 'Awdl y breuddwyd' Gruffudd ap Tudur Goch:

Pan ddefroais, trais traserchogion,  
Oeddwn ail Gynog, neu ail Gynon  
Am Forfudd hyludd hoelion - edduned,  
Merch Urien Rheged, meirch anrhegion.<sup>73</sup>

<sup>68</sup> GBF 29.19 (Iorwerth Fychan).

<sup>69</sup> GBF 30.45.

<sup>70</sup> GGrG 6.7.

<sup>71</sup> GCBM i 26.33.

<sup>72</sup> *Ibid.*, 26.34.

<sup>73</sup> GGrG 8.40.

Clywn Bleddyn Fardd hefyd yn canmol y meirch gwych a gafodd gan ei noddwr yn ei farwnad i Ddafydd ap Gruffudd ap Llywelyn:

Cyn no lladd Dafydd (defawd Einawn - Yrth,  
Nerthawglym Merfyniawn),  
O'i freisgfeirch maeth ffraeth ffrwythlaw  
A'i wisgoedd y'm doddoedd dawn.<sup>74</sup>

Cawn sôn am ferch yn cynnig ceffyl yn rhodd yn chwedl Erec hefyd, fel y nododd Georgina Morgan:

Is-gymeriad benywaidd sydd yn chwarae rhan fechan yn Erec yw cyfnither Enide. Ymddengys yn ystod y wledd ar ôl y twrnameint, a hi yw'r person sydd yn poeni am ddillad yr arwres: "sire .. molt grant honte sera a vos, plus qu'a autrui se cist sires an mainne o lui vostre niece, si povrement atornee ..", ll. 1344 -7. Cynigia ddillad newydd iddi, ond mae Erec yn gwrthod, ac felly mae'r gyfnither yn cynnig tri cheffyl fel anrheg yn lle'r dillad: "un sor, un vair, et un baucent", ll. 1369.<sup>75</sup>

Noda hefyd y modd y cymhara Loomis y ferch hon â Morgain le Fee oherwydd ei harfer hithau o roddi ceffylau yn anrhegion, "there are several strong hints that this incident is a refacimento of the now-familiar motif of the fay's gift of her horse to her lover".<sup>76</sup>

Ond ni cheir cyfeiriad at rodd o'r fath wrth foli haelioni arglwyddes yng ngwaith y Gogynfeirdd. Mae hyn yn adlewyrchiad pellach o'r gwahaniaeth rhwng yr hyn a oedd yn briodol i arglwyddes ei roi o gymharu â'r hyn y gallai ei gŵr ei gyflwyno'n dâl i feirdd. Mae'n anodd credu na fyddai'r cyfyngiadau hyn wedi adlewyrchu ar y modd y dewisai'r beirdd wrthrychau eu cerddi, a gellir deall pam yr ystyrid mai canu mawl i'r arglwyddes er mwyn ennill nawdd ei gŵr a'i lys ef a wnâi'r beirdd mewn gwirionedd.

<sup>74</sup> GBF 53.21-4.

<sup>75</sup> Georgina Morgan, 'Y Portread o Ferched yn y Tair Rhamant Ffrangeg', traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru, 1993, t. 286.

<sup>76</sup> Roger Sherman Loomis, Arthurian Tradition And Chrétien de Troyes (New York, 1949), t. 105;

Ond cofier fod Bleddyn Fardd uchod yn cyfeirio yr un mor barchus hefyd at y dillad a gafodd gan Ddafydd. Cawn gyfeiriadau aml at roddion o ddilad gan wragedd bonheddig, ac at y croeso a dderbynai'r beirdd yn eu llysoedd. Byddai'r gefnogaeth a'r anogaeth a gawsant o fewn y llys hefyd wedi eu hystyried yn nawdd priodol a derbyniol gan feirdd yr oes, ac ni ddylem ddibrisio a diystyru'r elfen hon o fywyd diwylliannol y llys. Dyma sylwadau June Hall McCash ar arferion nawdd yn yr oesoedd canol:

In the early medieval period, when a gift-giving economy prevailed, patronage manifested itself most often as support and encouragement, rewarding artists with gifts rather than money for their work. As the shift began in the twelfth century toward a mercantile economy, artists and performers tended to be more frequently compensated with money. An interesting scene composed by Chretien de Troyes in the latter half of the twelfth century describes the reward system for jongleurs at the marriage of Erec and Enide, no doubt reflecting the practices of the time:

Ce jor furent jogleor lié,  
 car tuit furent a gré paié:  
 tot fu randu quanqu'il acurent,  
 et molt bel don donélor furent:  
 robes de veir er d'eminetes,  
 d'escarlante, grise oude soie;  
 qui vost cheval, qui volt monaie,  
 chascuns ot don a son voloir  
 si boen com il le dut avoir.

[On that day the jongleurs were happy, for all were paid whatever they asked. All were given whatever was due to them, and they received many beautiful gifts - robes of *vair* and ermine and rabbit, of purple, scarlet, gray, or silk. Whoever asked for a horse or wanted money, each had the gift of his choice as was his due.]

The text suggests that, although in some cases cash payments were made, in Champagne they were still considered gifts in the same category with horses and fine garments, thus reflecting the rewards of patronage for an economy in transition.<sup>77</sup>

<sup>77</sup> June Hall McCash (gol.), The Cultural Patronage of Medieval Women (Georgia, 1996), t.4.

O gofio pwysigrwydd rôl y gwragedd wrth gynnal gweinyddiaeth ddyddiol y llys, gallwn ystyried i'r gofal hwn fod yn elfen gref o'u nawdd barddol hwy.

Byddent yn dysgu'r sgiliau a fyddai eu hangen arnynt wrth ofalu am y llys gan eu teuluoedd, fel rhan o'r 'mabddysg' a welsom eisoes. Byddai diddordeb eu teuluoedd mewn diwylliant, a barddoniaeth yn arbennig, yn ddylanwad mawr arnynt hefyd wrth ddarparu ar gyfer eu llysoedd eu hunain ac yn ffactor pwysig wrth iddynt fynd ati i noddi beirdd. Trown eto at McCash:

Although financial resources are critical in determining which women engaged in patronage, wealth alone can explain the penchant for patronage only in part. A second factor, which is of equal if not greater importance, is the value the women's family placed on education and cultural legacy. Women who engaged in important patronage, particularly of literary works, almost always came from cultured backgrounds where learning was valued and where encouragement and support of the arts was a familial expectation...

Matrilineal paradigms of patronage ... were exceedingly important. That her mother had patronized writers and artists provided a particularly strong incentive for a daughter to do so. Such matrilineal patronage, however, fits within the broader spectrum of social and cultural expectations in the family as a whole. The tradition could also be passed from father to daughter, from husband to wife, or from brother to sister, just as a woman, in turn, could influence her husband or her son to engage in cultural patronage.<sup>78</sup>

Roedd y traddodiad teuluol hwn o nawdd yn amlwg ymhlith y merched a folir gan y Gogynfeirdd am eu haelioni wrth gynnal beirdd. Un o'r prif deuluoedd a noddai feirdd yn y cyfnod oedd teulu Penmynydd ym Môn. Canodd Sefnyn, Rhisieryn, Gruffudd ap Maredudd, a Llywelyn Goch ap Meurig Hen iddynt, a chedwir llawer o'r gwaith hwn yn Llyfr Coch Hergest.<sup>79</sup> Cawn fawl yn arbennig i haelioni Goronwy Fychan o linach Penmynydd a'i wraig Myfanwy ferch Iorwerth Ddu ab Ednyfed Gam o'r Pengwern ger Llangollen.<sup>80</sup> Canodd Sefnyn fawl ar y cyd i'r ddau ohonynt gan bwysleisio caredigrwydd Goronwy wrth feirdd:

<sup>78</sup> *Ibid.*, t. 14.

<sup>79</sup> GSRh, tt. 30 a 47.

<sup>80</sup> *Ibid.*, t. 95.

Dewrwiw telediwr taladwy - roddion,  
Da glydwr beirddion digeladwy,

Yn fynychaf (o dyarchaf,  
Ef yw'r gwyachaf, wyf argochiad)

Llwyd a glewgain, bod ail Owain,  
Brewddawn gywain beirddion gawad,  
Wrth ddyneillion, berth gyfeillion,  
(Bydd i ddeillion budd o'i ddillad)

Gwâr ddihengis gwyrdd o'i angad.<sup>81</sup>

Clywn amdano'n rhoi rhoddion o ddillad porffor, a hefyd dilad gwyrdd i'r beirdd.<sup>82</sup> Nid arfer ymhlith merched yn unig oedd hwn felly. 'Gwisg o liw gwyrdd oedd y ffefryn y drydedd ganrif ar ddeg a'r bedwaredd ar ddeg' yn ôl D. J. Bowen,<sup>83</sup> ac mae'n rhaid felly y byddai rhoi gwisgoedd o'r lliw hwn yn amlygu cyfoeth yr arglwyddi a'u haelioni wrth ei rannu. Mae'r gerdd hon yn cloi â disgrifiad perffaith yn ôl safonau traddodiadol yr oes o Oronwy fel 'llawddewr roddiad' - un dewr a hael.<sup>84</sup>

Clywn hefyd am ei wraig Myfanwy'n cynnal ei gwesteion yn y llys:

Lle bai, cain yrthiai canhorthwy - esbyd,<sup>85</sup>

A chawn sôn am feirdd yn canu ei moliant ar hyd y wlad:

Eirchiaid a'i dywaid o Dawy - â'u gwawd,  
I ddygynnull ffawd i Ddegannwy.<sup>86</sup>

<sup>81</sup> *Ibid.*, 3.39-40, 77-8, 89-92, 96.

<sup>82</sup> Mae Erwain Haf Rheinallt, *ibid.*, t. 37, hefyd yn tynnu ein sylw at gyfeiriad gan Llywelyn Goch ap Meurig Hen iddo dderbyn dillad gwyrdd gan ei noddwr Hopgyn ap Thomas o Ynystawe, 'Gwyrdlas ordinas daeoni goeu. gwin offiolleu gwynn aphali', R. 1307.38-9.

<sup>83</sup> D. J. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg', *LIC*, xvii (1992-3), t. 104.

<sup>84</sup> GSRh 3.106.

<sup>85</sup> *Ibid.*, 3.11.

<sup>86</sup> *Ibid.*, 3.27-8.



Ond fel ‘mawl uniongyrchiol a gynigir i Oronwy drwy grybwyll rhinweddau ei wraig’ y gwêl Erwain Haf Rheinallt y cyfeiriadau hyn gan Sefnyn at Fyfanwy.<sup>87</sup> Nid oes fawr o sôn am Fyfanwy yn yr awdl, er y canmolir Goronwy am fod yn wŷr i’r wraig hardd hon.<sup>88</sup> Y mae Rhisierdyn, fodd bynnag, yn canu awdl foliant gyfan i Fyfanwy ei hun, ac yn pentyrru’r mawl i’w rhinweddau llysaidd a bonheddig - ac yn arbennig ei nawdd i feirdd:

Mygr hoywlamp Bowys, magwyr hywledd.  
Gofynnai fawlgerdd yn gyfannedd,  
Gwelwys eurswllt bobl, gwinllys orsedd,  
Gwasgawd inseilwawd ansalwedd - arfer,  
....

Cludodd ewybr ddawn clod o ddiwedd;  
Coeth y gwnaeth eu maeth â medd - bueilsathr  
(Claer aur freisg-gorff llathr) clêr ar frwysgedd.  
Bid ar hyffawd hoedl, byd orhoffedd  
(Bu flaen noddod beirdd) byw flwynyddedd!<sup>89</sup>

Diddorol iawn, fel y nododd Nerys Ann Jones,<sup>90</sup> yw’r modd y defnyddir delweddau a gysylltir fel arfer â dynion - sef ‘magwyr’,<sup>91</sup> ‘gorsedd’<sup>92</sup> a ‘chadair’,<sup>93</sup> wrth ddarlunio Myfanwy fel noddwraig a chynheiliad beirdd. Fel y gwelir yn y dyfyniad uchod, canolbwyntir hefyd ar ei gallu i gynnal bywyd y llys wrth ddarparu gwleddoedd moethus a digonedd o win a medd. Gallai darparu adloniant ar ffurf barddoniaeth hefyd fod yn rhan o’r dyletswydd hwn wrth gynnal y llys yn ôl McCash:

... the social responsibility to provide entertainment for the court must not be excluded as a major motive for female patronage, particularly for the support and encouragement of writers, joungeurs, dancers, and singers.<sup>94</sup>

<sup>87</sup> *Ibid.*, t. 31.

<sup>88</sup> *Ibid.*, 3.17.

<sup>89</sup> *Ibid.*, 5.8-11, 22-6.

<sup>90</sup> *Ibid.*, t. 95.

<sup>91</sup> *Ibid.*, 5.8.

<sup>92</sup> *Ibid.*, 5.10.

<sup>93</sup> *Ibid.*, 5.18.

<sup>94</sup> McCash, *op. cit.*, t. 23.

Pwysleisir hefyd ddoethineb Myfanwy, a tynnir sylw'n arbennig at ei llythrennedd a'i huoddedd; nodweddion a fyddai'n golygu ei bod yn gwerthfawrogi'r farddoniaeth a ganwyd iddi, a ger ei bron, yn y llys:

Un ni fwrw ei phwyll yn oferedd,  
Mawl i hirwen ddoeth, mil a'i harwedd,

Llythyr a ddysgodd bun llathraidd osgedd,

Cymhendod dafod, etifedd-lwyddiant,<sup>95</sup>

Wrth gadarnhau hefyd ei thras bonheddig, uchelwrol a safon ei llys hardd, sicrheir fod gennym yma ddarlun o'r arglwyddes berffaith:

Uniawn bill hirddawn o ball harddedd,  
Enwog falch fynog o feilch fonedd,  
Anwylgain firain o fawredd - didwyll,<sup>96</sup>

Mynn Rhisierdyn hefyd nad er mwyn ennill ei serch y canwyd iddi, gan bwysleisio eto mai mawl ffurfiol i noddwraig a gâi Myfanwy ganddo ef, a gan y beirdd eraill a ganai iddi:

Cerir ei mawrdwf nid er caredd,<sup>97</sup>

Cyfeiria ati hefyd fel gwraig a weddai i arglwydd dewr fel Goronwy:

Gymar hy ener, gem rhianedd,

Goludog gymar, haelwar heulwedd,  
Goronwy Fychan, gwron fuchedd,<sup>98</sup>

---

<sup>95</sup> GSRh 5.4-5, 13, 19.

<sup>96</sup> *Ibid.*, 5.1-3.

<sup>97</sup> *Ibid.*, 5.17.

<sup>98</sup> *Ibid.*, 5.12, 33-4.

Y mae Rhiserdyn hefyd yn canu i Oronwy ar wahân i'w wraig, ac yn pwysleisio ei allu yntau hefyd i feirniadu gwaith y beirdd:

Llwybr rwy Oronwy, air ynad - ieithfydr,<sup>99</sup>

Mola yn ogystal iaith goeth ei noddwr:

Llathrber eurgroyw iaith, llithr bâr irgrau,<sup>100</sup>

Ond gosodir y darlun delfrydol o'r arglwydd cadarn a charedig hwn yn llinellau agoriadol y gerdd, a'i ategu wrth dynnu i'w therfyn:

Llyw glyw glewnaws traws, trwsiad - cerddorion,  
Leon arwyddion, llaw iawn roddiad,

Lluchynt Melwas, llawchfeirdd winblas,<sup>101</sup>

Nodir eto mai dillad a roddai Goronwy yn rhoddion i'r beirdd, a bod hyn yn dâl derbyniol ganddynt hwy - gan arglwydd ac arglwyddes.

Teulu arall a oedd yn allweddol wrth noddï beirdd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd teulu Glyn Aeron yng Ngheredigion, ac roedd i Lawysgrif Hendregadredd a Llyfr Gwyn Rhydderch gysylltiadau cryf â'r teulu hwn.<sup>102</sup> Cawn gerddi moliant i Ieuan ap Gruffudd Moel o Lyn Aeron a'i wraig Ellylw gan Llywelyn Brydydd Hoddnant, ac roedd y ddau ohonynt yn tarddu o deuluoedd bonheddig iawn ac iddynt draddodiad cadarn iawn o noddï beirdd. Olrheiniodd Ann Parry Owen achau'r teulu aruchel a dylanwadol hwn, a dyfynnaf ei sylwadau:

Ar ochr ei dad, yr oedd Ieuan ap Gruffudd Foel yn hanfod o linach frenhinol Ceredigion trwy gangen Cydifor ap Gwaithfoed, sef llinach a gysylltir â de Ceredigion. Mae'n bosibl fod Phylip Brydydd - y

<sup>99</sup> *Ibid.*, 4.7.

<sup>100</sup> *Ibid.*, 4.53.

<sup>101</sup> *Ibid.*, 5.1-2, 123.

<sup>102</sup> GLIBH tt. 6-7.

Gogynfardd o Geredigion a ganodd i Rys Ieuanc (*ob.* 1222) a Rhys Gryg (*ob.* 1233), dau o feibion yr Arglwydd Rhys ap Gruffudd - yn hanfod o'r un llinach, yn wŷyr i Gydifor ap Gwaithfoed o Lanbadarn Odwyn yng nghwmwd Pennardd. Yr oedd mam Ieuanc, Annes ferch Robert, yn hanfod o linach Elystan Glodrydd, llinach frenhinol de Powys, ac yr oedd cyndaidd iddi, Gruffudd Fele, yn frawd i Gadwallon ap Madog ap Idnerth (*ob.* 1179) a oedd yn noddwr i Gynddelw Brydydd Mawr yn y ddeuddegfed ganrif. Priododd Ieuanc ag Ellylw ferch Madog ap Maredudd ab Owain, gorwyr i'r Arglwydd Rhys ap Gruffudd. Maredudd ab Owain oedd prif noddwr y Prydydd Bychan, ac yr oedd ei blant yn gyfrifol am noddi cyfieithu chwedl Siarlymaen ymysg pethau eraill.<sup>103</sup>

Credir mai cyn iddi briodi Ieuanc y canwyd cerdd Llywelyn Brydydd Hoddnant i Ellylw, a hynny gan y cyfeirir ati ddwywaith fel merch ei thad er na chrybwyllir ei gŵr.<sup>104</sup> Clywn am ei doethineb, ei lleferydd cain ac am ei haelioni:

Llyriaidd nawdd trethawl, traethaf - nawfan,  
 Llwyddran Ellylw gan a gynyddaf.  
 Llawen eiddun fun, fudd ddiorsaf,  
 Llefair rhygwblair, ni rhygablaf;  
 Lleddf ddiffol ddethol, ddoethaf - o'r gwagedd,  
 Llariedd gludfawredd a glodforaf.<sup>105</sup>

Ond nid nawws awdl fawl ffurfiol i noddwraig sydd i'r gerdd hon, ac yn wir y mae iddi fwy o ymdeimlad o ganu serch wrth i Lywelyn gwyno am ei boenau o'i herwydd, ac wrth iddo ofyn i'w farch ei gludo at y ferch hon sy'n ei wrthod.<sup>106</sup> Awgryma Ann Parry Owen i'r gerdd hon gael ei chanu ar adeg priodas Ellylw a Ieuanc, ac mae bwriad Llywelyn drwy chwarae rhan y carwr gwrthodedig oedd dangos nad oedd gan Ellylw bellach ddiddordeb mewn neb heblaw ei gŵr.<sup>107</sup>

Darlun o arglwyddes fonheddig ddelfrydol a gawn yma gan Lywelyn, a thebyg yw ei amcan yn ei ddwy gerdd i Ieuanc. Mae nawdd Ieuanc fodd bynnag yn rhan annatod o'r portread delfrydol a thraddodiadol ohono ef:

<sup>103</sup> *Ibid.*, t. 10.

<sup>104</sup> *Ibid.*, 3.24, 46.

<sup>105</sup> *Ibid.*, 3.7-12.

<sup>106</sup> *Ibid.*, 3.45-6.

<sup>107</sup> *Ibid.*, t.39.

Cyfaillt grym ysym a sawdd - ei alon  
 A'i alaf ni chronnawdd,  
 Cedol wirawd, wawd wahawdd,  
 Cadr ffysg, rwydd hyddysg rodd hawdd.<sup>108</sup>

Cyfaillt grym ysym, nis amheuir,  
 Cyfaillt beirddion yw fy llyw llafnir,  
 Cyfaillt hynod glod a gludir - fwyfwy,  
 Cyfaillt arlwy rhwy, ni rhygeblir.  
 Cynheiliad difrad, gwarediad gwir  
 Cyhoedd dewr llysoedd nid arllwysir.<sup>109</sup>

Ond eto, ni ddisgrifir yn benodol yr hyn a dderbyniasai Llywelyn yn dâl gan y noddwr enwog hwn am ei ganu. Mawl cyffredinol i'w haelioni a geir, fel un elfen o gymeriad disgwylidig yr arglwydd. Efallai y dylem felly fod yn wyladwrus o ddibynnu'n llwyr ar ddisgrifiadau'r beirdd fel tystiolaeth o nawdd, neu ddiffyg nawdd, gwrthrychau eu cerddi.

Canai Casnodyn i Ieuan Llwyd, mab Ieuan ac Ellylw, a chanodd foliant hefyd i Wenlliant, cyfnither Ellylw. Gwraig Syr Gruffudd Llwyd o Dregarnedd oedd Gwenlliant, ac roedd yntau hefyd yn wŵr dylanwadol iawn, yn 'un o ffigurau pwysicaf yng ngweinyddiad Cymru dan y Goron yn nhraean cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg a noddwr pwysig i feirdd'.<sup>110</sup> Roedd Gwenlliant yn ferch i Gynan ap Maredudd ac hefyd yn hannu o deulu diwylliannol. Cafodd ei hewythr, Gruffudd ap Maredudd gyfieithiadau o'r 'Transitus Beatae Mariae' a 'Cronicl Turpin', a chafodd ei modryb, Efa ferch Maredudd, gyfieithiad o 'Gredo St. Athanasius'.<sup>111</sup> Credir mai yn ystod un o gyfnodau Syr Gruffudd yn y carchar y canwyd y gerdd hon, gan i Gasnodyn ymbilio ar Dduw i'w ryddhau.<sup>112</sup> Gallwn dybio felly mai Gwenlliant oedd yn gofalu am y llys yn ei absenoldeb, ac mai er ei phlesio hi, a hwyrach ar ei chais hi, y canwyd y gerdd hon. Ni raid i ni dybio mai moli ei gŵr yn anuniongyrchol a wneir yma wrth

<sup>108</sup> *Ibid.*, 2.1-4.

<sup>109</sup> *Ibid.*, 1.1-6.

<sup>110</sup> GC t.116.

<sup>111</sup> *Ibid.*

<sup>112</sup> *Ibid.*, t.116-17.

edmygu rhinweddau perffaith ei wraig ac yntau ymhell o'r llys. Go brin hefyd y byddai angen i Syr Gruffudd ofidio am Gasnodyn yn ceisio ennill serchiadau ei wraig tra'i fod yntau dan glo, er mai ar ffurf cerdd serch y mae Casnodyn yn canu ei mawl gan ddilyn confensiynau moli uchelwragedd bonheddig.

Mae Casnodyn yn honni yn null y bardd-garwr gwrthodedig ei fod yn methu cysgu oherwydd Gwenlliant a bod yr hiraeth o'i herwydd yn ei dristáu,<sup>113</sup> ac i geisio datrys hyn y mae'n anfon ei farch yn llatai ati. Efallai mai annisgwyl yw hyn o gofio anghymeradwyaeth Gramadegau'r Penceirddiaid yngylch canu serch i wraig briod.<sup>114</sup> Ond dyfais dramatig i gynnwys mawl ffurfiol y bardd o rinweddau perffaith a disgwylidig y wraig fonheddig ddelfrydol a gawn yma. Dyrchefir ei llinach uchelwrol drwy ganu mawl arwrol i'w thad,<sup>115</sup> clywn am ei chroen gwyn bonheddig,<sup>116</sup> a gwelwn hefyd ei fod yn ddoeth, bod ganddi Gymraeg da, a'i bod yn gwrando ar y farddoniaeth ac yn talu amdano ag aur ac â dillad porffor moethus:

Eirgall ddiwall ball, bwyll ogyweg,  
Erioed yn ddioed hoed gyhydrog;  
Aur mâl a'm bu dâl, dolur atrg - fraw,  
Yn llaw, wyl andaw, gan ail Indeg.

Main firiain riaingain Gymraeg,  
Mwyn forwyn hunddwyn, hoenddygn gysteg;  
Mynych lle llewych lliw ehöeg - ym  
Man y'm dug gwelwlym ar rym redeg.<sup>117</sup>

Dywedir ei bod hefyd yn dymuno mawl yn aml gan y beirdd:

Mynnawd molawd gnawd, gne ton waedddreg,<sup>118</sup>

<sup>113</sup> Ibid., 5.11, 30.

<sup>114</sup> GP t.16.

<sup>115</sup> GC 5.17-20.

<sup>116</sup> Ibid., 5.11.

<sup>117</sup> Ibid., 5.11-16, 29-32.

<sup>118</sup> Ibid., 5.25.

Gallwn gymryd felly i Wenlliant alw a thalu am adloniant barddol yn ei llys. Efallai mai rhan o'i dyletswydd wrth gynnal y llys - yn enwedig yn absenoldeb ei gŵr oedd hwn, ond mae'n bosibl hefyd ei fod yn elfen o'i bonedd a'i huchelwriaeth, ac yn arfer a etifeddodd ac a drwythwyd ynddi gan ei theulu llengar.

Canodd Casnodyn gerdd serch hefyd i Awd, merch i noddwr iddo a oedd yn byw yn Nyffryn Tywi, ger Llandeilo.<sup>119</sup> Mae'r bardd yma eto'n cwyno ei fod yn dioddef wedi iddo gael ei wrthod gan ferch, ond diddorol yw nodi'r tro hwn ei fod yn dweud iddo ofyn i'w thad am ganiatâd i'w phriodi, ac iddo wrthod:

Da gyngor rhag fy nifrawd - ym  
 Am nas caf yn briawd:  
 Dwyn hwyl, dyn gwyl goleuwawd,  
 Dan frig y goedwig ag Awd.

Erchi merch fy rhi rhoddnawd - ys gwneuthum,  
 Ys gwnaeth gwyd tros folawd,  
 Arwydd nad rhadlwydd, rhydlawd,  
 Eres ymoedes am Awd.<sup>120</sup>

Beirniadir yr arglwydd yn llym am ei ymddygiad crintachlyd na weddai i wŵr o'i statws ef. Ond darlun o gariadferch ac nid noddwraig a gawn gan Casnodyn o'r ferch yn y gerdd hon, ei gwychder hi a'i boenau llethol ef o'i herwydd hi yw ei brif ddiddordeb. Cawn serch hynny ddisgrifiad diddorol iawn ohoni'n darllen barddoniaeth, sy'n awgrymu ei dysg a'i diwylliant.<sup>121</sup>

Ys breinfawr liw gwawr a le gwawd - hirdrig  
 A hwyrdry o'm ceudawd.<sup>122</sup>

Mae gennym hefyd ddwy farwnad, gan Ronw Gyriog a Mab y Clochyddyn, i Wenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan. Mae hyn ynddo'i

<sup>119</sup> *Ibid.*, t. 120.

<sup>120</sup> *Ibid.*, 6.41-8.

<sup>121</sup> *Ibid.*, t. 122.

<sup>122</sup> *Ibid.*, 6.25-6.

hun yn awgrymu iddi fod yn wraig uchel ei thras, a gwelwn o'i hachau yn ogystal ei bod yn hannu o deulu pwysig iawn ym Mhowys:

Yr oedd ei thad, Madog, yn farwn grymus iawn yn trigo yn yr Hendwr yn Llandrillo, Edeirnion. Yr oedd yn hanfod yn uniongyrchol o deulu brenhinol Powys, a gosodir ei ach, sydd braidd yn gymysglyd yn y llawysgrifau, fel a ganlyn gan A. D. Carr: Madog ap Gruffudd ap Dafydd ap Gruffudd ab Owain Brogyntyn ap Madog ap Maredudd. Yr oedd ganddo ferch arall, Gwerful, a briododd Goronwy ap Tudur Hen o Benmynydd; canodd Gruffudd Fychan foliant i'w mab, Hywel, gan enwi'r rhieni.

Yr oedd i'r teulu hwn hen hanes o noddi barddoniaeth. Yr oedd Madog ap Maredudd ac Owain Brogyntyn yn noddwyr beirdd yn y ddeuddegfed ganrif, a chanodd Bleddyn Fardd farwnad i daid Madog, sef Dafydd ap Gruffudd ab Owain. Dichon fod gan Lygad Gŵr yntau gysylltiadau clòs â theulu'r Hendwr, er nad oes unrhyw gerddi o'i eiddo wedi goroesi iddynt. Yr oedd mam Gwenhwyfar, Efa, hithau yn hanfod o deulu brenhinol Powys, yn orwyres i Wenwynyn ab Owain Cyfeiliog.<sup>123</sup>

Byddai Gwenhwyfar felly wedi ei magu mewn awyrgylch llengar a diwylliedig, a naturiol fyddai iddi barhau â'r traddodiad hwn wrth ddarparu ar gyfer ei llys ei hun. Mae'n bosibl mai ym marwnad Mab y Clochyddyn iddi hi y cawn y mynegiant cliraf o ddyled bardd i'w arglwyddes. Yn y gerdd deimladol hon pwysleisir gwir golled y bardd wrth iddo gyferbynnu'r cyfoeth a oedd iddo gynt â'r golled a ddaeth i'w ran ef, a beirdd eraill, o'i marwolaeth hi. Mae yma alar personol hefyd, y tu hwnt i'r mawl ffurfiol i arglwyddes a noddwraig ddelfrydol:

Gwasgwyd côr o fynor faen,  
Gwasgarai wyrdd, cyrdd a'i cwyn,  
Gwasgawd gwawd gwindraul, haul hoen,  
Gwisg ryoer uwch gwaisg riain.

A'm rhoes ganwaith,	gwiwne glwysfaith,	gwin a glasfedd,
A'm rhoes edmyg	a phob rhyfyg	a phob rheufedd,
A roes i fyrdd	ac aur a gwyrdd,	ac eiry ei gwedd,
A wnaeth boddiant	aelaw ariant	i laweredd.
O fywn ysgin	a maen gerwin	y mae'n gorwedd. <sup>124</sup>

<sup>123</sup> GGrG t. 26.

<sup>124</sup> GGrG 6.5-8, 85-9.



Anodd, serch hynny, yw mesur maint nawdd yr arglwyddesau hyn oddi wrth fawl y beirdd eu hunain iddynt. Mae'n debyg fod hyn hefyd yn wir ar adeg cyfansoddi'r cerddi, fel y gwelwn o gerdd Hywel ab Einion Lygliw i Fyfanwy Fychan o Benmynydd. Ymateb y bardd i gyhuddiad Myfanwy iddo honni ei bod hi'n noddwraig iddo heb iddi hi ganiatáu hynny yw'r awdl hon.<sup>125</sup> Dyma sylwadau Rhiannon Ifans:

Cwyn gyfreithiol yw cnewyllyn y gerdd. Y mae Myfanwy Fychan yn dwyn achos yn erbyn Hywel ab Einion Lygliw am iddo honni mwy amdani nag y mae hi'n fodlon ei gydnabod. Ymddengys fod y bardd wedi canu ei chlodydd yn ddigon derbynol, ond ei fod hefyd wedi mynd gam ymhellach a honni ei bod yn noddwraig iddo, a hynny heb ei chaniatâd, *nid gan gennad* (ll. 46). Yn wyneb cyhuddiad o'r fath mae'r bardd yn syrthio ar ei fai.<sup>126</sup>

Ond nid yw Myfanwy'n maddau iddo:

Murn boeni â mi o'm anynad - hawl,  
Serchawl enediawl un fynudiad.  
Mul y bwriais trais tros ddirnad, - Dduw gwyn,  
Tremyn ar ddillyn porffor ddillad<sup>127</sup>

Try Hywel hwn yn ddyfais i ganu'n ymbilgar ar Fyfanwy yn arddull y canu serch cwrtais, ac i gwyno am ei ddioddefaint oherwydd iddi hi droi ei chefn arno. Ond mae'n bosibl y cawn yma hefyd gip ar gonfensiynau'r canu a ddengys nad ydoedd mewn gwirionedd yn dderbynol i orliwio'r elfen hon o rinweddau arglwyddes. Mae hyn yn syndod o gofio arfer y beirdd o foli eu noddwyr yn ôl safonau delfrydol yr oes, a'r modd yr ystyrir haelioni yn un o'r nodweddion priodol i'w moli ar 'wreicda' a hefyd ar 'forwyn yeuang rieinyeid' yn ôl y Gramadegau.<sup>128</sup> Ond cofiwn hefyd y rhybudd i ferched rhag balchder

<sup>125</sup> GGLI t. 9.

<sup>126</sup> *Ibid.*

<sup>127</sup> *Ibid.*, 1.61-4.

<sup>128</sup> GP t. 56.

oherwydd eu haelioni a gafwyd yn rheolau'r *Ancrene Riwe*. Roedd perygl o gyhuddiadau o'r fath yn rhwystr mawr ar noddwagedd yr oes yn ôl McCash:

Patronage may have been a socially acceptable way for women to assert power, but it was not without obstacles. Women faced the inevitable double standard and were sometimes castigated for excessive generosity as patrons. Although generosity was considered a great medieval virtue in men, it could quickly be interpreted as prodigality in women, even in a dynasty with strong traditions of patronage. Marie de Champagne was one such case. Even though, ironically, she had been married to a man who was so well known and admired for his generosity that he was called Henri le Libéral, the author of the *Eructavit* chides her for “largece et li hauz despans” [generosity and great expenditures].<sup>129</sup>

Mae hyn yn dwyn i gof y rheolau a osodwyd yng Nghyfraith Hywel ynglŷn â'r hyn a oedd yn weddus ac yn briodol i wragedd ei roi'n rhodd. Roedd gwahaniaeth mawr rhwng beth a ystyrir yn dderbyniol i wraig y brenin, gwraig uchelwr, a gwraig taeog ei roddi. Byddai iddi rannu mwy nag oedd ganddi'r hawl i wneud yn sarhad ar ei gŵr, gan fod yr hyn a roddid ganddi yn adlewyrchiad o'i statws yntau o fewn y gymdeithas. Fel hyn y nododd Morfydd Owen y sefyllfa:

Wrongfully giving away property was also a beatable offence, since the kind of property a wife is allowed to part with is specified and determined by the actual status of the husband.<sup>130</sup>

Roedd statws ac anrhydedd ynghlwm wrth y rhoddion hyn a ddarparwyd i'r beirdd a gynhaliai enw da llinach uchelwrol yr arglwydd a'i arglwyddes, ac er y rhoddid hwy'n rhydd, ymddengys na allai'r arglwyddes eu rhoddi ar fympwy.

Mae'n anodd mesur union faint nawdd yr arglwyddesau i feirdd yr oes, ond ni ellir gwadu eu dylanwad ar y canu nac ar fywyd y llys. Os nad oedd bardd yn canu'n unswydd ac yn uniongyrchol i noddwraig a dalai iddo ac a'i gynhaliai,

<sup>129</sup> McCash, *op. cit.*, t. 20.

<sup>130</sup> *Ibid.*, t. 52.

roedd yn ymwybodol iawn o'i phresenoldeb yn ei gynulleidfa yn y llys, a gwelwn ôl yr ymbyddiaeth hon yn glir yng ngwaith y Gogynfeirdd.

## 6. POENAU SERCH

Nid lle ym geisiaw, llafur brwyngur braw,  
 Rho a phryd alaw, fal ffrwd wyliais,  
 Llunio tangnefedd, lliffran gwahan gwedd,  
 Braint cyflafaredd cyflafuriais.  
 Llidiog fu genthi, llidiant rhwyddiant rhi,  
 Beiddio ei henwi pan 'i henwais.

'Llithged, breinged brwyn, llaes firain forwyn,  
 Llyma fy mawrgwyn, nid am eurgais,  
 Rhag lliw ton ertraï, mae fy llaw arnai,  
 Rhai a'i rhyfeddai nas rhwy feddais:  
 Llifo fy ngruddiau a'm lladd heb arfau -  
 Minnau, ei maddau nis meddyliais -'<sup>1</sup>

Yn yr awdl hon mae Gruffudd ap Dafydd ap Tudur yn dwyn achos cyfreithiol yn erbyn merch a'i niweiddodd ac a barodd iddo ddiodef cymaint nes iddo gael ei ladd. Mae hyn, wrth gwrs, yn ddweud mawr a chlywn y bardd yn ateb yr ormodiaith eithafol hon drwy enau'r ferch y mae'n ei chyhuddo:

'Dy gwyn fu gynnau dy ladd heb arfau  
 Â llafnau geiriau gwyrion llednais;  
 A'm llw, bei'th leddid â gair, llesmair llid,  
 Yn fyw na'th welid, edlid adlais;  
 A byw y'th welaf, i bawb y tystiaf,  
 A brawd a archaf ac a erchais.'<sup>2</sup>

Crea hyn sefyllfa ddramatig a fyddai wedi apelio'n fawr at gynulleidfa'r llys. Awgryma hiwmor coeglyd y gerdd fod yma dynnu coes y byddai'r gynulleidfa'n ei ddeall ac yn ei werthfawrogi. Roedd y gynulleidfa'n hen gyfarwydd â gwrando ar gwynfanau ac ochneidiau'r beirdd ynglŷn â diffyg diddordeb yr arglwyddesau ynddynt fel cariadon, felly byddai clywed Gruffudd yn mynd i'r eithafion o gwyno ei fod wedi ei ladd yn ddigon ynddo'i hun i beri diddanwch mawr iddynt, heb sôn am ei glywed yn cynnig ateb sarhaus y ferch.

<sup>1</sup> GGD 5.1-12.

<sup>2</sup> *Ibid.*, 5.39-44.

Clywn yma ddadl ynglŷn â diffuantrwydd cwynion serch y bardd a adleisir yn ddiweddarach yn ymryson Dafydd ap Gwilym a Gruffudd Gryg. Cafwyd dadlau hefyd ynglŷn â tharddiad thema'r carwr gwrthodedig a'i gwynion, ac ynglŷn â'r defnydd o 'lys serch' yn yr awdl hon. Mewn erthygl sy'n dwyn y teitl 'A "Court of Love" Poem in Welsh' meddai T. Gwynn Jones:

It has, of course, been demonstrated that the views at one time set forth with regard to the existence of 'Courts of Love' are untenable. One would hardly expect to find that there ever were such institutions of a recognised legal character, or even of a character meant to be taken quite seriously, but there seems to be no good reason to doubt that pretended courts of the kind may have been held. The Welsh poems, at any rate, provide evidence of the prevalence of such romantic attitudes among the bards and their friends ... The poem herein edited and translated, written in North Wales about 1283, as shown in the notes, proves at any rate that some such amusement as that suggested by the legend of the 'Court of Love' was known to the bard who wrote it, for in it the institution is described as a 'court' (*llys*), the complaint is carefully stated in legal form, specifying time and place, the names of the witnesses are given, the pleading and the precedent of the case of Gorlois and Uthr referred to.<sup>3</sup>

Wrth gyfeirio at y gerdd hon ynghyd â dwy arall o eiddo Gruffudd medd T. Gwynn Jones ymhellach:

These ... poems ... reflect perfectly the ideas and mentality of the Troubadours; they even conserve the attractive youthful quality which, is perhaps, the explanation of all such poetry.<sup>4</sup>

Dadleua Helen Fulton a Huw M. Edwards, fodd bynnag, yn erbyn derbyn defnydd Gruffudd ap Dafydd ap Tudur o ieithwedd gyfreithiol fel prawf o ddyllanwad cyfandirol uniongyrchol. Roedd y bardd hwn yn amlwg yr un mor ymwybodol â'i gynulleidfa o'r cwynion a wneid yn gyson gan feirdd gwrthodedig ac a gadwyd ar glawr i ni heddiw. Yr un syntomau a welid gan ddiodefwr y clefyd hwn o ddechrau cyfnod y Gogynfeirdd - byddai eu gwedd yn gwelwi, eu cyrff yn gwanhau, a'u calonnau'n brifo; byddent yn dioddef poenau ofnadwy ac yn colli cwsg oherwydd yr arglwyddes. Er bod olion amlwg

<sup>3</sup> T. Gwynn Jones, 'A "Court of Love" Poem in Welsh', *Aberystwyth Studies*, iv (1992), t. 90.

<sup>4</sup> *Ibid.*, t. 91.

o'r traddodiad hwn ar ganu Gruffudd, ymddengys ei gyhuddiad i'r ferch ei ladd, nid ag arfau ond â geiriau creulon, yn wyriad eithafol a gwreiddiol yn ei ormodiaith. Digon posibl fyddai gweld yr ystumio dramatig hwn fel dynwarediad o fynegiadau gordeimladol beirdd canoloesol Profens.

Ond cawn gyhuddiad tebyg rhyw ganrif a hanner ynghynt yng ngwaith y mwyaf arwrol, o bosibl, o'r Gogynfeirdd:

Genilles a'm llif, cyd am lladdwy - ar air,  
Ei muner (nid mawr imi fy ngofwy!).<sup>5</sup>

Gosodiad syfrdanol yw hwn o enau'r fath ymffrostiwr â Gwalchmai, a hynny ynghanol ei Orhoffedd ac ar draws ei honiadau ynghylch ei allu eofn i greu lladdfeydd mewn brwydrau. Brolia am ei allu i godi ei gleddyf llachar a gwrthsefyll byddinoedd, ond nid oes angen arfau ar ei wraig wrth iddi ei ladd â gair yn unig!

Gwelwn olion eraill o ddiodefaint Gwalchmai oherwydd ei serch:

Pellynnig fy nghof yng nghyntefin  
Yn ethryb caru caerwys febin

.....

Ni hu ŷnt, a mi mor wyf dirwyn er gŵyl.

.....

Endewais-i eaws am ryhiraeth er gŵyl,

.....

Breuddwydiaw er bun balchliw arien ddos,  
Ys odidawg nos neu ym hepgyr.<sup>6</sup>

Nid yw'r diodefaint na'r gwendid hwn yn tynnu oddi ar wrhydri'r bardd arwrol hwn, yn hytrach y mae'n ei ategu. Cofiwn am fawl Aneirin i un o filwyr dewr a grymus gosgordd y Gododdin a oedd yn ddianadl yng nghwmni merch,<sup>7</sup>

<sup>5</sup> GMB 9.29-30.

<sup>6</sup> *Ibid.*, 9.11-12, 63, 87, 93-4.

<sup>7</sup> CA, II, 22.

a gwelwn mai'r un rhinweddau delfrydol y mae Gwlachmai'n eu honni yma. Ei ddarlunio'i hun ar lun arwr traddodiadol y mae, gan ddisgwyl ennyn edmygedd am ei ymffrost fel rhyfelwr eofn ac fel carwr teimladwy - yn union fel y canmolai'r beirdd arglwyddi'r oes am eu haddfwynder a'u haelioni yn y llys a'u cadernid ar faes y gad. Y mae'n sicrhau ein dealltwriaeth o hyn drwy ei nodi'n blaen ar ffurf gwireb:

Bid swysawg serchawg, bannawg brëyr.<sup>8</sup>

Nid yw'r ymffrostiwr hwn chwaith yn colli ei gyfle i ddefnyddio'r ystrydebau ynglŷn â phoenau serch i'w ddibenion ei hun, a chlywn am yr effaith a gaiff ef ar y ferch:

Pell nad hunawg gwen (gogwn pahyr!)

Pwyllid erof ar ni lefais!<sup>9</sup>

Cawsom ddisgrifiad tebyg o ferch yn dioddef o 'haint' serch yn y canu gwirebol:

dyly bun pwyth hun y heint.<sup>10</sup>

Ond er gwaethaf yr holl gwyno teimladol, cerdd ddiddanol i'w datgan o flaen llys yw'r Orhoffedd hon, megis awdl Gruffudd ap Dafydd ap Tudur. Perfformiad hwyliog yw'r cyfan gyda hiwmor yn elfen bwysig o'r cwynion a'r ebychiadau. Awyrgylch gwahanol iawn sydd i gerdd Gwalchmai 'I Efa y Wraig':<sup>11</sup>

Calan Hyddfre! Cain cyfwyre,  
Cyfarwydd dwfr yn y dyfrlle.

Cyfar warag wyf at gywir garu

<sup>8</sup> *Ibid.*, 9.92.

<sup>9</sup> *Ibid.*, 9.89; 110.

<sup>10</sup> EWGP, VI, 2c.

<sup>11</sup> Gweler Lynch, *op. cit.*

Ac afar gyfwyre.  
Cennyn can ein Duw, neud de,  
Cyfryw atreg cof atre.

Cyfaerant i rôn, a rhin a cherydd  
A chur gnodydd ar ne.  
Gnaws edn adnabod bore,  
Gnaws am ban benial ystre.

Gnawd o'm gnawd gwychran i falchlan febin,  
Gnawd o drin dres aele;  
Gnawd wedy rhyserch rhyse  
Selwedd gŵyth gwrth y dwyre.

Gnawd erof hiraeth (etgyllaeth echen)  
Ac uchenaid fore;  
Gnawd march o feirch rhabire  
Yn farch dewr, yn farch dyre.

Gnawd gwraig gwell genthi a fo gwaeth iddi:  
Fy addas nid debre.  
Dilyw a ddyfu, Dyddbrawd a ddyfi  
I ddygyfor ei gynne,  
I ddygyfwrw enwir yn enwerys goll  
Yng nghyllestrig dandde.<sup>12</sup>

Ceir eto wirebu, ond y tro hwn y mae naws llawer mwy personol i'r sylwadau. Ymffrostia yn y gofid a'r hiraeth a achosa i ferched, ond ymddengys ei boen ef ei hun yn llawer mwy real na'r hyn a gawn yn yr Orhoffedd. Nid yw'n tynnu coes, yn diddanu nac yn gwahodd neb i chwerthin am ei fethiant fel carwr. Mae naws didwyll i'r mynegiadau hyn o ddiodefaint ac i'w deimladau ynglŷn ag oferedd a chreulondeb serch. Meddai Peredur Lynch:

Ac yn yr englyn cyntaf fe glywn gri'r galon honno, a llais gofidus y bardd ei hunan. Y mae ei brofiad, a'r hyn y cafodd weledigaeth yn ei gylch, yn syml ac yn eglur - ni cheir mo'r melys heb y chwerw, y mae cariad a dadrith yn un cyfrodedd anwahanadwy.<sup>13</sup>

Beirnedir gwragedd gan y bardd am wneud dewis gwael wrth ddethol cariad. Fel y nododd Peredur Lynch, y mae yma amwysedd yn yr hyn a olyga

<sup>12</sup> GMB 13.

<sup>13</sup> Lynch, *op. cit.*, t. 37.



Gwalchmai wrth yr hyn a fyddai'n ddrwg i'r ferch - ei wrthod ef ac yntau'n garwr o fri, neu'n hytrach ei ddewis ef gan arwain at ofid a phoen. Cafwyd beirniadaeth debyg o ddiffyg chwaeth gwragedd gan y trwbawriaid hefyd:

Perhaps the poets speak of Love as a woman in order to shift some of the blame from their ladies to an abstraction, just as they incarnate the abstraction in a lady in order to make the love more perfect. The figure of Love is a woman in Provençal partly because *Amors* is a feminine noun, but clearly also because the poets think of Love and the lady as one. They had the classical model of Cupid, as well as Venus, to draw on had they wanted a male figure. Love's powers do not differ perceptibly from the woman's: she can be a capricious tyrant, preferring the proud and faithless, perversely choosing the worst suitor; she is cruel to those in her power; she uses the beauty of the woman to make the poet her slave.<sup>14</sup>

Ymddengys dioddefaint oherwydd poenau serch yng Ngorhoffedd Hywel ab Owain Gwynedd hefyd:

Ail yw'r llall o'r pall, pell fy min  
 I wrthi, i am orthorch eurin:  
 Gweirfyl deg, fy rheg, fy rhin, - ni gefais,  
 Ni gafas neb o'm llin;  
 Er fy lladd-i â llafnau deufin,  
 Rhy-m-gwalaeth-i, gwraig brawdfaeth brenin.  
 A Gwladus weddus, wyl febin - fabwraig,  
 Gofynaig ei gwerin,  
 Achenaf uchenaid gyfrin,

Gorddin mawr a'm dawr, a'm daerawd,  
 A hiraeth, ysywaeth, ysy nawd  
 Am Nest deg debyg a fallflawd,  
 Am Berweur, berfedd fy mhechawd.  
 Am Enerys wry, ni warawd - im hoen,<sup>15</sup>

Daeth iddo flinderau a thristwch a hiraeth mawr oherwydd y merched hyn; ni pharasant lawenydd iddo ond yn hytrach gwnaethant iddo ochneidio mewn poen. Trawiadol yw'r disgrifiad ohono'n cael ei daro â llafnau miniog, syniad

<sup>14</sup> Joan Ferrante, *Woman as Image in Medieval Literature: From the Twelfth Century to Dante* (New York, 1975), t. 71.

<sup>15</sup> GLIF 6.53-61, 67-71.

na chlywn eto nes y deawn at waith beirdd llys llawer mwy diweddar megis Casnodyn, Iorwerth ap y Cyriog, a Gruffudd ap Maredudd:

Rhuddhyddnaid i'm rhaid, bu rhôn - fy nigio,  
Câr hwylio cur hoelion,<sup>16</sup>

Ys braidd ym fyw, glyw glwyfnawd,

Lle lloer wiwne llwyr waywnawd,<sup>17</sup>

Gwant fi'n druan, gwayw nwyf buan,<sup>18</sup>

Ryuedaet keudawt kadarn yw llifyant  
ym nwyfyant glwyfyant glyw:

megeist ym boen hoen hunglwyf.  
megeis gwaew dan eis gwydyn wyf.<sup>19</sup>

Mae cyfeiriadau at saethau a gwaywffyn i gyfleu poenau serch yn rhan amlwg o ganu Dafydd ap Gwilym ac yn un o brif achosion cwyn Gruffudd Gryg yn ei erbyn. Yn ei gywydd 'Y Gwayw' clywn am waywffon seithochrog gwenwynig a drawyd drwy ei galon:

Â seithder wayw y'm saethawdd,  
A seithwawd cymhendawd cawdd.  
Gwenwyn awch, gwn fy nychu,  
Gwyn eiddigion gwlad Fôn fu,  
Nis tyn dyn dan wybr sygnau,  
I mewn y galon y mae.<sup>20</sup>

Mae modd ystyried ei ymdriniaeth ef o arfau serch felly'n ddatblygiad ac yn estyniad o gwynion y Gogynfeirdd. Tynna Huw Edwards ein sylw at ddefnydd cynharach fyth o'r motif hwn yn englynion gwirebol 'Y Gorwynion':

<sup>16</sup> GC 3.17-18.

<sup>17</sup> *Ibid.*, 6.27; 31.

<sup>18</sup> GGrG 4.9 (Iorwerth ab y Cyriog).

<sup>19</sup> R 1326.27-8, 1327.11-12 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>20</sup> GDG 111.11-16.

The 'Gorwynion' also speak of the longing ('hiraeth') and sickness ('heint') caused, it seems, by love, and there is an intriguing allusion to the 'arrow' of pain (or sadness) which pierces the lover - 'gwnelit aeth saeth y syberw'. Here, then, is an early precedent for an image which is central to the love-poetry of the early Cywyddwyr, although it will become apparent that their use of the 'weapons of love' motif does show clear signs of Continental influence.<sup>21</sup>

Ymddengys felly y derbynnid poen a seithugrwydd serch yn wireb ac yn wirionedd oesol yn gynnar iawn yn hanes llenyddiaeth Gymraeg, a hynny cyn i'r fath syniad dyfu'n fformiwla llenyddol mewn serch cwrtais. Ceir anghytuno, serch hynny, ar yr hyn y gellid ei ystyried yn etifeddiaeth o'r traddodiad brodorol a'r hyn a fenthyciwyd o draddiad tramor a chyfandirol. Nid yw Helen O'Sullivan yn ystyried bod unrhyw darddiad brodorol i ddelweddau rhyfel a brwydro Dafydd ap Gwilym yn y canu llys Cymraeg:

Certainly, Dafydd's use of this imagery is worthy of notice. There are no references by the Gogynfeirdd to spears, arrows or other weaponry of love, any more than one finds talk of wounds or of arrows lodged in the heart. Dafydd appears to have introduced a new theme to Welsh love-poetry. The closest parallel to his work in earlier poetry is a line in a poem by Gruffudd ap Dafydd ap Tudur (fl. 1300). His poem to the silent girl ... contains the line: 'Tu a'i gwan a'i hepgor'/ She stabs my side and then avoids me/spares me .... The image is not developed further. It maybe intended to link with the earlier lines where the poet says that no pain, anxiety or trouble reduced him to this sad state until the girl that is in Eitun did so .....

For Rachel Bromwich, this imagery suggests a link between Dafydd's poetry and that of the troubadours. The latter, she says, 'developed the idea of Love's warfare by frequent references to the spears and arrows with which it was waged' (Bromwich, 1967, p. 21). Later she speaks of 'spears and arrows' as being 'among the commonplace of Courtly Love' (Bromwich, 1967, p. 29). It is indeed true that there are a few (very rare) references to the spears and arrows of love among the twelfth and early thirteenth century troubadours; but where they occur, they are not being used in images of the same sort as Dafydd's. They are part of extended metaphors of war, not brief descriptions of the lady's glance.<sup>22</sup>

<sup>21</sup> Edwards, *op. cit.*, t. 74.

<sup>22</sup> O'Sullivan, *op. cit.*, tt. 173-4. Rwyf, fodd bynnag, yn derbyn darlleniad Dafydd Johnston o'r darn o waith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur a drafodir yma:

Fodd bynnag, gwêl Huw Edwards y boen a ddaw i Ddafydd ap Gwilym drwy gyfrwng edrychiad merch yn brawf o ddylanwad cyfandirol ar ei waith, a dyfynna o waith *trouvère* anhysbys i'n darbwyllo o hyn:

Vostre oeil m'i toldront la vie  
 Qui me sont venu ferir  
 Et je ne me sai couvrir:  
 Il scevent trop d'escremie;  
 Devant eulz ne puis fuir,  
 Ains m'i couvendra perir  
 Se merci ne vous em prie.

[Your eyes, which came and struck me, will take away my life, and I am unable to defend myself: they are too adept at fencing; before them I cannot flee; rather, I shall have to die there if I do not ask for your mercy in the matter.]<sup>23</sup>

Diddorol hefyd yw dyfyniad Huw Edwards o gywydd Sypyn Cyfeiliog (fl.c. 1350 - 1400), cyfoeswr ifanc i Ddafydd:

...A llygaid fy mun lliwgalch  
 (Fo'm llas, forwyn feinlas falch)  
 Fal gloywder dau bedeyrn  
 Muchudd goruwch deurudd dyn.  
 Ac erioed ni las gŵr iach  
 Na dugiad ag arf degach!<sup>24</sup>

Hynod debyg i hyn yw cwyn y bardd Islamaidd Ibn al-Ahnaf a ganai ar ddiwedd yr wythfed ganrif. Dyma gyfieithiad Peter Dronke o ddarn o waith y bardd hwn:

---

Trwy hud bwyll astud o bell ystyr - gwen  
 Tua'i gwan a'i hepgyr,  
 Tro mwyfwy traha myfyr,  
 Trech o dwyll no gwirbwyll gŵyr.

a'i ddiweddariad:

Trwy synnwyr cyson swyn o hir ystyriaeth [y] ferch wen  
 Ar ei chariad gwan sy'n [gorfod] gwneud hebddi,  
 Camp gynyddol balchder meddwl  
 [Sy'n] drech trwy gast na synnwyr diffuant gŵyr.  
 [GGDT t.18; 22]

<sup>23</sup> Edwards, *op. cit.*, t. 210.

<sup>24</sup> *Ibid.*, t. 210, lle dyfynna CIGE, LXXII, 13-18.

Oh what a glance that tore my heart away,  
 its arrow left my body wounded.  
 If only my princess would send another such,  
 that I should have to lament those wounds once more.  
 Either my cure lies in this, or I die and find rest.<sup>25</sup>

Trawiadol yw'r tebygrwydd rhwng y dehongliad o ddadrith a dioddefaint oherwydd serch a geir yn y gerdd gynnar hon a'r hyn a welir yn englynion 'Y Gorwynion', a hynny er gwaethaf y pellter daearyddol rhwng eu hawduron a'r tebyg iddynt gael eu cyfansoddi ar adeg cyn y gellid ystyried unrhyw dylanwad cyfandirol. Rhaid felly yw derbyn fod beirdd y cerddi hyn yn hanu o gymdeithasau a oedd yn hen gyfarwydd ag anawsterau serch ac wedi ffurfio'u traddodiad eu hunain o'u mynegi. Gellir yn briodol ystyried fod tebygrwydd themâu'r beirdd tra gwahanol hyn yn deillio o debygrwydd eu profiad. Profiadau cynhenid dynol oedd cariad a phoen cariad, ac nid dyfeisiadau ffasiwn estron na dylanwad llenyddiaeth dramor.

Gormodiaith a gordeimladrwydd ystumiau'r trwbawriaid wrth fynegi a darlunio'u dioddefaint a'u gosododd ar wahân i'r traddodiadau barddol a'u rhagflaenodd. Perthynent hwy i gymdeithas arbennig iawn ac iddi reolau a defodau pendant, a gosodid pwys mawr ar gwrteisi a theimladrwydd y beirdd fel llefarwyr y gymdeithas honno. Mewn oes lle roedd arfau megis cleddyf a saeth a gwaywffon yn rhan o fywyd bob dydd ac yn fygythiad real i fywyd, naturiol fyddai cyfeirio at y rheini wrth geisio disgrifio a diriaethu poen. Serch hynny, gwelwn yng ngwaith y trwbawriaid ddefnydd o arfau, ac o gleddyfa a hela fel delweddau rhywiol,<sup>26</sup> elfen na welir mohoni yng nghanu'r Gogynfeirdd. Ond perthyn arfau hefyd i'r byd arwrol, cystadleuol a gwrywaidd, a gwelir elfen o'r gyd-berthynas ymffrostgar hon yn honiadau'r beirdd ynglŷn â'u dioddefaint. Cwyna'r bardd Raimbaut de Vaquerias wrth ei gyfaill Engels am y boen a ddiodefa gan wayw serch a'i chymharu â'r pleser a'r llawenydd a ddaw i'w ffrind:

<sup>25</sup> Dronke, *op. cit.*, t.21.

<sup>26</sup> Gweler Gaunt, *op. cit.*, tt. 316-17.

Engels, un novel descort  
 fauc per remembransa  
 de vos, en cui me conort  
 de ma greu malenansa,  
 qu'atressi·m nafr' amors fort  
 cum vos de sa lansa  
 estiers que gang e deport  
 n'avetz et ieu pezansa.  
 [XVII, I]

[Engels, I begin a new descort in memory of you in whom I find comfort for my great misfortune, for love strikes me as hard as it does you with its lance except that you have joy and pleasure and I have sorrow.]<sup>27</sup>

Wrth iddo drafod y gerdd hon nododd Simon Gaunt:

If the subject-matter of the poem is the lady, it is composed for Engels as a token of companionship, and Raimbaut's examination of his love is therefore a display not for his lady but for another man.<sup>28</sup>

Yr un ysgogiad sydd y tu ôl i gri Cynddelw Brydydd Mawr:

Nawfed ran i'm poen, er pan aned,  
 Nis rhyborthes neb, na'i thebyced!

Ac nid oes fardd dwfn, dinus gyfaiith,  
 A garwy yn hwy o hir obaith.<sup>29</sup>

Yn ogystal â'i ymffrost serch a'i ymffrost rhyfel cawn gan Gynddelw, yn ei Rieingerdd i Efa, ymffrost ynglŷn â maint ei ddiodefaint oherwydd serch. Perthyn yr awdl hon yn agos i orhoffeddau Gwalchmai a Hywel ab Owain Gwynedd, a'r un agwedd gellweirus a geir ynddi tuag at boenau serch. Wrth restru ei symptomau honna nad oes neb wedi dioddef fel ef! Mae Efa mor alluog wrth ei anafu fel y gelwir hi'n 'peddestres weddaidd'<sup>30</sup> a'i disgrifio'n ei drywanu'n gyson fel tonnau'r môr:

<sup>27</sup> *Ibid.*, t.327.

<sup>28</sup> *Ibid.*

<sup>29</sup> GCBM i 5.47-8, 83-4.

<sup>30</sup> *Ibid.*, 5.133.

Neud llawer y' m llif-i lliw amaerwy - ton  
Ban llewych ei bron ger ei breichrwy.<sup>31</sup>

Cymaint yw ei hiraeth a'i dristwch nes iddo golli ei synhwyrâu a throi'n  
ynfytyr:

Gorfelyn, called, colledig wyf,  
Collais gall ateb y neb a'm nwyf.  
Ym mhwyllad newid, neud ydwyf - am fun  
Yn anhun anhedd, ced rhys porthwyf.

Ni thewais ermoed o'i moli mal drud,

Ysaffwn ydd wyf o nwyf neud rhwy!  
Neu'm rhydraeth hiraeth, feddfaeth facwy,<sup>32</sup>

Gwelir yma effaith andwyol ar ei gwsg hefyd:

Na wna fi, feinwen, fal na hunwyf

Caledig fy hun yn hir ofwy - lle,  
Yn lledrad fore gan afarwy.<sup>33</sup>

Ailadroddir y motifau hyn yn gyson drwy ganu'r Gogynfeirdd i ferched a dônt yn batrwm o effaith serch ar y beirdd. Gwahanol iawn yw'r salwch a ddaw i ran carwyr Gwyddeleg yr oesoedd canol. Wedi iddynt orffwyllo nid ydynt yn colli cwsg ond yn hytrach yn syrthio i drymgwsg neu hunglwyf am flwyddyn gyfan. Y serglige neu'r wasting-sickness hwn, fel y dengys Helen O'Sullivan, a ddiodeffodd Conla, Oengus ac Ailill. Roedd blwyddyn hefyd o'r adeg pan syrthiodd Cú Chulainn i gysgu oherwydd ei gariad tuag at Fand i'r adeg pan ddeffrôdd:

Atraig Cu Chulaind ina sudi iarom labrais iar sin. "Bá mithig ém" ol Ulaid "aní sin".

<sup>31</sup> Ibid., 5.99-100.

<sup>32</sup> Ibid., 5.23-6, 79, 94-5.

<sup>33</sup> Ibid., 5.33, 11-12.

[Cu Chulainn sat up then and spoke. "It was high time", said the Ulaid.]<sup>34</sup>

Anhawster arall a ddaw i ran Cynddelw yw'r pellter rhyngddo ac Efa:

Gorfynnawg drythyll, gorwyth iolwyf  
Gorddawg pall eurawg pell nas gwelwyf.

Pellynnig fy nghof yng Nghaerwys dir,  
Pell ydd wyf i'm nwyf, oni thelir,<sup>35</sup>

Gwelsom y syniad hwn eisoes yng Ngorhoffedd Hywel ab Owain Gwynedd:

Ail yw'r llall o'r pall, pell fy min  
I wrthi, i am orthorch eurin.<sup>36</sup>

Cyfarch ei farch, ei 'peddestrig iolydd' a wna yn un o'r awdlau hyn,<sup>37</sup> yn union fel y gwnaeth Cynddelw a gofyn iddo fynd i ymbilio ar ei ran ar y ferch bell oherwydd ei gyflwr anghymedrol a'i ynfydrwydd:

Adwyf-i yn anfedredd o ynfydrwydd - caru,<sup>38</sup>

Mewn awdl arall dymuna fynd ar gefn ei farch i ymweld â llys Ogrfan lle dywed iddo gael ei wrthod a'i sarhau gan y ferch. Er gwaethaf yr holl boen a gofid a achosodd hi iddo - clywn iddi fynd â'i fywyd a'i adael yn wan - y mae ef yn dal i ddymuno ei gweld ac adrodd iddi ei gariad a'i dristwch:

I adrawdd caru, can doeth i'm rhan,  
I edryd fy lledfryd-i, a'i lled ofrwy,  
I edryd llywy lliw ton dylan  
(Llifant o'i chyfoeth a ddoeth atan),  
Lliw eiry llathr oerfel ar uchel fan,  
Rhag fal y'm coddid-i yn llys Ogrfan,  
Chweris o'i haddawd-hi addoed cynran,  
Ethiw â'm henaid-i, athwyf yn wan;

<sup>34</sup> O'Sullivan, *op. cit.*, t. 25.

<sup>35</sup> GCBM i 5.21-2, 131-2.

<sup>36</sup> GLIF 6.53-4.

<sup>37</sup> *Ibid.*, 7.17.

<sup>38</sup> *Ibid.*, 7.19.



Neud athwyf o nwyf yn ail Garwy Hir,  
I wen a'm lluddir yn llys Ogrfan.<sup>39</sup>

Dieithr iawn i'r cerddi hyn gan Hywel i ferched anhysbys yw naws ac agwedd chwareus yr Orhoffedd tuag at ddiodefaint serch. Yn y cerddi byrion hyn gwelir Hywel yn crynhoi ac yn cronni pob poen a gofid a brofodd oherwydd methiant carwriaeth, ac y mae'n eu trin â difrifoldeb. Yn yr awdl a ddyfynnir isod y mae'n drist ac yn hiraethus â'i galon wedi ei dryllio gan ferch sy'n ei rwystro rhag cysgu a rhag bod yn llawen. Y mae, serch hynny, yn dymuno teithio i wlad Cynlas ar ei farch er mwyn ymddiddan â hi cyn iddo farw o'i herwydd. Ond erbyn y diwedd sylweddola oferedd yr ymgais hon, a deisyfa farw ar unwaith, yn hytrach na dioddef mwy:

As unasn-i heddiw, farch gloyliw glas,  
Athreiddiaw arnat geinwlad Gynlas,  
I haeddu daddl faith cyn llaith lleas,  
Gan hun arlluddiaw, hoen arlluddias.  
Ac imi bai arwydd er yn was - edmyg:  
Ei lliw oedd debyg gwenyg gwynlas.  
Hiraethawg fy nghof yng nghyweithas,  
Hoed erddi, a mi genddi yn gas!  
Cyd gwnelwyf ar ddyn urddas - o foliant,  
Ni'm gwna poen rwyddiant boddiant, pa dras!  
Ton a galon hon, hoed a gafas  
Er twf main riain ruddaur wanas.  
Nid ydyw heddiw, nid huaddas - fy mhorth,  
Yn y myn ydd oedd fy mherthynas.  
Oi a un Mab Duw o deyrnas -nef,  
Cyn addef goddef, gwae fi na'm llas!<sup>40</sup>

Mae'r syniad hwn o bellter y bardd oddi wrth wrthrych ei serch, neu amor de lonh, yn thema amlwg yng nghanu'r trwbadwriaid. Cawn rywfaint o eglurhad ar y cysyniad hwn ym muchedd chwedlonol Jaufré Rudel.<sup>41</sup> Syrthiodd Jaufré, tywysog Blaye, mewn cariad â Iarlles Tripoli a hynny oherwydd yr hyn a glywodd amdani gan bererinion o Antioch er nad oedd erioed wedi ei gweld. Cyfansoddodd nifer o gerddi iddi, ac oherwydd ei awydd mawr i'w gweld fe

<sup>39</sup> *Ibid.*, 9.6-15.

<sup>40</sup> *Ibid.*, 11.

<sup>41</sup> Gweler Bloch, *op. cit.*, tt. 153-4.

benderfynodd hwylio i Dripoli. Daeth afiechyd mawr drosto yn y llong a phan laniodd aethpwyd ag ef i dafarn fel dyn marw. Hysbyswyd yr iarllles, a daeth hi ar ei hunion at ei erchwyn a'i godi yn ei breichiau. Adnabu ef hi a gwellhaodd ar unwaith, ac adferwyd ei allu i weld ac arogl. Diolchodd i Dduw am ei gadw'n fyw yn ddigon hir i'w gweld hi, a bu farw yn ei breichiau. Trefnodd hithau angladd anrhydeddus iddo yn nhŷ'r Deml, ac ar yr un diwrnod aeth yn lleian oherwydd ei phoen ar ôl ei farwolaeth.

Clywir olion y stori hon yng ngherddi Jaufré lle mae absenoldeb ei gariadferch yn ganolbwynt i'w ganu:

Ver ditz qui m'appella lechay  
Ni deizron d'amor de lonh,  
Car nuls autres joys tam no'm play  
Cum jauzimens d'amor de lonh.

[He speaks truly who called me "the one who desires distant love," for no other joy pleases me than the pleasure of a distant love.]<sup>42</sup>

Yn wir, ymddengys y pellter hwn yn bleser i'r bardd, ac - fel y gwêl Howard Bloch - amcanai'r bardd gadw'r pellter rhyngddo a'r ferch yn hytrach na'i ddileu:

Iratz e gauzens m'en partray,  
S'iau je la vey, l'amor de lonh.

[Sad and happy, I would separate myself from her, if ever I see this faraway love.]<sup>43</sup>

Yn ôl Bloch, deisyfu'r pellter ei hun y mae Jaufré ac nid y ferch:

The condition of the poet's loving is, in other words, that he love and not be loved ("Qu'ieu ames e no foz amatz"), in other words, that the woman remain unattainable.

If Jaufré seems to desire an absent love but would renounce it in her presence, what, then, does he love? The traditional reading maintains

<sup>42</sup> *Ibid.*, t.155.

<sup>43</sup> *Ibid.*

that the poet loves her who is far away because she is the most difficult, and therefore the most worthy, object. Yet everything we have seen thus far pressures us towards another reading, according to which Jaufré's desire has little or nothing to do with the lady. On the contrary, what he desires is the distance that separates him from the possibility of presence, which, again in keeping with what we have defined as the paradox of virginity, would sully the purity of the "one whose value is so pure and perfect" ("Tant es sos pretz verais e fis"). Jaufré desires, above all, to keep the lady distant.<sup>44</sup>

Gwelwyd gwrthdaro ym marddoniaeth Profens rhwng angen y bardd i ddyrchafu ei arglwyddes yn ôl rheolau moesgar amour courtois a le culte d'un object excellent a'i awydd fel bardd serch i'w moli.<sup>45</sup> Gosodai meddylfryd y gymdeithas ffiwdal fwlch ychwanegol rhwng y bardd isel ei statws a'r arglwyddes anhygyrch uchelwrol, ac ystyrir ei ymdrech i'w hennill hi'n gariad yn ymdrech gudd i hyrwyddo ei statws cymdeithasol ef. Ond beth bynnag oedd gwir amcanion y bardd wrth fynegi serch tuag at y ferch, rhaid oedd cynnal cydbwysedd, wrth ei hannerch yn y llys, rhwng ei ddymuniadau ef ei hun a'r disgwyliadau a'r dyletswyddau yr oedd angen iddo ef eu cyflawni wrth ganu mawl i arglwyddes ddiwair, fonheddig. Yn hyn o beth byddai amor de lonh yn datrys yr anhawster. Yn y modd hwn, nid ystyria Fulton fod honiadau Jaufré ynglŷn â'i hoffter o'r pellter rhyngddo a'i gariadferch yn tanseilio grym ei serch:

Geographical distance between a poet and his mistress rationalizes the emotional conflicts inherent in courtly love: the separation causes longing and suffering but at the same time produces joy because it preserves the fine quality of amors and prevents it from descending to mere lust. Jaufré's desire for physical union can therefore be safely expressed without undermining the value of his love.<sup>46</sup>

Ond er pwysiced thema caru o bell yng nghanu'r trwbadwriaid ac ymdriniaeth ofalus Hywel ab Owain Gwynedd o'i weledigaeth ef ynglŷn â seithugrwydd caru merch anhygyrch, ni ddatblygir y syniad hwn gan y Gogynfeirdd

<sup>44</sup> Ibid.

<sup>45</sup> Gweler Dronke, op. cit., t. 4.

<sup>46</sup> Fulton, op. cit., t. 11.

diweddarach wrth iddynt gyfarch eu harglwyddesau a chwyno amdanynt. Mae Iorwerth Fychan yn crybwyll pellter Gwenllian:

Gorffowys â'm gran o'i ban ni'm bydd.  
 Gorffwyllaf, molaf mal awenydd  
 Gorffwyllawg enwawg ddeifniawg ddefnydd.  
 Gorphell y'm cymell camre iolydd - cain:<sup>47</sup>

Sonia Gruffudd ap Dafydd ap Tudur am fynd ar daith i weld y ferch dawedog sy'n ei anwybyddu:

Daith wylboen dyn detholbryd<sup>48</sup>

Ond ac eithrio'r sylwadau byrion hyn, y mae'r syniad o bellter daearyddol yr arglwyddes yn absennol i bob pwrpas o ganu llys Cymraeg ar ôl adeg Hywel ab Owain Gwynedd hyd nes i Gasnodyn ddechrau canu bron i ddau gan mlynedd yn ddiweddarach.

Nid yw'n rhyfedd i'r motif hwn apelio at Gasnodyn wrth ganu i ferched gan fod ganddo ddiddordeb mawr mewn cyfodod elfennau gwrthgyferbyniol drwy gydol ei ganu, fel y dangosodd Geoffrey Ballinger yn ei astudiaeth o waith y bardd:

A barnu oddi wrth y dyrnaid cymharol fychan o'i gerddi a erys, nodweddir gwaith Casnodyn gan y ffordd y cyfosodir ynddo wahanol elfennau gwrthgyferbyniol, gwrthgyferbyniadau sydd, yn eu hanfod, yn deillio gan amlaf o safle'r bardd yn ei fyd. Yn y rhan fwyaf o'r cerddi mae tyndra i'w weld yn y llinellau cyntaf ac ni cheir rhyddhad ond trwy fynd ar daith - boed i ymweld â rhaiain, noddwr neu, yn yr awdlau i'r Drindod, Dduw - a thrwy swyddogaeth gysygreddig y gerdd ei hun. Tua diwedd bron pob cerdd ceir y syniad o 'wir-foeli' wrth i'r bardd ymhonni yn ei reolaeth ar ei amgylchiadau. Barddoni'n unig a all leddfu'r boen y mae'r bardd yn dweud ei fod yn ei dioddef.

Gellir amlinellu'r broses fel hyn:

<sup>47</sup> GBF 30.38-41.

<sup>48</sup> GGDT 4.71.

---

Tyndra → Taith → Pleser/Poen → Datganiad <sup>49</sup>

---

Ceir gan Gasnodyn bedair awdl serch lle y mae pellter gwrthrych y cerddi bob tro'n elfen amlwg ynddynt. Yn ei awdl i Awd yn unig yr enwir achos y gwrthgyferbyniad a'r tyndra hwn gan gyfeirio'n uniongyrchol at y pellter:

Perais ffysg glud-ddysg glod-ddull,  
(Perigl hun!) er hun o bell;

Tra fwyf, rhyhirglwyf Rhyawd, - i wrthi,<sup>50</sup>

Ond hon hefyd yw'r fwyaf anarferol o'r awdlau hyn gan nad yw'r bardd mewn gwirionedd yn cynllunio taith at Awd ond yn anfon y gerdd ati ar ffurf llythyr. Cyferbynnir y pellter rhwng cartref y bardd a'r arglwyddes yn yr englyn cyntaf ac wrth gloi'r gerdd:

Wythcant annerch, ddawnserserch ddyn,  
Uthr frys, fro henRhys frenin,  
A aeth dros Nedd wedd wahan  
A Thawy ar lywy lun.

Llawer annerch serch seiliawd (- brad aele!)  
Bro Deilaw a'i logawd  
O wlad faith, gludwaith glodwawd,  
Forgant a redant ar Awd.<sup>51</sup>

Cynydda'r pellter daearyddol hwn yn ei awdl i ferch o Fôn. Noda eto, yn yr englyn cyntaf, ei leoliad ef ei hun yng Nghaerllion gan nodi fod cartref y ferch ym Môn:

Cyn bwyf gwas gruddlas greddf anfon - bwyllfraw,

---

<sup>49</sup> G.C. Ballinger, 'Astudiaeth o Waith Casnodyn, Dafydd y Coed ac eraill yngh nhyd-destun barddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg', traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru, 1991, t. 23.

<sup>50</sup> GC 6.9-10, 49.

<sup>51</sup> *Ibid.*, 6.1-4, 53-56.

O bellfro Gaerllion,  
Dawn obaith cyfiaith cofion,  
Dyn gŵyl yw fy annwyl o Fôn.<sup>52</sup>

Gwyddom, o'r dechrau, effaith y ffeithiau daearyddol hyn ar y bardd ac y mae hyn yn rhan o achos y dioddefaint a ddaw yn ei sgil. Y mae atgoffa cryf o'r pellter wrth i Gasnodyn gloi pob englyn yn y gyfres â'r enw 'Môn'. Mae'r ailadrodd cyson hwn yn adlewyrchu diymadferthedd y bardd, a'i ddifflastod o wybod na all symud yr ynys er mwyn gweld y ferch. Fe all, fodd bynnag, deithio i Fôn, a dyna a wna:

Teg ddygaf, yr haf, ar hoyw fanon - dwf  
Y dyfu ym gofion  
(Tawl hawl hylwyth ofalon)  
Taith hyder maith hoywdir Môn.

Gwelais pan gerddais gorddefr afon - rin,  
Gŵyl riain ddianfon,  
Gwir ddiseml a gwâr ddison,  
Gwawr hirddydd mawr harddedd Môn.<sup>53</sup>

Llwydda i weld y ferch, ond ni ddaw iddo unrhyw lawenydd o hyn. Ei gweld yn unig a wna ac ni chaiff gyffwrdd na chynnal sgwrs â hi - di-sôn yw hithau tuag ato, er gwaethaf ei ymdrech i'w chyfarfod.<sup>54</sup> Nid yw, mewn gwirionedd, wedi lleihau dim ar y pellter rhyngddynt, anhygyrch ydyw hi o hyd.

Nid y pellter corfforol rhyngddynt oedd yr unig wrthgyferbyniad a ddefnyddiodd Casnodyn i ddarlunio'i rwystredigaeth. Yn ôl Ballinger, 'Cyferbynnir anaeddfedrwydd y bardd ifanc ac aeddfedrwydd ei feistres ... cyferbynnir y ddau ryw ...' a 'chyferbynnir "braw" y presennol â'r gobraith am ryddhad yn y dyfodol.'<sup>55</sup> Gwêl ef yma wrthgyferbynnu cofion y bardd â'i ofidiau, a bod y modd y cyfosodir y presennol a'r gorffennol yn deillio o hyn.

<sup>52</sup> *Ibid.*, 3.1-4.

<sup>53</sup> *Ibid.*, 3.9-16.

<sup>54</sup> Gweler Ballinger, *op. cit.*, t. 25.

<sup>55</sup> *Ibid.*, t. 24.

Adroddir am daith ar farch i ymweld â merch Gruffudd fab Iorwerth yn yr awdl a ganodd Casnodyn iddi hi hefyd:<sup>56</sup>

Saethfarch ceindrafnidir dindir danaf,  
Seri eglurfryn cyn cynhaeaf,  
Syw dymawr, rhwyfwawr, yr haf - arbennig,  
Soredig eiddig elwig alaf.<sup>57</sup>

Ymddengys mai anfon ei farch yn llatai at Wenllian ferch Cynan a wna mewn awdl arall:

Elw dreiddiaw ni'm daw traw trwy gysteg,  
Elfydd twf clodrydd, dydd na deuddeg;  
Ail Cain Galed, rhed i'm rheidreg - obaith,  
Oleufaith hoywdaith, fraint ehedeg.<sup>58</sup>

Ond mae'n debyg iddo eisoes deithio i'w gweld ar gefn y march:

Man y'm dug gwelwlym ar rym redeg.<sup>59</sup>

Yn englyn olaf yr awdl hon, fodd bynnag, y diriaetha'r pellter a'r daith tuag at y ferch yn fwyaf trawiadol. Gwahana'r ferf 'myned' ar ddechrau'r englyn oddi wrth ben y daith, sef Dinorwig, a gyflwynir yn symbolaidd ar ddiwedd yr awdl:<sup>60</sup>

Myned er gweled (gwenned gwaneg!)  
Manon, wawr Arfon, gofion gofeg,  
Maengaer glod belltaer, glud ballteg, - mygrfan,  
Meingan ddyn eurwan, i Ddinorweg.<sup>61</sup>

Mae'r defnydd hwn o'r march fel llatai wrth ganu am garu o bell yn ein tywys yn ôl at awdlau serch Hywel ab Owain Gwynedd, ac mae'n bosibl felly ystyried i'r thema hon ddatblygu o elfen gynhenid ym marddoniaeth y llys Cymraeg ac

<sup>56</sup> Y mae'n bosibl mae iddi hi y canwyd yr awdl flaenorol hefyd, gweler *ibid.*, t. 502.

<sup>57</sup> GC 4.9-12.

<sup>58</sup> *Ibid.* 5.58.

<sup>59</sup> *Ibid.*, 5.32.

<sup>60</sup> Gweler Ballinger, *op. cit.*, t. 517.

<sup>61</sup> GC 5.33-36.

nid o dan ddylanwad Jaufré Rudel a'r trwbadwriaid. O gofio ymdriniaeth Casnodyn o fotif y daith yn ei holl ganu, gan gynnwys canu i arglwydd y llys ac i Dduw, ac nid yn ei awdlau serch yn unig, gellid hefyd haeru mai cam naturiol oedd iddo ymestyn ei weledigaeth a datblygu'r syniad o amor de lonh yn annibynnol ar unrhyw ddylanwad allanol. Er hynny, ni fyddai gwreiddioldeb o'r fath, o bosibl, yn rhywbeth a gymeradwyid gan ei gyd-Ogynfeirdd.

Gwyddom fod yna draddodiad Cymraeg o ddiodeff poenau serch yn yr oesoedd canol, a chyn hynny. Soniwyd eisoes am englynion gwirebol 'Y Gorwynion', ond mae'n rhaid mae'r enwocaf o'r disgrifiadau o effaith gofid cariad ar y Cymry canoloesol yw'r hyn a glywn am Gilfaethwy yn Pedair Keinc y Mabinogi:

ac ynteu Giluaethwy uab Don a dodes y uryt ar y uorwyn, a'y charu hyt na wyddat beth a wney ymdanei. Ac nachaf y liw a'y wed a'y ansawd yn atueilaw o'y charyat, hyt nad oed hawd y adnabot.<sup>62</sup>

Roedd colli pob synnwyr a lliw a gwanhau felly'n rhan o draddodiad Cymreig cynnar wrth fynegi dioddefaint serch - â derbyn nad ychwanegiad diweddarach i'r chwedl yw'r disgrifiad hwn o gyflwr Gilfaethwy. Ymddengys hefyd i'r traddodiad ddatblygu'n annibynnol gan na wêl O'Sullivan unrhyw debygrwydd rhwng y symptomau hyn a'r hyn a welodd wrth astudio poenau serch beirdd Gwyddeleg y cyfnod.

Ond mae gennym hefyd yn ein llenyddiaeth enghraifft nodedig o amor de lonh yn chwedl Culwch ac Olwen, wrth i Gulhwch ymserchu yn Olwen cyn iddo'i gweld:

Lliuaw a oruc y mab, a mynet a oruc serch y uorwyn ym pob aelawt itaw kyn nys rywelhei ei roet. Amkawd y dat wrthaw, 'Ha uab, py liuw ti? Pa drwc yssyd arnat ti?'<sup>63</sup>

<sup>62</sup> PKM, t. 67.

<sup>63</sup> CO, tt. 2-3.



Ac fel Jaufre, y mae yntau hefyd yn adnabod gwrthrych ei serch pan y mae, o'r diwedd, yn ei gweld:

Ac ual y gwelas yd adnabu.<sup>64</sup>

Cofiw'n hefyd y stori am Macsen, Ymerawdwr Rhufain, yn gweld Elen mewn breuddwyd ac yn teithio'r holl fordd i Gaernarfon i'w hennill. Cawn ddisgrifiad manwl o geinder gwisg a gwedd yr arglwyddes ddisglair hon, ac yna sôn am effaith eu gweld ar Macsen:

A phan deffroes, hoedel, nac einyoes, na bywyd nyt oed idaw am y vorwyn ry welsei trwy y hun. Kygwn vn ascwrn yndaw, na mynnwes vn ewin yghwaethach lle a vei vwy no hwnnw nyt oed bei gyflawn o garyat y uorwyn.<sup>65</sup>

A dyma sut yr esbonia'r sefyllfa i'w filwyr sy'n cwyno amdano:

“Doethon Ruuein,” heb ef. “breudwyd a weleis i, ac yn y vreudwyd y gwelwn morwyn. Hoedyl na bywyd nac einyoes nyt oes im am y vorwyn.”<sup>66</sup>

Ac nid clefyd sy'n effeithio ar ddynion yn unig mo hyn. Clywn hefyd am Riannon yn cyrchu Pwyll o gariad tuag ato, ac yntau hefyd yn ddieithryn iddi cyn y cyfarfyddiad hwn:

“Arglwyddes,” heb ef, “a dywedy di ymy dim o'th negesseu?” “Dywedaf, y rof a Dyw,” heb hi. “Pennaf neges uu ymi, keissaw dy welet ti.” “Llyna, “ heb y Pwyll, “y neges oreu gennyf i dy dyuot ti idi. Ac a dywedy di ymi pwy wyt ?” “Dywedaf, Arglwyd,” heb hi. “Riannon, uerch Heueyd Hen, wyf i, a'm rodi y wr o'm hanwod yd ydys. Ac ny mynneis innheu un gwr, a hynny o'th garyat ti. Ac nys mynnaf etwa, onyt ti a'm gwrthyt. Ac e wybot dy attep di am hynny e deuthum i.”<sup>67</sup>

<sup>64</sup> *Ibid.*, t. 18.

<sup>65</sup> BM t. 4.

<sup>66</sup> *Ibid.*, t. 5. Mae'n ddiddorol nodi mai cwyno am effaith serch arno y mae gwŷr Macsen ac nid ei edmygu, ac nad yw ef yn colli cwsgr drwy'r clefyd hwn ond yn hytrach yn cysgu mwy nag arfer er mwyn breuddwydio am Elen! Y mae ef hefyd yn cychwyn ei daith faith i Gymru wedi iddo'n gyntaf anfon cenhadon i nôl Elen, a derbyn yr ateb “os miui a gar yr amherawdyr, deuhet hyt yman y'm ol” ganddi hi, t. 8.

<sup>67</sup> PKM, t. 12.

Ceir term technegol yn y Wyddeleg am hyn, sef grádh / sercc écmaise - ‘cariad at rywun sy’n absennol’.<sup>68</sup>

Ond er nad oes sôn am y carwyr hyn a rhyfeddod caru o bell yng nganu’r Gogynfeirdd i’w harglwyddesau, cyfeirir ganddynt at arwyr eraill o blith carwyr enwog y wlad. Mae Hywel ab Owain Gwynedd yn cyfeirio at Garwy Hir yn un o’i awdlau serch:

Neud athwyf o nwyf yn ail Garwy Hir,  
I wen a’ m lluddir yn llys Ogrfan.<sup>69</sup>

Ni wyddom fawr ddim am y gŵr hwn, ond i’w ferch, Indeg, gael ei rhestru yn y Trioedd fel un o dair ‘karedicwreic’ Arthur.<sup>70</sup> At y traddodiad hwn y mae Gruffudd ap Maredudd yn cyfeirio yma:

Meu dogyngur arthur o orthir prydein.  
yr dyn prifdec llawir;  
arwyd y chlot a eurir.  
eiry hoen am verch arwy hir.<sup>71</sup>

Serch hynny, ymddengys fod y beirdd yn gwybod am draddodiad amdano fel carwr gwrthodedig, gofidus. Clywn Hywel ab Einion Lygliw yn sôn iddo gael ei rwydo fel Garwy yn ei awdl i Fyfanwy:

Neud wyf ddiwynwyf, hoen Creirwy - hoywdeg  
A’ m hudodd mal Garwy,<sup>72</sup>

Ac mae Prydydd y Moch yn cymharu Llywelyn ab Iorwerth o Wynedd â Garwy yn ei awdl fawl iddo:

Ceraist o’ th febyd, gwryd Garwy,

---

<sup>68</sup> CO, t. 52.

<sup>69</sup> GLIF 9.14-15.

<sup>70</sup> TYP 57.

<sup>71</sup> R 1326.16-18.

<sup>72</sup> GGLI 1.1-2.

Caru bun weddaidd, luniaidd lywy,<sup>73</sup>

Ymddengys Casnodyn, hefyd, yn awyddus i gael ei gysylltu â Rhyawd wrth iddo gwyno ynglŷn â'i glwyfau emosiynol:

Poen Ryawd ddefawd (od addeaf)  
Pan fu berygl wan am gan gunaf,  
Peunydd, pwyll Berthydd, pell borthaf - er hon  
Penyd bron ddilon ddelw yd nychaf.<sup>74</sup>

Ryhawdd y bŷm ail Rhyawd,  
Rhy hir ymoedir am Awd.

Tra fwyf, rhyhirglwyf Rhyawd, - i wrthi,  
Hoed beri, hud barawd,  
Ni'm dywan diddan deddfnawd,  
Ni'm daw cyfadaw cof Awd.<sup>75</sup>

Ymddengys Rhyhawd ail Morgant hefyd yn Trioedd Ynys Prydain, a hynny fel un o'r Tri Oferfeirdd.<sup>76</sup> Roedd hefyd yn berchen ar Rhuddfrych, un o'r Tri Gordderchfarch.<sup>77</sup> Y mae'n aneglur yn ôl Rachel Bromwich ai meirch annwyl neu feirch o eiddo carwyr a olygir yma, ond nodar modd y cysyllta Chotzen y triawd hwn â'r confensiwn o anfon meirch yn llatai.<sup>78</sup>

Roedd y beirdd hyn felly'n ymwybodol o draddodiad o garwyr enwog yn hanes y wlad ac o effeithiau serch arnynt, a dymunent gael eu cysylltu a'u cymharu â'r arwyr hynny. Un elfen arall o'u hymffrost felly oedd eu dioddefaint oherwydd serch. Ond er eu cwynion iddynt gael eu trin yn oeraidd a chreulon gan yr arglwyddesau y mae'r beirdd yn parhau'n ffyddlon i'w swyddogaeth fel beirdd llys ac yn canu mawl safonol a ffurfiol i'r merched ar draws yr ebychiadau hyn o wae. Gwelir hyn ar ei amlycaf yn rhieingerdd Cynddelw Brydydd Mawr i Efa.

<sup>73</sup> GLILI 22.31-1.

<sup>74</sup> GC 4.17-20.

<sup>75</sup> *Ibid.*, 6.23-4, 49-52.

<sup>76</sup> TYP 12.

<sup>77</sup> TYP 41.

<sup>78</sup> *Ibid.*, t. 103.

Er gwaethaf yr holl boenau yr honna iddo'u dioddef o'i herwydd hi, disgrifia Efa'n gyson fel patrwm o arglwyddes lysaidd, fonheddig. Yn wir, tyf y cwynion hyn ynglŷn â'i diffyg diddordeb yn y bardd yn rhan o'i fawl iddi fel arglwyddes ddiwair ac uchelwrol. Pwysleisia Cynddelw yn ddiflino na wyrodd Efa unwaith oddi wrth ymddygiad delfrydol gwraig y llys er iddo yntau geisio'i orau glas i'w hennill yn gariad:

Can ni wnei-di erof, er a ganwyf,  
Na wna fi, feinwen, fal na hunwyf,  
Ni'th wna'f ernywed er na'th gaffwyf.

A chen ni'm caro, na'm cerydded - fyth:

Ni'm hathraidd-i meingan meingadr ei hystlys,  
Ni'm hu frys o'i llys i'w llaes ymdaith:

Neu'm rhydraeth hiraeth, feddfaeth facwy,  
Am a rygaraf-i, ceni'm carwy,

Nid amgen y'm rhydd, ni'm rhybuchir!<sup>79</sup>

Y mae hyd yn oed ei morynion yn ei wrthod:

Trybelid wylain a wylant - arnaf,  
Traul ateb ataf a ddanfonynt.<sup>80</sup>

Gwrthod felly oedd ymateb perffaith y ferch ddelfrydol anhygyrch i ymgais y bardd i'w denu. Ceir hyd yn oed ddathlu yng ngallu, ac yn wir yng nghreffft yr arglwyddes wrth beri poen i'r bardd:

a phwyll oed y hirdwyll hi.<sup>81</sup>

Gwyddiai agwyddior anun,  
Gweddaidd ely-naidd wyl lun.<sup>82</sup>

<sup>79</sup> GCBM i 5.32-4, 61, 85-6; 95-6, 122.

<sup>80</sup> *Ibid.*, 5.15-16.

<sup>81</sup> R 1329.1 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>82</sup> GGDT 4.43-4.

Cyfeirir ati yn y dyfyniad diwethaf hefyd fel un elyniaethus, ond nid sarhad eithr elfen o ddisgrifiad canmolus o'r ferch wylaidd, lunaidd ydyw hyn. Yn yr un modd molir ei gallu i ddinistrio lluoedd o ddynion drwy eu gwrthod:

Llu ddifrawd hyffawd hoffaf - cer Meuryg,  
Lliw gwynblyg gwenyg, gwen ei hadaf.

Miloedd draul, ne haul hafddydd,<sup>83</sup>

Yma eto, gwelwn mai rhan o'r mawl yw'r cyfeiriadau hyn a grybwyllir wrth ddarlunio croen gwyn a disglair yr arglwyddes. Pentyrru elfennau delfrydol y mae Llywelyn Brydydd Hoddnant yma yn ei awdl i Ellylw, hyd yn oed wrth gyfeirio ati fel 'llid cant' a 'chlwyf cant',<sup>84</sup> a mynna nad yw'n ei beio.<sup>85</sup> Y rheswm dros ei ddioddefaint ef a'r cant o ddynion eraill, meddai, yw eu bod yn ceisio merch ddiwair:

Lledfryd yw gofyn dyn diweiraf<sup>86</sup>

Canlyniad anochel ceisio merch uchelwrol, fonheddig yw siom a gofid, ac oherwydd hyn y mae'r beirdd yn croesawu'r boen. 'Ysblennydd gawad', sef 'haint ysblennydd' y mae Iorwerth Fychan yn ei ddioddef oherwydd Gwenllian,<sup>87</sup> ac y mae Gruffudd ap Dafydd ap Tudur yn mynd ar daith 'wylboen' at ei arglwyddes ef.<sup>88</sup> O ganlyniad, nid oes ganddynt ddiddordeb mewn gwella o'r salwch hwn:

Esgor ei hepgor nid mi ddorfydd!<sup>89</sup>

<sup>83</sup> GLIBH 3.15-16, 39.

<sup>84</sup> *Ibid.*, 3.26, 48.

<sup>85</sup> *Ibid.*, 3.10.

<sup>86</sup> *Ibid.*, 3.25.

<sup>87</sup> GBF 30.65, gweler diweddariad Christine James, t. 327.

<sup>88</sup> GGDT 4.73.

<sup>89</sup> GBF 30.51.

Wrth bwysleisio'r modd yr oedd yr arglwyddes yn eu gwrthod roedd y beirdd yn ategu'r darlun ohoni fel gwraig ddiwair, ac felly hefyd yn dyrchafu llinach yr arglwydd gan na fyddai hwn mewn perygl oherwydd carwriaethau ei wraig. Er iddynt restru eu clwyfau dan gwyno ac ochneidio, nid oeddent yn wir gyhuddo'r arglwyddes ond yn canu mawl i'w diweirdeb, ei harddwch a'i bonedd, sef rhinweddau delfrydol yr oes.

DIWEDDGLO

Canu cyhoeddus ac nid canu personol oedd canu'r Gogynfeirdd i ferched. Perthynas bardd a'i noddwr, neu ag aelodau benywaidd o deulu ei noddwr, a adlewyrchir yn yr awdlau mawl a marwnad ffurfiol hyn, yn hytrach na pherthynas rhwng dau gariad - er bod elfennau canu serch yn amlwg iawn mewn llawer o'r cerddi. O ganlyniad, tystiolaeth ynghylch un haen gymdeithasol yn unig a gawn yn y canu, sef yr élite uchelwrol, ac ychydig iawn a ddysgwn am fywyd merched a gwragedd cyffredin y cyfnod. Darlun o'r delfryd a osodwyd iddynt hwy ymgyrraedd ato a gawn yn y disgrifiadau o'r arglwyddesau perffaith a bonheddig. Byddai'r delfryd hwn wedi treiddio i lawr i ymwybyddiaeth yr haenau cymdeithasol is, ac yn wir, gwelir ôl llawer o'r disgwyliadau canoloesol hyn ar syniadau diweddar iawn ynglŷn â safonau moesoldeb a gweddusrwydd sy'n briodol i ferched, waeth beth fo'u hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd.

Molwyd gwraig yr arglwydd canoloesol am ei harddwch, ei gwisg ysblennydd a'i hymddygiad cwrtais gerbron gwesteion y llys - nodweddion a fyddai'n amlwg iawn i'r beirdd a ymwelai â'i llys. Gwelsom fod gallu'r arglwyddes i ddifyrru a darparu adloniant yn rhinwedd a werthfawrogid ers cyfnod cynnar iawn. Wrth sôn am y parch a'r statws a fu i'w chwiorydd cyn cwmp llys Pengwern pwysleisia Heledd iddynt fod yn 'ddiddan',<sup>1</sup> a chofiwn fel yr edmygid y rhinwedd hwn gan y Gogynfeirdd hefyd wrth ganu i ferched aristocrataidd. Elfennau o fonedd y merched oedd eu sgwrs ddifyr, megis gwynder eu croen a'u dillad moethus, a darlunio'r uchelwriaeth hon oedd diben y llu o ddisgrifiadau a geir o ymddangosiad ac ymarweddiad yr arglwyddesau. Mae pob nodwedd a folir yn ategu ac yn dyrchafu eu llinach ac yn brawf o'u magwraeth uchelwrol. Gwelwn hyn yn amlwg iawn yn 'Awdl y Breuddwyd' Gruffudd ap Tudur Goch:

Ac uwch gloyw naw llaw llygaid duon,  
Bonheddig eilig aeliau meinion

---

<sup>1</sup> CLIH, XI, 108a.

...

A bysedd hwyrwedd, hirion, - a'i gwynnedd  
Mal y bydd bunedd boneddigion.<sup>2</sup>

Addfwynder, sef bonedd, a llinach anrhydeddus ei chwiorydd oedd diddordeb pennaf Heledd wrth eu marwnadu, a phwysleisia mai merched Cyndrwyn oeddynt:

Amser i buant addfwyn,  
I cerid merched Cyndrwyn,<sup>3</sup>

Yn yr un modd y cyfeirid at arglwyddesau'r Gogynfeirdd, fel y gwelwn yma ym marwnad Gronw Gyriog i Wenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan:

Merch Fadog rieddog radd,<sup>4</sup>

A gan Gruffudd ap Maredudd cawn y disgrifiadau canlynol o uchelwriaeth arglwyddes:<sup>5</sup>

gloewdrem riein arglwydryw.<sup>6</sup>

amvun dawel uchelwaet.<sup>7</sup>

Ond nid nodwedd ddelfrydol ar arglwyddesau'n unig oedd y boneddigeiddrwydd hwn, yn wir, roedd yn elfen hanfodol o gymeriad yr arglwydd ac yn adlewyrchu ar fywyd y llys cyfan. Roedd felly'n rhan anhepgor

---

<sup>2</sup> GGrG 8.21-2, 31-2.

<sup>3</sup> CLIH, XI, 107a-b.

<sup>4</sup> GGrG 2.30.

<sup>5</sup> O ystyried y pwyslais a roddid ar linach a thras yn y canu hwn, mae'n syndod na chyfeirir at blant yr arglwyddesau, sef etifeddion y llys.

<sup>6</sup> R 1326.28-9.

<sup>7</sup> *Ibid.*, 1319.13.



o fawl y beirdd llys, ac yn ganolbwynt i'w canu. Dyma sylwadau Dafydd Johnston:

Roedd yr uchelwyr yn dal i gael eu moli am eu cadernid a'u haelioni yn arwain ac yn noddi'u pobl, yn union fel y tywysogion, ond roedd un peth sylfaenol yn eisiau bellach, sef sofraniaeth y tywysog. Roedd gan dywysog hawl foesol ar foliant y beirdd am ei fod yn cynrychioli llinach frenhinol y dalaith. Roedd yn rhaid i uchelwr, ar y llaw arall, ennill moliant trwy rinwedd ei gymeriad, ei weithredoedd, a'i ffordd o fyw - h.y. trwy ei uchelwriaeth. Moliant y bardd fyddai'n rhoi sêl bendith ar ei safle cymdeithasol ac yn datgan ei fod yn uchelwr o'r iawn ryw. Os caf grynhoi'n eithafol er mwyn gwneud pwynt, roedd tywysog yn cael ei foli am ei fod yn dywysog, ond roedd uchelwr yn uchelwr am ei fod yn cael ei foli. ... Hanfod uchelwriaeth, neu berchentyaeth, oedd y llys moethus, agored, a fyddai'n ganolbwynt i'r gymuned leol, a hefyd yn sumbol gweladwy o staws yr uchelwr.<sup>8</sup>

Sumbol arall o statws arglwydd y llys fyddai ei wraig hardd, fonheddig.

Serch hynny, nid oedd uchelwriaeth yr arglwyddes o reidrwydd yn golygu fod iddi hithau hefyd statws cyffelyb â'i gŵr. Gwahanol iawn, mewn gwirionedd, oedd sefyllfa'r arglwyddesau y canai'r trwbadwriaid iddynt, yn ôl Sarah Kay:

Traditional readings of the canso have tended to assume that rank and status coincide. Thus the lyric's characteristic attribution of high status to the domna has been taken as implying that she holds high rank. Likewise, since the status at which the troubadours place themselves as subjects is low relative to the domna, they have been seen as spokesmen for the lower nobility, and even, in popular imagination, as wandering minstrels hawking their wares from castle to castle, singing outside the lady's window but excluded from her court. Such readings are over-literal; rank and status are not simply equivalent, the relation between them is more complex. Rank is (for the most part) mechanically conferred by hereditary or marriage whereas status is a cultural construct which admits of negotiation. ... The relationship between status and rank is uncertain for women who have the rank of their father until they marry and that of their husband thereafter, but on whom high rank does not necessarily confer enhanced status, because of the widespread tendency to depreciate women and to exclude them

<sup>8</sup> Dafydd Johnston, Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg, Llandybïe, 1989, tt. 18-19.

from situations where men of corresponding rank would exercise power.<sup>9</sup>

Cawn sefyllfa debyg yng nghanu'r Gogynfeirdd lle gwelwn y beirdd yn ymostwng o flaen yr arglwyddesau ac yn ymbilio arnynt. Ond cofiwn am y disgrifiadau o ymddygiad gostyngedig a gwylaidd rhyfelwyr y Gododdin a oedd yn 'ddiffun' gerbron merched y llys.<sup>10</sup> Nid cyfleu statws y merched oedd diben y cyfeiriadau hyn, ond dangos cwrteisi'r dynion fel arwydd o'u bonedd a'u huchelwriaeth. Dangos eu bod hwy'n ymwybodol o ddefodau'r llys yn ogystal ag arferion maes y frwydr a wnaed.

Tyfodd yr awydd hwn ar ran y beirdd i fynegi eu cwrteisi i'r fath raddau fel i'w cerddi ddod bron yn ddatganiadau pur o'u dioddefaint personol hwy. Daeth y beirdd yn brif gymeriadau yn y canu a'u teimladau'n destun y ddrama. Roeddent hyd yn oed yn dechrau eu hawdlau i ferched drwy ddisgrifio eu cyflwr adfydus hwy eu hunain:

Neud wyf ddihynewyf, hoen Creirwy - hoywdeg  
A'm hudodd mal Garwy,<sup>11</sup>

Cyn bwyf gwas grudlas greddf anfon - bwyllfraw  
O bellfro Gaerllion,<sup>12</sup>

Neud wyf ddigarad, cyd bwyf digerydd  
O garu nwyf llu lliaws dydd;<sup>13</sup>

Meddwl a ddodais, meddwid - fy nghofain,  
Am dwf mirain main cain cyfrdelid.<sup>14</sup>

Ceir yn y dyfyniad diwethaf uchod gyfeiriad at y bardd yn meddwi oherwydd ei serch at y ferch, thema a ystyridd yn elfen newydd yn y canu llys ac yn syniad a

<sup>9</sup> Kay, *op. cit.*, t. 112.

<sup>10</sup> CA, II, 22.

<sup>11</sup> GGLI 1.1-2 (Hywel ab Einion Lygliw).

<sup>12</sup> GC 3.1-2.

<sup>13</sup> GBF 31.1-2 (Iorwerth Fychan).

<sup>14</sup> *Ibid.*, 29.1-2 (Iorwerth Fychan).

ddeilliodd o ganu poblogaidd neu gyfandirol.<sup>15</sup> Mae'n bosibl fod syniadau cyfandirol ynglŷn â serch cwrtais hyd yn oed wedi treiddio i waith y beirdd ceidwadol hyn a oedd â'u bryd ar gynnal a gwarchod eu traddodiad barddol. Clywn Hywel ab Owain Gwynedd, un o'r Gogynfeirdd cynharaf, yn ei gymharu ei hun ag Ofydd yn ei Orhoffedd:

Cyd bwyf-i cariadawg cerdded Ofydd,<sup>16</sup>

Ac mae Iorwerth Fychan yn gresynu na fu ef yn debyg i'r bardd-garwr enwog hwnnw:

Ys mawr fy angof na bŷm Ofydd.<sup>17</sup>

Cawn sôn hefyd am ŵr eiddig, sef un o themâu serch cwrtais cyfandirol, eto'n gynnar iawn yn y canu gan Gynddelw Brydydd Mawr:

Ni mad gyrchawdd gwen gwely Eiddig!<sup>18</sup>

Y mae cwrteisi'n elfen amlwg iawn yn 'Awdl y Breuddwyd' Gruffudd ap Tudur Goch lle darlunnir byd delfrydol gyda merch brydferth fonheddig mewn caer odidog, a marchogion a gwŷr arfog yn ymgynnull y tu allan i ymryson megis mewn twrnamaint:

Am gaer fy chwaer, chwerw gur linon,  
Rhif y sŷr o wŷr yn ymryson  
Gan fawrdwf cynnwrf cynafon - gorwlad  
Rhuad meirch hygad a marchogion.<sup>19</sup>

<sup>15</sup> Gweler GC t. 109, a hefyd Edwards, *op. cit.*, Pennod 4.

<sup>16</sup> GLIF 6.40.

<sup>17</sup> GBF 30.63.

<sup>18</sup> GCBM i 4.8.

<sup>19</sup> GGrG 8.33-6.

Yn y freuddwyd hon gwelwn serch cwrtais a fin' amors yn cael eu datgan a'u dathlu'n llawen yng Nghymru, ond y mae yma hefyd, o bosibl, ryw atgof o elfennau anhepgor byd delfrydol y traddodiad barddol Cymraeg:

Merch, estron a march glas.<sup>20</sup>

Efallai nad tystiolaeth am le'r ferch yn ei chymdeithas a gawn mewn gwirionedd yn y canu canoloesol hwn, ond yn hytrach gipolwg ar safle'r ferch yng nghymdeithas wrywaidd y llysoedd uchelwrol. Swyddogaeth y ferch berffaith hon a ddisgrifir yn gyson drwy'r canu oedd arddangos cyfoeth a bonedd yr arglwydd i'w holl ymwelwyr a'i westeion, a chaniatáu i'r beirdd amlygu eu cwrteisi gerbron y llys wrth iddynt ddatgan eu serch a'u dioddefaint honedig o'i herwydd hi. Rydym felly'n dysgu llawn cymaint am ddynion y gymdeithas hon drwy ei chanu i ferched ag a wnawn am destunau'r canu hwnnw.

Mewn cyfnod lle na ellid parhau i foli arwriaeth ar faes y gad i'r un graddau ag a wnaed gan y Cynfeirdd dechreuwyd pwysleisio'r ochr llysaidd a rhadlon i gymeriad yr arglwydd delfrydol traddodiadol, a datblygwyd yr elfen honno nes iddi dyfu'n genre annibynnol ynddi ei hun. Yn sgil hynny daeth merched yn fwy amlwg o fewn y canu a'r gymdeithas, a chadwyd i ni drysorfa o gerddi cywrain i arglwyddesau bonheddig ein gorffennol. Roedd y merched hyn bellach nid yn unig yn ddigon arwyddocaol i dderbyn mawl a marwnad ffurfiol gan feirdd swyddogol y llys, ond hefyd yn ddigon pwysig i'r cerddi hynny amdanynt gael eu cofnodi gan y copiŵyr. Os oedd y sylw newydd hwn a dalwyd i wragedd y llys yn ganlyniad i barch cynyddol tuag atynt hwy neu i awydd dynion i frolio eu cwrteisi a'u teimladrwydd mewn oes lle na allent arddangos eu gwrhydri, y mae'n sicr wedi rhoi i ni olwg gwerthfawr ar fydd bywyd merched uchelwrol Cymru yn yr oesoedd canol.

---

<sup>20</sup> CLIH, II, 15b.

LLYFRYDDIAETHTESTUNAU

- Andrews, Rhian M. et al. (gol.), Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg, Caerdydd, 1996.
- Bramley, Kathleen Anne et al. (gol.), Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif, Caerdydd, 1994.
- Bromwich, Rachel (gol.), Trioedd Ynys Prydein, Cardiff, 1961.
- Bromwich, Rachel a Evans, D. Simon (gol.), Culhwch ac Olwen, ail argraffiad, Caerdydd, 1997.
- Costigan, N. G. (Bosco), et al. (gol.), Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli, Aberystwyth, 1995.
- Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg, Caerdydd, 1995.
- Daniel, R. Iestyn (gol.), Gwaith Casnodyn, Aberystwyth, 1999.
- Edwards, Huw Meirion, (gol.), Gwaith Prydydd Breuan, Rhys ap Dafydd ab Einion, Hywel Ystorm, a Cherddi Dychan Dienw o Lyfr Goch Hergest, Aberystwyth, 2000.
- Evans, J. Gwenogvryn (gol.), The White Book Mabinogion, Pwllheli, 1907.
- Facsimile and Text of the Book of Taliesin, Llanbedrog, 1910.
- The Poetry in the Red Book of Hergest, Llanbedrog, 1911.
- Ifans, Rhiannon, et al. (gol.), Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab y Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu, Aberystwyth, 1997.
- Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill, Aberystwyth, 2000.
- Jackson, Kenneth H., Studies in Early Celtic Nature Poetry, Cambridge, 1935.
- (gol.), Early Welsh Gnostic Poems, trydydd argraffiad, Cardiff, 1973.
- Jarman, A. O. H. (gol.), Ymddiddan Myrddin a Thalesin, Caerdydd, 1951.
- Llyfr Du Caerfyrddin, Caerdydd, 1982.

- Johnston, Dafydd (gol.), Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg, Llandybie, 1989.
- Canu Maswedd yr Oesoedd Canol, Caerdydd, 1991.
- Galar Beirdd: Marwnadau Plant, Caerdydd, 1993.
- Jones, Bobi, Y Tair Rhamant, Aberystwyth, 1960.
- Jones, Elin M. a Jones, Nerys Ann (gol.), Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch', Caerdydd, 1991.
- Jones, Nerys Ann ac Owen, Ann Parry (gol.), Gwaith Cynddelw Bryddydd Mawr I, Caerdydd, 1991.
- Gwaith Cynddelw Bryddydd Mawr II, Caerdydd, 1995.
- Jones, Nerys Ann a Rheinallt, Erwain Haf (gol.), Gwaith Sefnyn, Rhisieryn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch, Aberystwyth, 1995.
- Jones, Owen, The Myvyrian Archaiology of Wales, ail argraffiad, Denbigh, 1870.
- Morris-Jones, John a ParryWilliams, T. H. (gol.), Llawysgrif Hendregadredd, ail argraffiad, Caerdydd, 1971.
- Owen, Ann Parry (gol.), Gwaith Llywelyn Bryddydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill, Aberystwyth, 1996.
- Parry, Thomas (gol.), Gwaith Dafydd ap Gwilym, Caerdydd, 1979.
- William, Aled Rhys (gol.), Llyfr Iorwerth, Cardiff, 1960.
- Williams, G. J. a Jones, E. J. (gol.), Gramadegau'r Penceirddiaid, Caerdydd, 1934.
- Williams, Ifor (gol.), Breuddwyd Maxen, Bangor, 1908.
- Canu Llywarch Hen, Caerdydd, 1935.
- Armes Prydein o Lyfr Taliesin, Caerdydd, 1955.
- Canu Taliesin, Caerdydd, 1960.
- Canu Aneirin, Caerdydd, 1961.
- Pedeir Keinc y Mabinogi, adargraffiad, Caerdydd, 1974.
- Williams, Ifor a Roberts, Thomas (gol.), Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr, Caerdydd, 1935.

Williams, J. E. Caerwyn, et al. (gol.), Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion, Caerdydd, 1994.

Williams, Keith ac Owen, Morfydd E. Mynegair i Lawysgrif Hendregadredd - A Concordance to the Hendregadredd Manuscript, Caerdydd, 1983

Williams, Stephen J. a Powell. J. Enoch (gol.) Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd, Caerdydd, 1942.

LLYFRYDDIAETH GYFFREDINOL

- Andersen, Margaret L. Thinking About Women: Sociological Perspectives on Sex and Gender, New York, 1993 (trydydd argraffiad).
- Anderson, Bonnie S. a Judith P. Zinsler A History of Their Own: Women in Europe from Prehistory to the Present, Cyfrol I a II, London, 1988.
- Andrews, Rhian 'Rhai agweddau ar Sofraniaeth yng ngherddi'r Gogynfeirdd', BBCS, 27 (1976), 23-30.
- Ballinger, Geoffrey Charles 'Astudiaeth o waith Casnodyn, Dafydd y Coed ac eraill yng nghyd-destun barddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg', traethawd M.Phil. Prifysgol Cymru, 1991.
- Blamires, Alcuin a Pratt, Karen a Marx, C. W. (gol.) Woman Defamed and Woman Defended: An Anthology of Medieval Texts, Oxford, 1992.
- Bennett, Judith M. 'Medievalism and Feminism', Speculum, 68 (1993), 309-331.
- Bloch, R. Howard 'Medieval Misogyny', Representations, 20 (Hydref 1987), 1-24.
- Medieval Misogyny and the Interpretation of Western Romantic Love, Chicago, 1991.
- Bornstein, Diane The Lady in the Tower: Medieval Courtesy Literature for Women, Connecticut, 1983.
- Bowen, D. J. 'Beirdd a Noddwyr y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg', LIC, xvii (1992-3), 60 - 107.
- Bradfield, Nancy Historical Costumes of England from the Eleventh to the Twentieth Century, London, 1959 (trydydd argraffiad diwygiedig 1970).
- Bramley, Kathleen 'Canu Hywel ab Owain Gwynedd', SC, 20/21 (1985-6), 167-91.
- Breeze, Andrew 'lliw papir', BBCS, 30 (1983), 277.
- Brewer, D.S. 'The Ideal of Feminine Beauty in Medieval Literature', Modern Language Review, L (Gorffennaf 1955), 257-69.



- Bromwich, Rachel 'Cantre'r Gwaelod and Ker-Is', The Early Cultures of North-West Europe, gol. Sir Cyril Fox a Bruce Dickins, Cambridge, 1950, 217 - 41.
- Tradition and Innovation in the poetry of Dafydd ap Gwilym, Cardiff, 1967 (ail argraffiad 1972).  
(gol.) Trioedd Ynys Prydein, Cardiff, 1961.
- Burns, E. Jane 'The Man Behind the Lady in Troubadour Lyric', Romance Notes, 25 (1985), 254-70.
- Burns, E. Jane a Krueger, Roberta L. 'Courtly Ideology and Woman's Place in Medieval French Literature: Introduction', Romance Notes, 25 (1985), 205-19.
- Casey, Charles Christopher 'Desire and discourses of love in late Medieval and Renaissance Literature', traethawd Ph.D. State University of New York at Buffalo.
- Cartwright, Jane Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol, Caerdydd, 1999.
- Chadwick, Whitney Women, Art, and Society, London, 1990 (ail argraffiad 1994).
- Chance, Jane Woman as Hero in Old English Literature, Syracuse, 1986.
- Clancy, J. P. The Earliest Welsh Poetry, London, 1970.
- Cohen, Jeffrey Jerome a Wheeler, Bonnie (gol.) Becoming Male in the Middle Ages, New York, 1997.
- Cousins, Jane Ann 'Moliant beirdd gyda sylw arbennig i waith y Gogynfeirdd', traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1978.
- Crossman, Genie Babb 'Toward a Feminist Theory of Description', traethawd Ph.D. Brown University.
- Cunnington, C.W., Phyllis Cunnington a Charles Beard, A Dictionary of English Costume, London, 1960.
- Davies, J. Glyn 'The Welsh Bard and the Poetry of External Nature', THSC (1912-13), 81-128.

- Davies, Sioned 'Y Ferch yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol', Cof Cenedl, IX, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 1994), 1-32.
- 'Pryd a Gwedd yn y Mabinogion', YB, XIV (1988), 115-133.
- Dronke, Peter Medieval Latin and the Rise of the European Love-Lyric, Volume I - Problems and Interpretations, Oxford, 1965.
- Volume II - Medieval Latin love-poetry, Oxford, 1966.
- The Medieval Lyric, London, 1968.
- DuBruck, Edelgard E. New Images of Medieval Women: Essays Towards a Cultural Anthropology, New York, 1989.
- Davis, Natalie Zamon a Farge, Arlette (gol.) A History of Women in the West III: Renaissance and Enlightenment Paradoxes, Harvard, 1993.
- Edwards, Huw, M. Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues, Oxford, 1996.
- Evans, Kathleen Anne 'Cerddi'r Gogynfeirdd i rianedd a gwragedd', traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1972.
- Fell, Christine Women in Anglo-Saxon England, Oxford, 1984.
- Ferrante, Joan M. Woman as Image in Medieval Literature: From the Twelfth Century to Dante, New York, 1975.
- 'Male Fantasy and Female Reality in Courtly Literature', Women's Studies, II (1984), 67-97.
- 'Whose Voice? The Influence of Women Patrons on Courtly Romances', Literary Aspects of Courtly Literature, gol. Donald Maddox a Sara Sturm-Maddox, New York, 1994, 3 -18.
- Ferrante, Joan M. a Economon, George D. (gol.) In Pursuit of Perfection: Courtly Love in Medieval Literature, New York, 1975.
- Forman, Yale *et al.* Colour, London, 1980, (trydydd argraffiad 1991).
- Fulton, Helen Dafydd ap Gwilym and the European Context, Cardiff, 1989.
- 'Living the Good Life: A Medieval Fantasy', The Anglo-Welsh Review, 80 (1985), 76-85.
- Gaunt, Simon 'Poetry of Exclusion: A Feminist Reading of Some Troubadour Lyrics', Modern Language Review, LXXXV (1990), 310-29.

- Gilbert, Sandra M. a Guber Susan The Madwoman in the Attic: The Woman Writer and the Nineteenth-Century Literary Imagination, New Haven, 1979.
- Gist, Richard a Lubin, Bernard (gol.) Response to Disaster: Psychosocial, Community, and Ecological Approaches, Ann Arbor, MI, 1991.
- Goldin, Frederick The Mirror of Narcissus in the Courtly Love Lyric, New York, 1967.
- Gruffudd, R. Geraint 'Marwnad Lleucu Llwyd gan Llywelyn Goch Amheurig Hen', YB, 1 (1965) 126-37.
- Gruffydd, W. J. 'Rhagarweiniad i Farddoniaeth Cymru Cyn Dafydd ap Gwilym', THSC (1937), 257-83.
- Hadley, D. M. Masculinity in Medieval Europe, New York, 1999.
- Haycock, Marged 'Llyfr Taliesin: Astudiaethau ar Rai Agweddau, traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru, 1982.
- 'Merched Drwg a Merched Da: Ieuan Dyfi v. Gwerful Mechain', YB, XVI (1990), 97-110.
- Heale, Elizabeth 'Women and the Courtly Love Lyric: The Devonshire MS (BL Additional 17492)', The Modern Language Review, Cyfrol 90, Rhan 2, (Ebrill 1995) 296-313.
- Jackson, Kenneth H. Studies in Early Celtic Nature Poetry, Cambridge, 1935.
- (gol.) Early Welsh Gnostic Poems, Cardiff, 1961 (ail argraffiad).
- The International Popular Tale and Early Welsh Tradition, Cardiff, 1961.
- The Gododdin: The Oldest Scottish Poem, Edinburgh, 1969.
- Jarman, A. O. H. 'Chwedl Myrddin yn y Canu Cynnar', traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1936.
- 'The Welsh Myrddin Poems', Arthurian Literature in the Middle Ages: a collaborative history, Roger Sherman Loomis (gol.), Oxford, 1959, 20-30.
- 'Y Delfryd Arwrol yn yr Hen Ganu', Llên Cymru, VIII (1965), 125-49.
- Cyfraith Hywel: Rhagarweiniad i Gyfraith Gynhenid Cymru'r Oesau Canol, Llandysul, 1970.

- Aneirin: Y Gododdin Britain's Oldest Heroic Poem, Llandysul, 1988.
- Jenkins, Dafydd a Morfydd E. Owen (gol.) The Welsh Law of Women, Cardiff, 1980.
- Jenkins, Dafydd The Law of Hywel Dda, Llandysul, 1986.
- Jewers, Caroline 'Fabric and Fabrication: Lyric and Narrative in Jean Renart's Roman de la Rose', Speculum, 71 (Hydref 1996), 907-34.
- Jones, Bedwyr Lewis 'Ynys Laerad, Llangynghenedl ac awdl Gruffudd ap Maredudd', TCHNM (1982), 133-5.
- Jones, Glenda 'Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd' traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru, 1990.
- Jones, J. Gwynfor "'Y Wreigdda Rowiogddoeth" - Y Ferch Fonheddig yng Nghymru Cyfnod Elisabeth I', Taliesin, 35 (1977), 73-89.
- Jones, J. Lloyd The Court Poetry of the Welsh Princes, argraffiad diwygiedig, Cardiff, 1994.
- Jones, Nerys Ann 'Prydydd y Moch: Dwy Gerdd Wahanol', YB, XVIII (1992), 55-72.
- Jones, T. Gwynn Rhieingerddi'r Gogynfeirdd, Dinbych, 1925.
- 'A "Court of Love" Poem in Welsh', Aberystwyth Studies, iv (1922), 85-96.
- Welsh Folklore and Folk Custom, London, 1930.
- Jones, Thomas 'The Story of Myrddin and the Five Dreams of Gwenddydd in the Chronicle of Elis Gruffudd', EC, vii, 315-27
- Kaeuper, Richard W. Chivalry and Violence in Medieval Europe, Oxford, 1999.
- Kay, Sarah Subjectivity in Troubadour Poetry, Cambridge, 1990.
- Kay, Sarah a Rubin, Miri (gol.) Framing medieval bodies, Manchester, 1994.
- Kessel-Brown, Desidre 'The Emotional Landscape of the Forest in the Mediaeval Love Lament', Medium Aevum, Cyfrol 59, Rhif 2 (1990), 228-47.
- Klapsich-Zuber, Christiane (gol.), A History of Women in the West, II. Silences of the Middle Ages, Harvard, 1992.

- Klinck, Anne L. 'Lyric Voice and the Feminine in Some Medieval *Frauenlieder*', *Florilegium*, 13 (1994), 13-36.
- Lees, Clare A a Fenster, Thelma a McNamara, Jo (gol.) Medieval Masculinities: Regarding Men in The Middle Ages, Minnesota, 1994.
- Lloyd-Morgan, Ceridwen "'Gwerful Ferch Ragorol Fain": Golwg Newydd ar Gwerful Mechain', *YB*, XVI (1990), 82-96.
- 'Ar glawr neu ar lafar: Llenyddiaeth a llyfrau merched Cymru o'r bymthegfed ganrif i'r ddeunawfed', *LIC*, 19 (1996), 70-78.
- 'More written about than writiting? Welsh women and the written word', Literacy in Medieval Celtic Societies, gol. Huw Pryce, (Cambridge, 1998), 149-165.
- Lees, Claire A. (gol.) Medieval Masculinities: Regarding Men in the Middle Ages, Minneapolis, 1994.
- Lerner, Gerda The Creation of Patriarchy, Oxford, 1986.
- The Creation of Feminist Consciousness From the Middle Ages to Eighteen Seventy, Oxford, 1993.
- Lewis, C. S. The Allegory of Love: A Study in Medieval Tradition, Oxford, 1936.
- Lewis, Katherine J. a Menuge, Noël James a Phillips, Kim M. (gol) Young Medieval Women, Stroud, 1999.
- Leyser, Henrietta Medieval Women: A Social History of Women in England 450-1500, London, 1995.
- Lomperis, Linda a Sarah Stanbury (gol.) Feminist Approaches to the Body in Medieval Literature, Philadelphia, 1993.
- Loomis, Roger Sherman (gol.), Arthurian Literature in the Middle Ages: a collaborative history, Oxford, 1959..
- Arthurian Tradition and Chrétien de Troyes, New York, 1956.
- Lynch, Peredur 'Cân Gwalchmai "Y Eua y Wreic"', *YB*, XIX (1993), 29-45.
- Mac Cana, Proinsias 'Theme of King and Goddess in Irish Literature', *EC*, 7 (1955-6), 76-114, 356-413; *EC*, 8 (1958-9), 59-65.
- Mack, Sara, Ovid, New York, 1988.

- Maddox, D. a Strum-Maddox, S. (gol.) Literary Aspects of Courtly Culture, Amherst, MA, 1994.
- Mate, Mavis E. Women in Medieval English Society, Cambridge, 1999.
- McCash, June Hall (gol.) The Cultural Patronage of Medieval Women, Georgia, 1996.
- McNamara, Jo Ann 'Sexual Equality and the Cult of Virginity in Early Christian Thought', Feminist Studies, 3 (1976), 145-58.
- Meale, Carol M. (gol.) Women in Literature in Britain 1150 - 1500, Cambridge, 1993.
- Meek, Christine a Simms, Katherine (gol.) 'The Fragility of Her Sex?': Medieval Irishwomen in Their European Context, Dublin, 1996.
- Meyer, Kuno Selections from Ancient Irish Poetry, London, 1913.
- Miller, Robert 'The Wounded Heart: Courtly Love and the Medieval Antifeminist Tradition', Women's Studies, II (1974), 335-350.
- Moi, Toril Sexual/Textual Politics: Feminist Literary Theory, New York, 1985 (argraffiad 1995).
- Monson, Don A. 'The Troubadour's Lady Reconsidered Again', Speculum, 70 (Ebrill 1995), 255-74.
- Morris, Pam Literature and Feminism, An Introduction, Oxford, 1993.
- Morgan, Georgina 'Y Portread o Ferched yn y Tair Rhamant Ffrangeg', traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru, 1993.
- Morris, Colin The Discovery of the Individual 1050-1200, London, 1972.
- Nahoum-Grappe, Véronique 'The Beautiful Woman', cyfieithiad Arthur Goldhammer, A History of Women in the West III: Renaissance and Enlightenment Paradoxes, Natalie Zamon Davis a Arlette Farge (gol.), Harvard, 1993.
- Nunn, Joan Fashion in Costume 1200-1980, London, 1984.
- O'Flaherty, Wendy Doniger Women, Androgynes, and other Mythical Beasts, Chicago, 1980.
- O'Sullivan, Helen Jane Theresa 'Developments in Love Poetry in Irish, Welsh, and Scottish Gaelic, Before 1650' traethawd M.Litt. Prifysgol Glasgow, 1976.

- Owen, Ann Parry 'Rhieingerdd Efa Ferch Madog ap Maredudd, Cynddelw Brydydd Mawr a'i Cant', YB, XIV (1988), 56-86.
- Owen-Crocker, Gale R. Dress in Anglo-Saxon England, Manchester, 1986.
- Paden, William D. 'The Troubadour's Lady: Her Marital Status and Social Rank', Studies in Philology, 72 (1975), 28-50.
- Paterson, Linda M. The World of the Troubadours: Medieval Occitan Society, c. 1100 - c. 1300, Cambridge, 1993.
- Pennar, Meirion 'Women in Medieval Literature: an examination of some literary attitudes before 1500', traethawd D.Phil, Prifysgol Rhydychen, 1975.
- 'Syniad "Y Caredd Digerydd" ym Marddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol', YB, IX (1976), 33-40.
- 'Teuluaeth a Maswedd', YB, XVI (1990) 52-9.
- Power, Eileen Medieval Women, Cambridge, 1975.
- Pratt, Karen 'Analogy or Logic; Authority or Experience? Rhetorical Strategies for and Against Women', Literary Aspects of Courtly Culture, Donald Maddox a Sara Sturm-Maddox (gol.), Amherst, MA, 1994.
- Radcliff-Umstead, Douglas (gol.) The Roles and Images of Women in the Middle Ages and Renaissance, Pittsburgh, 1975.
- Rees, Brinley Dulliau'r Canu Rhydd 1500-1650, Caerdydd, 1952.
- Rieger, Branimir M. (gol.) Dionysus in Literature: Essays on Literary Madness, Bowling Green, OH, 1994.
- Rose, Mary Beth (gol.) Women in the Middle Ages and the Renaissance: Literary and Historical Perspectives, Syracuse, 1986.
- Ross, Anne Pagan Celtic Britain: studies in iconography and tradition, London, 1967.
- Roberts, Brynley F. (gol.) Early Welsh Poetry Studies in the Book of Aneirin, Aberystwyth, 1988.
- Roberts, Tomos 'Englynion Gwynedd gan Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd', TCHMN, (1982) 123-7.
- Rowland, Jenny Early Welsh Saga Poetry, Cambridge, 1990.

- ‘Genres’, gol. Brynley F. Roberts, Early Welsh Poetry: Studies in the Book of Aneirin (Aberystwyth, 1988), 179-208.
- Rowlands, Eurys I. ‘Canu Serch 1450-1525’, BBCS, 31 (1984), 31-47.
- Rowlands, John (gol.) Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol, Caerdydd, 1975.
- ‘Delweddau Dafydd ap Gwilym’, YB, II (1966), 58-76.
- Ruddock, Gilbert E. ‘Prydferthwch Merch yng Nghywyddau Serch y Bymthegfed Ganrif’, LIC, XI (1971), 140-175.
- ‘Genau Crefydd a Serch’, YB, X (1977) 230-56.
- Russell, Denise Women, Madness and Medicine, Malden MA, 1995 (ail argraffiad 1998).
- Ruthven, K. K. Feminist Literary Studies: an introduction, Cambridge, 1984.
- Shahar, Shulamith, cyfieithiad Chaya Galai, The Fourth Estate: A history of women in the Middle Ages, London, 1983.
- Showalter, Elaine ‘Towards a feminist poetics’, Women Writing and Writing About Women, Jacobus, Mary (gol.), London, 1979, 22-41.
- Spearing, A.C. The Medieval Poet as Voyeur: Looking and Listening in Medieval Love-Narratives, Cambridge, 1993.
- SurrIDGE, Marie ‘Words of Romance origin in the works of the Gogynfeirdd’, BBCS, 29 (1981), 528-30.
- Thomas, Gwyn Y Traddodiad Barddol, Caerdydd, 1976.
- ‘lliw papir’, BBCS, 28 (1979) 404-405.
- Thomas, D. Ellis ‘Agweddau ar y Cywydd Marwnad, traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru, 1987.
- Tolstoy, Nikolai The Quest for Merlin, London, 1985.
- Ussher, Jane M. Women’s Madness: Misogyny or Mental Illness?, Hemel Hempstead, 1991.
- Valency, Maurice In Praise of Love: An Introduction to the Love-Poetry of the Renaissance, New York, 1958 (argraffiad 1961).
- Valente, Roberta Louise “Merched y Mabinogi”: Women and the Thematic Structure of the Four Branches, traethawd Ph.D. Cornell University, 1986.



- Van Vleck, A. Memory and Re-creation in Troubadour Lyric, California, 1990.
- Warner, Marina Alone of All Her Sex: The Myth and the Cult of the Virgin Mary, London, 1976.
- Williams, J.E. Caerwyn 'Cerddi'r Gogynfeirdd i wragedd a merched, a'u cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir', LIC, 13 (1974/79), 3-112.
- 'The Nature Prologue in Welsh Court Poetry', Studia Celtica, 24/5 (1989-90), 70-90.
- Williams, Stephen J. Ystorya de Carolo Magno, Caerdydd, 1968.
- Wills, Clair. Improprieties: Politics and Sexuality in Northern Irish Poetry, Oxford, 1993.
- Zeeman, Nicolette. 'The Lover-poet and love as the most pleasing 'matere' in medieval French Love Poetry', The Modern Language Review, 83 (Hydref 1988), 820-42.